Bodleian Libraries
UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

LLAWLYFRAU

UNDEB YSGOLION SABBOTHOL

Y

METHODISTIAID CALFINAIDD.

---

YR

# EPISTOLAU AT Y THESALONIAID

*GAN Y*

*PARCH. JOHN WILLIAMS, D.D.*

2/6

*Cyhoeddedig gan*

Y GYMANFA GYFFREDINOL.

10183:221

# LLAWLYFRAU

## UNDEB YSGOLION SABOTHOL

Y

## METHODISTIAID CALFINAIDD,

DAN AROLYGIAETH

PWYLLGOR Y GYMANFA GYFFREDINOL.

---

YR

# Epistolau at y Thesaloniaid.

[ENTERED AT STATIONERS HALL.]

CYHOEDDEDIG GAN Y GYMANFA GYFFREDINOL
YN SWYDDFA Y CYFUNDEB,
CAERNARFON.

---

1918.

Pob Archebion i'w hanfon i'r

Parch. D. O'BRIEN OWEN,

Book Agency,

CARNARVON.

# Yr Epistolau at y Thesaloniaid.

---

ESBONIAD

AR Y DDAU EPISTOL

GAN Y PARCH.

JOHN WILLIAMS, D.D. (Cymru),

BRYNSIENCYN.

---

CYHOEDDEDIG GAN Y GYMANFA GYFFREDINOL.

—

1918.

BODL[illegible]
11.MAY [illegible]
OXFORD

# At y Darllenydd.

DAETH i'm rhan i baratoi Esboniad ar adeg hollol eithriadol yn hanes ein gwlad a'r byd. Mae y berw mawr cyffredinol wedi ymyryd i raddau lled helaeth a'm hamser innau. Yr oedd yn ddigon prysur arnaf o'r blaen, ond bu'm yn brysurach nag erioed yn ystod y flwyddyn ddiweddaf. Ond er y cwbl llwyddais i dreulio cryn lawer o amser, nos a dydd, uwchben yr Epistolau hyn; ac ni chefais fwy o fwynhad gydag unrhyw orchwyl y bu'm wrtho erioed. Darllenais bopeth o bwys a ysgrifenwyd ar ac ynghylch yr Epistolau; a buasai yn dda iawn gennyf allu ymhelaethu ar lawer pwnc ac adnod, ond yr oedd terfynnau wedi eu gosod i mi nad allwn fyn'd drostynt; ac heblaw y terfynnau arferol, teimlwn fod prinder papur a'r drudaniaeth ynglyn ag argraffu a chyhoeddi yn galw arnaf i grynhoi llawer mwy nag a fuasai raid yn y blynyddoedd o'r blaen. Yn hytrach na rhoddi rhestr faith o'r gwahanol lyfrau sy'n trafod yr Epistolau hyn yn y naill wedd neu'r llall, bodlonaf ar nodi y cyfrolau y cefais i fwyaf o gymorth oddiwrthynt. Dyma'r prif rai:—


"Introduction to the New Testament." Zahn (3 vols.). T. & T. Clarke.

"History of the Apostolic Age." Vernon Bartlet.

"St. Paul the Traveller and the Roman Citizen." Sir W. Ramsay, D.C.L. (Hodder & Stoughton).

"Prolegomena to the Study of Greek Religion." J. E. Harrison. (Cambridge University Press).

"St. Paul and the Mystery Religions." H. A. A. Kennedy, D.D. (Hodder & Stoughton).

"The Church's Task under the Roman Empire." Bigg. (Oxford Clarendon Press).

"The Earlier Epistles of St. Paul." Lake. (Rivington).

"The New Testament in the Twentieth Century." Maurice Jones. (Macmillan & Co.).

"An Introduction to the Thessalonian Epistles." Askwith (Macmillan & Co.).

"Eschatology of Jesus." Muirhead. (Melrose).

"Eschatology: Hebrew, Jewish and Christian." R. H. Charles. (A. & E. Black).

Esboniadau Lightfoot, Frame (Inter. Crit. Com.), Adeney (Century Bible), Moffatt (The Expositor's Greek Testament), Jowett, Lille, &c.

Ni ddilynais yr un o'r esboniadau yn fanwl, fel y gwel y cyfarwydd, ond defnyddiais hwy, oreu y gallwn, i ffurfio barn annibynnol; a cheisiais gadw fy ngolwg o hyd ar y ffaith mai darpar esboniad ar gyfer deiliaid yr Ysgol Sabothol yr oeddwn.

Diau y teimla y darllenydd fod y nodiadau ar lawer o'r adnodau yn rhy fyrr; teimlwn hynny fy hunan, ond yr oedd y "terfynnau gosodedig" yn rhythu arnaf o hyd ac yn gwahardd yr hyn a hoffaswn.

Mae brychau a meflau y gyfrol yn ddiau yn dra lluosog; buasent yn llai pe cawswn fwy o hamdden. Eto gobeithiaf y caiff y rhai y sgrifenwyd y gyfrol er eu mwyn, gymorth drwyddi i ddeall yn well yr Epistolau diddorol a phwysig hyn; ac y derbynia eraill hefyd, yn rhywle, rywdro, fendith wrth ei darllen. Byddai hyn yn fwy na digon o dâl am bob trafferth.

Yr eiddoch yn gywir,

JOHN WILLIAMS

Llwyn Idris,
*Tachwedd ?ed* 1917.

# Rhagarweiniad.

## Thesalonica.

YMAE Salonica heddiw yn hysbys drwy yr holl fyd; oblegid y mae hanes y Rhyfel Mawr presennol wedi rhoddi amlygrwydd eithriadol i'r ddinas hon. Adeiladwyd hi gan Casander, mab-ynghyfraith Philip brenin Macedonia, tua'r flwyddyn 315 C.C.; a galwodd hi ar yr enw hwn ar ol ei wraig Thesalonica, yr hon oedd yn chwaer-ynghyfraith i Alexander Fawr. Enw cyntefig môr-gainc Salonica oedd Cul-for Therma, a gelwid y dref yn Therma neu Therme, a hynny yn ol pob tebyg oddiwrth y ffynhonnau o ddwfr poeth (cym. Thermos) geid yn y fro. Tybir fod yno amryw fân drefi neu ben-trefi yn wreiddiol, ac i Casander eu chwalu i gyd er mwyn adeiladu y ddinas newydd ar eu sylfeini. Nid oedd unrhyw enwogrwydd yn perthyn i'r lle tra yr oedd Groeg yn ei bri, ond ar fachludiad yr ymerodraeth honno, a goresgyniad Rhufain, cyfododd y ddinas i enwogrwydd, ac y mae wedi parhau yn lle a "hanes" iddo hyd heddyw.

Wedi'r Oruchafiaeth Rufeinig (168 C.C.), rhannwyd Macedonia yn bedair rhan, a gwnaed Thesalonica yn brif-ddinas yr ail randir. Ymhen 22 flynedd ar ol hyn, pan y dilewyd y rhaniadau hyn, ac y ffurfiwyd y cyfan yn un dalaeth, gwnaed Thesalonica yn ymarferol yn brif-ddinas y dalaeth. O dan lywodraeth Rhufain llwyddodd y ddinas ymhob ystyr yn ddirfawr. Yr oedd ei safle yn dra manteisiol, gan ei bod yn un o borthladdoedd hwylusaf a diogelaf yr arfordir Roegaidd, ac felly yn fan cyfleus i drafnidiaeth gynnyddol Môr y Canoldir. Yr oedd hefyd yn gyfagos i ddyffryn cyfoethog Macedonia, a chludid cynnyrch hwnnw yn ddiball a di-brin iddi. Hefyd, yr oedd ar y ffordd fawr Rufeinig a elwid y *Via Egnatia*, yr hon a groesai dalaeth Macedonia a Thyrracium ar yr ochr orllewinol i Neapolis (porthladd Philipi) ar y tu dwyreiniol i'r dalaeth. Yr oedd y ffordd hon tua 300 milltir o hyd, ac yn cysylltu Rhufain wrth diriogaethau y dwyrain. Cydrhwng popeth meddai Thesalonica safle ddigymar, a sicrhaodd hynny iddi lwyddiant cyfatebol. Pan dorrodd y Rhyfel Cartrefol allan yn 49 O.C., hi oedd pen-cadlys Pompey. Yn yr ail ryfel drachefn (42 O.C.) pan y gorchfygwyd Brutus yn Philipi cawn hi ar ochr y gorchfygwyr, ac yn wobr iddi am ei gwaith gwnaeth Antony ac Octavius hi yn ddinas rydd. Golygai hynny hawl i gadw ei nodweddion Macedonaidd, un o'r rhai hynny oedd mainc farnol ar yr hon yr eisteddai ynadon dewisedig gan y trigolion, y rhai a elwid

yn *Politarchiaid*, ac a gyfieithir yn "bennaethiaid" yn Act. xvii. 6. Yr oedd gan y ddinas felly fath o lywodraeth leol, yr hyn na feddai Philipi (Act. xvi. 21) na threfi eraill. Yn y drydedd ganrif gwnaed Thesalonica yn drefedigaeth Rufeinig, a bu ei llwyddiant mor fawr fel y bu son am ei gwneud yn brif-ddinas y byd, cyn i Caercystenyn gael ei sylfaenu.

### YMWELIAD PAUL A'R DDINAS.

Gan mai unwaith yr ymwelodd Paul â'r ddinas cyn sgrifennu ei lythyrau at yr eglwys ynddi, at yr ymweliad hwnnw y cyfeirir yma.

Diau yr ystyrir Syr William Ramsay yn un o'r awdurdodau pennaf, os nad y pennaf oll, ar hanes Paul. Gyda golwg ar amseryddiaeth ynglyn â'r hanes, a phethau cymharol ddibwys ynglyn â lleoedd a digwyddiadau, bernais mai gwell oedd derbyn ei gasgliadau ef am y pethau hyn, yn hytrach na defnyddio gofod prin i osod gerbron y darllenydd farnau gwyr eraill ynghylch pethau cymharol ddibwys. Yn ol Ramsay argyhoeddwyd Paul (ar y ffordd i Damascus) yn y flwyddyn O.C. 33. Cychwynodd ei daith genhadol gyntaf yn gynnar yn 47 O.C., a dibennodd hi yn Awst 49 O.C. Cychwynodd ei ail daith yng ngwanwyn y flwyddyn 50, a daeth i Thesalonica tua chanol Rhagfyr y flwyddyn honno. Bernir yn gyffredin fod oedran Paul yn cydredeg â'r dyddiadau a nodir, a'i fod felly yn gyfoed a'r Arglwydd Iesu Grist. Yr oedd felly yn hanner cant oed pan y daeth i Thesalonica, ac wedi cael 17 mlynedd o brofiad fel disgybl Crist.

Cydymaith Paul ar gychwyniad y daith hon oedd Silas (Actau xv. 40), ond ar ol cyrraedd Derbe a Lystra, a chyfarfod Timotheus, yr hwn a ddychwelwyd at Gristionogaeth ar daith genhadol gyntaf Paul, "mynnai Paul i hwn (Timotheus) fyned allan gyd ag ef." Teithiodd y tri gyda'u gilydd nes y cyrhaeddasant borthladd pwysig Troas. Yno cyfarfuasant â Luc, a dyma gyfarfyddiad cyntaf yr Apostol â'r "Physygwr annwyl" a'r hanesydd cywrain. Nid oedd y cyfarfyddiad o drefniant dyn, ond amlwg yw ei fod o drefniant Duw. Yr oedd Paul wedi ei wahardd gan yr "Ysbryd Glân i bregethu y gair yn Asia" (Act. xvi. 6), a'r un modd ynglyn â Bithynia (Act. xvi. 7). Dyma gyfryngiad dwyfol arbennig, ac y mae hanes y byd heddiw yn gynnyrch yr ymyriad hwn. Dyma yr adeg a'r achlysur, ac yn wir yr achos i'r Efengyl groesi o'r byd Dwyreiniol i'r Gorllewinol. Naturiol fuasai i Paul droi ei wyneb tua'r dwyrain, a phe cawsai ei ffordd dyna fuasai wedi cymeryd lle, yna gallasem ddisgwyl i Gristionogaeth gerdded i Arabia a chanol-barth Asia, i China a'r India, a Japan. Ond nid dyna oedd llwybr y bwriadau dwyfol; arweiniwyd Paul i Troas, y porthladd a gydiai y Dwyrain wrth y Gorllewin. Yma cyfarfu â Luc, yr hwn a dybir oedd frodor o Philipi. Mae llawer i'w ddyweyd dros y dyb mai Luc oedd y "gwr o Macedonia" a welodd Paul yn ei weledigaeth. Pa fodd y gwyddai Paul mai "gwr o Macedonia" a safai ger ei fron? Nid oedd dim yng ngwisg nac iaith trigolion Macedonia i'w gwahaniaethu oddiwrth drigolion Mysia, gan mai Groegiaid oedd y naill a'r lleill, ac er eu bod yn sangu ar ddau gyfandir gwahanol, nid oeddynt hwy yn sylweddoli ar y pryd ystyr hynny, oblegid dwy dalaeth Rufeinig oedd Macedonia a Mysia. Dywedir

hefyd fod yr ymadrodd "rhyw ŵr" (ἀνήρ τις) yn golygu "rhyw ŵr" arbennig, ac y dilynnir yr ymadrodd yn fynych gan enw y person. Nid yw yn debyg fod Paul, ac yntau wedi treulio ei oes yn y parthau dwyreiniol o Asia Leiaf, wedi cyfarfod â gŵyr o Macedonia, a bernir fod Luc wrth ddisgrifio y fordaith o Myra heibio Cyprus i Sidon yn dangos yn amlwg mai dieithr oedd yntau yn y parthau hynny. Y tebyg yw fod Paul a Luc wedi cyfarfod yn ddamweiniol a'u gilydd yn Troas, a bod y cyfarfyddiad wedi bod yn foddion argyhoeddiad i Luc; ac i Paul "liw nos" weled Luc mewn gweledigaeth yn gofyn iddo am fyned drosodd i Macedonia. Modd bynnag mae y pedwar cydymaith yn cychwyn o Troas i Macedonia, ac yn glanio yn Neapolis (Kavala y dyddiau hyn), porthladd Philipi. Cawn hanes diddorol am eu gwaith yn Philipi yn Act xvi. 12—40. Ymddengys i Luc aros yn Philipi nes y dychwelodd Paul o'i daith ym Macedonia ac Achaia, ac ymuno ag ef drachefn yn Troas (Act. xx. 6). Fel y dywedwyd eisoes, yr oedd y "ffordd fawr" Rufeinig (*Via Egnatia*) yn cysylltu Philipi wrth Thesalonica, ac ar hyd hon yn ddiau y teithiodd Paul a Silas a Thimotheus. Yr oeddynt yn myned drwy Amphipolis ac Apolonia ar eu ffordd, ac yn ymarferol fe ranai y ddwy dref hyn y pellter rhwng Philipi a Thesalonica (tua chan milltir) yn weddol gyfartal rhyngddynt. Un nodwedd ar Thesalonica oedd fod yno Synagog—efallai yr unig un yn yr holl wlad. Dengys hynny fod yno liaws mawr o Iddewon. Yn ol ei arfer, lle y byddai synagog, yno yr aeth Paul gyntaf, "ac ymresymodd â hwynt allan o'r Ysgrythyrau dros dri Saboth" (Act. xvii. 2). Gall y gair "Saboth" yma olygu y dydd arbennig hwnnw, neu ynte "dros dair wythnos," oblegid **σάββατον** (Saboth) yw y gair a gyfieithir "wythnos" yn Luc xviii. 12, **xxiv**. 1; Act. xx. 7. Ond pa un bynnag a olygir, yr un yn ymarferol yw yr adeg. Cwestiwn ag y mae yr awdurdodau yn gwahaniaethu arno yw: A fu Paul yn llafurio yno am fwy o amser na'r "tri Saboth"? Barna Kirsopp Lake ("The Earlier Epistles of St. Paul," pp. 64-66), a Zahn ("Introduction to the New Testament," Vol. I. p. 212) mai am "dair wythnos" y bu yn y ddinas. Ond barna Ramsay ("St Paul the Traveller and the Roman Citizen," p. 228) iddo fod yno o Ragfyr 50 i fis Mai 51. Ymddengys i mi ar lawer cyfrif fod barn Ramsay yn fwy rhesymol. Mae y gwaith a'i lwyddiant, y cyfeiria atynt yn 1 Thes. i. a ii., yn ymddangos allan o bob cyfartaledd â'r amser byrr a nodwyd. Hefyd yn ei lythyr at y Philipiaid (iv. 16), dywed yr Apostol: "Oblegid yn Thesalonica hefyd yr anfonasoch i mi unwaith ac eilwaith wrth fy angenrhaid." Buasai "tair wythnos" yn egwyl rhy ferr, yn enwedig pan gofiwn i'r Apostol weithio yn galed at ei gynhaliaeth (1 Thes. ii. 9), i gymorth gael ei anfon iddo ddwywaith. Ymddengys i lwyddiant Paul ynglyn â dychweliad y rhai nad oeddynt Iddewon gyffroi cenfigen yr Iddewon eu hunain yn ei erbyn, oblegid yn ol eu harfer ni fynent i'r Cenhedloedd gael eu gwahodd a'u derbyn i gyflawn freintiau crefydd. Enynnodd eu cenfigen yn falais a digofaint, a dechreuasant erlid y cenhadon yn llym; hudasant wehilion y ddinas i ymuno â hwynt, "casglasant dyrfa a gwnaethant gyffro yn y ddinas, ac a osodasant ar dŷ Jason," lle yr arhosai Paul. Gan nad oedd Paul ar y pryd yno, llusgasant Jason a rhai o'r brodyr at ben-

aethiaid (*politarchs*) y ddinas, gan eu cyhuddo " o wneuthur yn erbyn ordeiniadau Cesar, gan ddywedyd fod brenin arall, sef Iesu." Ymddygodd y penaethiaid yn ddoeth a chymedrol, oblegid y cyfan a wnaethant oedd derbyn meichnïaeth Jason na byddai terfysg rhagllaw. Mae'n amlwg y cynhwysai y cytundeb hwn fod Paul a Silas i adael y ddinas ar unwaith, ac felly y bu ; anfonwyd y ddau yn ebrwydd gan y brodyr i Berea " o hyd nos." Dinas yn nhrydedd adran Macedonia, rhyw 45 milltir o Thesalonica, oedd Berea. Ymddengys nad aeth Timotheus gyda hwynt, am yr un rheswm, mae'n debyg, ag na charcharwyd ef yn Philipi fel Paul a Silas, sef am nad ystyrid ef ond rhyw was-gydymaith (*attendant*) i Paul. Nid oes angen dilyn y daith ymhellach ar hyn o bryd, daw rhan ohoni o dan ein sylw eto. Cofiwn ei bod yn daith heb ei bath yn hanes antur-deithiau y byd, pan ystyriwn yr holl amgylchiadau o dan ba rai y'i teithiwyd. O ran ei phwysigrwydd, dywed Stalker (" Life of Paul," p. 71) ei bod yn rhagori ar ymgyrch Alexander Fawr pan y dygodd arfau a gwareiddiad Groeg i ganol-barth Asia, a'r eiddo Cesar pan y glaniodd ym Mhrydain, ac hyd yn oed ar eiddo Columbus pan y darganfyddodd fyd newydd.

## YR EGLWYS YN THESALONICA.

I. *Ei Chyfansoddiad.*—O safle fydol, mae'n amlwg mai gweithwyr a chrefftwyr oedd mwyafrif mawr yr eglwys, oblegid yn Pen. iv. 11 (Ep. 1af) cynghora Paul hwy i " wneuthur eu gorchwylion eu hunain, a gweithio a'u dwylaw eu hunain," a hynny yn ddiau yn wyneb y demtasiwn sydd mewn brwdfrydedd crefyddol ar y cychwyn i beri i ddynion lacio eu gafael yn eu gorchwylion beunyddiol. Cyfeiria yr Apostol at ei " lafur a'i ludded " ef ei hun yn y fath orchwylion, fel cymhelliad iddynt hwythau i beidio diystyru nac esgeuluso y cyfryw. Ymddengys fod gwehyddiaeth mewn bri mawr yn y cyfnod hwn yn Thesalonica, ac wrth gwrs yr oedd trafnidiaeth forwrol y porthladd yn fawr iawn, a hwyrach mai dyma ddau gylch pwysicaf y " gwaith " yno. " Ychydig o gyfoethogion " a alwyd yno, a'r rhai hynny yn ol pob tebyg o blith yr Iddewon a'r " gwragedd pennaf." Tri enw amlwg geir sef Jason, Aristarchus a Secundus, ac efallai Gaius. Dynion hollol syml yn feddyliol oedd y Thesaloniaid, heb fod yn anturus a chywrain fel yr Ephesiaid, nac yn meddu unrhyw uchelgais ddeallol fel eglwysi a thrigolion Achaia.

Ond pwy o safle cenedl a gyfansoddai yr eglwys ? Rhaid ateb y cwestiwn hwn oddiwrth wybodaeth gyfleir i ni gan Act. xvii. 4, a rhannau o'r ddau Epistol. Ond y mae anhawster yn cyfodi wrth gymharu hanes Luc yn yr Actau, a'r hyn a ddywed Paul yn y ddau Epistol. Amlwg yw, oddiwrth yr Epistol cyntaf fod mwyafrif yr eglwys yn ddychweledigion oddiwrth baganiaeth. Gwel Pen. i. 9 ; ii. 14, a iv. 1—5. Tra yn yr Actau y symir i fyny gynnyrch gwaith yr Apostol yn y geiriau canlynol : " A rhai ohonynt (sef yr Iddewon) a gredasant, ac a ymwasgasant â Phaul a Silas, ac o'r Groegwyr crefyddol liaws mawr, ac o'r gwragedd pennaf nid ychydig " (Act. xvii. 4). Gwelir nad oes le yn yr adnod hon fel y mae, i'r dychweledigion oddiwrth baganiaeth ; pa fodd y rhoddir cyfrif am hynny yn wyneb y casgliad a dynnir oddiwrth 1 Thes., mai hwn oedd y dos-

barth lliosocaf? Ymddengys i mi fod eglurhad Ramsay ac Askwith yn hollol resymol, er ei fod yn groes i farn Lake, Weiss a Hort. Y mae y ddau gyntaf yn derbyn y darlleniad geir yn D. (sef Codex Bezae) yn hytrach nag A (Codex Alexandrinus) o'r hwn y cawsom ni ein cyfieithiad. Teg dyweyd fod cyfieithiad Westcott a Hort yr un yn ymarferol a D. Dywed Ramsay fod D. yn hollol amhosibl (1) am ei fod yn cyfyngu y dychweledigion i Iddewon, Groegwyr, ac ychydig wragedd; ac nad yw yn talu unrhyw sylw i lafur Paul o'r tuallan i'r Synagog; tra y dywedir yn 1 Thes. mai o'r tuallan y caed y nifer liosocaf o'r dychweledigion. (2) Ei fod yn cyfyngu llafur Paul i'r "tri Saboth," tra y mae rhesymau cryfion iawn, fel y nodwyd, dros gredu mai cyfeirio at y cylch Iddewig yn unig y mae y "tri Saboth," a bod yr Apostol ar ol hynny wedi gweithio mewn cylch llawer eangach. Yn ol D. rhoddir un geiryn (**κάι**=*and* Saes., neu *a* Cym.) rhwng y geiriau **σεβομέγων** (crefyddol) a **ελλήνων** (Groegiaid); ond er lleied y gair, mae'r gwahaniaeth yn yr ystyr yn fawr. Gyda'r cyfnewidiad hwn darllenna yr adnod fel y canlyn: "...... *a lliaws mawr o'r 'rhai crefyddol'* (**σεβομενων**) *a Groegiaid, ac o'r gwragedd pennaf nid ychydig.*" Trwy hyn gwelir y cyfeirir at bedwar dosbarth yn yr adnod yn lle tri, a bod y trydydd dosbarth yn cyfateb i'r un y cyfeirir yn bennodol ato yn 1 Thes. Yr wyf wedi manylu cryn lawer ar hyn er mwyn galw sylw at ddosbarth lliosog geid drwy yr holl wlad yn y cyfnod hwn, nad oes ond ychydig o le wedi ei roddi iddo yn ein hesboniadau, oddigerth ychydig iawn o eithriadau. Y dosbarth hwnnw yw y *rhai crefyddol* y cyfeiriwyd atynt. Mae amryw gyfeiriadau atynt yn Llyfr yr Actau: yn pen. x. 2, 22, 35; xiii. 16, 26 ni gawn yr ymadrodd **Ψοβόνμενοι τον θεόν**=ofni Duw; yn pen. xvi. 14 a xviii. 7 cawn **σεβόμενοι τὸν θεόν**=addoli Duw; yn pen. xiii. 50; xvii. 4, 17 cawn **σεβόμενοι**=crefyddol. Yr enw roddir arnynt gan awduron diweddar yw *God-fearers*. Yr oeddynt yn ddosbarth pwysig ar lawer cyfrif yn y cyfnod hwn. Cenhedloedd oeddynt wedi eu dwyn i gredu mewn un Duw, ac yn parchu y ddeddf foesol a rhai trefniadau Iddewig o barth i fwydydd; mynychent y synagog ymhob man, a chydymffurfient â'i wasanaeth, ond ni fynnent eu henwaedu, ac nid ystyrient eu hunain yn ddeiliaid o'r Eglwys Iddewig. O honynt hwy yn bennaf yr ennillai yr Iddewon eu proselytiaid, ac o honynt hwy hefyd yr ennillai Paul yn fynych y dychweledigion cyntaf at Gristionogaeth; felly mae'n debyg fod llawer o gasineb yr Iddewon at yr Apostol yn tarddu o'r ffaith ei fod yn llwyddo i ddychwelyd tyrfaoedd o'r rhai hyn at y ffydd. Bu y dosbarth yma o wasanaeth dirfawr i ddwyn Cristionogaeth i gyffyrddiad â'r byd Groeg-Rufeinig, gan eu bod yn fath o ddolen gydiol rhwng Iddewaeth a Christionogaeth a chrefyddau cyfrin (*mystery religions*) y wladwriaeth.

Mae'n amlwg, felly, fod pedwar dosbarth yn cyfansoddi yr eglwys yn Thesalonica. (1) *Paganiaid dychweledig.* Ymddengys mai dyma y rhan liosocaf o lawer, a'u bod mor liosog nes gosod eu hol yn amlwg ar yr eglwys. Atynt hwy y cyfeirir yn 1 Thes. i. 9; ii. 14; iv. 1—8; v. 7; ac yn 2 Thes. iii. 10, 11. (2) Y Groegwyr crefyddol (y *God-fearers*) y cyfeiriwyd atynt uchod. (3) Rhai Iddewon dychweledig. (4) Rhai o'r "gwragedd pennaf," fel y geilw Luc hwynt yn Actau

xvii. 4. Ymddengys y cymerai gwragedd o'r dosbarth uchaf ddiddordeb mawr mewn crefydd drwy yr holl Ymherodraeth y pryd hwn. Ni gawn fod y cyfryw wedi mabwysiadu y grefydd Iddewig yn Rhufain, Alexandria a Damascus. Mae'n debyg mai hwy oedd yn abl i gyfrannu yn helaethaf at reidiau yr Apostol yn y casgliadau a wnaed iddo gan eglwysi Macedonia. Yr oedd y gwragedd tlodion yn perthyn i'r haen isaf a oresgynasid gan anwybodaeth a choelgrefydd.

II. *Ei Nodweddion.*—Bernir mai nid Macedoniaid, yn ystyr fanwl y gair, oedd mwyafrif trigolion Thesalonica, ond Thraciaid, h.y. rhai yn hannu o Thrace—y dalaeth eang ar y gogledd-ddwyrain i Facedonia; a bod ynddynt waed Celtaidd. Gwahaniaethent yn fawr oddiwrth Roegwyr Athen a Chorinth, y rhai oedd yn hynod am ryw aspri meddwl yn gystal a rhysedd cymeriad. Dywed Renan fod cylch Thesalonica yn fwy nodedig am lendid ei foes na'r un cylch arall yn yr hen fyd Rhufeinig. Ni chafodd Paul ddilynwyr mwy teyrngarol, cyfeillion mwy pybyr, a chynorthwywyr mwy siriol a hael yn un man nag a gafodd yn Thesalonica a Philipi. Diau fod eu nodweddion fel dynion i'w gweled wedi eu harddu a'u gloewi ynddynt fel crefyddwyr. Wrth ddarllen yr epistolau hyn teimlwn mai y pethau amlycaf yn yr eglwys hon oedd *symledd*, *serchogrwydd* a *sel*. Ni welid yno y chwilfrydedd a'r antur feddyliol geid yn eglwysi Ephesus a Cholosa, na'r balchter a'r uchel-gais meddwl welid yn nhrefi Achaia; yn hytrach pobl syml oeddynt, a'r Efengyl yn ei symledd oedd eu bwyd a'u diod. Dyma yn bennaf rydd gyfrif am symledd y ddau Epistol. Tybia Sabatier (" The Apostle Paul ") ei fod yn gweled profion eglur o dyfiant meddyliol ac ysbrydol yr Apostol yn ei epistolau, ac mai y tyfiant hwnnw rydd gyfrif am y gwahaniaeth geir rhwng ei rai olaf a'i rai blaenaf. Diau fod peth gwir yn hyn; ond nid yw yn wir i gyd o lawer. Dylid cofio mai nid " newyddian yn y ffydd " oedd Paul pan y dechreuodd sgrifennu ei lythyrau, a'i fod wedi cael oddeutu 18 mlynedd o brofiad fel sant, pregethwr, diwinydd a chenhadwr cyn iddo sgrifennu y llythyrau hyn; a bod agwedd feddyliol a chrefyddol yr eglwysi y sgrifennai atynt yn rhoi cyfrif i raddau helaeth am gynllun a chynnwys ei epistolau.

Yr oedd serchogrwydd yr eglwys hon yn nodwedd arbennig arni. Hi ac eglwys Philipi hoffid yn bennaf gan yr Apostol, ac nid oedd ei anwyldeb ef ohonynt hwy ond adlewyrchiad o'u cariad hwy ato ef, ac o'u cariad hefyd at eu gilydd. Gwel 1 Thes. i. 4; ii. 8, 17; iii. 6; iv. 10; 2 Thes. i. 3.

Mae brwdfrydedd yn trigo fel rheol gyda serchogrwydd, felly yn eglwys Thesalonica—teimlir ef yn treiddio drwy y ddau lythyr.

Gwir fod yr Apostol yn gweld rhai diffygion yn yr eglwys hon, a rhai peryglon oedd o'i blaen; cyfodai y rhai hynny i raddau helaeth o'i rhinweddau. Peryglon pobl syml, serchog a selog oeddynt gan mwyaf, fel y cawn sylwi eto.

## YR EPISTOL CYNTAF.

### LLE, AMSER, AC ACHLYSUR EI YSGRIFENNIAD.

1. *Lle*. Er nad oes gennym brawf pendant ymha le yr ysgrifennwyd yr Epistol hwn, mae cyfuniad ffeithiau ac amgylchiadau yn dangos yn dra sicr y lle i ni. I ddechre, mae'n eglur iddo gael ei sgrifennu tra yr oedd Silas a Timotheus gyda'r Apostol, ac y mae mor eglur a hynny na buont gydag ef ond yn ystod ei ail daith genhadol; ac wrth gwrs anfonwyd y llythyr ar ol ymweliad y tri chenhadwr â Thesalonica. Dengys y tabl isod eu symudiadau ym Macedonia ac Achaia:—

1. Y tri yn dod i Philipi.
2. Paul a Silas yn gadael Philipi ac yn mynd i Thesalonica. Timotheus yn ol pob tebyg yn cael ei adael yn Philipi am ychydig amser.
3. Y tri yn gadael Thesalonica am Berea. Taith o ddau ddiwrnod.
4. Paul yn gadael Berea am Athen, gan adael Silas a Timotheus yn Berea (Act. xvii. 14). Yn ol pob tebyg ar hyd y môr yr aeth Paul i'r porthladd agosaf i Berea—taith o ddau neu dri diwrnod.
5. Yn ol gorchymyn Paul (Act. xvii. 15) daeth Silas a Thimotheus ar ei ol i Athen.
6. O Athen y mae Paul yn anfon Timotheus i Thesalonica (1 Thes. iii. 1—5); ac yn ol pob tebyg anfonwyd Silas hefyd naill ai i Berea neu i Philipi.
7. Paul yn mynd o Athen i Gorinth (Actau xviii. 1).
8. Timotheus (a Silas) yn dychwelyd o Macedonia i Gorinth (Act. xviii. 5; 1 Thes. iii. 6).

Mae'n amlwg oddiwrth yr Epistol hwn mai ar ol derbyn y newyddion gan Timotheus am sefyllfa pethau yn Thesalonica yr ysgrifennodd yr Epistol. Felly mae'n amlwg mai y lle yr ysgrifennwyd ef oedd Corinth.

II. *Yr Amser*. Mae y lle yn gymorth mawr i benderfynnu yr amser, a'r unig anhawster i wybod yr amser yn bendant ydyw y gwahanol ffyrdd geir gan yr awdurdodau o benderfynnu amseryddiaeth digwyddiadau y Testament Newydd oll. Barna Harnack i Paul gyrraedd Corinth yn niwedd y flwyddyn 48 O.C. Barna Ramsay mai yn niwedd 51 y bu hyn; tra y dyry Lightfoot y digwyddiad yn 52. Ynglyn â hyn mae gan Proff. Frame yn ei esboniad rhagorol ar yr epistolau hyn ("The International Critical Commentary") tud. 9, yn ei Ragymadrodd nodiad diddorol iawn. Ynglyn â dyfyniad o Bacon's "Introduction," dywed: "Yn ol Act. xviii. 11 yr oedd Paul wedi bod yng Nghorinth ddeunaw mis cyn i Gallio ddyfod yno fel rhaglaw, ac ymadawodd oddiyno yn union wedi dyfodiad Gallio (xviii. 18). Yn ol cerf-ysgrifen yn Delphi, yn yr hon y ceir sylwedd llythyr oddiwrth yr Ymerawdwr Claudius i'r ddinas honno, y mae Deissmann ("Paul" t.d. 159-177) yn dangos fod Gallio wedi cymeryd ei swydd ganol haf 51, a chan fod Paul wedi bod eisoes yng Nghorinth 18 mis cyn i'r rhaglaw gyrraedd yno, yna fod yr Apostol 'wedi dyfod i'r ddinas ym misoedd cyntaf y flwyddyn 50, ac wedi ymadael yn niwedd haf 51.'

A chan na fu Paul yn ol pob tebyg yn hir yng Nghorinth cyn i Timotheus gyrraedd yno, a chan fod y llythyr cyntaf wedi ei sgrifennu yn union ar ol dyfodiad Timotheus (i. 3—4), y mae yn dra thebyg y gellir nodi yr amseriad yng ngwanwyn 50, ac amseriad yr ail Epistol ymhen ychydig o wythnosau (5 i 7) ar ol hynny." Yn ol pob tebyg fe anfonwyd y llythyr hwn felly o Corinth naill ai yn 50 neu 51.

III. *Yr Achlysur.* Fel y crybwyllwyd, yr achlysur i Paul ei sgrifennu oedd dyfodiad Timotheus ato o'i ymweliad drosto â Thesalonica. Gellir yn hawdd gasglu oddiwrth yr Epistol natur a chynnwys y newyddion a ddygasid i Paul gan Timotheus. (1) Yr oedd yr Iddewon yn taflu amheuaeth ar onestrwydd ei amcanion, ac yn camliwio y ffaith nad oedd yn ail-ymweled a'r eglwys, ac hefyd mai elw personol a'i cymhellai yn ei holl waith. (2) Fod sel grefyddol, neu yn fwy cywir, gorffwylledd rhai o aelodau yr eglwys wedi cynhyrchu afreoleidddra a segurdod yn eu mysg. Ac hefyd fod lliaws yno mewn pryder mawr ynghylch eu perthynasau a'u cyfeillion ymadawedig, sef y rhai oedd wedi marw er pan yr ymwelsai Paul â'r lle. Tybient fod Paul yn dysgu pan gyda hwy y cawsant oll fyw i weld dydd Crist ; yn awr wedi cael eu siomi yn hyn, y maent mewn trallod rhag na byddai i'w brodyr a'u chwiorydd ymadawedig gael cyfranogi o ogoniant a rhwysg y "dyfodiad." Dyma brif bwyntiau adroddiad Timotheus, heblaw, wrth gwrs, hysbysu yr Apostol am lwyddiant yr "achos" yn gyffredinol, a'r llewyrch mawr oedd ar grefydd bersonol mwyafrif yr eglwys. Mae'n amlwg mai yr adroddiad hwn o eiddo ei gydymaith, oedd yr achlysur i'r Apostol sgrifennu y llythyr cyntaf hwn at y Thesaloniaid.

---

## YR AIL EPISTOL.

### LLE, AMSER, AC ACHLYSUR EI YSGRIFENNIAD.

Y mae yn amlwg oddiwrth Pen. i. 1 fod y tri chenhadwr gyda'u gilydd pan yr ysgrifennwyd ef, a'u bod hefyd yn ymyl eglwysi eraill (i. 4). Gwelir hefyd eu bod ynghanol dynion "anhywaith, drygionus a diffydd," a'u bod newydd glywed, mewn rhyw ffordd neu gilydd, am gyflwr yr eglwys er pan ysgrifenasid yr Epistol cyntaf atynt. Oherwydd y pethau hyn oll, fe gytunir, gan bawb sy'n cydnabod dilysrwydd yr Epistol, ddarfod iddo gael ei sgrifennu o Gorinth yn fuan ar ol yr Epistol cyntaf. Efallai mai cludydd yr Epistol cyntaf, ar ei ddychweliad, ddaeth a'r newyddion i Paul, ac nid yw yn anhebyg ei fod yn dwyn llythyr oddiwrth yr eglwys at Paul a'i gymdeithion. Modd bynnag, yr oedd y newyddion ar y cyfan yn galonogol. Yr oeddynt yn sefyll yn y ffydd, ac yn dioddef y gorthrymderau mewn amynedd ; ond yr oedd yno rai pethau oedd yn achos o bryder i'r cenhadon. Un peth oedd eu syniad am yr ail-ddyfodiad, ac effaith hynny ar eu crefydd a'u hymarweddiad (pen. ii. 1—12). Ceid hefyd fod lliaws o'r saint yn ddigalon ("gwan eu meddwl," i. 5, 14), ac mewn angen am gysur a diddanwch ; a bod eraill yn segur ac yn pwyso ar gyllid yr eglwys yn ormodol, am fod agosrwydd yr ail-ddyfodiad, fel y credent hwy, yn peri fod ymroi i gyflawni eu gorchwylion bydol yn

gwbl afreidiol. Dyma yn fyrr oedd sefyllfa yr eglwys, ac felly dyna fu yr achlysur i'r Epistol hwn gael ei sgrifennu ati.

### DILYSRWYDD YR EPISTOLAU.

Ffaith nodedig yw na ddarfu i neb ameu dilysrwydd yr Epistolau hyn hyd y ganrif ddiweddaf. Ymddengys mai C. Schmidt oedd y cyntaf i ameu dilysrwydd yr ail Epistol, a hynny yn 1800; ond Schrader oedd y cyntaf i ameu dilysrwydd yr epistol cyntaf, a hynny yn ei gyfrol ar "Yr Apostol Paul," yr hon a gyhoeddwyd yn 1836. Ond Baur, yn ei "Paul," a gyhoeddwyd gyntaf yn 1845, daflodd amheuaeth ar ddilysrwydd y ddau epistol fel eu gilydd, ac efe, a'r ysgol feirniadol enwog y mae ei enw mor amlwg ynglyn â hi, a ddygodd yr amheuaeth hwn i sylw y byd. Ond er holl ddylanwad y feirniadaeth ddinistriol hon, ni siglwyd barn dynion mor enwog a Pfleiderer, Holtzmann a Harnack am ddilysrwydd 1 Thes.; ac ysgolheigion mwy ceidwadol fel Godet a Zahn, yn ogystal ag efrydwyr enwog ar y Testament Newydd yn y wlad hon a'r America. Derbyniwyd yr epistolau i Ganon Marcion (oddeutu'r flwyddyn 140), ac y mae lle cryf i gredu fod cyfeiriadau amlwg at y naill neu y llall, neu'r ddau Epistol, yn ysgrifeniadau Irenæus a Polycarp, yn yr ail ganrif. Ymhellach, mae Canon y "Muratorian Fragment" yn yr ail ganrif yn eu cynnwys. Heblaw hyn mae y gwahanol gyfieithiadau boreol o'r Testament Newydd yn eu cynnwys, megis y Cyfieithiad Syriaeg yn y Dwyrain, a'r hen gyfieithiad Lladin yng Ngogledd Affrica. Ofer ychwanegu, gan fod tystiolaeth unfryd awdurdodau yr oesoedd o'u plaid.

Fel y dywedwyd, yn y ganrif ddiweddaf y dechreuwyd ameu, a Baur, hwyrach, oedd y pennaf o'r amheuwyr. Y mae dau beth ar y wyneb ynglyn â Baur sy'n peri i ni fod yn lled amharod i dderbyn ei ddyfarniad, ar wahan oddiwrth wendid ei resymau: (1) Dywed mai efe oedd y cyntaf i gyhoeddi rhesymau yn erbyn dilysrwydd yr epistolau hyn, tra y mae sicrwydd hollol fod Schrader wedi gwneud hynny naw mlynedd o'i flaen. (2) Ni chydnabydda Baur fod ond pedwar o epistolau Paul yn ddilys, sef y Rhufeiniaid, y ddau Gorinthiaid, a'r Galatiaid. Erbyn heddyw y mae yr awdurdodau pennaf yn cydnabod dilysrwydd y Colosiaid, y Philipiaid, 1 Thesaloniaid a Philemon. Teimlir peth anhawster eto gan rai ynglyn â'r 2 Thesaloniaid, ond y mae beirniaid o fri mawr yn credu yn nilysrwydd hwn, a'r gogwydd amlwg yn y blynyddoedd hyn yw ei gydnabod.

A chymeryd golwg gyffredinol ar y ddau, gellir rhannu y golygiadau am eu dilysrwydd i dri dosbarth :—

1. Y rhai a gredant fod y ddau yn ddilys.
2. Y rhai a gredant fod un yn ddilys, ond fod amheuaeth am y llall.
3. Y rhai a gredant nad oes yr un o'r ddau yn ddilys.

Profion tufewnol yw y profion ynglyn â hyn oll, gan fod y profion allanol, fel y dywedwyd, o blaid dilysrwydd y ddau. I grynhoi ein sylwadau, manteisiol, ni gredwn, fyddai i ni yn gyntaf geisio profi dilysrwydd yr Epistol 1af.

### DILYSRWYDD I. THESALONIAID.

Mae yn anodd gennym gredu nad yr argraff edy darllen yr epistol hwn yn ddiragfarn ar bob meddwl yw, mai Paul a'i hysgrifennodd.

Os mai rhywun arall, pwy oedd hwnnw? A beth fuasai ei amcan yn cymeryd arno mai Paul a'i hysgrifennodd? Fel y dywedwyd, yr oedd y rhai oedd yn byw yn fuan ar ol yr oes apostolaidd yn unfryd o'r farn mai Paul oedd ei awdur, mae'n amlwg mai dyna oedd barn yr eglwys cyn eu hamser hwy, neu gwelsid yn amgen yn eu hysgrifeniadau. Sut y gallasai unrhyw un oedd yn abl i sgrifennu y fath lythyr o ran meddwl ac ysbryd ffugio enw gwr arall?

Yn awr ni gymerwn drem ar rai o'r dadleuon pwysicaf a ddygir ymlaen dros ameu nad Paul oedd ei awdur. Gellir rhannu y dadleuon hyn i dri dosbarth: (1) Fod ynddo eiriau a brawddegau croes i arddull Paul. (2) Fod yna anghysonderau yn yr Epistol ei hunan. (3) Fod ynddo wallau amseryddol sy'n profi ei fod yn perthyn i gyfnod diweddarach.

(1) Fod ynddo eiriau ac ymadroddion anghyson ag arddull ac arferiad Paul. Un o'r rhai hyn, fe honnir, ydyw y gelwir yr angylion yn iii. 13 yn "saint," tra mai y Cristionogion elwir gan Paul yn wastad wrth yr enw hwn. Ond a oedd sicrwydd mai yr angylion yn unig olygir yma? Onid yw y "saint" yn ystyr gyffredin y gair yn ol dysgeidiaeth Paul yn yr epistolau hyn i ymddangos gyda Christ. A phe mai yr angylion yn unig olygid, onid enw cyffredin arnynt yw "yr angylion sanctaidd" (gwel Mat. xxv. 31; Marc vii. 38; Luc ix. 26).

Eto dywedir fod y gair gyfieithir "wedi eich dysgu gan Dduw" yn iv. 9 yn un na ddefnyddir ef gan Paul yn un man arall. I hyn gellir ateb (1) Fod yr un gair i'w gael yng nghyfieithiad y LXX. o Es. liv. 13, ac nid oes neb a wâd fod Paul yn dra chyfarwydd yn y cyfieithiad enwog a nodwyd, ac yn dyfynnu ohono yn gyson; (2) A oes rhywbeth yn rhwymo Paul mwy na rhyw awdur arall i beidio gwneud defnydd weithiau o eiriau anghyffredin iddo?

Eto, dywedir fod dysgeidiaeth yr epistol am y "pethau diweddaf" (iv. 15—17), ac yn arbennig "y cipio i fynu i'r awyr," yn anghyson â dysgeidiaeth Paul am y deyrnas o ran ei lleoliad yn y byd hwn. Yn ateb i hyn rhaid cofio nad yw yr Apostol yn disgrifio yr ail-ddyfodiad ond mewn dau neu dri o fannau yn ei holl lythyrau, ac nad yw yn manylu arno yn yr un ohonynt fel yma. Y disgrifiad agosaf ato yw yr un geir yn 1 Cor. xv., ac os darllennir adnod 50 a 51 yn y bennod hon fe geir agos yr un peth ag a geir yn yr adnodau dan sylw.

Gellid lliosogi engreifftiau tebyg i'r uchod, ond eu bod yn fwy dibwys. Ac onid yw yr engreifftiau a nodwyd yn profi eiddilwch y gwrthwynebiadau yn dra amlwg?

(2) *Anghysonderau yr Epistol.* Dywedir nad yw yn ddigon athrawiaethol i fod yn epistol Paul. Ond gellir ateb, pe mai arall a'i hysgrifennodd yn enw Paul, oni fuasai hwnnw yn ceisio ei wneud yn debyg i lythyr Paul, trwy ei wneud mor athrawiaethol ag y gallasai? Honnir mai er mewn gwthio ei syniad am yr ail-ddyfodiad yr ysgrifennwyd ef gan rywun; ond gellir gofyn: Beth am rannau eraill o'r Epistol, lle y mae y wedd bersonnol ac ymarferol ar grefydd yn cael eu trafod mor helaeth? Pwy byth fuasai yn rhoi y fath bwys ar y pethau hyn pe mai ei unig amcan oedd argymell ar yr eglwys ei syniad ei hun am yr ail-ddyfodiad?

Eto dywedir fod condemniad Paul ar yr Iddewon, megis yn ii. 15, 16, yn anghyson â theimlad ac yspryd Paul ynglyn a'i genedl. Gwyddom fel y carai Paul ei genedl ei hun, ac mor barod oedd i aberthu popeth er ei mwyn ; ond nid yw hynny mewn un modd yn anghyson a'i waith yn dyweyd y gwirioneddau llymaf wrthi. Pwy fedr geryddu mor lym a thad ? Yr archoll lymaf, a'r siomedigaeth bennaf i'r Apostol oedd mai yr Iddewon oedd ei wrthwynebwyr ffyrnicaf ymhob man yr elai iddo. Felly y bu yn Thesalonica ei hun, yn Berea ar ol hynny; ac yng Nghorinth ar y pryd yr ysgrifennai, yn ol pob tebyg, profai lid a malais yr Iddewon ato. A fuasai modd iddo o dan amgylchiadau o'r fath beidio traethu gwirioneddau llymion am danynt ? Oni ddarllenwn yn Llyfr yr Actau (xviii. 6) ddarfod iddo ddywedyd wrthynt tua'r amser yr ysgrifennodd y llythyr hwn : " Bydded eich gwaed chwi ar eich pennau eich hunain ; glân ydwyf fi : o hyn allan mi a af at y Cenhedloedd."

Honnir gan Baur nad oedd y cynghorion i fywyd tawel a diwyd, fel a geir yn iv. 11, 12, yn angenrheidiol mor fuan yn hanes yr eglwys. Ond onid yw yn amlwg oddiwrth yr epistol mai datguddiadau yr Apostol am yr ail-ddyfodiad fu yr achlysur i'r " afreoleidd-dra " y cyfeirir ato, ac mai cymeryd esgus oddiwrth agosrwydd ymddangosiad Crist i beidio cyflawni eu gorchwylion dyddiol yr oedd y rhai segur ac afreolus ? Ac nid oedd angen am dymor maith i gynhyrchu afreoleidd-dra o'r fath, pan y ceid syniadau o'r fath.

Yn gyffelyb dywedir fod yn annaturiol i ni gredu fod haelioni yr eglwys wedi cyrraedd i'r fath safle ag a ddywedir yn iv. 10 ; nac ychwaith fod yr hanes am danynt wedi treiddio drwy Macedonia ac Achaia " a phob man," mewn cyfnod mor fyrr ag yr honnir oedd rhwng ymweliad Paul a'r ddinas a'r adeg yr ysgrifennwyd y llythyr. Ymddengys i ni fod y gwrthwynebiad hwn yn gwbl ddisail. Mae'n amlwg fod rhai misoedd wedi mynd heibio er yr amser yr oedd Paul yn Thesalonica, ac nid oes dim byd rhyfedd yn y ffaith fod eglwys lawn o frwdfrydedd crefyddol wedi dangos haelioni canmoladwy at ei brodyr mewn angen, a hynny mewn cyfnod byrr iawn. Mae rhai rhinweddau yn tyfu yn gyflym ryfeddol o dan amgylchiadau ffafriol, ac y mae haelioni at frodyr mewn cyfyngder yn un o'r rhinweddau hynny. Dylem gofio hefyd fod cyfleusterau teithio yng nghylch y byd Rhufeinig yn dra eithriadol, a bod trafnidiaeth fasnachol ar radd eang iawn yn ffynnu ar y pryd, a bod Thesalonica ar y brif-ffordd enwog (*Via Egnatia*) rhwng y Dwyrain a Rhufain; ac felly y gallasai y newyddion am lwyddiant eglwys Thesalonica gyrraedd i Asia a Rhufain yn rhwydd mewn amser byrr.

(3) *Anghysonderau Amseryddol*. Dywedir fod yr annogaeth gref " i ddarllen y llythyr hwn i'r holl frodyr sanctaidd " (v. 27) yn cyfeirio at gyfnod llawer mwy diweddar yn hanes yr eglwysi, pan y rhoddid mwy o arbenigrwydd ar lythyr oddiwrth Apostol nag a wneid yn y tymor bore hwn. A bod y gwr a'i hysgrifennodd yn enw Paul am bwysleisio pwysigrwydd yr epistol fel un oddiwrtho ef. I hyn gellir ateb mai y ddau lythyr at y Thesaloniaid yw y rhai y sieryd Paul leiaf am dano ei hun yn ei enw ei hun, o'i holl lythyrau. Gwelir mai yn y lliosog y mae yn llefaru drwy gydol yr epistol hwn ; eithriad

yw iddo wneud fel arall. Pe mai gwr yn dynwared Paul fuasai ei awdur, ni fuasai byth yn siarad fel hyn.

Eto, dywedir fod Pen. iii. 13 yn dangos yn eglur mai at ddinistr Jerusalem y cyfeirir, ac felly nad oedd modd i'r epistol gael ei sgrifennu cyn hynny; a chan fod Paul wedi ei roddi i farwolaeth tua 4 blynedd cyn dinistr Jerusalem, nad oes modd i'r epistol fod yn eiddo iddo ef. Ond gellir ateb, ag addef mai cyfeiriad at ddinistr Jerusalem geir yn yr adnod uchod, onid oedd Paul yn berffaith gyfarwydd â rhagfynegiadau Crist am ddinistr Jerusalem, ac onid adsain o eiriau Crist geir yn Luc xxi. 23 ydyw yr adnod hon?

Mae Schrader yn seilio gwrthwynebiad ar pen. iv. 6 am nad yw y rhybudd yn yr adnod hon yn cyfeirio ond at "frodyr," h.y., brodyr Cristionogol, ac felly fod yr adnod yn cyfeirio at gyfnod mwy diweddar, sef un ag yr oedd canol-fur gwahaniaeth amlwg rhwng paganiaid a Christionogion, ac felly un nad oedd brodyr yn delio ond â'u gilydd. Yr ateb i hyn ydyw fod y cyfnod y cyfeiria Schrader ato yn un diweddarach na'r un o'r adegau a enwir gan feirniaid fel efe i'r epistol gael ei sgrifennu ynddynt.

Dyma ddigon, fel engreifftiau o'r gwrthwynebiadau a ddygir ymlaen yn erbyn dilysrwydd yr epistol hwn. Diau y teimla pob darllenydd didduedd eiddilwch amlwg yr oll; a'r gwir yw ychydig iawn o feirniaid heddiw sydd yn gwadu dilysrwydd yr epistol, ac y maent yn myned yn llai eu nifer o flwyddyn i flwyddyn.

## DILYSRWYDD YR AIL EPISTOL.

Mae y tystiolaethau boreuol yn gryfach dros ddilysrwydd yr epistol hwn nac hyd yn oed tros y cyntaf. Bernir y ceir aml gyfeiriad ato yn Polycarp o Smyrna, yr hwn oedd mewn gwth o oedran pan y merthyrwyd ef tua chanol yr ail ganrif. Mae gan Justin Ferthyr, yr hwn sgrifennodd tua chanol yr un ganrif, eiriau fel hyn: "Efe a ddaw o'r nefoedd mewn gogoniant, pan y bydd i ddyn yr ymadawiad, yr hwn a lefara bethau rhyfedd yn erbyn y Goruchaf, beidio cyflawni gweithredoedd anghyfreithlon ar y ddaear yn ein herbyn ni y Cristionogion." Cyfeiriad pendant, yn ol pob tebyg, at ii. 1—12. Heblaw hyn, y mae Justin Ferthyr yn defnyddio yr ymadrodd "dyn pechod." Ceir cyfeiriadau mynych at yr epistol yn Irenæus, Clement o Alexandria, a Thertullian. Derbyniwyd y llythyr i Ganon Marcion a'r *Muratorian Fragment*, &c., fel y sylwyd, yn ein nodiadau ar ddilysrwydd y ddau epistol.

Ond o fewn yr epistol ei hun y ceir y rhesymau cryfaf dros ei ddilysrwydd, ac yno y proffesa y beirniaid sy'n gwrthwynebu ei ddilysrwydd y cânt sail i'w gwrthwynebiadau. Yn wir, defnyddir y rhesymau a ddygir ymlaen dros ei ddilysrwydd, yn erbyn hynny gan y beirniaid hyn. Er engraifft, un ddadl gref o blaid credu mai Paul oedd ei awdur ydyw ei debygolrwydd i'r Epistol Cyntaf, oblegid ar wahan i pen. i. 1—12 nid oes ynddo ond rhyw naw adnod na cheir ynddynt adsain o adnodau geir yn yr Epistol Cyntaf. Hefyd, mae yn perthyn i'r ddau epistol rai ymadroddion na cheir hwynt ond yn yr epistolau hyn yn unig, megis I. i. 4 a'r II. ii. 13; I. ii. 1, iii. 2, v. 2, a II. iii. 7; I. i. 1 a II. i. 1; I. v. 12 a II. ii. 1; I. iii. 4 a II. iii. 10; I. i. 3 a II. i. 12;

I. iii. 11 a iv. 16 a II. ii. 16 a iii. 16. Heblaw hyn, ceir yr un difrifwch ysbryd, yr un dôn serchog, a'r un diddordeb personnol yn helynt y frawdoliaeth yn treiddio trwy y ddau lythyr. Ond dyma drachefn un o brif resymau y gwrthwynebwyr dros ameu ei awduriaeth. Dywedant na buasai Paul byth yn ail-adrodd ei hun, fel y gwna, mewn dau lythyr at yr un bobl, er nad ydynt yn gwadu awduriaeth y ddau epistol at y Corinthiaid, er y ceir yn y rheiny lawn cymaint o debygolrwydd, a dyweyd y lleiaf. Honnant mai dynwared Paul ymhob man ond pen. ii. 1—12 yr oedd yr awdur, er mwyn argyhoeddi yr eglwys yn Thesalonica mai eiddo Paul hefyd yw ii. 1—12, h.y., fod yr awdur am gael sêl apostolaidd i'w opiniwn am yr ail-ddyfodiad yr hwn y mynnai i'r eglwys ei dderbyn. Ond a ellir yn rhesymol gredu fod unrhyw un a sgrifennodd y llythyr hwn yn abl i ymostwng i'r fath dir isel, dichellgar a thwyllodrus a hyn ?

Eto honnir yn yr eithaf arall fod yma eiriau ac ymadroddion na cheir mohonynt o gwbl yn yr Epistol Cyntaf. Rhy debyg yw y ddau epistol yn ol y ddadl o'r blaen, ond rhy anhebyg ydynt yn ol hon. Cyfeirir at " diolch a ddylem " II. i. 3 a ii. 13 fel yn rhy anhebyg i I. i. 2 a ii. 13, lle y ceir " yr ydym yn diolch." Dywedir hefyd fod " Arglwydd " i'w gael yn fynnych yma pan mai " Duw " geir yn yr Epistol Cyntaf. Ond eddyf pawb y gall mân wahaniaethau fel hyn darddu o deimlad gwahanol ar y pryd yr ysgrifennid, neu oddiwrth efrydiaeth a myfyrdod neilltuol Paul ar yr adegau gwahanol yr ysgrifennai ynddynt.

Seilir dadl arall yn erbyn ei ddilysrwydd ar y cyfeiriad a wneir at epistol ffugiol yn pen. ii. 2, ac hefyd ar yr hyn a elwir yn " ymdrech annaturiol i brofi ei ddilysrwydd " yn pen. iii. 17.

Grym y ddadl oddiar pen. ii. 2 ydyw nad oedd digon o amser wedi bod cyd-rhwng adeg ymweliad Paul â Thesalonica a'r amser yr honnir i'r epistol hwn gael ei ysgrifennu, i neb feddwl am ffugio llythyr yn enw yr Apostol. Ond os sylwn yn fanwl ni ddywed yr Apostol o gwbl fod ffug-epistol wedi ei anfon ; yn hytrach tybio y mae dair ffordd drwy ba rai y gallesid gosod camargraff ar feddwl y saint. Un oedd honni rhyw gynhyrfiad ysbrydol i gyhoeddi cenadwri oddiwrth Paul a'i frodyr ; y llall oedd ffugio dwyn mewn " gair " genadwri oddiwrtho ; a'r llall oedd ffugio llythyr oddiwrtho. Dyma yr unig ffyrdd, onide, y gallesid twyllo yr eglwys yn y cyfeiriad hwn. Tybio fod defnydd yn cael ei wneud o un ohonynt y mae'r Apostol, ac nid dyweyd yn bennodol fod defnydd wedi ei wneud o'r un ohonynt. Os dywedir fod hyn yn cydnabod posibilrwydd ffug-lythyr, a bod hynny yn afresymol oherwydd yr amser, nid ydym yn gweld grym yn yr wrth-ddadl. Pa rwystr oedd ar y ffordd i ffugio llythyr ymhen 4 mis fel ymhen 4 blynedd ? Os mai esboniad Askwith sy'n gywir (gwel y nodiad ar yr adn. hon yn yr Esboniad), tynnir grym y ddadl hon yn rhwyddach byth.

Ynglyn â pen. iii. 17, dadleuir os oedd y llythyr yn eiddo Paul, paham yr oedd angen iddo fynd i'r fath drafferth i bwysleisio hynny ? Os oedd ffug-lythyrau eisoes yn bod, a Phaul wedi clywed hynny, fel y tybia Kirsopp Lake, beth oedd yn fwy naturiol nag i'r Apostol roddi prawf pendant o'i ddilysrwydd, a hynny trwy arwyddo ei enw wrtho ?

Drachefn, gwrthddadleuir fod y frawddeg "yr hyn sydd arwydd ymhob epistol" (yn yr adn. hon) yn awgrymu fod Paul wedi sgrifennu amryw epistolau eraill, tra yr honnir mai yr epistolau at y Thesaloniaid oedd y rhai cyntaf a ysgrifennodd. Mae dau ateb i'w roi i'r ddadl hon: (1) Ni wyddom pa sawl epistol a sgrifenwyd gan yr Apostol cyn hyn, ond sydd wedi mynd ar goll. Pan y cofiwn ei fod erbyn hyn wedi treulio 18 mlynedd fel gweinidog a chenadwr, a'i fod yn awr yn ei ail daith genhadol enwog, nid yw yn debyg iddo fod am dymor mor faith heb sgrifennu llythyrau at eglwysi eraill nad oes gennym ni erbyn heddiw unrhyw hanes am danynt. (2) Gosod rheol i lawr y mae, modd y byddai i'r saint wybod am ei arferiad, ac nid dyweyd mai dyna oedd ei arfer yn y gorffennol.

Ond y ddadl bwysicaf yn erbyn dilysrwydd yr Ail Epistol yw yr un a seilir ar yr adran ddyrus geir yn pen. ii. 1—12. Gwneir yr adran hon yn sylfaen i ddwy wrth-ddadl: (1) Dywedir ei fod yn anghyson â'r Epistol Cyntaf ; (2) Ei bod yn groes i ddysgeidiaeth Paul. Cymerwn y ddwy hyn yn eu tro.

(1) Fod yr hyn ddysgir yn pen. ii. 1—12 yn groes i'r hyn ddysgir yn yr Epistol Cyntaf. Cofier ein bod erbyn hyn wedi cydnabod dilysrwydd yr Epistol Cyntaf, ac os gellir profi fod unrhyw beth yn yr Ail Epistol yn groes i'r cyntaf, mae hynny yn profi nas gall yr ail fod yn ddilys. Yn fyrr, dyma'r wrth-ddadl: Yn yr Epistol Cyntaf dysga yr Apostol y byddai i Grist ymddangos yn fuan, ac y byddai iddo ef (yr Apostol) weld yr amgylchiad rhyfedd hwnnw (pen. iv. 15) ; tra yn yn yr Ail Epistol y dysga na ddelai Crist yn fuan, am fod digwyddiadau pwysig eraill, y rhai oedd eto heb gymeryd lle, i flaenori Ei ddyfodiad. Yn yr Epistol Cyntaf dywedir y byddai i Grist ddyfod yn sydyn "fel lleidr yn y nos," heb rybudd yn y byd ; tra yn yr Ail Epistol y dywedir na ddelai yn fuan ac na ddelai o gwbl hyd nes y cymerai pethau pwysig ac amlwg eraill le. Rhaid addef fod llawer o rym yn yr wrth-ddadl hon, ond credwn nad ydyw o gwbl yn ddigon i brofi fod yma wir anghysondeb. Gadewch i ni edrych yn fwy manwl iddi. Dywedir fod Paul yn yr Epistol Cyntaf yn dysgu fod "dydd Crist" yn ymyl, ac y delai yn sydyn a dirybudd. Ond a yw hyn yn wir? Onid dysgu y delai yn sydyn i ryw bobl y mae Paul? Ond y mae gwahaniaeth mawr rhwng dyfod yn sydyn a dyfod ar unwaith. Onid defnyddio ystyr geiriau Crist Ei hun, ac yn wir Ei gymhariaeth am y "lleidr" y mae Paul ; ac oni ddywed Crist fod y "dydd hwnnw" yn guddiedig oddiwrth bawb ond y Tad Ei hun, a thybed y buasai Paul yn honni amgenach gwybodaeth na'i Arglwydd ar fater fel hyn. Ar y llaw arall, dywedir fod Paul yn dysgu yn yr Ail Epistol na ddelai Crist yn fuan, ac na soniai y byddai efe yn fyw pan y delai. Ond a yw hyn yn gywir eto. Gwir fod Paul yn dysgu yn ei Ail Epistol nad oedd Crist yn dyfod ar unwaith, ond peth arall yw dyweyd ei fod yn dysgu na ddelai yn fuan. Ac onid yw yr Apostol yn pen. ii. 1 o'i Ail Epistol yn dysgu ei fod ef yn disgwyl y byddai efe byw i weld yr ail-ddyfodiad mor bendant ag y dysga hynny yn yr Epistol Cyntaf? Nid yw y gwahaniaeth rhwng y ddau epistol ar y pwnc hwn ond effaith y gwahaniaeth sydd yn y safle o edrych ar y ddau. Yn yr Epistol Cynaf geilw ar ei ddarllenwyr i wylio, gan ddyweyd fod Crist

yn dyfod yn fuan; ond wedi clywed fod llawer ohonynt yn camesbonio ac yn camddefnyddio y rhybudd hwnnw, ac yn ei ddefnyddio yn esgus dros beidio gweithio, dywed wrthynt yn ei Ail Epistol mai gwylied yn sobr ac nid gwylied yn gyffrous oedd eu dyledswydd, ac nad oedd yr ail-ddyfodiad i gymeryd lle mor fuan ag i ymyrryd o gwbl a'u dyledswyddau tymhorol hwy.

(2). Fod yr adran dan sylw yn un heb ei chyffelyb yn nysgeidiaeth Paul, ac felly nad yw yn debyg mai efe yw ei hawdwr. Ynglyn â hyn honnir ei bod yn cyfateb i ac yn seiliedig ar ddysgeidiaeth Llyfr y Datguddiad. O barth i'r gangen gyntaf i'r ddadl hon, dywedwn: er nad oes gennym engraifft arall o waith Paul yn dysgu am "y dyn pechod" a'r wedd Apocalyptaidd ar ei ymddangosiad, nad yw hynny yn profi o gwbl nad efe yw awdur yr adran hon. Oni chaiff awdur drafod pwnc yn un o'i lyfrau na bydd yn cyffwrdd ag ef mewn un lle arall, yn enwedig pan y bydd sefyllfa feddyliol y bobl yr ysgrifenna atynt yn galw am drafodaeth felly? Nid oedd athrawiaeth yr ailddyfodiad a'r pethau diweddaf yn un o athrawiaethau mawr yr Efengyl, lle ail-raddol sydd iddi ymhob man, ac ynglyn â syniadau neu fuchedd wyrgam ei ddarllenwyr y mae yn wastad yn ei thrafod; felly ni ellir disgwyl trafodaeth ond un ddyspeidiol arni. Ac onid yw y drafodaeth yn yr adran hon yn ffrwyth meddwl cryf, dychymyg bywiog, a theimlad angerddol fel yr eiddo Paul. Ni all neb wadu nad yw arddull yr adran yn gwbl Baulinaidd. Honnir gan rai mai Timotheus a sgrifennodd yr epistol, ond y mae popeth a wyddom am dano ef yn anghyson â'r syniad ei fod yn awdur i ddarn mor aruchel a grymus a hon.

O barth i'r ail gangen yn yr wrth-ddadl, dywedwn nad yw yr adran ddatguddiadol hon mewn un modd yn debyg i'r adran y dywedir ei bod yn cyfateb iddi yn Llyfr y Datguddiad, ond yn unig i'r graddau y mae tebygolrwydd rhwng pob darluniad Apocalyptaidd a'u gilydd. Y tebyg yw fod rhannau o lyfr y Datguddiad yn cyfeirio yn bendant at Rufain, megis y geiriau yn pen. xvii., lle y'i disgrifir "yn feddw gan waed y saint, a chan waed merthyron Iesu," tra nad ellir gweled yn yr epistolau hyn unrhyw gyfeiriad condemniol at Rufain; mor bell oddiwrth hynny, fel y tybia llawer o esbonwyr enwog mai Rhufain a olygir wrth "yr hyn sydd yn atal" yn yr adran dan sylw. Mae lle cryf i gasglu fod yna ysgrifau Apocalyptaidd Iddewig yn oes Paul ac Ioan, a bod y ddau wedi bod yn darllen y rhai hynny, ac yn cymhwyso eu cynnwys at yr amgylchiadau arbennig a ddisgrifid ganddynt. Rhoddai hyn gyfrif am radd helaeth o debygolrwydd rhwng yr adran yr ydym yn son am dani a rhannau o Lyfr y Datguddiad.

## *YR APOSTOL PAUL A'I FYD.*

Un anhepgor i ddeall lle a gwaith a dysgeidiaeth yr Apostol Paul yw meddu syniad gweddol glir a chyflawn am y byd y gweithiai ynddo. Mae byd pob dyn yn dyweyd llawer arno, a diau fod agweddau gwleidyddol, cymdeithasol, meddyliol a chrefyddol byd yr Apostol wedi dylanwadu yn fawr arno yntau. Mynn rhai awduron o fri mai ei fyd roes y ffurf neilltuol ar ei feddwl a'i grefydd, h.y., mai un o'r crefyddau cyfriniol (*mystery religions*) yw Cristionogaeth, a bod eu ffurf a'i defnydd wedi eu gwau wrth eu gilydd gan yr Apostol pan o dan ddylanwad y crefyddau a'r cyfundrefnau meddyliol a moesol a ffynnent yn y byd Groeg-Rufeinig yn ei amser ef. Ond syniad eithafol a chyfeiliornus yn ddiau yw hwn. Eto dylid cadw mewn côf y gwirionedd fod oes ac awyrgylch pob diwinydd yn rhwym o ddyweyd ar ei ddiwinyddiaeth. Nid yn rhwym o effeithio ar ei gwirioneddau sylfaenol a ddywedwn, ond o effeithio ar ffurf a diwyg ei ddiwinyddiaeth. Ceir engraifft o hyn yn ein hoes ni; hawdd yw adnabod dylanwad Darwin ar iaith grefyddol a diwinyddol y dydd; mae yna eiriau newydd wedi dyfod i arferiad, a'r rheiny yn meddu hanes ac ystyr arbennig. Diameu fod hyn yn wir am Paul. Yr oedd i'w eiriau mawr ef eu hanes a'u hystyr yn y crefyddau oedd wedi hydreiddio y byd yr oedd efe yn byw ynddo; ac y mae deall tras y geiriau yn eu cylchoedd cynhenid yn gymhorth mawr i ddeall ystyr y geiriau hynny yn ei epistolau ef. Wrth gwrs, nid yw hyn yn golygu mai yr un ystyr oedd i'r gair pan y defnyddid ef gan Paul ag oedd iddo cynt; dygai Paul eiriau o "gyfyngderi eangder" ac o "gaethiwed i ryddid"; ond eto mae gwybod hanes y gair a'i berthynasau yn gymhorth i'w adnabod a'i werthfawrogi yn ei gylch newydd, fel y mae gwybod hanes gwr enwog yn ei faboed a'i ieuenctid yn gymorth i'w adnabod yn ei lawn dwf.

Yr Ymerodraeth Rufeinig oedd byd yr Apostol Paul, ac yn ei ddyddiau ef cyrhaeddai honno o Brydain i Affrica yn y naill gyfeiriad, ac o Fôr y Werydd hyd yr Euphrates yn y llall. Perthynai iddi 35 o daleithiau: 7 yn Asia, 5 yn Affrica, ac 20 yn Ewrop, ac un ymhob un o'r ynysoedd; Cyprus, Sicily a Sardinia. Nodweddid hi ar y naill law gan amrywiaeth diderfyn yng ngwaedoliaeth, arferion, diwylliant a chrefydd y lliaws cenhedloedd a drigent o fewn ei therfynnau; ac ar y llaw arall gan naws undeb dreiddiai o Rufain i bob talaeth, gan wneud yr oll yn aelodau o'r un corff mawr cyffredinol. Ni ymyrrai Rhufain nemor â neilltuolion unrhyw wlad, caent gadw eu cyfreithiau, eu harferion, a'u crefyddau arbennig eu hunain cyhyd ag y cydnabyddent ei hawdurdod oruchaf hi, y talent ei threthi, ac y byddent yn deyrngarol iddi. Ni ormesid ar yr Iddew oherwydd ei grefydd, ac ni warafunid i'r Cristion, yn y ganrif gyntaf, addoli "yr unig wir Dduw a'r Hwn a anfonodd Efe Iesu Grist," tra y teimlid nad oedd hynny yn peryglu yr ymerodraeth, a thra na byddai y "gelyn ddyn" yn camliwio ystyr ac amcan ei grefydd. Ar ol dyddiau y weriniaeth, o fod yn sefydliadau dibynnol (*dependencies*) ar Rufain, newidiwyd hwy i fod yn rhannau cyfansawdd o'r Corff Mawr, h.y., o fod megis gweision i feistr, i fod yn bartneriaid mewn cwmni. Un o effeithiau hyn oedd cynhyrchu gwladgarwch, ac i fesur frawdgarwch

drwy yr holl wledydd, a lleihau grym rhagfarnau lleol, a drwg-anwydau cyffelyb. Derbyniai lliaws y ddinas-fraint, yr hon a werthfawrogid yn ddirfawr.

Byd paganaidd y gelwir y byd Rhufeinig yn y cyfnod hwn, ac o safle Cristionogaeth dyna oedd. (Mae y gair pagan yn tarddu o'r gair *pagus*=pentre, neu ardal wledig), a'r syniad hyd yn ddiweddar oedd y gelwid trigolion y pentrefi wrth yr enw hwn am mai yn y dinasoedd yr oedd Cristionogaeth yn ffynnu, a bod pawb y tu allan i'r dinasoedd yn baganiaid, h.y., heb fod yn Gristionogion. Dyma yr ystyr geir i'r gair yn y geiriaduron. Ond y mae Zahn a Harnack yn barnu mai gair ddefnyddir yn wrthgyferbyniol i filwr yw *paganus*, a'i fod yn golygu *civilian*, h.y., dyn cyffredin heb fod yn filwr. Milwr Crist (*Miles Christi*) yr ystyrid y Cristion, yn rhwym wrth ei lŵ yn y bedydd (*sacramentum*) i fod yn ffyddlon i'w Arglwydd. Ond dylid cofio nad yw "paganaidd" yn y cysylltiad hwn yn gyfystyr o gwbl ag anniwylliedig, anwybodus ac anghrefyddol. (1) *Yr oedd gwybodaeth a diwylliant yn uchel yn y byd Rhufeinig.* Bernir fod cyfundrefn addysg Rhufain yn y cyfnod hwn mor gyflawn a pherffaith o leiaf ag yr oedd gyda ni ganrif yn ol, ac nad oedd nifer y rhai anllythrennog yno yn ddim mwy nag yr oedd gyda ni yn yr adeg a nodwyd. Brithid yr holl Ymerodraeth gan ysgolion a cholegau, a cheid prif-ysgolion mewn lliaws o'r dinasoedd mwyaf, megis Rhufain, Athen, Alexandria a Chaercystenyn. Dysgid ynddynt y gwahanol wyddorau: Rhifyddiaeth, Seryddiaeth, Meddygaeth, Y Gyfraith, Athroniaeth, Cerddoriaeth, &c. Yn y rhan orllewinol o'r ymerodraeth dysgid Groeg yn gystal a Lladin; ond bernir nad oedd Lladin yn cael ei dysgu yn y rhan ddwyreiniol. Amcan mawr yr ysgolion (*private* a *grammar schools*) oedd cymhwyso yr ysgolorion ar gyfer yr ysgolion rheithegol, amcan y rhai oedd eu gwneud yn siaradwyr hylithr, hyawdl ac effeithiol, am mai dyma ystyrid oedd prif addurn dyn ieuanc, a hynny oedd cyrchnod pennaf ei uchelgais. (2) *Yr oedd crefydd mewn bri mawr trwy'r holl gylch.* Camgymeriad mawr yw meddwl mai byd di-grefydd oedd y byd Rhufeinig ar gychwyniad Cristionogaeth. Yr oedd yn fyd pur ddifoes, ond yr oedd yn llawn o grefydd yn ystyr eang y gair, sef yn yr ystyr y dywedai Paul fod Athen yn "dra chrefyddol." Gwelsom uchod fod addysg yr ymerodraeth yn un gyfundrefn drefnus, a gweinyddid hi yn gyffelyb trwy'r holl wlad. Ond yr oedd lliaws o gyfundrefnau crefyddol wedi treiddio drwy yr ymerodraeth, a deiliaid y rheiny yn dra lluosog. Priodol fyddai inni gymeryd cip-drem ar y gwahanol grefyddau hyn. Dylid cofio wrth gychwyn mai yr iaith Roeg oedd iaith yr ymherodraeth drwyddi draw; gwir mai y Lladin oedd yr iaith swyddogol, a bod yr Aramaeg mewn bri yn Iudea a'r cylchoedd, eto Groeg oedd iaith y byd Rhufeinig o gwrr i gwrr. Nid yr hen Roeg clasurol, cofier: ni cheid hwnnw ond mewn llyfrau; ond yr iaith wedi datblygu yn raddol trwy goncwest Alexander, a dylanwad ieithoedd eraill ar ei geiriau a'i meddyliau. A dyma Roeg y Testament Newydd. Tybid hyd yn gymharol ddiweddar fod Groeg y Test. Newydd fel rhyw ynys ar ei phen ei hun, ac na cheid esiamplau ohono yn un man arall; ond fel ffrwyth ymchwiliadau diweddar mewn gwahanol gyfeiriadau, yn

arbennig y *papyri* Aiphtaidd, gwelwyd mai iaith y Testament Newydd oedd iaith lafar y dydd. Trwy hyn y mae deongliadaeth eiryddol y Test. Newydd wedi cyrraedd cyfnod hollol newydd, ac wedi gwneud esboniadau oedd mewn bri yn y blynyddoedd o'r blaen yn gymharol ddiwerth fel awdurdod ar ystyr geiriau.

Wrth gymeryd trem ar hanes crefyddau y cyfnod, dylid cychwyn gydag *Iddewaeth*. Mae dwy wedd bwysig ar Iddewaeth y cyfnod: 1. *Iddewaeth adran y Gwasgariad o'r genedl.* 2. *Iddewaeth gartrefol Jerusalem.*

1. *Iddewaeth y Gwasgariad.* Barna Harnack fod o 4 i 4½ miliwn o Iddewon ar wasgar o fewn cylch yr ymerodraeth. Tybia fod miliwn yn yr Aifft, a bod 10,000 o leiaf yn Rhufain yn amser Tiberius, a mwy yn amser Claudius. Ymhob canol-bwynt poblog ceid nifer mawr o Iddewon, a lle bynnag y byddai nifer sylweddol ohonynt ceid un neu ragor o synagogau. Wrth ymgymysgu â chenhedloedd eraill, ac ymgydnabyddu a'u syniadau crefyddol a'u diwylliant meddyliol, llaciodd gafael yr Iddewon hyn yn amryw o ddefodau eu crefydd, er eu bod yn dal eu gafael yn dynn wrth bethau "trymaf y gyfraith." Rhwyddhai hyn y ffordd i'r cenhedloedd oedd o'u cwmpas i ymgyfathrachu â hwynt, ac i ddilyn gwasanaeth eu synagogau, a thrwy hyn daeth lliaws mawr o'r Cenhedloedd ar hyd a lled y wlad i gredu yn Nuw yr Iddew, ac i barchu a chadw y ddeddf foesol Nid oeddynt, er hynny, yn ystyried eu hunain yn broselytiaid, a chadwent yn hollol glir oddiwrth rai o'r defodau Iddewig, megis yr Enwaediad. Yr oedd Iddewaeth y Gwasgariad yn fath o ddolen gydiol rhwng yr hen Iddewaeth uniongred a Helenistiaeth, h.y. y syniadau a'r meddyliau oedd yn gynnyrch anianawd ac ysbryd Groeg; a dyma'r bont dros ba un, trwy offerynoliaeth yr Apostol Paul, y cyrhaeddodd Cristionogaeth at y Cenhedloedd. Sylwer felly ar ei phwysigrwydd. Ffurfiai crefydd Iddewon y Gwasgariad wedd (*type*) neilltuol o grefydd: yr oedd ysbrydolrwydd uchel a moesoldeb mor uchel a hynny yn ei nodweddu, tra yr oedd defodaeth yn cael lle israddol, a rhai defodau wedi colli yn hollol. Cynhyrchodd y grefydd hon lenyddiaeth arbennig iddi ei hun, llenyddiaeth gyffelyb i "lyfrau doethineb" yr Hen Destament, megis Llyfrau y Diarhebion a'r Pregethwr. Ymddangosodd lliaws o'r llyfrau hyn o dan enwau dynion enwog yn y byd Iddewig a Groegaidd, megis Solomon, Heraclitis ac Oraclau Sibyl, &c. Ffurfiasant elfen bwysig yng ngrefydd Iddewon y Gwasgariad, ac y mae gwerth annhraethol yn eu llenyddiaeth mewn ystyr ieithegol a chrefyddol. Yn Alexandria cawn y ffurf hon ar Iddewaeth mewn cyfuniad ag athroniaeth yr oes; ac yn yr uniad hwn y mae enw Philo yn dod yn amlwg iawn, gan mai efe oedd y prif offeryn i briodi Iddewaeth â Helenistiaeth yn ei gwedd ragoraf. Yn y cyfaddawd hwn ceir fod yr ysbryd yn Iddewig a'r wisg yn dwyn delw Blatonaidd a Stoicaidd. Mae y wedd genedlaethol ar y grefydd yn mynd o'r golwg a'r agweddau mwy dynol a chyffredinol arni yn dod i'r amlwg. Bu i Iddewaeth Alexandria ran anhraethol bwysig ynglyn â dyfodol Cristionogaeth, oblegid hi agorodd y ffordd i'r byd wrando yn astud a ffafriol ar yr Efengyl, fel y dysgid ac y pregethid hi gan yr apostolion: canys

edrychid arni trwy hyn, nid fel mympwy a breuddwyd dyrnaid o bobl " druain a thlodion," ond fel datblygiad athronyddol ar grefydd Moses.

2. *Iddewaeth Iudea.* Dyma yr hen grefydd, a diau fod mwy o ôl y ffurf yma ar Iddewaeth ar Gristionogaeth " yn nechreuad ei ffordd," nag o ôl yr Iddewaeth Helenistaidd. Un rheswm am hynny yw fod Cristionogaeth yno yn ei chartre, ac mewn cylch cymharol fychan ; felly yr oedd yr ysbryd yn fwy gwresog a'r teimlad yn fwy angerddol. Mae Iddewaeth y cylch hwn yn ymddangos mewn pedair ffurf, a rhaid ystyried pob un o honynt yn fanwl cyn y gellir deall Iddewaeth Jerusalem a'r cylch. Ni oddef ein gofod inni ymhelaethu ar hyn mwy nag ar bwyntiau pwysig eraill :—(1) Y ffurf gyntaf a nodwn yw yr un gynrychiolir gan yr hyn elwir yn *Phariseaeth.* Sylfaen Phariseaeth oedd y Gyfraith (*Thorah*), yr hon a gynhwysai holl orchymynion Duw i'r genedl, ynghyd â'r aneirif draddodiadau oedd wedi tyfu a chrynhoi o'u cwmpas. Y drwg oedd, rhoddai y Phariseaid lawer mwy o bwys ar yr allanol a'r seremoniol yn y Gyfraith nag ar y moesol a'r ysbrydol ; ac o hyn y tarddodd y rhagrith a'r ffug a gondemnid mor ddiarbed gan yr Arglwydd Iesu. Ond oherwydd eu dysgeidiaeth uchel a'u moesoldeb (?) gor-fanwl yr oedd gan y Phariseaid ddylanwad mawr ar Iddewaeth ac Iddewon eu hoes. (2) *Saduceaeth.* Gosodai y Saduceaid y pwys mawr ar "addoli," h.y., gwasanaeth y deml oedd yn bwysig yn eu golwg. Hwy oedd y bendefigaeth eglwysig ; yr oedd y deml a'i gwasanaeth, y Sanhedrim a'i hawdurdod, a gwleidyddiaeth a'i gogoniant yn eu gafael. Yr oeddynt fel y bendefigaeth yn gyffredin yn dra cheidwadol—ni fynnent gydnabod ond " Pum Llyfr Moses," gwrthodent nid yn unig " draddodiadau yr henuriaid " a'r ffurf Fesianaidd a datguddiadol (*apocalyptic*) ar grefydd y dydd, ond hefyd ddysgeidiaeth y Proffwydi a Llyfr y Salmau. Oherwydd hyn oll nid oedd gan yr apostolion elynion mwy ffyrnig a maleisus na'r sect hon. (3) *Eseniaeth.* Wyddis ddim i sicrwydd beth oedd tarddiad y sect hon, nac ystyr yr enw, ond y mae yn amlwg oddiwrth yr hyn a ddywed Josephus, yr hwn fu yn byw am flynyddoedd yn eu mysg, c oddiwrth rannau o Lyfr Enoc (a ysgrifennwyd C.C.) eu bod yn aawer nes eu barn a'u cydymdeimlad a'r Phariseaid nag a'r Saduceaid, ll u bod yn wir yn anwybyddu, os nad yn dirmygu gwasanaeth y deml, a'an roddi'r pwys, nid ar ebyrth gwaedlyd, y rhai a ffieiddient, ond ar gbyrth mwy ysbrydol, megis ympryd, gweddi a mawl. Yr oedd elfen gref o fynachaeth yn eu crefydd, a dywedir fod adran o honynt eyn arwain bywyd cwbl feudwyaidd, a " phopeth ganddynt yn g yffredin." Elfen dra amlwg yn eu crefydd oedd haelioni ac elusenga rwch, a thybir fod yr elfen hon yn llanw yr un lle yn eu hanes hwy ag ydoedd y Gyfraith yn hanes y Phariseaid a'r Deml yn hanes y Saduceaid. (4) Anodd yw cael enw i ddynodi y dosbarth hwn. Gwelsom fod un awdur yn eu galw " y saint," geilw eraill hwy yn ol Salm xxxv. 20 " y rhai llonydd yn y tir." Beth bynnag am enw penodol arnynt, y " rhai bychain " y soniai yr Iesu am danynt oeddynt. Crefyddwyr syml yr oes, cynnyrch " efengyl " yr Hen Destament. Ceir engreifftiau neilltuol o honynt yn y ddwy bennod gyntaf o Efengyl Luc, sef Zacarias, Elizabeth, Mair, Joseph, Simeon ac Anna. Mae y disgrifiad geir o honynt yn Luc i. 6 yn rhagorol : " Cyfiawn ger

bron Duw, yn rhodio yn holl orchymynion a deddfau yr Arglwydd yn ddiargyhoedd." "Dosbarth" o bobl y galwasom hwynt, a "dosbarth" oeddynt nid "sect"; ac ymddengys eu bod yn lluosocach na'r un o'r sectau y cyfeiriwyd atynt. Ymddangosant weithiau yn wrth-gyferbyniol "i'r doethion a'r rhai deallus," megis yn Matt. xi. 25, lle y gelwir hwy yn "rhai bychain" neu yn "blant." Nid "plant" o ran profiad a gwybodaeth ac amgyffredion, ond "plant" o ran symledd ysbryd, o ran bod yn glir oddiwrth ragfarnau a bod yn agored i dderbyn argraffiadau. Yr oedd gwybodaeth a diwylliant yr ysgrifenyddion, am ei bod yn fydol eu natur, yn rhwystr iddynt weled gogoniant y deyrnas, fel y dywed Paul nas gallasai y dyn anianol "dderbyn" a "gwybod" y pethau sydd o Ysbryd Duw. Y dosbarth yma oedd corff mawr—bron di-eithriad—y Cristionogion cyntaf, a'u holynwyr, o ran ysbryd a chymeriad, yw deiliaid amlycaf a ffyddlon teyrnas Dduw drwy gydol yr oesoedd.

Fel hyn yr oedd dylanwad Iddewaeth wedi treiddio drwy y rhan fwyaf o'r Ymerodraeth Rufeinig erbyn dyddiau cenhadol yr Apostol Paul, a hynny nid ar gyfrif grym y grefydd Iddewig, ond oherwydd fod Iddewon wedi ymwasgaru ar hyd a lled y wlad. Ac i'r dyn cyffredin o fewn yr ymerodraeth nid oedd Cristionogaeth ond sect Iddewig. Edrychid ar yr Iddew ymhob man gyda graddau o amheuaeth, ac yn fynych caseid a dirmygid ef. Eto, ys dywed Proff. Gwadkin, Israel oedd yr unig genedl fyw o fewn yr ymerodraeth; ond er ei chenedlgarwch, ac efallai, am hynny, ni feddai y gallu na'r grym i ymaflyd yn nerthoedd y wladwriaeth, nac i ennill meddwl a chalon ei deiliaid. Yr oedd yn rhy gyfyng a chul ei syniadau i wneud argraff yn y byd, mewn oes a gwlad ag yr oedd eu gorwelion wedi ymledu "o fôr i fôr, ac o'r afon hyd derfynnau eitha'r ddaear." Rhagoriaeth Iddewaeth ar ei chychwyniad ddaeth yn ddiffyg andwyol iddi, a'i bendith a droes yn felltith iddi; a'r Apostol Paul achubodd Gristionogaeth rhag cyfyngdra marwol Iddewaeth: efe ddadgysylltodd Gristionogaeth oddiwrth y synagog, ac a'i gwnaeth yn grefydd i'r holl fyd. Pa fodd y bu i Paul, ac efe yn Iddew mor selog, fod yn offeryn mor amlwg i dynnu i lawr bob canol-fur gwahaniaeth a gwneud Cristionogaeth yn grefydd pawb yn ddiwahaniaeth, "lle nid oes nac Iddew na Groegwr, enwaediad na dienwaediad, barbariad na Scythiad, caeth na rhydd: ond Crist sydd bopeth ac ymhob peth"? Yr ateb cyntaf a phennaf i ymofyniad fel hyn yn ddiau yw mai eangder Cristionogaeth ddaeth ag eangder i enaid Paul; ond wrth gredu hyn dylem gofio hefyd y ddisgyblaeth y bu Paul dani er ei gymhwyso yn naturiol i dderbyn yr eangder hwn. Yr oedd cylch ei wybodaeth a'i brofiad yn ei gymhwyso i bortreadu Cristionogaeth mewn ymadroddion a meddyliau teilwng o'i llydanrwydd, yn gystal ag mewn diwyg gyfaddas i wahanol lwythau a chenhedloedd y byd Rhufeinig i'w derbyn. Yr oedd eisieu enaid mawr i gyflwyno crefydd fawr i sylw ffafriol y byd, ond ni allasai enaid felly wneud y gwaith ar wahan oddiwrth y llu o ddylanwadau fu yn cydweithio i baratoi y dyn mawr i fod yn genhadwr mawr. Cymeryd trem ar y gwahanol ddylanwadau hyn a wnawn o hyn i ddiwedd yr ysgrif hon.

Gwyddom oll am y dylanwadau gymhwysodd Paul i ddwyn yr

Efengyl i sylw'r Iddewon: yn awr beth oedd y dylanwadau a'i cymhwysodd i ddwyn yr un Efengyl i sylw y Cenedloedd? Y peth cyntaf a nodwn fel atebiad i'r ymofyniad hwn yw *Dylanwad Helenistiaeth*, h.y., dylanwad bywyd Groeg yn ei wahanol agweddau. Yn y blynyddoedd diweddaf yma, y mae hwn wedi ei gydnabod. Barn ysgolheigion hyd yn ddiweddar iawn ydoedd mai ychydig o olion Helenistaidd geir yn holl epistolau Paul. Dywed un awdur, "pan y darfu i Baumgarten awgrymu fod Paul, yn union ar ol ei droedigaeth, wedi ymroi i astudio llenyddieth Groeg, ddarfod i'r Deon Farrar omedd cydnabod posibilrwydd y peth." Mae'n debyg mai ymchwiliadau Syr William Ramsay, yn anad neb, sydd wedi profi fod awgrym Baumgarten yn berffaith gywir, ac erbyn heddiw credir hyn gan bob awdur o fri; yr unig wahaniaeth sydd rhyngddynt yw, graddau y dylanwad hwn. Mewn un eithaf honna Pfleiderer fod i athrawiaeth Paul darddle deublyg, y naill yn Phariseaidd a'r llall yn Roegaidd, tra y mae Harnack yn yr eithaf arall yn honni fod syniad Paul am Gristionogaeth yn hollol annibynnol ar Helenistiaeth, er yr eddyf fod yr Apostol yn gyfarwydd â llenyddiaeth a diwylliant Groeg. Gellir dyweyd fod barn awduron heddiw rhwng y ddau eithaf yma; a'r tebyg yw fod y gwir yn yr achos yma, fel yn gyffredin, yn y canol.

Dylid cofio, fel y dywedwyd o'r blaen, fod Tarsis yn ddinas dra dysgedig, yn meddu ar brifysgol enwog, ac yn gartref i'r ddysgeidiaeth Stoicaidd. Dywedir fod y rhan fwyaf o'r Rabiniaid yn wrthwynebol i'r "ddysgeidiaeth genhedlig," ond fod Gamaliel, athraw Paul, yn gyfarwydd hollol yn llenyddiaeth Groeg. Os yw hyn yn wir, mae'n hawdd gweld pa bryd ac ymha le y derbyniodd yr Apostol yr argraffiadau cyntaf gan ddiwylliant Groeg. Dechreuwyd Heleneiddio yr Iddewon drwy ymdrechion Alexander Fawr; ac yn ystod y 300 mlynedd rhwng dyddiau y gwr hwnnw a'r adeg y sgrifennwyd y Testament Newydd mae'n debyg fod Helenistiaeth wedi lefeinio llawer ar Iddewaeth. Dywed Dr. Gardener fod meddwl pob gwr o ddysg yn y cyfnod yr oedd Paul yn byw ynddo, wedi ei ffurfio gan ddylanwad llenyddiaeth, rheitheg ac athroniaeth Groeg. Dylid cofio hefyd fod Luc, cydymaith Paul, yn Roegwr diwylliedig, ac nas gallasai cymdeithas agos rhwng y fath ddau beidio meddu dylanwad ar y naill a'r llall. Eto i gyd, prin y credwn, fel rhai, fod Paul wedi ei drwytho mewn Helenistiaeth, pe buasai hynny yn ffaith gallasem yn sicr ddisgwyl mwy o ddifyniadau o awduron Groegaidd ganddo, ond hyd y gwyddom ni cheir ond tri o'r cyfryw yn ei holl weithiau. Hyd y gallwn ni farnu, dylanwad anuniongyrchol oedd dylanwad Helenistiaeth ar yr Apostol, ond dylid cofio hefyd nad yw dyweyd felly yn gyfystyr a dyweyd mai dylanwad arwynebol oedd. Mae ei lythyrau yn dryfrith o gymhariaethau o'r bywyd Groegaidd. Profa hynny mai nid gwr a'i ragfarn wedi ei ddallu rhag gweld nodweddion bywyd y byd o'i gwmpas oedd. A ellir meddwl hefyd fod gwr fel Paul yn barod i gyfymliw ac i ymddadleu â'r Epicuriaid a'r Stoiciaid yn Athen heb ei fod yn gwybod yn lled dda am eu daliadau, ac onid yw y wybodaeth honno yn treiddio drwy ei araeth enwog ar Fryn Mawrth?

Mae'n amlwg ddigon fod Paul yn gyfarwydd â'r gyfundrefn foesegol a elwir Stoiciaeth, a hynny o'i febyd. Yr oedd Seneca—apostol y

gyfundrefn—yn cydoesi ag ef; yn ol pob tebyg ganwyd y ddau a buont farw yn agos yr un amser, ac y mae y tebygolrwydd sydd rhwng dysgeidiaeth Seneca a'r eiddo Paul yn ein taro gyda syndod. Ac er nad oes brawfion amlwg fod Paul yn defnyddio termau Seneca, ond mewn dau amgylchiad, y mae y tebygolrwydd rhwng eu moeswersi mor hynod fel na ellir yn rhesymol gredu mai cyd-ddigwyddiad yw. Ond wedi'r cwbl mae cyweirnod Stoiciaeth a chyweirnod Cristionogaeth mor wahanol i'w gilydd nes bod yn wrthgyferbyniol y naill i'r llall. Prudd-der ac anobaith sy'n dygyfor mewn Stoiciaeth, tra mai "sain cân a moliant tyrfa yn cadw gŵyl" glywir yn nheml Cristionogaeth. Ei geiriau mawr yw "ffydd," "gobaith," "cariad," "tangnefedd," "llawenydd," a "gorfoledd." Am drafodaeth helaeth, feistrolgar a chlir ar y tebygolrwydd a'r anhebygolrwydd sydd rhwng Stoiciaeth a Christionogaeth, neu rhwng Seneca a Phaul, darllener Traethawd Dr. Lightfoot ar "Paul a Seneca," yn niwedd y gyfrol o'i esboniad ar y "Philipiaid."

Hyd yn gymharol ddiweddar ni thybiai ysgolheigion fod Paul yn meddu unrhyw safle o gwbl ymhlith llenorion Groeg, a'r arfer oedd edrych i lawr ar ei iaith o'i chymharu â chynhyrchion clasurol cyfnod Plato a Demosthenes. Ond nid dyna'r farn heddyw. Dywed un o ysgolheigion disgleiriaf yr oes—Gilbert Murray—yn ei "Four Stages in Greek Religion": "Paul is certainly one of the great figures in Greek literature." Ac yn y *Quarterly Review* ychydig flynyddau yn ol difynna Edwyn R. Bevan y deyrnged delir i Paul gan yr Athro Wilamowitz-Mollēndorff, un o ysgolheigion Helenistaidd mwyaf y blynyddoedd diweddaf, yr hon sydd fel y canlyn: "That this Greek of his (Paul) has no connection with any school or with any models: that it streams as best it may from the heart in an impetuous torrent, and yet is real Greek, not translated Aramaic (like the sayings of Jesus), makes him a classic of Hellenism. Now at last one can again hear in Greek the utterance of an inner experience fresh and living."

Heblaw hyn, nid medru defnyddio yr iaith Roeg yn rhwydd i fynegi ei feddyliau a'i deimladau yr oedd Paul, fel y gall ambell Gymro wneud gyda'r iaith Saesneg, ond yr oedd y safle feddyliol o ba un yr edrychai ar bethau yn anhraethol eangach na'r eiddo Iddew. Dywed Syr William Ramsay, yn ei "Cities of St. Paul" iddo gael ymddiddan un tro â dau Iddew dysgedig, y rhai a haerent yn bendant nad oedd yr un o lythyrau Paul yn ddilys am nas gallasai Iddew fel efe sgrifennu llawer o'r pethau geir ynddynt, ac er eu bod yn gwerthawrogi yr adrannau an-Iddewig hynny ar amryw gyfrifon, eto, oherwydd eu hadnabyddiaeth drwyadl o Iddewaeth, a theithi meddyliol yr Iddew, honnent nas gallasai Paul fod yn awdur y llythyrau hyn. Engraifft darawiadol iawn o safle feddyliol eangfryd Paul. I ba raddau y dylanwadodd athroniaeth Plato ar ddiwinyddiaeth Paul nid yw yn hawdd dyweyd. Mae Dr. Lightfoot, ac yn arbennig Dr. Hatch, yn dangos beth oedd dylanwad yr athroniaeth Roegaidd ar ddiwinyddiaeth Gristionogol; ond y mae y cyfnod y cyfeiriant hwy ato ar ol oes yr apostolion. Y mae eraill wedi llafurio yn y maes y cyfeiriwn ato, ac yn dangos fod syniadau arweiniol yr Apostol yn gwbl ar linellau y meddwl Groegaidd. Nid oedd raen yn y byd ar athroniaeth Groeg

yn oes Paul—cyfnod o ddirywiad oedd, ond eto yr oedd bannau yr oes glasurol yn aros ; a diau fod y meddyliau mawr oedd yn yr awyr megis wedi dylanwadu yn ddwfn ar syniadau yr Apostol. Dywedir wrthym, er engraifft, fod yr hyn y gellir ei alw yn athroniaeth gyffredinol Paul yn dwyn delw egwyddor fawr y meddwl Groegaidd o ddyddiau Heraclitus i lawr. Yr egwyddor honno oedd fod y byd a phopeth ynddo fel llif afon yn mynd, ac am hynny yn cyfnewid yn ddibaid. Dyma y syniad sydd gan Paul yn ei ddiwinyddiaeth : popeth ar ei yrfa i sylweddoli bwriadau Duw yng Nghrist. Hynt yr oesoedd, ochenaid y creadur, dyhead y saint, datblygiad meddwl, cynnydd gwareiddiad—popeth yn ymgyrraedd at y nôd, " sef camp uchel alwedigaeth Duw yng Nghrist." Delw Groeg sydd ar syniad fel hyn. Mewn arwirebau byrrion a digysylltiad yr ymddangosai y meddwl Semitaidd—rhywbeth yn debyg i lenyddiaeth ac addysg Llyfr y Diarhebion. Ond egwyddorion mawr, yn treiddio drwy bopeth ac yn uno oesoedd o hanes a meddyliau a'u gilydd oedd nodwedd athroniaeth Groeg ; a diau fod delw hyn ar feddwl a diwinyddiaeth Paul. Dywed Esgob Hicks na allai ddarllen 1 Cor. xiii. heb gael ei atgoffa am y *Nicomachean Ethics.*

Mae y tebygolrwydd sydd rhwng y " ddeuoliaeth " welir yn athroniaeth Plato, a'r un welir yn niwinyddiaeth Paul yn amlwg ddigon. Mae gan Plato ei " gorff " a'i " feddwl " (**σῶμα** a **νοῦς**), a'r un modd mae gan Paul ei " gnawd " a'i " ysbryd " (**σάρξ** a **πνεῦμα**), neu yr " hen ddyn " a'r " dyn newydd." Mae syniad y meddwl Groegaidd am oruchafiaeth y naill ar y llall, yr hwn a geir yn y wireb adnabyddus " Marw i fyw," yn gyffelyb i'r hyn geir yn wastadol yn nysgeidiaeth Paul, " marw i bechod," " marweiddio yr aelodau sydd ar y ddaear," " marw gyda Christ," a " chroeshoelio gyda Christ," &c. Fe welir yr un ddeuoliaeth yn nysgeidiaeth y ddau ŵr enwog am "y gweledig a'r anweledig," "yr amserol a'r tragwyddol."

Meddylier eto am syniad Plato am y " da," neu y " daioni pennaf." Hwn oedd yr achos o bopeth, rhwymyn undeb popeth a'r cyrchnod y cyfeiriai popeth ato. Dyma yn hollol le Crist yn niwinyddiaeth Paul : " ohono," " trwyddo," " ynddo," " erddo," " iddo." Diddorol fuasai ymholi paham y mae mwy o debygolrwydd rhwng dysgeidiaeth Paul â'r eiddo Plato yn hytrach nag Aristotle, ac hefyd paham na welsid mwy o gyfathrach rhyngddo â Helenistiaeth Iddewig ei oes (Alexandria yn arbennig), ond ni oddef y " terfynnau a osodwyd i ni " i wneud hyn.

Gobeithio y dealla y darllenydd nad ydym yn golygu fod Paul o dan lywodraeth yr un o'r dylanwadau a nodwyd, na'i fod wedi gwneud dim mwy na chymhwyso egwyddorion dysgeidiaeth y byd o'i amgylch at Gristionogaeth, nac hyd yn oed yn edrych ar Gristionogaeth o'r un o'r safleoedd a grybwyllwyd, fel y mae ambell un yn ein dyddiau ni yn darllen diwinyddiaeth trwy wydrau athroniaeth. Ein hamcan yw dangos fod Paul, fel pob dyn, yn rhwym o ffurfio ei farn am Gristionogaeth trwy gyfrwng y delweddau oedd o'i gwmpas. Yr oedd canol-bwynt Cristionogaeth yn drwyadl wahanol i bob cyfundrefn a chrefydd arall ; a dyna ei rhagoriaeth, ac yn hwnnw yr ymffrostiai yr Apostol, sef " yng nghroes Crist." Ond wrth egluro y grefydd

ddwyfol hon yr oedd Paul yn "trethu yr holl fyd" er mwyn gwneud ei feddwl yn ddealladwy ac yn dderbyniol gan bawb, a cheisio dangos fod ei fyd yn llawer eangach na byd yr Iddew yw ein hamcan yn hyn o sylwadau. Dyledwr oedd efe nid i'r Iddew yn unig, ond i'r Groegwr hefyd.

Un o gwestiynau mwyaf diddorol y blynyddoedd hyn ydyw: Beth yw perthynas dysgeidiaeth Paul â Chrefyddau Cyfriniol (*Mystery Religions*) ei oes? Hyd o fewn 10 mlynedd olaf y ganrif ddiweddaf, nid oedd y maes hwn wedi cael prin ei gyffwrdd. Ofer chwilio am ddim byd o bwys arno ymhellach yn ol na'r adeg hon. Ond yn ystod y chwarter canrif diweddaf yma y mae ymchwiliadau hynafiaethol, darganfyddiadau papur-frwyn yn nhywod yr Aifft, a datblygiad "Crefyddau cymharol" (*comparative religions*) wedi profi fod y maes hwn yn un tra thoreithiog, ac y mae y goleuni geir o hono i esbonio epistolau Paul ac i ddeall y Testament Newydd o'r pwys mwyaf. Mae hanes gwareiddiad a chrefydd pan y dechreuodd crefydd Crist ar ei gwaith mawr, hanes hen grefyddau enwog y Dwyrain,—Babilon a Phersia; crefyddau cyfriniol Asia, yr Aifft a Groeg, ac Iddewaeth yn ystod y canrifoedd rhwng yr Hen Destament a'r Newydd wedi ei ddwyn i oleuni yn dra rhyfedd. Gwyddom mai crefydd ddwyreiniol o ran ei genedigaeth yw Cristionigaeth, ac iddi gael ei ffurf yn y byd Groeg-Rufeinig, a hynny drwy offerynoliaeth Paul yn anad neb. Erbyn hyn gwyddom hefyd ddarfod i'r grefydd hon ymddangos yn y byd Rhufeinig yr un amser, yn ymarferol, ag yr oedd y crefyddau dwyreiniol yn cael eu cymhathu a'r hyn y gellir ei alw yn fywyd crefyddol o fewn cylch yr Ymerodraeth Rufeinig. Felly yr oedd yna amryw grefyddau, a rhyw gymaint o leiaf o debygolrwydd rhyngddynt, ar eu hymdaith i'r byd newydd hwn yr un amser a'u gilydd, ac yn cydymgeisio a'u gilydd am oruchfiaeth. Fel y dywedwyd o'r blaen, nid crefydd newydd oedd Cristionogaeth, yn dod i fyd cwbl ddigrefydd, ac at ddynion cwbl amddifad o ddyheadau crefyddol; yn hytrach yr oedd crefydd mewn rhyw ffurf na'i gilydd wedi lefeinio'r wlad; ac er fod llygredigaeth wedi goresgyn llawer cylch, a hwnnw yn cael ei feithrin gan ffurf-wasanaeth rhai o'r crefyddau, os nad yn wir yr oll o honynt i ryw raddau, eto yr oedd teimladau crefyddol dynion yn cael eu meithrin, rhai dyheadau greddfol yn cael achles, ac aml i rinwedd yn cael daear i fwrw gwraidd, i dyfu ac i ffrwytho. Yn awr, y cwestiwn yw: Beth oedd perthynas Paul â'r gwahanol grefyddau hyn? I ba raddau y gwyddai am danynt? Faint o ddefnydd wnaeth o honynt? Faint o'u hôl welir ar ei ddysgeidiaeth? Prin mae angen dyweyd fod syniadau tra gwahanol i'w gilydd ar y materion hyn. Honna rhai nad yw Cristionogaeth ond un o'r crefyddau cyfriniol hyn. Barna eraill i Paul wisgo Cristionogaeth yn nillad y crefyddau hyn, ond fod ei chorff a'i henaid yn gwbl wahanol iddynt. Maentumia eraill na wnaeth yr Apostol ddim mwy na defnyddio rhai o dermau y crefyddau hyn, er mwyn gwneud ei hun yn ddealladwy ac yn dderbyniol i'w wrandawyr, fel y gwnelai ddefnydd o dermau Iddewig er mwyn cyrraedd yr un amcan gyda'i gyd-genedl; neu ynte fod Paul fel pob awdur o dan orfod i osod ei feddyliau allan yn nhermau ei oes, a'i fod yn "trethu yr holl fyd," fel y dywedwyd, i gyrraedd yr

amcan hwn. Ni chaniata ein gofod i ni ond prin agor y drws i'r maes pwysig hwn, a hynny er mwyn rhoi trem i'r darllenydd ar yr agwedd hon eto ar " fyd " yr Apostol.

Yn y cyfnod hwn yr oedd hen grefyddau Groeg a Rhufain yn prysur adfeilio, a'u gafael ar y bobl wedi colli er's talm: yr oedd bywyd y byd newydd yn cyflym dyfu drwy yr hen grefyddau, fel yr oeddynt wedi mynd " yn hen, yn oedranus, ac agos i ddiflannu." Ar y llaw arall yr oedd llawer o ynni yng nghrefydd a masnach y dwyrain, a'i hoffeiriaid yn llawn sel genhadol i ddwyn eraill i gofleidio eu crefydd. Yr oedd eu brwdfrydedd hwy yn beth newydd ynghanol oerni defodol y byd Groeg-Rufeinig, a swynwyd llawer gan y brwdfrydedd hwn. Meddai y defodau rhwysgfawr ynglyn â derbyniad deiliaid i gyfrinion y crefyddau dwyreiniol hudoliaeth neilltuol hefyd, a chaent ynddynt yr hyn dybient hwy oedd yn tawelu eu cydwybod. Fel hyn cydrhwng popeth ymledai y crefyddau hyn yn gyflym trwy yr holl wlad; ac wrth ymledu collent lawer o'u gwrthuni cyntefig trwy rym gwareiddiad uwch a diwylliant amgenach y cylch newydd y deuent iddo. Cyfunid hefyd bethau goreu'r crefyddau newydd â'r pethau mwyaf eu gwerth yn hen grefyddau y wlad, nes ffurfio crefydd gymhleth iawn; ond eto yr oedd y briodas ei hun yn meddu ei manteision amlwg. Fel y dywed un awdur ymgais i gyfaddasu crefydd y dwyrain ar gyfer bywyd meddyliol y byd newydd oedd hyn oll.

Cyfeiriwn yn unig at y crefyddau tramoraidd hyn, ac yna ni edrychwn ar rai agweddau cyffredinol ainynt nas gallasai Paul lai na gwybod llawer yn eu cylch, er nad yw yn debyg iddo astudio yn fanwl yr un o honynt. Dylid cofio fod dwy o grefyddau cyfriniol Groeg a rhyw gymaint o fywyd ynddynt yr adeg hon, heblaw Stoiciaeth, yr hon oedd yn fwy o gyfundrefn foesegol ac athronyddol nag o grefydd.

1. *Orphism.* Ni ellir olrhain tarddiad y grefydd hon. Cafodd ei henw oddiwrth Orpheus, cerddor digymar yn chwedloniaeth Groeg. Cred Miss J. E. Harrison ei fod yn ddyn gwirioneddol ac yn broffwyd a dysgawdwr yn gystal a chantor. Ymddengys mai datblygiad oedd *Orphism* o'r hen grefydd gysylltid â Dionysus, a bod amryw sectau yn perthyn iddi, ond fod ganddynt rai daliadau yn gyffredin. Y tu ol i'r cyfan yr oedd y traddodiad o rwygo Zagreus, mab Zeus, gan y Titaniaid, yn y ffurf o darw. Daeth Athene (duwies doethineb Groeg) o hyd i'w galon, a rhoddodd hi i Zeus, yr hwn a'i llyngcodd. O hono wed'yn y deilliodd Dionysus newydd, ac ohono ef daeth Zagreus yn fyw eilwaith. Ystyr y chwedl ydyw fod nerthoedd drygionus wedi rhannu yr undod Dwyfol, a bod yr undod yn cael ei adfer yn y Zagreus newydd. Ymdrech dyn ddylai fod i ymysgwyd oddiwrth y drwg sy'n ei natur, a dychwelyd at y purdeb dwyfol sydd yn y duw a'i lluniodd. Ymdrech yw hon i'r enaid ymryddhau oddiwrth garchar y cnawd.

2. *Dirgelion Eleusis.* Cysylltid y rhai hyn â gŵyl fawr genedlaethol Groeg, yn wir prin yr oedd yn ddim mwy am dymor na'r ŵyl honno yn ei gwahanol agweddau. Perthynai iddi ffurf-ddefodau a golchiadau. Dywedir mai o gyfrinion y grefydd hon y cafodd Plato lawer o'i gymhariaethau a'i eiriau.

### Y CREFYDDAU CYFRIN DWYREINIOL.

Y rhai enwocaf oedd : 1. Crefydd Cybele ac Attis, yr hon gychwynodd yn Phrygia. 2. Crefydd Isis a Serapis yn yr Aifft. 3. Crefydd Mithra yn nwyreinbarth Persia.

1. *Cybele ac Attis.*—Dygwyd hon i Rufain o Galatia oddeutu 200 C.C. Yr oedd cyfathrach agos rhwng hon a chrefydd Dionysus ; ceid gloddest, gorffwylledd a chryn lawer o deimladau pêr-lewygol ynglyn a'i defodau, a thrwy y fath gynhyrfiadau credai yr addolwyr eu bod yn cael ei huno a'u duw. Yng nghlwm wrth y grefydd hon yr oedd y chwedl am Attis, yr hwn oblegid ei anffyddlondeb i Cybele, a laddodd ei hun dan bren pin-wydd ; wedi galar dwys am dano gan Cybele, adferwyd ef i fywyd yn ol, a dethlid yr adgyfodiad hwn mewn gŵyl nodedig bob Gwanwyn. Torrid coeden pin-wydd, amdoid hi fel corff ag addurniadau ac arwyddluniau crefyddol, dygid hi i'r deml, ac yna cychwynai y galarnadu am Attis ; wed'yn ceid dyddiau o ympryd, yn cael eu dilyn gan doriadau ar eu corff nes y ffrydiai eu gwaed, yr hwn a daenellent ar yr allor. Ynglyn a hyn adferid Attis i fywyd, a chyfranogent hwythau mewn rhyw fodd cyfriniol yn ei farwolaeth a'i adgyfodiad.

2. *Serapis ac Isis.*—Crefydd y bobl gyffredin ac anniwylliedig yn bennaf oedd hon, a dygwyd hi i Groeg tua 250 C.C., ac i Rufain yn amser Sulla. Yma eto unid yr addolwr ag Osiris yn ei farwolaeth a'i adgyfodiad, megis y gwnai addolwr Attis. Rhoddid lle mawr i olchiadau puredigaethol, i'r syniad o ail-enedigaeth, a chyfranogiad o fywyd y duw a addolid.

3. *Crefydd Mithra.*—Dyma yr uchaf o'r holl grefyddau paganaidd. Hi oedd crefydd y fyddin, a'r tebyg yw mai drwy y milwyr y dygwyd hi o Persia i'r byd Rhufeinig. Yr oedd Mithra yn gyfryngwr rhwng Duw a dynion, ac efe oedd creawdwr popeth ; ohono ef y deuai pob goleuni i'r byd, ac efe hefyd oedd diddanydd dynion yn eu trallodion. Llwyddodd y grefydd hon yn ddirfawr, a bu unwaith yn debyg o feddiannu yr holl fyd. Yr oedd lladd y tarw yn rhan bwysig yn ei defodau cyfrin hithau, ac ynglyn â hynny ceid y syniad o fywyd trwy farw. Perthynnai iddi ddisgyblaeth lem, ac un o'i hamcanion mawr oedd ennill goruchafiaeth ar Ahriman, pennaeth drygioni. Meddai lawer o bethau tebyg iawn i Gristionogaeth, megis gŵyl Nadolig, Saboth, addoliad y bugeiliaid, bedydd, a'r Swper Olaf, ac hyd yn oed iawn ac esgyniad. Meithrinai hefyd liaws o rinweddau o'r pwysigrwydd mwyaf.

Dylid cyfeirio hefyd at un ffurf arall ar y crefyddau cyfriniol, er mai prin y gellir ei alw yn grefydd, gan ei fod ar y ffiniau rhwng crefydd a rhyw gyfundrefn lenorol, ac yn cyfrannogi o nodweddion y naill a'r llall, sef " Llenyddiaeth Gyfriniol Hermes." Cymysgedd yw hon o athroniaeth Groeg, Stoiciaeth, swyngyfaredd a ffug-fferylliaeth yr Aifft, ynghyda ffurf-weddiau Helenaidd. Yn y lenyddiaeth hon ni gawn fod Hermes, cyhoeddwr y grefydd Aifftaidd, wedi ei wysio gan dduw (*Nous*), bugail dynion (*Poimandres*) i ddyfod yn Iachawdwr yr holl fyd. Cyhoeddodd Hermes y grefydd newydd hon i'w ddau ddisgybl, Asclipios, mab y duw Ptah, a'i fab ei hun, Tat ; yna cysegrodd hwy i fod yn broffwydi, gan eu geni o Dduw a'i huno ag ef ; yna efe

a esgynodd ei hun i'r nefoedd. Un o'r pethau rhyfeddaf ynglyn a'r ddysgeidiaeth hon yw cydymddiddan (*dialogue*) rhwng Hermes a'i fab Tat ar ail-enedigaeth. Dywed Tat wrth Hermes ddarfod iddo (Hermes) ddyweyd wrtho ef nad oedd modd bod yn gadwedig heb gael ei ail-eni: nad oedd ail-enedigaeth yn bosibl ond i un oedd wedi ymryddhau yn hollol oddiwrth y byd. Dywed Tat ei fod ef wedi ymddihatru oddiwrth y byd, a gofynna am gael ei ail-eni. Dywed Hermes nad ellid gwneud hynny ond trwy ddatguddiad. Tra yr oedd Hermes yn llefaru teimlai Tat ei hun yn cael ei draws-ffurfio. Rhyddhawyd ef oddiwrth y deuddeg gogwydd drwg oedd ynddo, a meddiannwyd ef gan allu oddiwrth Dduw. Yna gwel weledigaethau ysbrydol. Wed'yn nid oedd angen iddo ond esgyn i Ogdoas, preswylfa Duw. Gofynna am gael dysgu emyn o fawl a genid gan y deg gallu dwyfol. Edrydd Hermes yr emyn, yr hon oedd fel y canlyn: "Mae fy ysbryd wedi ei oleuo. . . I Ti, O Dduw, fy Nghreawdwr, yr wyf fi, Tat, yn offrymu ebyrth ysbrydol. O Dduw a Thad, Tydi wyt Arglwydd, Tydi wyt yr Ysbryd, derbyn gennyf fy ebyrth y rhai a ddeisyfi." Gwelir mai moddion yr ail-enedigaeth yw y datguddiad, ac mai ei gynnyrch yw adnabyddiaeth o Dduw. Sylwer ar y geiriau "datguddiad," "ail-enedigaeth," "adnabyddiaeth."

Dywed un awdur fod tair nodwedd amlwg yn gyffredin i'r Crefyddau Cyfriniol, y rhai da y gwnawn ddal arnynt:

1. Yr oedd ganddynt ddefodau puredigaethol ynglyn â'r seremoni o dderbyn eu deiliaid.

2. Yr oedd ganddynt foddion i'r deiliaid ddal cymundeb a'u duwiau.

3. Rhoddent sicrwydd am fywyd diogel a dedwydd y tu hwnt i angeu.

Yn awr nid oes ddadl na wyddai Paul am brif linellau y crefyddau hyn, oblegid yr oedd yn dyfod i gyffyrddiad a'r naill neu'r llall o honynt yn feunyddiol; a chan eu bod mor chwannog i ymdoddi i'w gilydd, canfyddai mewn un o honynt elfennau perthynol i eraill. A'r cwestiwn yw pa ddylanwad a gawsant arno? Dim mwy, ni gredwn, na rhoddi ffurf neilltuol i'w feddwl, cymhariaethau iddo i'w defnyddio, termau a geiriau a chelf-eiriau i'w harfer. Nid caethwas iddynt oedd, ond meistr arnynt; nid hwy oedd yn ei drethu ef, ond efe oedd yn eu trethu hwy. Yn gyffelyb, dyweder, i'r hyn wnaeth Proff. Drummond wrth ddefnyddio iaith wyddonol wrth drafod pynciau crefyddol yn ei "Natural Law in the Spiritual World." Ac fel yr oedd Drummond drwy gelf-eiriau gwyddoniaeth yn gwneud crefydd Crist yn fwy deall-adwy a derbyniol i lu o bobl ieuainc darllengar a gwybodus, felly yr oedd Paul yn gallu egluro Cristionogaeth yn nhermau y crefyddau cyfriniol i lu o'i wrandawyr yn Asia ac Ewrop, na buasent yn ei ddeall nac yn teimlo nemor ddiddordeb yn ei ddysgeidiaeth oni buasai y ffurf arbennig a roddasai arni. Peth tebyg wneir gan ein cenhadon yn yr India. Gwnant ddefnydd o eiriau y brodorion i osod allan feddwl yr Efengyl. Ond mae rhagor na hyn i'w ddyweyd, yr oedd cyfoeth yr iaith Roeg, a'r defnydd athronyddol, gwyddonol, moesol, a chref-yddol a wneid o'i geiriau er's oesoedd yn peri ei bod yn gyfrwng addas neilltuol i osod allan feddwl Duw. Yn ei hathroniaeth ni welwn feddwl

y byd ar ei oreu wedi ei fynegi yn y geiriau cymhwysaf, a'r un modd yn ei moes-ddysg a'i chrefydd ni welwn ddyheadau a greddfau cynhenid gwahanol genhedloedd wedi mynegi eu hunain mewn iaith briodol; ac yr oedd Paul wrth wneud defnydd o eiriau a thermau y gwahanol gylchoedd hyn, yn cael y cyfryngau goreu posibl i osod allan ei feddyliau ei hunan am drefn Duw i achub a pherffeithio dyn. Diau fod prif eiriau Paul wedi eu benthyca ganddo o'r ffynhonellau hyn, megis y geiriau am "ddirgelwch," "iachawdwriaeth," "gwybodaeth," "doethineb," "perffeithrwydd," "cnawdol," "anianol," "ysbrydol," "adnewyddiad," "diddanwch," "gogoniant," "delw," "meddwl," "enaid," "ail-enedigaeth," "mabwysiad," "gallu," "cymundeb," "datguddiad," "goleuo," &c., &c.; a'r un modd yr ymadroddion "yng Nghrist," "yn Nuw," "Crist ynom ni," "marw," "cyfodi," "croeshoelio gyda Christ," &c.; ac weithiau drwy ddeall ystyr gyntefig gair neu ymadrodd ynglyn ag un o'r crefyddau a nodwyd y gellir ei iawn ddeongli yng ngwaith Paul. Cymerer un engraifft darawiadol o hyn. Yn Col. ii. 18 ceir brawddeg fel hyn yn Gymraeg: "Gan ruthro i bethau nis gwelodd." Mae y ferf a gyfieithir "gan ruthro i" wedi peri trafferth enbyd i'r esbonwyr, ac nid oedd ganddynt ond dyfalu beth yw ystyr y frawddeg, ac y mae'r dyfaliadau yn lleng. Dywed y prif esbonwyr, megis Lightfoot, Meyer, Dr. Abbott, a Peake mai ystyr y ferf yw "sefyll ar" rywbeth, yna "meddiannu", yna "goresgyn" neu "ymchwilio," a chyffelyb yw yr ystyr a rydd geiriadurwyr fel Grimm a Thyer i'r gair. Wrth fethu cael synwyr cyson o gyfieithiad fel hyn, dywed rhai o'r esbonwyr uchod yn bendant mai gwall rhyw gopïwr sydd yma, a dangosant lawer o gywreinrwydd i roi y darlleniad cywir. Ond mewn erthygl yn y *Contemporary Review* am Awst, 1913, dywed Syr Wm. Ramsay ei fod wedi darganfod yr allwedd sy'n agor ystyr y ferf yn hollol glir. Gwelodd y gwr enwog hyn wrth chwilio rhyw hen arysgrifau yng nghysegr Apollo a Klaros. Dengys Ramsay fel ffrwyth y darganfyddiad hwn mai celf-air (*technical term*) yw y ferf dan sylw yn golygu gradd uwch yn safle un a dderbynid i mewn yn nghyfrinion crefydd Phrygia, a bod Paul yn defnyddio y celf-air hwnnw am y gwyddai ei ddarllenwyr yn Phrygia beth oedd ei ystyr. Felly gwawdiaeth sydd yma gan yr Apostol, yr hyn ddeallid ar unwaith gan ddarllenwyr ei lythyr. Dyma ben am byth ar ddyfaliadau esbonwyr, a'r eglurhad ar y gair wedi ei gael o un o gudd-goffrau cyfrin grefydd Phrygia.

## *YR AIL-DDYFODIAD.*

Gwna Dr. Moffatt sylw i'r perwyl mai *y pethau cyntaf* sy'n ein taro wrth ddarllen yr Efengylau, yw y lle roddir ynddynt i'r *pethau diweddaf*. Diau fod gradd o wirionedd mewn dywediad fel hyn, er ei fod, fel dywediadau o'r fath yn gyffredin, yn wedd rhy eithafol ar y gwirionedd. Yn ddiau fe roddir lle mawr i'r "pethau olaf" yn y Testament Newydd o'i ddechre i'w ddiwedd; ac eto nid oes yr un athrawiaeth neu gadwen o athrawiaethau, yn fwy yn y niwl na'r athrawiaethau hyn. Mae cymaint o'r arwydd-luniol a'r datguddiadol (*apocalyptic*) ynglyn â hwy fel y mae yn dra anodd ffurfio barn benodol am yr un o honynt. Felly y mae, a diau mai felly y dylai fod. Pan y mae unrhyw athrawiaeth yn gyfuniad o wirionedd pwysig a digwyddiad pendant, a'r digwyddiad hwnnw i gymeryd lle yn y dyfodol, mae llawer o'r elfen broffwydol a rhagfynegiadol yn dyfod i mewn, ac yn fynych iawn ni bydd y proffwydo yn ddim amgen na dyfalu. Mae'r "amseroedd a'r prydiau" yn cael gormod o le yn y meddwl, a'r gwirioneddau mawr sydd y tu cefn iddynt, fel mynyddoedd yn cael eu cuddio gan niwl y dyfalu. Pan y rhagfynegir digwyddiad mawr bob amser, fe geir gwahanol agweddau arno yn cael eu darlunio, nes yn fynych yr ymddangosant fel yn croes-ddyweyd eu gilydd. Cawn engraifft o hynny yn hanes y rhagfynegiadau am y Mesia. Disgrifir y Mesia weithiau fel Brenin yn "llywodraethu o fôr hyd fôr," bryd arall fel "gwr gofidus a chynefin â dolur"; yn un man "dymuniad y cenhedloedd" yw; mewn man arall "cuddia pobl eu wynebau oddiwrtho gan mor ddirmygedig a diystyr yw" yn eu golwg. Yr un modd mae y darluniau geir o ail-ddyfodiad Crist yn rhai anodd iawn eu deongli. Weithiau disgrifir Ef yn ymyl, bryd arall ymhell; mewn un epistol daw "fel lleidr y nos" yn ddistaw a sydyn heb ragarwydd yn y byd; mewn epistol arall dywedir yn bendant fod yr "ymadawiad" a "datguddiad y dyn pechod," &c., i'w ragflaenu. Yr hyn sy'n bwysig yw ein bod yn credu yn ail-ddyfodiad Crist fel gwirionedd mawr, ac yn gadael i'w ffurf a'i amser barhau ymysg y dirgeledigaethau a berthyn i'r Arglwydd. Fe ddaw, rhaid Iddo ddyfod, y mae yn dyfod, ac wedi dyfod; pa fodd, a pha bryd, rhaid gwahaniaethu mewn barn yn eu cylch. Efallai y daw mewn rhwysg digymar, ac y bydd Ei ddyfodiad yn ddechre y diwedd, neu yn ddigwyddiad cynhyrfus yn hanes y byd; neu, mai ysbrydol a moesol yn unig fydd Ei ddyfodiad, ac na bydd arwyddion bydol ohono o gwbl; "ac ni ddywedant, wele yma; neu, wele acw; canys wele, teyrnas Dduw o'ch mewn chwi y mae." (Luc xvii. 21).

Mae hwn yn fater mor bwysig, mor amrywiol ei agweddau, mor anodd ei esbonio, ac yn un sydd wedi cael y fath le mewn rhai cyfnodau yn hanes yr eglwys, fel nad oes un gobaith, mewn cylch mor

gyfyng ag a roddir i ni mewn llyfryn fel hwn, i roddi hyd yn oed grynhodeb o'r gwahanol agweddau geir arno, a'r syniadau fu ac sydd yn ffynnu yn ei gylch. Efallai mai'r peth goreu i bwrpas esboniad o fath hwn fyddai gofyn, a cheisio ateb, rhai cwestiynau dery feddwl Cymro ymofyngar pan yr erys uwchben y pwnc. Gofynnwn yn

I. *A oedd y Cristionogion cyntaf yn credu yn ail-ddyfodiad Crist?*

Gellir ateb y cwestiwn hwn yn ddibetrus yn gadarnhaol. A rhagor, nid yn unig credent y delai Crist yr ail waith, ond credent fod y dyfodiad hwnnw yn agos. Pa mor agos, nid oeddynt, efallai, yn cytuno a'u gilydd; ac yn sicr nid oeddynt o'r un farn ar hyd eu hoes. Er engraifft, cawn fod Paul yn ei epistolau cyntaf yn credu fod y dyfodiad hwnnw wrth y drws, ac y byddai efe ei hunan yn dyst o hono. " Na bydd i *ni y rhai byw*, y rhai a adewir hyd ddyfodiad yr Arglwydd, ragflaenu y rhai a hunasant" (1 Thes. iv. 15); " Wele, yr wyf yn dywedyd i chwi ddirgelwch: *Ni hunwn ni oll*, eithr ni a newidir oll mewn moment," &c. (1 Cor. xv. 51). Yn ei Epistol at y Philipiaid mae'n amlwg yr edrychai ar y dyfodiad y tu hwnt i adeg ei farwolaeth ef.

Nid oes gymaint ag un o awduron y Testament Newydd na choleddai y syniad fod yr Arglwydd Iesu i ail-ymddangos, a hynny naill ai yn fuan neu yn gymharol fuan. Ceir nifer liosog o gyfeiriadau at hynny yn holl lyfrau y Testament Newydd. Yr oedd o leiaf dri pheth yn rhoi cyfrif am hyn:—

(1) *Disgwyliaa yr Iddewon am Frenin a Gwaredwr.* Yr oedd dyfodiad y Mesia gyda rhwysg a gogoniant yn un o'r elfennau amlycaf a phwysicaf yn eu llenyddiaeth grefyddol hwy yn ystod, o leiaf, y ddwy ganrif cyn Crist. Yr oedd "llyfrau datguddiadol" (*apocalyptic*) yr Iddewon yn y cyfnod hwn yn lliosog ac amrywiol iawn. Dyma restr o'r llyfrau hyn cyn, ac ar ol, ymddangosiad Crist yn y cnawd. Y dosbarth cyntaf yw y rhai a gyhoeddwyd rhwng 200 a 100 mlynedd cyn Crist. Wele hwynt:

1 Enoch vi.—xxxvi.
Daniel.
1 Enoch lxxxiii.—xc.
Oraclau Sibyl-Prooemium a iii. 97-818.
Test. y xii. Patriarch.
Llyfr y Jiwbili.

Yr ail ddosbarth, y rhai a sgrifennwyd yn ystod y ganrif C.C.:

1 Enoch xci.—civ.
1 Enoch xxxvii.—lxxi.
1 Macabeaid.
Judith.
Salmau Solomon.
Oraclau Sibyl iii. 1—62.
2 Macabeaid.
Rhannau o waith Zadoe.
Llyfr Doethineb.

Y trydydd dosbarth, sef y rhai a gyhoeddwyd yn y ganrif gyntaf o O.C.:

" Assumption of Moses."
Philo.
2 Enoch.
4 Maccabeaid.
2 Baruch.
1 Llyfr Baruch.
4 Ezra.
Josephus.

Yn y llyfrau hyn ceir amrywiaeth mawr o syniadau, fel y gellid disgwyl, a'r rheiny mewn gwahanol ieithoedd ac arddulliau; ond y maent i gyd yn edrych ymlaen at y pethau oedd ar ddyfod, a chanolbwynt bron yr oll o honynt oedd ymddanghosiad eu Gwaredwr a'u Brenin. Yr oedd syniadau fel hyn wedi lefeinio yr holl genedl, ac nid gwaith hawdd na byrr yw diwreiddio hen syniadau crefyddol cenedl, yn enwedig pan y mae y rhai hynny yn rhedeg ar linellau greddfau a dyheadau saint yr Arglwydd. Diau fod llawer, os nad y rhan fwyaf o'r Cristionogion cyntaf, wedi eu trwytho yn y pethau hyn: ac iddynt hwy, cychwyniad y cyfnod goleu yr edrychent ymlaen ato oedd ymddanghosiad Crist yn y cnawd; ac awchlymwyd eu disgwyliadau drwy hynny i ddisgwyl am bethau llawer mwy, ac felly nid gollwng gafael ynddynt wnaeth llawer o'r hen syniadau, ond glynnu wrthynt yn dynnach, er iddynt yn ddiau fynd trwy gwrs o weddnewidiad.

(2) *Un o nodweddion Cristionogaeth ei hun oedd edrych i'r dyfodol.* Dyma un o'r pethau y rhagorai ynddo ar bob crefydd arall: crefydd gobaith ydoedd, mor wir a'i bod yn grefydd ffydd a chariad; " Y gobaith gwynfydedig " oedd un o'i harwydd-eiriau. Nid cyfnod hir o fyw ar yr un lefel oedd o'i blaen, ond cyfnodau oedd fel trumiau mynyddoedd, y naill yn esgyn i'r llall, a'r rhagolygon o hyd yn mynd yn ddisgleiriach, a'r gorwelion o hyd yn ymledu. Diau fod a wnelo hyn hefyd â syniadau yr oes gyntaf o Gristionogion am y dyfodol. Os nad oedd aml syniad yn ddim amgen na breuddwyd, eto i gyd breuddwyd crefyddol oedd, ac yr oedd y breuddwyd ei hun yn gynnyrch crefydd ac yn foddion i feithrin mwy o grefydd.

(3) *Dysgeidiaeth yr Arglwydd Iesu ei hun.* Cawn eiriau fel hyn yn yr efengylau: " A phan y'ch erlidiant yn y ddinas hon, ffowch i un arall; canys yn wir y dywedaf wrthych, na orffennwch ddinasoedd Israel nes dyfod Mab y dyn " (Matt. vi. 23). " Yn wir y dywedaf wrthych, y mae rhai o'r sawl sydd yn sefyll yma, a'r ni phrofant angau hyd oni welont Fab y dyn yn dyfod yn Ei frenhiniaeth " (Matt. xvi. 28). Gwel hefyd Marc xiii. a Luc xii. 40 a xxi. 25—28, &c. Beth a olygai yr Arglwydd Iesu yn yr ymadroddion uchod a'u cyffelyb sydd gwestiwn nad yw esbonwyr a diwinyddion yn cytuno o lawer arnynt. Ond un peth sy'n sicr, deallodd ei ddisgyblion a'r apostolion Ei eiriau fel rhagfynegiad clir am Ei ail-ymddanghosiad. Felly cyd-rhwng popeth, mae'n ddi-ddadl fod y Cristionogion cyntaf yn disgwyl am yr ail-ddyfodiad, a hynny yn fuan.

II. *A gam-ddeallodd yr Apostolion ddysgeidiaeth Crist am Ei ail-ddyfodiad? neu ynte, a siomwyd Crist Ei hun ynglyn a'i ddisgwyliadau cyntaf? Os cyfeiliornodd yr Apostolion ar bwnc yr ail-ddyfodiad, pa fodd y gellir dibynnu ar gywirdeb eu barn ar bynciau eraill?*

Os atebwn y cwestiwn cyntaf yn nacaol, golyga hynny fod yr Iesu Ei hunan wedi bod am dymor yn disgwyl am yr hyn na chymerodd le, ac felly nad oedd Ei rag-fynegiad yn gywir; yna gofynnir i ni gysoni hynny ag anffaeledigrwydd Ei ddysgeidiaeth. Ni phetrusa rhai diwinyddion ddyweyd mai fel hyn y bu. Honnant nad oedd modd i'r apostolion beidio barnu fel y gwnaethant, yn ol geiriau eglur Crist Ei hunan wrthynt; a dywedant ddarfod i'r Iesu Ei hun gyfnewid Ei farn am adeg ac am ddull Ei ail-ddyfodiad. Y modd y ceisia eraill ddod o'r dyryswch yw trwy honni mai ychwanegiadau Iddewig yw y rhan fwyaf o'r rhag-fynegiadau hyn; neu ynte ddarfod i'r disgyblion eu gwisgo yn niwyg y datguddiadau (*apocalyptic*) Iddewig, ac felly wneud cam i fesur helaeth, er yn anfwriadol, â geiriau Crist. Mae eraill yn cymeryd trafferth fawr i ddeol y gwahanol adrannau hyn oddiwrth eu gilydd, a dangos na lefarwyd hwy yn y cysylltiad y'i ceir, a bod y rhannau mwyaf penodol yn cyfeirio at ddinistr Jerusalem. Nid wyf yn gweld dim byd i ddychrynnu ato yn y syniad fod yr Iesu Ei hunan wedi Ei siomi ynglyn â'i ddyfodol, ac felly nad oedd Ei wybodaeth am dano yn berffaith. Dywed Ef Ei hunan: "Am y dydd hwnnw a'r awr ni ŵyr neb, na'r angylion sydd yn y nef, na'r Mab, ond y Tad" (Luc xiii. 32). Dyma broffes glir o ddiffyg gwybodaeth. Sut mae esbonio hyn sydd bwnc arall. Ai ewyllysio peidio gwybod a wnaeth? ai ynte cyfyngiad Ei ymgnawdoliad a ymyrrodd a'i holl-wybodaeth, a bod hynny yn rhan o'r ymwagiad? Sut bynnag yr atebir, mae Ei eiriau Ef Ei hun yn aros: ni wyddai. Ac os na wyddai am y dydd yr oedd yn eithaf cyson iddo i ddisgwyl am i beth gymeryd lle mewn adeg arbennig, a chael Ei siomi. Nid yw y naill anhawster yn ronyn mwy na'r llall; ac y mae'n bwysig cofio mai gwybodaeth am adeg sy'n gynhwysedig yn y naill a'r llall ac nid gwybodaeth am wirionedd. Gallasai Un Holl-alluog flino, a'r Holl-ddigonol sychedu, ond ni allasai wadu Ei hun, na chyfeiliorni yn yr ysbryd fel Duw-ddyn, mwy nag fel Duw. Ond er dyweyd nad oes yn y syniad yma ddim i ddychryn neb o honom, nid dyma y syniad yr ydym yn ei fabwysiadu. Credaf mai cam-ddeall ystyr geiriau eu Harglwydd a wnaeth yr apostiolion. Deuwn at yr ystyr y credwn ddylid ei roi i'w eiriau eto. Rhaid i ni felly wynebu y cwestiwn: Os y cyfeiliornodd yr apostolion yn eu barn ar bwnc yr ail-ddyfodiad, pa fodd y gellir dibynnu ar eu barn ar bynciau eraill? Yr ateb syml i hwn ydyw mai pwnc o amser a dull yn unig oedd, ac nad yw camddeall pwnc o amser yn gyfeiliornad o gwbl, camsyniad yn unig oedd. Yr oedd hanfod y gwirionedd ganddynt, sef bod Crist i ddyfod; nid oedd nemor os dim pwys yn y modd a'r amser. Yr oedd y gwirionedd ganddynt, y ffurf oedd heb fod yn gywir; rhoddasant wisgoedd Iddewig am wirionedd Cristionogol; peth hollol naturiol. Mae yr eglwys drwy gydol yr oesau yn gwneud peth cyffelyb, sef rhoi gwisg ddwyreiniol neu orllewinol, Roegaidd neu Rufeinig, Seisnig neu Gym-

reig am wirioneddau dwyfol. "Heneiddia'r" wisg yn aml, ond yr "un yw y gwirionedd, a'i flynyddoedd ni phallant." "I'r gwirionedd" y mae yr Ysbryd Glân yn arwain dynion ymhob oes, nid i ystafell y gwisgoedd—dibynna yr olaf ar deithi meddwl, chwaeth, arddull a gwybodaeth; yma mae digon o le i amrywiaeth, ond un *royal road* sydd i'r gwirionedd, ac un arweinydd geir ar y ffordd.

Dywedasom uchod nad ydym yn credu mai cael Ei siomi wnaeth Crist ynglyn â'r dyfodiad buan y soniai am dano. Yn awr, os nad dyfodiad pendant a rhwysgfawr a welid ac a deimlid gan bawb a olygai, pa fodd yr ydym i ddeall Ei eiriau? Ymddengys i ni yn sicr mai llefaru am Ei ddyfodiad ysbrydol yn nhermau Iddewaeth yr oedd. Mae'n amlwg, er engraifft, fod Ei eiriau yn Matt. xxiv. 29, lle y disgrifir yr haul yn tywyllu a'r lleuad heb roddi ei goleuni, a'r ser yn syrthio o'r nef, &c., yn cyfeirio at eiriau Esaiah: "Canys ser y nefoedd a'u planedau ni roddant eu llewyrch: yr haul a dywyllir yn ei godiad, a'r lleuad ni oleua â'i llewyrch" (pen. xiii. 10); ac at eiriau Eseciel yn pen. xxxii. 7, 8, lle y darlunir cwymp Babilon a'r Aifft. Felly hefyd y mae ei ddisgrifiad o hono Ei hun yn dyfod mewn cwmwl, gyda gallu a gogoniant mawr (Luc xxi. 27) yn cyfeirio at Daniel vii. 13. Dewisodd yr Iesu yr arwydd-luniau a'r darluniau hyn ac eraill, nid am eu bod yn arwydd-luniau a darluniau, ond am eu bod yn adnabyddus i'w wrandawyr, ac yn gysegredig yn eu golwg, ac hefyd am fod ynddynt gymhwyster neilltuol i daro dychymyg y bobl, ac felly i alw eu sylw at y gwirionedd mawr y mynnai Ei ddysgu iddynt. Nid oeddynt yn ddigon ysbrydol eto i dderbyn y gwirionedd yn ei symledd; nid oedd eu disgyblaeth na'u profiad ond tra elfennol, a rhaid oedd cymhwyso y ddysgeidiaeth i raddau helaeth at eu sefyllfa feddyliol a moesol. Cofiwn y ceir y syml weithiau, er yn bur anaml, yn yr Efengylau cydolygol, *e.g.*, "Canys lle mae dau neu dri wedi ymgynnull yn fy enw i, yno yr ydwyf yn eu canol hwynt" (Matt. xviii. 20); "Wele, yr ydwyf fi gyd â chwi bob amser hyd ddiwedd y byd." Ond y cyffrous a'r rhwysgfawr oedd yn effeithio arnynt fwyaf, am mai "brenin" a "theyrnas" dymhorol a ddisgwylient yn bennaf. Yng nghyfnod y traws-newidiad yr oeddynt, a phriodol oedd llefaru wrthynt mewn "llawer modd" i gyfarfod a'r cyflwr yr oeddynt ynddo. Os symudwn ymlaen i Efengyl Ioan, ni gawn ein hunain mewn byd newydd; nid yng nghylch y digwyddiadau ar y ddaear yr ydym yma, ond yng nghylch y gwirioneddau syml a thragwyddol. Mae yr efengylwr hwn yn sgrifennu ugain mlynedd o leiaf ar ol yr olaf o'r tri eraill; mae ei deithi meddyliol yn wahanol; nid yr hanesyddol yw ei nodwedd, ond y cyfriniol—nid y gwrthrychol oddiallan, ond yr ysbrydol a'r mewnol. Hefyd yr ydym mewn cyfnod newydd, mae yr hen grefydd Iddewig fel cyfundrefn wedi mynd heibio gyda dinistr Jerusalem, mae Cristionogaeth yn ymgymhwyso ar gyfer byd gwahanol, mae ei hwyneb yn awr ar y byd Groeg-Rufeinig; nid oes arwydd fod y diwedd yn ymyl, yn hytrach mae y cylch yn eangu a'r efengyl yn dyfod i'r "dragwyddol heol." Mae yr arwydd-luniol a'r cyffrous yn cilio o'r golwg, a ninnau wedi cilio o'r "mynydd teimladwy" ac yn teimlo ein traed yn sangu ar "Fynydd Seion," lle mae'r awel yn dyner a'r awyr yn glir. Ychydig sydd yma o son am y "deyrnas"; "goleuni," "bywyd,"

"ysbryd," "ail-enedigaeth," "ffydd," "cariad," a "rhyddid," yw y geiriau mawr. Yn gyson â hyn oll, gwelwn fel y mae yr Iesu yn ol yr efengyl hon yn son am Ei ddyfodiad at Ei ddisgyblion. Nid mewn darluniau llawn o liwiau cryfion a thanbaid, ond yn y geiriau symlaf a fedd iaith: nid gan gyfeirio at "amseroedd a phrydiau," a rheiny yn y dyfodol agos neu bell, ond gan ddangos mai trwy ac yn yr Ysbryd y deuai atynt, ac mai nid ar un digwyddiad mawr y ceid arwyddion o hono yn y ffurfafen y deuai atynt, ond y byddai iddo ddyfod o hyd, un cwrs-weithrediad (*process*) o'i ddyfodiad fyddai yr oruchwyliaeth newydd ar ei hyd. "Nis gadawaf chwi yn amddifad: mi a ddeuaf atoch chwi. Eto ennyd bach a'r byd ni'm gwel mwy; eithr chwi a'm gwelwch i canys byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd." "Efe a'm gogonedda i, canys Efe a gymer o'r eiddof, ac a'i mynega i chwi." Dyma y wedd ar ddyfodiad Crist a welai "dyn ysbrydol" fel Ioan, a chan ei fod ef yn gweld yn ddyfnach ac ymhellach na neb arall o'r efengylwyr, mae'n ddiau mai'r "dyfodiad" fel y gwelai efe ef oedd yr hyn olygai yr Arglwydd Iesu. I rai bychain mewn dirnadaeth ysbrydol mae'n rhaid gwisgo'r dyfodiad yn niwyg amser a lle cyn y gwelid ef, ond i wr fel Ioan gwelai efe y gwirionedd ysbrydol yn ei fawredd syml. Yn gyffelyb y cawn yr Iesu yn dysgu Martha am yr adgyfodiad. "Mi a wn," meddai Martha, "yr adgyfodir ef (Lazarus) yn yr adgyfodiad, y dydd diweddaf." "Ie, ie," meddai'r Iesu, "ond mae'r adgyfodiad yn nes atat Martha na hynny. Myfi yw yr Adgyfodiad a'r Bywyd." Nid digwyddiad mewn diwrnod yw yr adgyfodiad yn unig nac yn bennaf, ond grym mewn person. Tebyg i Martha y ceid yr apostolion ar y cyntaf; cydient ddyfodiad Crist â diwrnod, yn hytrach nag edrych arno fel grym ysbrydol yn tarddu yn ddibrin a diball o'i Berson. Yn y tair efengyl cyntaf disgrifir dyfodiad Crist gyda rhwysg Brenin a Barnwr; yr oèdd i orchfygu pob gelyn ac i feddiannu pob teyrnas, a'i bobl i ymddangos gyd ag Ef mewn gogoniant. Yn ol Ioan y mae Ei ddyfodiad i fod yn anweledig ac ysbrydol, ac am hynny yn dawel ac effeithiol, ac nid pellach oedd na'r "dyfodiad" arall ond agosach, a'i—barhad i fod yn ddi-ddiwedd.

Ymddengys i mi fod yna ddau reswm cryf iawn dros wrthod yr agwedd dymhorol ac amserol ar yr ail-ddyfodiad, a derbyn yr agwedd ysbrydol arno. (1) Y mae y golygiad yma yn hollol gyson â hanes y byd a'r eglwys hyd yma. Pe mai y "dyfodiad" rhwysgfawr oedd yr un mewn addewid, ac felly ei fod i gymeryd lle yn gymharol fuan, buasai yr anhawster mawr gennym i'w wynebu o esbonio'r paham na chymerodd le. Nid oes neb sy'n credu yn y ffurf hon ar y "dyfodiad" yn honni fod y rhagfynegiad am dano wedi ei gyflawni; ni chyflawnwyd ef yn oes yr apostolion, nac mewn un oes ar ol hynny; er y ceir rhyw adran o'r eglwys yn ei ddisgwyl ar adegau penodol neu yn gyson drwy gydol yr oesoedd. A gellir gofyn heddiw gyda phob difrifwch: "Pa le mae addewid Ei ddyfodiad Ef?" Mae miloedd ar filoedd wedi eu siomi wrth ddisgwyl fel hyn, ac anodd yw esbonio yr achos o'r siomi. (2) Dyfodiad ysbrydol sy'n gyson ag ysbrydolrwydd yr Oruchwyliaeth Newydd. Dysgai Crist na ddelai teyrnas Dduw wrth ddisgwyl; h.y., nad oedd yn nosbarth digwyddiadau cyffredin neu anghyffredin y byd; "Ni ddywedant wele yma, neu wele

acw; canys wele, teyrnas Dduw, o'ch mewn chwi y mae." Megis nad oedd "Ei frenhiniaeth Ef o'r byd hwn," nid oedd gwisgoedd gwychion y byd hwn i fod am dano. Gan mai ysbrydol oedd y deyrnas, ysbrydol hefyd oedd y "dyfodiad"; a phe na buasai felly mae'n anodd gweld sut y buasai yn gyson â natur y deyrnas, ac yn foddion i'w hyrwyddo. Nid "i ddyfod" y mae yr Arglwydd Iesu yn unig, ond "yn dyfod" y mae; dechreuodd "ddyfod" ar y Pentecost a "dyfod" y mae byth, a mesur Ei "ddyfodiad" yw mesur awydd Ei eglwys am dano a'i gallu i'w dderbyn.

Eto, er dyweyd fel hyn, nid ydym yn credu fel rhai mai deddf datblygiad yn unig sydd i reoli teyrnas nefoedd, fel teyrnas natur. Dilys yw fod egwyddor fawr datblygiad i'w gweld ymhob byd adnabyddus i ni; natur, gwladwriaeth, meddwl, a gras. Ond y mae y fath beth yn bod ymhob cylch ag ymddanghosiad sydyn grymusderau mawrion na ellir ar y pryd, os o gwbl weithiau, olrhain eu tarddiad. Gwelwyd peth fel hyn yn myd celf a gwleidyddiaeth; ar ol cyfnod maith o dŵf araf fe welwyd rhyw ymarllwysiad sydyn, yr hyn elwir gan rai mewn rhai cylchoedd yn *period of efflorescence.* Mae amryw enwau ar alluoedd ac adegau fel hyn, adeg o ddadeni (*renascence*), adeg o chwildroad, neu adegau o ddiwygiadau crefyddol grymus. Ar brydiau gwelir deial amser yn cael ei symud raddau ymlaen mewn amser byrr, a "chenedl yn cael ei geni mewn un dydd," "chwytha y gwynt lle y mynno, ac ni wyddom ninnau o ba le y mae yn dyfod nac i ba le y mae yn mynd." Mae hyn yn bod ynglyn â "theyrnas nefoedd," mae "dyddiau Mab y dyn" yn bod, ac "adegau i orffwys o olwg yr Arglwydd" yn cymeryd lle. Fe roes yr apostolion bwyslais ar y ffaith neu y gwirionedd hwn, heb yn wybod iddynt, wrth hiraethu am a phroffwydo ynghylch yr ail-ddyfodiad. Yr oedd *Eschatology* yr apostolion yn hollol gyson â moesoldeb ac ysbrydolrwydd teyrnas nefoedd, er bod llawer o agweddau ar eu credo am y "pethau diweddaf" yn gyfeiliornus: gan fod o dan y plisgyn garw gnewyllyn o wirionedd byw a thragwyddol. Oni cheir trem ar hyn yn nysgeidiaeth Crist Ei hun? Edrychai Efe weithiau drwy niwl y presennol i'w "ddydd" Ef Ei hunan, pan y byddai Ei deyrnas wedi dyfod gyda grym a wyneb y ddaear wedi ei gwneud yn debyg i wyneb y nefoedd. Onid fel hyn y mae deall moes-ddysg y bregeth ar y mynydd? Mae llawer o'r hyn gymhellir yn y bregeth honno yn gwbl amhosibl yn y byd sydd yr awrhon. Ffolineb fyddai ceisio cario allan yn llythrennol Ei heirchion heddyw. Beth ddelai o honom pe rhoddem arian ac eiddo i bob un a ddelai atom i echwyna? Sut drefn fuasai ar gymdeithas pe buasai pawb yn rhoi "cochl" i leidr am ddwyn ei "bais"? Mae y fath gymhellion yn tybied cyfnod disglair mewn cymdeithas nad ydym wedi ei gyrraedd eto. A byddai arfer rhinweddau fel hyn mewn cymdeithas amharod iddynt yr un mor ffol ag a fyddai pasio deddfau da cyn bod gwlad yn aeddfed iddynt. Mae'n werth i ninnau edrych ymlaen at "ddyfodiad" arbennig o eiddo ein Harglwydd, ond cofio o hyd mai ysbrydol ydyw natur y dyfodiad hwnnw i fod, ac nid tymhorol fel y disgwyliai y Cristionogion cyntaf ef yn bennaf. Mae yr Iesu yn dyfod o hyd, dyma un gwirionedd mawr, a dylem ddal ein gafael ynddo; ond y mae hefyd yn dyfod mewn modd arbennig, a

dylem ninnau ddyweyd, "Yn wir, tyred Arglwydd Iesu," ond rhaid i ni fod yn ofalus rhag i ddim byd mympwyol, rhwysgfawr, cywrain, na ffug-dduwiol lwydo ein meddwl wrth ddeisyf fel hyn. Peth peryglus wrth edrych gormod i'r dyfodol yw dibrisio y presennol, a pheth peryglus hefyd yw bodloni ar dawelwch y presennol heb ddringo weithiau i ddisgwylfa gobaith ac edrych i'r "tir pell."

Onid oes yma wers i ni pa fodd i ddeongli ystyr darluniau Iddewig yn hanes Pedr ar ddydd y Pentecost. Gwelodd ef gyflawniad o broffwydoliaeth Joel, er bod y lliwiau Iddewig yn amlwg ynddi ("Yr haul a droir yn dywyllwch, a'r lloer yn waed"), yn nhywalltiad yr Ysbryd ar ddydd y Pentecost. A chredwn mai y ffordd ddiogelaf a goreu i ninnau yw edrych am gyflawniad ysbrydol o addewid yr Arglwydd Iesu ynglyn â'i "ddyfodiad"; mae yr addewid yn y wedd honno beth bynnag wedi ac yn cael ei chyflawni; a dyma y cyflawniad mwyaf gwerthfawr i'r eglwys dros dymor ei pharhad ar y ddaear.

# Epistol Cyntaf Paul at y Thesaloniaid

## PENNOD. I.

PAUL, a Silfanus, a Thimothëus, at eglwys y 1
Thesaloniaid, yn Nuw Dad, a'r Arglwydd
Iesu Grist: Gras i chwi, a thangnefedd, oddi
wrth Dduw ein Tad, a'r Arglwydd Iesu Grist.
Yr ydym yn diolch i Dduw yn wastadol dros- 2

### PENNOD I.

#### I.—Y CYFARCHIAD.

**ADN. 1. Paul.** Yn yr oll o epistolau Paul, oddieithr y rhai at y Thesaloniaid, ychwanega yr Apostol air neu eiriau at ei enw yn y cyfarchiad, megis "apostol," "gwasanaethwr," "carcharor." Yma ceir ei enw yn unig, am y rheswm, mae'n debyg, nad oedd galw arno ar y pryd i honni awdurdod ei apostolaeth, gan nad oedd yr Iddewon eto yn gwadu hynny yn ffurfiol a phendant.

**Silfanus.** Yr un a Silas Llyfr yr Actau. Am ei hanes gwel Act. xi. 22; xv. 22-32, 40, 41; xvi. 37. Mae'n dra thebyg maï efe yw y "Silfanus" y sonir am dano yn 1 Petr v. 12. Feallai mai byrhâd o "Silfanus" yw "Silas," fel "Apolos" o "Apolonius"; neu ynte mai y ffurf Latinaidd o "Silas" yw "Silf(v)anus."

**Timothëus.** Efe oedd yr ieuengaf o'r tri, a'r tebyg yw nad oedd ond cydymaith yn unig i'r ddau arweinydd. Yn Actau xvii. 4 dywedir fod rhai o'r Thesaloniaid wedi "ymwasgu at Paul a Silas." Dengys hyn nad ystyrid Timotheus yn yr un safle â hwy. Paul a Silas hefyd yn unig a garcharwyd yn Philippi; ni wnaed hynny â Thimotheus. Anfonwyd Paul a Silas allan o Thesalonica, ac nid oedd ryddid iddynt i ddychwelyd yno, tra na omeddid y fraint honno i Timotheus (1 Thes. iii. 2). Am hanes boreol Timotheus gwel Act. xvi. 1, a 2 Tim. i. 5. Ymddengys iddo gael ei ennill i fod yn Gristion drwy weinidogaeth Paul yn ystod ei daith genhadol gyntaf yn Lystra. Ar ei ail daith cymerodd yr Apostol ef yn gydymaith a chynorthwywr. Yr oedd gyda'r Apostol yn Thesalonica, ac arhosodd yn Berea pan yr aeth Paul oddiyno i Athen. Ymunodd a'r Apostol yn Athen, ac anfonwyd ef oddiyno ar ymweliad neilltuol â Thesalonica (iii. 1, 2). Yr oedd wedi

dychwelyd o Thesalonica at yr Apostol i Gorinth, ac yn aros yno yr adeg yr ysgrifenwyd yr Epistol hwn.

**At eglwys y Thesaloniaid.** Daw y gair " eglwys " o'r Lladin *ecclēsia*, ac nid o *eg* a *glwys* fel y clywsom lawer gwaith. Mae yr *e* hir yn Lladin yn troi yn *wy* yn wastad yng Nghymraeg, megis " rh*wy*d " o *rēte*, ' c*wy*r " o *cēra*, " gwen*wy*n " o *venēnum*. Ystyr wreiddiol y gair oedd " cynulliad rheolaidd rhydd ddinaswyr Groeg," h.y., rhai wedi eu galw allan yn un corff i ystyried rhyw fater neilltuol, neu at unrhyw amcan neilltuol; yna daeth i olygu unrhyw gynhulliad, oblegid ni gawn y gair yn cael ei ddefnyddio am " dorf derfysglyd " (*mob*) yn Act. xix. 32, 41; " cynulleidfa " yw y gair yn y Gymraeg yn yr adnodau hyn, ond " eglwys " (*ecclēsia*) yw y gair yn y gwreiddiol. Daeth y gair cyn hir i gael ei ddefnyddio mewn ystyr grefyddol yn unig. Yn epistolau cyntaf Paul y ceir y cyfarchiad at " eglwys " (1, 2 Thes., 1, 2 Cor., a'r Galatiaid), y " saint," a'r " brodyr," &c., gyferchir yn y lleill. Barna Dr. Jowett mai y rheswm am hyn oedd y teimlai yr Apostol at ddiwedd ei oes fod yr " eglwys " ar y ddaear yn symud i fod yn eglwys yn y nef. Sylwn na phetrusai Paul alw y cynulliad syml o saint, gyfarfyddai mewn tŷ annedd heb ffurf-lywodraeth yn y byd, yn " eglwys."

" Dau neu dri yn cyd-ymgynnull yn enw'r Iesu, ac o'i du,
Ynta'i Hunan yn y canol, dyna eglwys gymwys gu."

Am hanes ffurfiad eglwys Thesalonica gwel y Rhagymadrodd.

**Yn Nuw Dad a'r Arglwydd Iesu Grist.** Dyma gylch yr eglwys; cymdeithas yw yn naws presenoldeb Duw yng Nghrist. Yr oedd llawer o'r byd paganaidd yn gynnefin a'r syniad eu bod *yn* eu duw, ac ni wrthwynebent yr hyn a ddysgai Paul yn Athen, mai " ynddo Ef yr ydym ni yn byw, yn symud, ac yn bôd " : ond yr oedd dyweyd eu bod " yng Nghrist " yn wirionedd newydd. Y Gwr oedd newydd fod yn byw yn Syria, ac wedi Ei roddi i farwolaeth gan yr Iddewon, wedi dod yn amod bywyd, yn sylfaen bodolaeth, ac yn foddion cynhaliaeth " eglwys." Yr oedd hwn yn wirionedd newydd, ac mor ddyrchafedig ag oedd o newydd. Dyna yw y wir eglwys, cymdeithas o bobl yn Nuw, *trwy* ac *am* eu bod yng Nghrist.

**Gras i chwi a thangnefedd.** Tybir yn gyffredin fod y cyfarchiad hwn yn gyfuniad o'r ffurf baganaidd ac Iddewig o gyfarch gwell y naill wr i'r llall. Y gair a gyfieithir "gras." neu o leiaf air o'r un gwreiddyn, a ddefnyddid gan Roegwr wrth gyfarch gwell i arall, a'r gair a gyfieithir " tangnefedd " a ddefnyddid i'r un pwrpas gan Iddew. Pa un bynnag ai cyfuno dau beth, ai defnyddio geiriau adnabyddus a wna yr Apostol, y mae yn llanw y geiriau ag ystyr eangach a chyfoethach nag a fu iddynt erioed. Mae Cristionogaeth wedi cyfoethogi geiriau yn ddirfawr. Mae gair yn prifio o dan ddylanwad yr Efengyl, fel dyn. *Gras* Duw yw ei gariad mewn aberth yng Nghrist; cariad yw y ffynhonell—y cariad yn cyrraedd y pechadur mewn maddeuant, adnewyddiad, sancteiddiad, a bywyd helaethach yw y " gras," a'r cyfan *yn* a *thrwy* Iesu Grist. *Tangnefedd* yw'r effaith ar ysbryd, ac ym mhrofiad y sawl dderbynio y gras yn helaeth: stormydd yr enaid wedi tawelu, a'i holl ingoedd wedi llaesu, a hâf y nef wedi dod i'w enaid yn lle gaeaf y byd

och chwi oll, gan wneuthur coffa am danoch yn ein gweddïau,
Gan gofio yn ddibaid waith eich ffydd chwi, a llafur *eich* 3

---

—*tanc-nef*. Ni cheir y geiriau "oddiwrth Dduw ein Tad," &c., yn llawer o'r llaw-ysgrifau goreu, a gwelir nad ydynt yn y Cyf. Diw. Hwyrach iddynt gael eu dwyn yma drwy i ryw gopïwr gymysgu y cyfarchiad hwn ag un yr Ail Epistol, pen. i. 2, oblegid mae yn ddiddadl y ceir hwynt yno.

### II.—DIOLCHGARWCH AM HANES LLWYDDIANNUS YR EGLWYS.
i. 2—10.

**ADN. 2.** Yn y frawddeg "yr ydym yn diolch i Dduw" yr oedd Paul yn gwneud defnydd o frawddeg adnabyddus yn y byd paganaidd; fe geid y cyfryw yn fynych wedi ei cherfio ar allorau neu gof-lechau a gyfodid fel aberth-diolch i ryw dduw. Defnyddiai yr Apostol bob gair a brawddeg briodol, yn gystal a phob arfer deilwng, i wneud yr Efengyl a bregethai a'r grefydd a gymhellai yn fwy dealladwy a derbyniol yng nghwahanol ddinasoedd y byd Rhufeinig, ac, wrth gwrs, tywalltai lond pob un o feddwl uwch ac eangach.

Yn ol yr adnod hon yr oedd tri pheth yn nodweddu gweddi yr Apostol dros y Thesaloniaid. (1) Ei chysondeb, "yn wastadol"; (2) ei heangder, "drosoch chwi oll"; (3) ei manylrwydd, "gan wneuthur coffa." Gall yr ymadrodd "gwneuthur coffa" olygu eu "cofio" yn ei weddi, neu ynte eu "nodi" neu eu "henwi" (*to remember or to mention*); ond y tebyg yw mai yr olaf sydd yn iawn, gan fod "cofio" yn y frawddeg nesaf.

**ADN. 3. Yn ddibaid.** Tybia rhai o'r esbonwyr goreu y dylid cysylltu yr ymadrodd hwn â diwedd yr adnod o'r blaen, a darllen "gan wneuthur coffa am danoch yn ddibaid yn ein gweddïau." **Gwaith eich ffydd chwi, llafur eich cariad, &c.** Dyma sail diolchgarwch yr Apostol drostynt. Gwyn fyd y gweinidog ag y mae y nodweddion hyn ar aelodau ei eglwys, yn sail ac yn destun dibrin a diball i'w weddi ar eu rhan. Mae lle i ofni mai cofio am ddiffygion a gwendidau yr aelodau wrth feddwl am danynt sydd yn naturiol i weinidog yn rhy aml yn y dyddiau hyn. Ond gloewder grasusau ac nid dylni beiau gyfodai o flaen meddwl Paul pan y galwai aelodau eglwys Thesalonica i'w gôf. Nid oeddynt heb feiau, a beiau amlwg, a gwyddai Paul yn eitha da am danynt, fel y cawn sylwi eto; ond eu grasusau oedd amlycaf. Hwyrach hefyd fod yma wers i ninnau i geisio edrych ar oreu yr eglwys, heb anghofio ei gwaethaf, ac nid edrych ar ei gwaethaf heb anghofio ei goreu.

Mae lle mawr i ffydd a chariad a gobaith ym mywyd arferol dyn yn y byd; ac y mae y dyn sy'n brin o honynt yn brin ei hunan yng nghlorian bywyd. Ond pan y bywheir ac y meithrinir y doniau hyn gan ras yr Efengyl, y gwelir hwynt yn eu goreu, ac y gwelir dynion yn eu goreu hefyd: oblegid yn yr Efengyl y mae y gwrthrychau teilwng i'r galluoedd hyn, a'r maeth angenrheidiol i'w tyfiant. Feallai fod yma esgyneb yn yr hyn briodolir i'r tri gras yn yr adnod hon: "*gwaith* ffydd,"

cariad, ac ymaros *eich* gobaith yn ein Harglwydd Iesu
4 Grist, ger bron Duw a'n Tad; Gan wybod, frodyr annwyl,
5 eich etholedigaeth chwi gan Dduw. Oblegid ni bu ein
hefengyl ni tu ag atoch mewn gair yn unig, eithr hefyd
mewn nerth, ac yn yr Ysbryd Glân, ac mewn sicrwydd
mawr; megis y gwyddoch chwi pa fath rai a fuom ni yn

---

"*llafur* cariad," ac "*amynedd* (ymaros neu ddioddefgarwch, fel y cyfieithir yr un gair mewn lleoedd eraill) gobaith." Mae y "gwaith" yn myned yn "llafur," a'r "llafur" yn "ddioddefgarwch." Fel y dywed Lightfoot, mae y "llafur" yn cynnwys "gwaith hyd at flinder," ac "amynedd" yn cynnwys y syniad o ddioddefaint ac ing. Mae ffydd yn cynyrchu "gwaith," mae ffydd a chariad yn cynyrchu "llafur," ac y mae ffydd a chariad a gobaith yn cynyrchu "dioddefgarwch" (ystyr amynedd yma).

**Yn ein Harglwydd Iesu Grist.** A gobaith y mae yr ymadrodd yma i'w gysylltu, a'r ystyr neilltuol yma yw ail-ddyfodiad Crist, gwirionedd arbennig yr Epistol, fel y sylwyd yn y Rhagymadrodd. Mae'n debyg mai dyma y rheswm fod gobaith yn olaf yn y rhestr, fel y gallai yr Apostol ei gydio wrth un o faterion pwysicaf ac amlycaf y llythyr.

**Ger bron Duw a'n Tad.** Gellir cysylltu yr ymadrodd hwn (1) â "gan gofio"; (2) â "gwaith eich ffydd . . . . . . Grist"; (3) âg "amynedd eich gobaith . . . . Grist." Ond gan y cysylltir "amynedd eich gobaith" a "yn ein Harglwydd Iesu Grist," mae yn naturiol meddwl fod y frawddeg uchod i'w chysylltu yr un modd. Ymddengys hyn hefyd yn cyfateb yn hollol i'r modd y mae yr Apostol yn cysylltu ymadroddion cyfystyr mewn mannau eraill. Gwel 2 Cor. ii. 17; 1 Thes. iii. 13.

**ADN. 4.** Gwell a chywirach darlleniad fyddai "... frodyr, annwyl gan Dduw, eich etholedigaeth chwi." Wrth i'r Apostol feddwl am danynt, gwelai haen ar ol haen yn eu hanes fel saint oedd yn destun iddo ddiolch i Dduw drostynt. Cyfarcha hwy fel brodyr ddeng waith yn y llythyr hwn, a dengys yma eu bod yn "annwyl gan Dduw" (gwel hefyd Rhuf. i. 7; 2 Thes. ii. 13; Deut. xxxiii. 12; Es. xli. 8, 9) yn ogymaint a bod Duw wedi eu hethol i fod yn bobl iddo Ei Hun o fysg y llu annuwiol oedd o'u cwmpas.

**ADN. 5.** Ymddengys i ni mai y prawf neu y rheswm dros yr hyn ddywedir am eu hetholedigaeth geir yma, ac nid eglurhad ar y modd y daeth eu hetholedigaeth i'r golwg yn ymarferol. Y syniad yma geir yn y gair "oblegid" yn Gymraeg, a "*for*" yn y Cyf. Saes. Ond yn y Cyf. Diw. ceir "now that" a "because" ar ymyl y ddalen. Gellir cyfieithu ὅτι (y gair sydd yn y gwreiddiol) yn y naill wedd neu'r llall, ond gwell gennym ddal at y Cyf. Cymraeg. **Oblegid ni bu ein hefengyl ni tu ag attoch.** Gwell fuasai "Oblegid ni ddaeth ein hefengyl ni atoch." Mae yr Apostol yma yn nodi dau reswm dros gredu yn etholedigaeth y Thesaloniaid: (1) Grym ac effeithiolrwydd ei weinidog-

eich plith, er eich mwyn chwi. A chwi a aethoch yn ddi- 6
lynwyr i ni, ac i'r Arglwydd, wedi derbyn y gair mewn
gorthrymder mawr, gyd â llawenydd yr Ysbryd Glân:
Hyd onid aethoch yn siamplau i'r rhai oll sydd yn credu 7
ym Macedonia ac *yn* Achaia. Canys oddi wrthych chwi y 8

---

aeth; (2) profiad y Thesaloniaid o ddylanwad cymeriad y cenhadon. Nid yw yr Efengyl "mewn gair" i'w dibrisio; dylai ei gwisg fod yn deilwng o'i hurddas, eto nid yw'r Efengyl "mewn gair" yn unig byth yn achub: gall wneud llawer, ond ni all achub. Ni ddylai y gair "mewn" fod o flaen "sicrwydd": "Yn yr Ysbryd Glân a sicrwydd mawr" sydd yn gywir. "Nerth" yw y gair mawr, ac eglurhad arno yw "yn yr Ysbryd Glân," &c. "Sicrwydd" yn meddyliau'r cenhadon fod eu cenadwri yn cyrraedd adre yw'r meddwl. Mae adran olaf yr adnod yn cyfeirio nid yn unig at fuchedd sanctaidd Paul a'i gymdeithion yn Thesalonica, ac at eu hymroad i'w gwaith fel efengylwyr, ond hefyd at symledd eu bywyd, annwyldeb eu cyfeillach, a'u parodrwydd i "weithio nos a dydd" rhag pwyso ar neb. Gwel pen. ii. 5—11.

**ADN. 6.** Mae yr adnod hon yn cynnwys rheswm ychwanegol dros y casgliad y daethai Paul iddo yn ol adnod 4, eu bod yn etholedig gan Dduw, sef effaith yr Efengyl arnynt. Golyga y gair gwreiddiol am "ddilynwyr" nid "followers," ond "imitators," ac ohono y mae y gair Saesneg "mimic" yn dod. Buasai y gair Cymraeg "efelychwyr," yn llawer gwell a chywirach.

**Wedi derbyn y gair,** &c. Gwell fuasai cyfieithu "yn ogymaint ag i chwi dderbyn y gair." ("Participle of identical action," ac nid "of antecedent action" fel y dywed Frame). Am y "gorthrymder" gwel Act. xvii. 5—9. Fel yr oedd Paul yn llawenychu yn ei "ddioddefiadau" (Col. i. 24), ac fel yr oedd Crist Ei hun yn "llawenychu yn yr ysbryd" yn y rhag-olwg arnynt ac yn ddiameu ynddynt, felly yr oedd y saint hyn yn eu "hefelychu." Ac y mae "gorfoleddu mewn gorthrymderau" yn gamp na fedr neb ond Cristion arni.

**Llawenydd yr Ysbryd Glân.** Y llawenydd a gynhyrchir gan yr Ysbryd Glân. Mae gan y byd ei lawenydd, ond y mae ei orthrymderau yn diffodd ei lawenydd; ond y mae yr Ysbryd Glân nid yn unig yn cyfrannu llawenydd yn y gorthrymderau, ond hefyd yn dwyn llawenydd o'r gorthrymderau.

**ADN. 7.** Mae yr "efelychwyr" yn troi yn batrwm—"siampl"—i bawb o'u cwmpas. Nid y maent felly mewn gwirionedd, ond y mae nerth a swyn eu cymeriad yn peri i eraill deimlo eu bod yn "siampl" ac yn ennyn awydd ynddynt i'w hefelychu. Dyma sy'n gwneud crefydd yn heintus: 'does dim modd ei byw yn iawn na bydd eraill yn teimlo ei rhin ac yn awyddus i'w meddu.

**Macedonia ac Achaia.** Y ddwy dalaeth fawr a gynhwysent wlad Groeg. Y gyntaf yn cynnwys tir y gogledd o fôr i fôr, a'r llall y deheu-

seiniodd gair yr Arglwydd, nid yn unig ym Macedonia, ac
*yn* Achaia, ond ym mhob man hefyd eich ffydd chwi ar
Dduw a aeth ar led; fel nad rhaid i ni ddywedyd dim.
9 Canys y maent hwy yn mynegi am danom ni, pa ryw
ddyfodiad i mewn a gawsom ni atoch chwi, a pha fodd y
troisoch at Dduw oddi wrth eilunod, i wasanaethu y byw-
10 iol a'r gwir Dduw; Ac i ddisgwyl am ei Fab ef o'r nefoedd,

---

parth i gyd, yn yr hon yr oedd yr Apostol pan yr ysgrifennai y llythyr (Corinth).

**ADN. 8. Seiniodd.** Mae hwn yn air cryf, a buasai "adseiniodd" yn well cyfieithiad. Mae eglwys fyw yn hysbysu ei hun bob amser; nis gall hi, mwy na'i Sylfaenydd mawr, fod yn guddiedig. Os bydd raid dyfeisio ffordd i wneud eglwys yn hysbys, prawf yw hynny nad yw fel y dylai fod: ni bydd angen i lefain, halen, a goleuni hysbysu eu hunain—nis gallant na wnant hynny. Cyrhaeddodd y sôn am eglwys Thesalonica nid yn unig drwy dir Groeg, ond hefyd i Asia Leiaf a Syria, ac yn ol pob tebyg i'r Ital. Mae Paul yn defnyddio yr ymadroddion "gair yr Arglwydd" a "eich ffydd ar Dduw" am yr un peth yn ymarferol, oblegid effaith y naill yw y llall—dwy wedd ar eglwys lwyddiannus ydynt: y ddwyfol a'r ddynol. Sonir am ffydd "tuag at," "ar," ac "yn Nuw"; mae ei chyfeiriad bob amser "tuag at" Dduw; mae ei hymorffwysiad bob amser "ar" Dduw; ac y mae ei hymddiriedaeth bob amser "yn" Nuw.

**ADN. 9. Canys y maent hwy,** &c. Sef rhai o "bob man," adn. 8. "Nid oes angen i ni gyhoeddi dim, canys y maent hwy ohonynt eu hunain yn gwneud." Yr oeddynt yn mynegi dau beth: (1) Hanes dyfodiad (neu ymweliad—*visit*) y cenhadon i Thesalonica; (2) effaith eu dyfodiad—peri i liaws droi at Dduw. Mae'n amlwg oddiwrth y geiriau hyn mai paganiaid ac nid Iddewon oedd mwyafrif mawr yr eglwys. "Troi at yr Arglwydd," ddywedasid pe y cyfeiriasid at yr Iddewon. Efallai fod y "troi at . . . oddiwrth" yma yn rhoi cyfrif am y "ffydd ar neu tuag at Dduw" yn adn. 8.

**Y bywiol a'r gwir Dduw.** Bywiol, nid yn unig mewn gwrthgyferbyniad i dduwiau meirwon, ond hefyd mewn gwrthgyferbyniad i ddylanwad dirywiol crefydd ffurfiol ac oeraidd yn peri nad oedd y gwir Dduw yn "fywiol" ymarferol. Gwel Hort, "The Christian Ecclesia," tud. 173. "Gwir" yn wrthgyferbyniol i gau a ffug—*real*, *genuine*. Yma yn unig y defnyddia Paul y gair gyfieithir yma yn "gwir" (**ἀληθινῷ**).

**ADN. 10. Ac i ddisgwyl am ei Fab ef.** Yr oedd dwy nodwedd arbennig ar grefydd y Thesaloniaid: (1) Gadael (eilunod), (2) disgwyl yr ail-ddyfodiad. Diau fod hyn yn effaith i nodweddion pregethu Paul a'i gymdeithion. Yr oedd yr ail-ddyfodiad yn cael lle amlwg yn ei ddysgeidiaeth ar y dechreu, ac o hynny y tynnai ei brif gymhelliad i'w wrandawyr i iawn ymarweddu: yn debyg i dôn yr Hen Dest.—"Bydd barod, Israel, i gyfarfod a'th Dduw." Gwedd ar hyn oedd

yr hwn a gyfododd efe o feirw, *sef* Iesu, yr hwn a'n gwaredodd ni oddi wrth y digofaint sydd ar ddyfod.

---

y lle a roddai i'r " digofaint sydd ar ddyfod." Yn wir, ni gawn fod hyn yn nodweddu hanes pregethu diwygwyr neu genhadon, i ddynion mewn dygn anwybodaeth, neu i baganiaid. Dyma welwyd yn dra amlwg yn hanes gweinidogaeth danllyd y diwygwyr yng Nghymru : rhybuddio drwy ddychryn y bobl ; byddai goleu'r farn yn tywynnu ymhob pregeth, a swn y digofaint yn dygyfor ymhob oedfa. Yn ei epistolau olaf, yn ol i fywyd ac angeu yr Arglwydd Iesu yr edrychai yr Apostol am gymhellion i fywyd sanctaidd. Yr oedd hynny, hwyrach, i raddau, yn effaith cynnydd yn ei brofiad ef ei hun, ond yn ddiau yn ganlyniad y tyfiant yng ngwybodaeth a chymeriad y saint a annerchid ganddo.

**Yr hwn a gyfododd Efe o feirw.** Edrychir yma ar adgyfodiad Crist fel prawf o'i ail-ddyfodiad a'r paratoad ar ei gyfer. Efallai fod yn y frawddeg hon hefyd gudd-gyfeiriad at y " Duw byw " yn yr adn. flaenorol. Yr oedd y Thesaloniaid yn ddiau yn gyfarwydd â'r ddysgeidiaeth fod eu duwiau gynt yn abl i'w gwaredu oddiwrth elynion ac erchyllterau oedd o'u blaen cyn ac wedi angeu. Dengys hanes y crefyddau cyfriniol (oedd mewn bri yn amser Paul) hyn yn amlwg. Yr oedd y digofaint y soniai Paul am dano yn fwy ofnadwy na dim a glywsai y Thesaloniaid erioed ; ond yr oedd y waredigaeth hefyd yn rymusach a llwyrach a gogoneddusach, a honno yn waredigaeth drwy Waredwr oedd yn ddyn—Iesu. Soniai y *Mystery Religions* am *God-saviour*, ond dyma *God-man Saviour*—Iesu.

**Yr hwn a'n gwaredodd.** Mae y ferf yma yn y presennol, felly " yr hwn sydd yn ein gwaredu " fyddai yn gywir.

---

## PENNOD II.

Ymhelaethu ar yr hyn ddywedasai yn pen. i. 5—10 y mae yr Apostol yn y bennod hon. Fel y danghoswyd, rhoddi dau reswm a wnai, yn yr adran flaenorol, dros ei gred fod y Thesaloniaid yn etholedigion Duw (adn. 4) : (1) Cywirdeb a gonestrwydd y cenhadon (adn. 5) ; (2) effaith eu cennadwri ar y gwrandawyr. Yma ail ymeifl yn y ddau beth hyn eto, a hynny yn yr un drefn, ond gyda mwy o bwyslais a manylrwydd, yn enwedig ynglyn â'r (1). Felly dyna geir yn adn. 1—12, buchedd a gweinidogaeth y cenhadon yn Thesalonica. Mae peth swn amddiffyn ei hun yn ei eiriau, a diau fod ei elynion yn taenu ensyniadau maleisus yn ei gylch, apelia yntau at wybodaeth a chydwybod yr eglwys. Gwelir yma (1—12) " canys " ac " eithr " yn ymateb i'w gilydd o hyd. Cyfieithiad o **γάρ** ac **αλλά** yw y rhai hyn, a gwelir y naill yn adn. 1, 3, 5—6, a'r llall yn dilyn o hyd yn adn. 2, 4, 7—12. " For " a " but " geir yn Saesneg ; " indeed " ac " on the contrary " yw cyfieithiad Frame. Cyfieithir **γάρ** yn adn. 5 yn "oblegid"

## PENNOD II.

1 CANYS chwi eich hunain a wyddoch, frodyr, ein dyfodiad
2 ni i mewn atoch, nad ofer fu: Eithr wedi i ni ddïoddef
o'r blaen, a chael ammharch, fel y gwyddoch chwi, yn
Philipi, ni a fuom hŷf yn ein Duw i lefaru wrthych chwi

---

ond cywirach fuasai cadw at "canys." Cymysgir y ddau ("canys" ac "oblegid") yn rhy aml yn y Test. New. Nid ydynt yn golygu yr un peth o gwbl, er nad yw y gwahaniaeth yn amlwg bob amser. Dynoda "canys" (**γάρ**) *y rheswm am beth*, ac "oblegid" (**ὅτι**) *yr achos o beth.* (Gwel engraifft o **ὅτι** yn pen. i. 5, lle y cyfieithir ef yn gywir yn "oblegid.")

**ADN. 1. Nad ofer fu.** Cywirach cyfieithiad fuasai "nad gwag fu." Nid at hanes ac effaith y dyfodiad y cyfeiria yr Apostol yn y gair a ddefnyddia, ond at natur a chymeriad y dyfodiad ynddo ei hun, a dyna y gwahaniaeth rhwng "ofer" a "gwag." Nid dyfodiad gwag, di-amcan, a disylwedd fu, ond dyfodiad llawn a chyforiog o feddwl a chalon a sylwedd. (Ceir engraifft o'r gwahaniaeth rhwng "ofer" a "gwag" yn 1 Cor. xv. 14 a 17. Yn adn. 14 "gwag" yw y gair, ond yn adn. 17 "ofer," er mai ofer yw y naill a'r llall yn y cyfieithiad Cymraeg. (Gwel Esboniad Dr. Charles Edwards).

**ADN. 2. Eithr wedi i ni ddioddef,** &c. Daethom atoch o ganol ac er gwaethaf ffwrn dioddefaint ac erledigaeth, rhaid mai nid "gwag" oedd ein dyfodiad, oblegid buasai y profiad tanllyd a gawsom yn Philipi yn ormod i rith a gwag sêl allu ei ddal. Yr oedd yr amharch yn anhaws i Paul ei ddioddef na'r dioddefaint, ac felly y mae ynglyn a phob dyn. Meddyliai Paul yn uchel o'i ddinas-fraint Rufeinig, a theimlai fod y driniaeth greulon yn anfri ar ei urddas fel dinesydd. Am hanes yr erlid fu arno gwel Act. xvi. 19—40.

**Philipi.** Dinas yn nwyreinbarth Macedonia, ar fryn serth ar ymyl dyffryn eang. Yn amser Paul yr oedd yn ddinas ac yn drefedigaeth Rufeinig.

**Ni a fuom hŷf yn ein Duw.** Efallai fod yna gudd-gyfeiriad yn "ein Duw" at eilun dduwiau y paganiaid. Gall "ein Duw" olygu naill ai Duw Paul a'i gymdeithion, neu Dduw y cenhadon a'r rhai a annerchid. Yng nghanol gwaetha'r byd y ceir goreu Duw yn fynych. O Dduw yr oedd yr hyfder yn dod, ac ni bu pall arno. Popeth sy'n dod o Dduw fe'i cynhelir ganddo. Cyfeiria yr hyfder nid at ei wroldeb yn unig, nac yn bennaf, ond at rym ei gennadwri. Cymharer "traethu yn hyf" (Ephes. vi. 20).

**I lefaru . . . efengyl Duw.** Hwyrach mai y rhai a ddioddefodd fwyaf oherwydd yr Efengyl a'i pregethodd yn fwyaf grymus ac effeithiol: y tafodau hyotlaf i draethu yr Efengyl mewn aml gyfnod oedd tafodau y rhai yr oedd gwrymiau a chwysi erledigaeth ar eu cefnau.

**Trwy fawr ymdrech.** Mae y gair a gyfieithir ymdrech yn golygu dau beth: (1) Helbul neu rwystrau oddiallan, fel yn Phil. i. 30 (ym-

efengyl Duw trwy fawr ymdrech. Canys ein cynghor ni 3
nid *oedd* o hudoliaeth, nac o aflendid, nac mewn twyll:
Eithr megis y'n cyfrifwyd ni gan Dduw yn addas i ymddir- 4
ied i ni am yr efengyl, felly yr ydym yn llefaru; nid megis
yn rhyngu bodd i ddynion, ond i Dduw, yr hwn sydd yn
profi ein calonnau ni. Oblegid ni fuom ni un amser 5

---

drin); (2) pryder a phoen meddwl oddi mewn, fel yn Col. ii. 1. Mae yn amhosibl dyweyd i sicrwydd pa un o'r ddau yw yr ystyr yma.

**ADN. 3. Cynghor.** Golyga y gair yr Efengyl a bregethid gan y cenhadon yn ei gwedd apeliadol ac annogaethol, ac efallai y wedd gysurlawn a diddanol arni hefyd. O'r un gair y mae y gair a gyfieithir "Diddanydd" yn dod.

**Nid o hudoliaeth.** Golyga y gair gwreiddiol yn y fan yma "rai yn cael eu hud-ddenu neu eu twyllo," neu "rai yn twyllo eraill." Credwn mai yr olaf yw yr ystyr yma, gan fod yr ystyr gyntaf yn cael ei gynnwys yn y gair "twyll" yn niwedd yr adnod.

**Nac o aflendid.** Tybia rhai esbonwyr o fri y dylid rhoi yr ystyr o "fudr-elw" yn amlwg yn y gair hwn; dadleua eraill gyda mwy o reswm, ni gredwn, mai "aflendid" yn ei ystyr gyffredin o loddest a godineb a thrythyllwch yw ei ystyr. Diau fod crefyddau y wlad yn achlesu y pechodau gwarthus hyn, a bod hyd yn oed yr arferion crefyddol ac addoliad rhai o'r duwiau yn wely brwd i'r drwg-anwydau hyn. Gwyddai Paul yn dda am y ffieidd-bethau yma, ac yr oedd yn awr mewn dinas lle yr addolid y dduwies Gwener, duwies cariad, addoliad yr hon oedd yn llawn o'r arferion mwyaf anllad. Mae'n eitha tebyg y cyhuddai gelynion yr Apostol fod cynulliadau brwd y Cristionogion yn dygyfor gan bethau cyffelyb.

**Nac mewn twyll** (*guile*). H.y., gyda'r amcan o dwyllo. Sylwer ar yr arddodiadau "o" a "mewn," y naill yn golygu y tarddle o'r hwn y deillia peth, a'r llall yr awyrgylch ymha un y ceir peth.

**ADN. 4.** Yr un ferf yw "cyfrifwyd ni yn addas," a "profi" yn niwedd yr adn., ond y golyga y ffurf sydd arni yn yr ymadrodd cyntaf, chwilio peth er mwyn ei gael i ddod i fyny a'r prawf = cymeradwyo; a'r olaf "profi" yn unig. Fe geir yr allwedd i'r adnod hon ond sylwi ar y gair "felly" sydd ynddi, a gofyn "felly" sut? Mae'r atebiad yn ddeublyg: (1) "felly"—"megis y'n cyfrifwyd"; (2) "felly"—"nid megis yn rhyngu bodd i ddynion;" &c. Dau beth ddywed yr Apostol ynddi: (1) Ei fod yn "llefaru" fel un wedi ei brofi gan Dduw; (2) gan ei fod yn gyfryw, ceisio rhyngu bodd Duw ydyw ei amcan, ac nid rhyngu bodd dynion. Mae'r dyn sy'n ymwybodol fod Duw yn ei brofi ac wedi ei gymeradwyo yn rhwym o geisio rhyngu bodd Duw bob amser, ac felly nis gall fod na hoced nac amhuredd na dichell (adn. 3) yn ei waith na'i amcanion un amser.

**ADN. 5. Oblegid.** "Canys" fyddai gywiraf, gwel nodiad ar adn. 1. **Ymadrodd gwenieithus.** Yr unig engraifft yn y Test. New.

mewn ymadrodd gwenieithus, fel y gwyddoch chwi, nac
6 mewn rhith cybydd-dod; Duw yn dyst: Nac yn ceisio
moliant gan ddynion, na chennych chwi, na chan eraill;
7 lle y gallasem bwyso *arnoch*, fel apostolion Crist. Eithr ni
a fuom addfwyn yn eich mysg chwi, megis mamaeth yn

---

o'r gair hwn, a golyga nid "gwenieithio" er mwyn boddio eraill, ond er mwyn manteisio yn bersonnol drwy weniaeth. Apelia yr Apostol at brofiad a gwybodaeth y Thesaloniaid nad oedd wedi ymddwyn fel hyn.

**Rhith cybydd-dod.** Megis y mae "ymadrodd gwenieithus" yn golygu yr "ymadrodd" a ddefnyddir gan weniaeth, felly y mae "rhith cybydd-dod" yn golygu y "rhith" ddefnyddir gan gybydd-dod. (*Subjective genitives*). Y meddwl yw na ddefnyddiodd Paul ei gennadwri yn hugan i guddio ei amcanion hunanol (*cloke of coveteousness = pretext of greediness*). Mae y gair a gyfieithir yn "gybydd-dod" yma yn air eang iawn ei ystyr; nid ariangarwch yn unig ydyw, er ei fod yn cynnwys chwant am arian. Hwyrach y buasai y gair "trachwantus" mor agos at yr ystyr a'r un gair Cymraeg. Cyfeiria at wanc afiach mewn dyn at arian, eiddo, safle, bri, &c., a hynny ar draul diystyru yn hollol hawliau pobl eraill. Geilw yr Apostol Dduw yn dyst nad oedd wedi ei feddiannu gan gymhelliad fel hyn. Yr oedd y Thesaloniaid yn abl i farnu nad oedd yn euog o'r peth cyntaf nodir yn yr adnod, oblegid deuai hynny i'r golwg yn ei ymarweddiad; ond am y llall, ansawdd ei galon oedd, ac nid oedd ond Duw yn gallu profi honno.

**ADN. 6.** "Nac yn ceisio moliant (neu ogoniant) dynion—gennych chwi na chan eraill."

**Lle y gallesem bwyso arnoch**, &c. Cyfeiria y cyfieithiad Cymraeg a Saesneg at hawl yr Apostol a'i frodyr i gael eu cynnal a'u cydnabod gan yr eglwys. Barna rhai esbonwyr o fri mai cyfeiriad sydd yma at ei hawl i anrhydedd yn eu plith. Cyfieitha Frame fel hyn:—"Er ein bod bob amser yn abl i fod mewn safle o anrhydedd megis apostolion Crist." Cyfieithiad Dr. Moffatt yw:—"Er fod gennym, fel apostolion Crist, hawl i fod yn ddynion pwysig (*men of weight*)." Ymddengys i mi, er fod rhesymau cryfion dros y ddau ddarlleniad, fod rhan gyntaf yr adnod yn ffafrio yr olaf. Mae Lightfoot am gyfuno y ddau syniad.

**ADN. 7.** Yn hytrach na honni awdurdod fel dynion pwysig, yr hyn y gallasent ei wneud fel apostolion Crist yn ol adn. 6, buont yn addfwyn ymhlith y crefyddwyr ieuainc megis mamaeth, &c. Cywirach a gwell fuasai y gair "tirion" na'r gair "addfwyn" yma, oblegid tiriondeb yw y gair cymwys ynglyn a thad neu fam (gwel 2 Tim. ii. 24). Mae addfwynder yn air mwy cyffredinol, ac yn un y gellir ei gysylltu â dynion yn meddu y naws honno, heb eu bod yn dadau neu famau. Buasai "ymhlith" hefyd yn well nag "ymysg." Un ynghanol rhai gwahanol iddo ddynodir gan "ymysg"—"lili ymysg y drain"; ond un ynghanol rhai tebyg iddo ddynodir gan "ymhlith,"—"brawd ymhlith ei frodyr."

maethu ei phlant. Felly, gan eich hoffi chwi, ni a welsom 8
yn dda gyfrannu â chwi, nid yn unig efengyl Duw, ond ein
heneidiau ein hunain hefyd, am eich bod yn anwyl gennym.
Canys côf yw gennych, frodyr, ein llafur a'n lludded ni: 9

---

Ond y mae darlleniad arall i'r adnod hon, a hwnnw yn codi oddiar y gwahaniaeth a geir yn y gair a gyfieithir "addfwyn." Yn y prif law-ysgrifau, a chan awdurdodau diweddarach, y gair "plant" geir ac nid y gair "addfwyn." Un lythyren o wahaniaeth sydd rhyngddynt —*ēpioi*=addfwyn; a *nēpioi*=plant. Y cyfieithiad hwn fabwys-iedir gan yr esbonwyr goreu. Yn ol y darlleniad hwn mae rhan gyntaf yr adnod i fod yn frawddeg ar ei phen ei hun, fel hyn: "Eithr ni a fuom megis plant yn eich plith chwi"; a rhan olaf yr adnod i'w chys-sylltu â'r adnod ddilynol fel hyn: "Fel mamaeth yn maethu ei phlant ei hun, felly gan eich hoffi," &c. Ystyr y frawddeg gyntaf yn ol y darlleniad hwn ydyw, fod yr apostolion mor bell o honni unrhyw urddas ac awdurdod swyddogol *yn eu mysg*, fel yr oeddynt yn debycach i blant yn eu plith; a rhaid cydnabod fod y cyferbyniad hwn yn un hollol naturiol ac yn un tra rhagorol. Heblaw hyn, mwy naturiol o'r ddau yw cysylltu "hoffi" adn. 8 â "mamaeth," na'r gair "add-fwyn," oblegid rhaid fydd cysylltu "hoffi" a "mamaeth" yn ogystal ac "addfwyn" pe y mabwysiedid y darlleniad cyntaf; yna ceid "addfwyn" yn "hoffi," yr hyn ni byddai yn naturiol iawn.

**Ei phlant.** Dylid darllen ei phlant ei hun (ἑαυτῆς) i ddangos mai nid *nurse* yn maethu plant rhywun arall olygir.

**ADN. 8. Hoffi.** Mae hwn yn llawer rhy wan; golyga hoffter a dyhead ynddo: "yearning affection" yw cyfieithiad Dr. Moffatt. "Dyheu am danoch" yw yr ystyr yn ol rhai. Efallai y byddai "gan ymserchu ynoch" gystal a dim i osod y meddwl allan yn Gymraeg. Yr oedd serch yr apostolion at y saint a annerchid ganddynt mor angerddol fel y cyfrannent nid yr hyn oedd ganddynt, ond hwy eu hunain iddynt. Yr ystyr yw, eu bod wedi ymwerthu, gorff ac enaid, er eu mwyn.

**Annwyl.** Mae hwn yn air cryf iawn yn y gwreiddiol. Defnyddir ef am gariad at unig blentyn, a dyma'r gair a ddefnyddir gan y Tad am Ei Fab Ei Hun yn Matt. iii. 17.

**ADN. 9. Canys.** Mae y gair hwn yn edrych yn ol at "nac yn ceisio moliant gan ddynion" (adn. 6). Mor bell o geisio gogoniant gennych chwi na chan neb arall oeddym, meddai Paul, fel y llafur-iais i a'm dwylaw fy hun hyd at flino, er mwyn ennill moddion cynhal-iaeth, ac felly osgoi bod yn faich arnoch. Mae'n eitha tebyg fod gan Paul reswm arall dros weithio yn y dull hwn, sef bod yn esiampl i'r Cristionogion, a dangos iddynt fod urddas mewn gwaith a gwarth mewn diogi.

**Llafur a lludded.** Mwy cywir fuasai cyfieithu yn "lludded ac ym-drech." Golyga y gair am lafur, nid y llafur ei hun, h.y. nid y gwaith,

canys gan weithio nos a dydd, fel na phwysem ar neb o
10 honoch, ni a bregethasom i chwi efengyl Duw. Tystion
*ydych* chwi, a Duw *hefyd*, mor sanctaidd, ac mor gyfiawn, a
dïargyhoedd, yr ymddygasom yn eich mysg chwi y rhai
11 ydych yn credu: Megis y gwyddoch y modd *y buom* yn

---

ond effeithiau y llafur arno = blinder, lludded, neu fel y dywedir mewn rhai parthau o'r wlad, "bod wedi ymlâdd." Golyga y gair am "lludded" ymdrech (*struggle*) i orchfygu anhawsterau: felly y mae y cyntaf yn oddefol a'r llall yn weithredol.

**Nos a dydd.** Ar hyn dywed Ramsay (" St. Paul The Traveller," p. 271): " Yr oedd yr oriau cyn dydd yn cael eu galw yn nos. Yr oedd gwaith cyhoeddus yn gorffen yn y dinasoedd Ionaidd gyda'r bumed awr (11 o'r gloch). Fel hyn byddai Paul yn rhydd ar ol y 5ed awr, a byddai y man cyfarfod yn rhydd hefyd; a defnyddid yr amser a roddid yn gyffredin at fywyd cartrefol a gorffwys—at waith cenhadol ganddo ef."

**ADN. 10. Tystion.** Yr oedd y Thesaloniaid yn dystion o'u hymarweddiad allanol, a Duw yn dyst o'r allanol a'r mewnol. Ni allasai neb dynion dystio i ddidwylledd eu hamcanion a phurdeb eu cymhellion; ond yr oedd y cyfan yn noeth ac agored i lygaid Duw. Efallai fod yr adnod hon yn cyfeirio at " rith cybydd-dod " adn. 5; fel y mae adn. 7—9 yn cyfeirio at " foliant gan ddynion," adn. 6, ac adn. 11—12 yn cyfeirio at " ymadrodd gwenieithus," adn. 5. Fellv v tvbia Frame.

**Sanctaidd, cyfiawn, a diargyhoedd.** Cyfeiria y gair cyntaf at ymroddiad i wasanaeth Duw, yr ail at ddynion yn dod i fyny a'r syniad uchel o iawnder cyffredinol, a'r olaf at fywyd difrycheulyd. Y cyntaf yn bennaf yn cyfeirio at Dduw a'i waith; yr ail at y safon uchel sydd i fywyd yn y byd, yn bennaf ynglyn â dynion; a'r olaf at y wedd nacaol i'r ddau. Cyfeiria y cyntaf at eu dyledswyddau yng nghylchoedd crefydd; cyfeiria yr ail at eu dyledswyddau yng nghylchoedd y byd; a chyfeiria yr olaf at y ffaith na allesid eu hargyhoeddi o bechod ynglyn â'r naill na'r llall. Nid yw hyn, wrth gwrs, yn cynnwys eu bod yn berffaith ymhob un o'r pethau a nodir, ond yr oedd eu hymarweddiad y fath yn gyffredinol, fel na allasai neb estyn bys atynt mewn dim; ac apelia yr Apostol at Dduw, fel ei dyst, ei fod yn amcanu ac yn ymawyddu cyrraedd perffeithrwydd hollol. Nid oeddynt " mor sanctaidd a chyfiawn " ag y dymunent fod, ond yr oeddynt wedi cyrraedd tir na allasai neb gyfeirio at feiau amlwg ynddynt (diargyhoedd). Ymdrech a nôd pennaf gweision yr Arglwydd, yn arbennig, ddylai fod, gallu dyweyd yr adnod hon.

**Yn eich mysg chwi y rhai ydych yn credu.** Eu hamcanion a'u cymhellion yn eu perthynas â'r Cristionogion (y rhai oedd yn credu) a amheuid gan y gelynion, neu o leiaf dyna destun eu cabl-eiriau neu eu hensyniadau. Nid yr ystyr yw fod ymddygiad y cenhadon yn wahanol yn y cylch hwnnw ragor mewn cylch eangach.

eich cynghori, ac yn eich cysuro, bob un o honoch, fel tad
ei blant ei hun. Ac yn ymbil, ar rodio o honoch yn deilwng 12
i Dduw, yr hwn a'ch galwodd chwi i'w deyrnas a'i ogoniant.
Oblegid hyn yr ydym ninnau hefyd yn dïolch i Dduw yn 13

---

**ADN. 11, 12.** Credwn fod cyfieithiad Frame o'r adnodau hyn yn un rhagorol iawn, rhoddwn ef yn Gymraeg: "Fel y gwyddoch i ni eich cymell bob yn un ac un, fel tad ei blant ei hun, trwy eich calonogi, a thrwy ymbil arnoch i rodio yn deilwng o Dduw, yr hwn sydd yn eich galw i'w deyrnas a'i ogoniant ei hun." Yr oedd difrifwch ymdrech y cenhadon yn cyfateb i ragoriaeth uchel eu cymeriad (ad. 10), ac hefyd i uchter eu rhagorfraint a'u rhagolygon (teyrnas a gogoniant). Rhaid i bob gweinidogaeth lwyddiannus gadw y ddau beth hyn mewn golwg. Ofer yw "cyngor" os na bydd grym cymeriad y cynghorwr y tu cefn iddo; pelen heb bylor yw cyngor heb gymeriad. Dylai rhagolygon a rhagorfreintiau yr Efengyl hefyd dywynnu drwy'r bregeth: dylid apelio at anrhydedd dynion yn wyneb y fath alwedigaeth ag sydd gan yr Efengyl. Mae'r ffaith fod Duw yn galw yn ddigon i annog pob dyn i wrando, ond y mae gan Dduw ddarpariaeth yn Nghrist, deilwng o hono Ef ei hun; mae ganddo deyrnas, a theyrnas ag y mae Ei ogoniant pennaf ynddi, ac y mae yr alwad yn alwad i freintiau y deyrnas ac i olud ei gogoniant. Mae modd pregethu dyledswydd yn gyson a da, ac eto i'r cyfan fod yn oer ddigon. Dylai dyledswydd gael ei goleuo a'i chynhesu gan y fraint oruchel. Dylai yr apel fod nid at gydwybod yn unig, ond at anrhydedd dyn a'i uchelgais. Sylwer ar ysbryd ei gymhellion hefyd—"fel tad ei blant ei hun." Yr oedd gan Paul awdurdod apostol, nid awdurdod swydd yn bennaf, ond awdurdod y cymhwyster uchaf i'r swydd; 'roedd yn athraw heb ei fath; yn raddol y mae yn dod i'w le yn syniad yr eglwys a'r byd; ac y mae yn deilwng o sylw mai yn y cyfnod y mae ei epistolau wedi ei beirniadu fanylaf a llymaf y mae efe ei hun yn dod yn fwy o destun edmygedd goreugwyr y byd. Er y cyfan wele y gwr dihafal hwn yn trafod crefyddwyr anaddfed mor dyner ag y mae tad yn trafod ei blant ei hun. Rhyfedd y cyfuniad o awdurdod a thynerwch geid ynddo.

*Cynhwysa adn.* 13—16 *ddiolchgarwch am y modd y derbyniodd y Thesaloniaid genadwri yr apostolion.*

Wedi ymhelaethu ar ei lafur ef ei hun a'i gymdeithion yn Thesalonica, mae'r Apostol yn yr adnodau hyn yn cyfeirio at y derbyniad teilwng a roddwyd i'w cenadwri. Yn hyn dywed eu bod yn gyffelyb i'r Cristionogion Iddewig, a bod yr erledigaeth yn y naill gylch a'r llall yn gyffelyb. Arweinia hyn ef i ddisgrifio canlyniadau alaethus erlidigaeth yr Iddewon anghrediniol arnynt eu hunain.

**ADN. 13. Oblegid hyn.** Diolcha yr Apostol am y nerth a gawsant i fyw a gweinidogaethu yn deilwng yn eu plith. Yr oedd eu cymeriad yn deilwng o'u cenadwri.

ddibaid, o herwydd i chwi, pan dderbyniasoch air Duw,
yr hwn a glywsoch gennym ni, *ei* dderbyn *ef* nid *fel* gair dyn,
eithr, fel y mae yn wir, yn air Duw, yr hwn hefyd sydd yn
14 nerthol-weithio ynoch chwi y rhai sydd yn credu. Canys
chwychwi, frodyr, a wnaethpwyd yn ddilynwyr i eglwysi
Duw, y rhai yn Judea, sydd yng Nghrist Iesu; oblegid
chwithau a ddïoddefasoch y pethau hyn gan eich cyd-genedl,

---

**Ninnau hefyd.** Cymer yn ganiataol eu bod hwy yn diolch am yr hyn a gawsant, a dywed yma eu bod hwythau hefyd yn diolch am yr hyn roisant. Diolcha hefyd i Dduw am y modd y derbyniodd y Thesaloniaid ei genadwri. Yr oedd yna gyd-gyfarfyddiad o deilyngdod, cenadwri deilwng, cenhadon teilwng, a derbyniad teilwng, a diolcha yr Apostol am bob un o honynt. Derbyniwyd y genadwri yn deilwng o'i tharddiad, "gair Duw," dyma yr unig dderbyniad teilwng o'r Efengyl. Derbynnir hi gan lawer fel gair dyn, er yn credu a'u deall, hwyrach, mai gair "Duw ydyw," nid fel "gair Duw" y maent yn ei derbyn, ac am hynny bâs ac arwynebol yw ei heffeithiau. Nid yw "gair Duw" yn "nerthol-weithio" ond pan y'i derbynnir yn deilwng. Dengys brawddeg olaf yr adnod mai parhau i gredu ydyw amod effeithiolrwydd y "gair." Enaid crediniol yw'r tir da yn yr hwn y gall "Gair Duw" wreiddio a thyfu a dwyn ffrwyth. Mae calon anghrediniol yn greigle sydd yn atal yr hâd goreu rhag tyfu.

**ADN. 14. Canys.** Daw yr adnod hon i fewn fel rheswm am yr hyn ddywedwyd yn yr adnod flaenorol, sef eu bod wedi derbyn yr Efengyl yn deilwng, a bod yr Efengyl honno yn nerthol weithio ynddynt —prawf o hynny oedd eu bod yn dioddef erledigaeth yn llawen.

**Dilynwyr.** Efelychwyr (gwel pen. i. 6). Mae modd dilyn, yn ystyr eang y gair, heb efelychu. Yr oedd y Thesaloniaid hyn yn "efelychu" saint Iudea. Diau fod Paul wrth eu cefnogi a'u calonogi yn wyneb yr erledigaethau y gwyddai oedd wrth y drws, wedi cyfeirio at ymddygiad y Cristionogion Iddewig dan amgylchiadau cyffelyb. Yn awr canmola ei ddarllenwyr am eu bod wedi gwrando arno ac wedi dod yn efelychwyr i'r rhai a roddasai yn batrwm iddynt.

**Eglwysi Duw yng Nghrist Iesu.** Ychydig o wahaniaeth sydd rhwng ystyron y geiriau "synagog" ac "eglwys." Golyga y cyntaf "alw ynghyd" a'r ail "alw allan." Mae'n debyg i'r Iddewon ddal eu gafael yn y gair "synagog" ac i'r Iddewon Cristionogol afael yn y gair "eglwys." Eto mae engreifftiau fel arall i'w cael, ond efallai mai eithriadau ydynt (gwel Iago ii. 2). *Zahn, Vol.* 1, 94, 99, 212. Gan y defnyddid y gair "eglwys" ac "eglwys Dduw" weithiau gan yr Iddewon anghrediniol, ychwanega yr Apostol yr ymadrodd "yng Nghrist Iesu," er mwyn dangos yn eglur at ba "eglwysi" y cyfeiriai, h.y., yr eglwysi Cristionogol.

Mae yr adnod hon yn profi yn amlwg mai cenhedloedd oedd mwyafrif yr eglwys yn Thesalonica. Gwel y Rhagymadrodd. Diau mai yr

megis hwythau gan yr Iuddewon: Y rhai a laddasant yr 15
Arglwydd Iesu, a'u prophwydi eu hunain, ac a'n herlidiasant
ninnau ymaith; ac *ydynt* heb ryngu bodd Duw, ac yn erbyn
pob dyn; Gan warafun i ni lefaru wrth y Cenhedloedd, 16

---

Iddewon gychwynodd yr erledigaeth yn Thesalonica fel y dengys Llyfr yr Actau, ond llwyddasant i gyffroi y Groegiaid nes peri iddynt hwy gario yr erledigaeth ymlaen gyda llymder mawr. Ffydd y saint gyffrodd yr erledigaeth, a'u ffydd a'u cynhaliodd yn ddiysgog o dani.

**ADN. 15.** Trwy gydol ei ail daith genhadol yr oedd yr Apostol yn cael ei flino gan chwerwder, cenfigen, malais a dichell yr Iddewon. Er pan ddaethai i Ewrop yr oeddynt yn cynllwyn yn ei erbyn ymhob dinas, a diau fod hyn wedi cythruddo ei natur drwyddo, ac mai dyna rydd gyfrif am yr arllwysiad sydyn hwn o'i deimlad ynglyn â hwynt. Nid yn unig yr oeddynt wedi erlid y prohwydi gynt (Matt. xxiii. 31—37), ac wedi ymlid Paul a'i gymdeithion o aml ddinas, gan gyffroi digofaint eraill yn eu herbyn, ond "lladdasant yr Arglwydd Iesu," h.y., "lladdasant yr Iesu yr Arglwydd," oblegid dyna yn ol Lightfoot lawn ystyr y frawddeg. Mwyaf fyddai y proffwyd, mwyaf fyddai eu llid hwythau ato, ac yn ymddanghosiad y "Proffwyd Mawr" y cyrhaeddodd eu drwg-anwydau ei eithaf-bwynt.

Gwelir fod y ddwy ferf gyntaf yn yr adnod yn yr amser gorffennol, a'r ddwy olaf yn yr amser presennol. Cystal a dyweyd: "dyna—lladd ac erlid—*fu* eu hanes; yn awr digio Duw a gwrthwynebu pob dyn *yw* ei hanes." Yr oeddynt yn digio Duw yn arbennig drwy roi eu hegni i rwystro i'r Efengyl gael ei phregthu ymysg y Cenhedloedd. Yr oedd eu culni mor groes i eangder yr Efengyl, a'u hunanoldeb mor groes i gariad Duw, fel yr oeddynt nid ar adegau mewn gweithredoedd yn digio Duw, ond yr oedd drygnaws gwastadol eu hysbryd yn gwrthdaro yn ei erbyn. Tybia rhai esbonwyr, megis Jowett, fod yr ymadrodd "yn erbyn pob dyn" yn cyfeirio at ddiystyrwch naturiol yr Iddewon at bob cenedl arall, a chyfeiriant at eiriau o eiddo Tacitus sydd yn cynnwys syniad cyffelyb. Ond ymddengys i ni y buasai dwyn y drwgdeimlad cenhedlaethol hwn i mewn yma braidd yn annaturiol. Credwn yn hytrach mai yr ystyr yw fod yr Iddewon drwy wrthwynebu yr Efengyl yn rhwystr i fuddiannau uchaf dynion.

**ADN. 16. Gan warafun.** Dangosasant eu gwrthwynebiad a'u gelyniaeth at Dduw a dynion yn eu gwaith yn "gwarafun," &c.

**I gyflawni ei pechodau, &c.** Effaith neu ganlyniad ymddygiad o'r fath oedd fod mesur eu pechodau yn cael ei gyflawni. Gall "i" (gyflawni) olygu naill ai amcan neu ganlyniad ("εἰς τό may denote either purpose or conceived result"—Frame). Yr ystyr yma yw fod ymddygiad yr Iddewon anghrediniol, cyn Crist, yn nyddiau Crist, ac ar ol hynny yn llanw cwpan eu heuogrwydd (gwel "cyflawni anwiredd"—Gen. xv. 16) yn araf ond yn gyson drwy yr oesoedd; o'r diwedd mae y dafnau olaf wedi disgyn i'r cwpan nes y mae yn treiglo drosodd. Dyma yw ystyr y geiriau yn ddiamheuol.

fel yr iachêid hwy, i gyflawni eu pechodau hwynt yn was-
tadol: canys digofaint *Duw* a ddaeth arnynt hyd yr eithaf.
17 A ninnau, frodyr, wedi ein gwneuthur yn amddifaid am
danoch dros ennyd awr, y'ngolwg, nid yng nghalon, a fuom
fwy astud i weled eich wyneb chwi mewn awydd mawr.

---

**Canys digofaint Duw, &c.** Mae gwahaniaeth barn ymhlith esbonwyr pa un ai at yr hyn oedd eisoes wedi cymeryd lle, ai ynte at yr hyn oedd ar ddyfod y cyfeiria y geiriau hyn. Nid oes sicrwydd ymha amser y mae y ferf "a ddaeth," pa un a ddynoda yr amser perffaith ai ynte yr *aorist*, yr hwn all olygu amser prophwydol, er fod ffurf y gorffennol arno. Tueddwn i gredu mai cyfeiriad at y dyfodol sydd yma yn ogymaint a bod yr ail-ddyfodiad yn un o wirioneddau amlycaf yr epistol, ac efallai yr amlycaf oll. Honnir gan rai fod yr ymadrodd "hyd yr eithaf" yn cyfeirio nid at *fesur* y digofaint ond at *adeg* ei ymddanghosiad, a chyfieithant "o'r diwedd (*at last*) digofaint Duw a ddaeth arnynt." Braidd na thybiwn fel arall. Yr oedd digofaint Duw wedi ei ddangos lawer gwaith at y genedl, ond yn awr y mae ar ymddangos yn ei eithaf. Efallai fod dinistr Jerusalem ym meddwl yr Apostol hefyd, er nad oedd ganddo syniadau clir am hynny, eto gwyddai fod yr Arglwydd Iesu wedi rhaghysbysu hynny.

**ADN. 17.** O'r adnod hon hyd Pen. iii. 10 mae yr Apostol yn dangos pa mor bryderus yr oedd yn eu cylch, a pha mor awyddus oedd am eu gweled. Yr oedd ei elynion yn Thesalonica yn ceisio profi trwy ensyniadau a honiadau ei fod wedi llwyr anghofio yr eglwys yno, fod buddiannau eraill wedi myned a'i sylw, a phobl eraill wedi myned a'i fryd. Mae yntau yn yr adran hon yn amddiffyn ei hun yn wyneb edliwiadau o'r fath.

**Gwneuthur yn amddifaid.** Defnyddir y gair am "amddifad" i ddynodi, gan amlaf, amddifadrwydd plentyn wedi colli ei rieni: er y ceir ef yn fynych mewn ystyr gyffredinol; ac wrth gofio yr hyn a ddywed yr Apostol yn adn. 7 mae'n eitha tebyg mai amddifadrwydd plentyn oedd o flaen ei feddwl wrth ddefnyddio y gair yn y fan hon.

**Dros ennyd awr.** Mae y geiriau yn dynodi tymor byrach na'r ymadrodd "dros amser" a geir mewn mannau eraill. Am amser byrr y tybiai y cenhadon ar y dechreu y byddent yn absennol o Thesalonica.

**Yngolwg nid ynghalon.** Absennol o ran lle ydym, presennol o ran ysbryd; nid "allan o olwg allan o feddwl," fel y mae yn fynych yn y byd. Yn wir y mae yr absenoldeb allanol yn gwneud y presenoldeb mewnol yn fwy gwir a dwys.

**A fuom fwy astud.** Nid yw y cyfieithiad hwn yn ddigon cryf yn ol esboniad rhai. Golyga y gwreiddiol, meddent hwy, "awyddfryd angerddol," felly y darllenna Frame. Darlleniad Dr. Moffatt ydyw: "We were the more eager to see you. We had a keen longing for you." Gwelir felly fod hiraeth yn dod i fewn yn y frawddeg olaf:

Am hynny yr ewyllysiasom ddyfod atoch (myfi Paul, yn 18
ddïau,) unwaith a dwywaith hefyd ; eithr Satan a'n lludd-
iodd ni. Canys beth *yw* ein gobaith ni, neu *ein* llawenydd, 19
neu goron *ein* gorfoledd ? onid chwychwi, ger bron ein
Harglwydd Iesu Grist yn ei ddyfodiad ef ? Canys 20
chwychwi yw ein gogoniant a'*n* llawenydd ni.

---

" mewn awydd mawr." Gellir bod yn dra awyddus i weled un, heb wybod am ddyhead hiraethus am ei weled ; gellir teimlo y cyntaf ynglyn â pherson na welwyd erioed, ond yr olaf ynglyn â rhai annwyl iawn.

**ADN. 18.** Mae yr Apostol yn ysgrifennu yn y lliosog o hyd, fel y sylwyd, ond ynghanol yr adnod hon gedy ei ddull arferol er mwyn rhoi pwyslais arbennig ar ei fwriad a'i deimlad ef ei hun. Dylid cofio hefyd ddarfod i Timotheus ymweled â Thesalonica, fel nad allasai yn yr adnod hon yn fanwl ei gynnwys ef. Ni wyddom at ba adegau y cyfeirir yn yr " unwaith a dwywaith " yma ; efallai mai pan yr ail-ymunodd Silas a Thimotheus ag ef yn Athen, a'r adeg y dychwelodd Timotheus o Thesalonica i Gorinth.

**Eithr Satan a'n lluddiodd ni.** Tybia rhai mai ffordd neilltuol Paul o ddyweyd fod gwrthwynebiadau ac atalfeydd anorfod ar ei ffordd yw hyn. Ond ein barn ni yw fod Paul yn credu yn bendant ym modolaeth Satan. Cawn fod cenhadon a phregethwyr enwog yn credu ym modolaeth bersonol y diafol, *e.g.*, Luther. Nid ydym yn gwybod am un dyn sobr ei feddwl a difrifol a byw ei ysbryd yn siarad yn ddibris am y diafol. Yr oedd yn bod i'n Gwaredwr, ac ni ddywedai Ef byth eiriau ysgafn yn ei gylch : " Tywysog y byd hwn " a " thywysog llywodraeth yr awyr " yw rhai o'r ymadroddion a ddefnyddia. H.y., yr oedd yn rhywun mawr, mawr drwg mae'n wir, ond mawr er hynny —tywysog, nid corach oedd.

Pa fodd y lluddiwyd Paul a'i gymdeithion ofer yw dyfalu. Gwaeledd mawr medd rhai ; y " swmbwl yn y cnawd " medd eraill ; amgylchiadau blinion parhaus yn y mannau yr arhosai, medd eraill. Rhaid i ni foddloni ar y ffaith yn unig, pe buasai o ryw werth i ni wybod rhagor mae'n debyg y cawsem wybod.

**ADN. 19. Canys, &c.** Y rheswm nodir yma am awyddfryd Paul, yn ol yr adnod flaenorol, i ymweled a'i ddarllenwyr. " A phwy," fel pe dywedasai, " y carwn ymweled os nad â chwi, oblegid chwi yw ein popeth ni. Mae eich gobaith chwi yn obaith i ninnau, a'ch llawenydd chwi yn llawenydd i ninnau ; a chwi fydd ' talaeth ein gorfoledd ' (nid coron (*crown*), ond *diadem*) gerbron ein Harglwydd Iesu Grist" Nid yw yr Apostol yn dyweyd na byddai eglwysi eraill hefyd fel hyn iddo yn y dydd hwnnw. Mae ffurf yr ymadrodd a gyfieithir " onid chwychwi " yn dangos mai ei ystyr yw : " Onid ydych chwithau hefyd," ἢ. . . καὶ (ἢ *disjunctive particle*). Yr ystyr felly yw : " Os nad ydych chwi, nid oes neb arall."

## PENNOD III.

1 AM hynny, gan na allem ymatal yn hŵy, ni a welsom
2 yn dda ein gadael ni ein hunain yn Athen ; Ac a

---

Edrychai yr Apostol, yn y tymor hwn o'i hanes, ar ail-ddyfodiad Crist fel ymddanghosiad rhwysgfawr a mawreddog iawn, yn yr hwn y byddai y saint yn ymddangos mewn gogoniant digymar, a'r anghyfiawnion mewn gwarth a gwaradwydd heb ei fath. Yn y "dydd hwnnw" y Cristionogion y bu yr Apostol yn foddion i'w hennill i'r ffydd fyddai ei obaith a'i lawenydd, &c. Byddai ganddo ei "obaith a'i lawenydd a choron gorfoledd" personnol fel pob un o'r saint, ond byddai ganddo ef ragor na hynny, oblegid byddai y rhai y bu yn offeryn i'w "troi" yn ffynhonell arall o lawenydd iddo. Dyma ragolygon ardderchog i weinidogion y Gair ac i bwy bynnag a fydd yn offeryn i droi pechadur. Y gair a ddefnyddia Paul yma am "ddyfodiad" (*parousia*) oedd y gair a ddefnyddid yn y byd Iddewig am *ddyfodiad brenhinol*. A dyma y tro cyntaf i'r Apostol gymhwyso y gair at ail ddyfodiad Crist. Gyda hyn, fel llu o engreifftiau eraill, cymhwyso geiriau adnabyddus i osod allan wirioneddau yr Efengyl yr oedd Paul (adn. 20). Chwi fydd ein llawenydd a'n gorfoledd, canys chwi ydyw ein gogoniant a'n llawenydd yn awr. Am draethiad llawnach ar yr "ail-ddyfodiad" gwel yr ysgrif yn y Rhagarweiniad (tud. xxxv.).

---

### PENNOD III.

Parhad yw y bennod hon o'r hyn y cychwynodd yr Apostol ei fynegi yn pen. ii. 17 (gwel yno), ac nid oedd dim yn galw am ddechreu pennod newydd, gan mai adrodd yr hanes yn syml a wneir o ii. 17 hyd iii. 10.

**ADN. 1. Am hynny.** Sef *am* neu *oherwydd* eu cariad at yr eglwys yn Thesalonica a'u hawydd a'u hiraeth am eu gweled.

**Gan na allem ymatal yn hwy.** Cyfieithir y ferf am "ymatal" yn 1 Cor. ix. 12 yn "oddef," ac yn 1 Cor. xiii. 7 yn "ddioddef." Gellid gosod allan yr ystyr mewn Cymraeg cyffredin fel hyn : "Gan na allem ddal yn hwy." Y meddwl yw fod aros fel yr oeddynt heb anfon rhywun at y Thesaloniaid wedi mynd yn annioddefol. Aberth nid bychan oedd i Paul ollwng Timotheus, gan fod mor anodd iddo ei hebgor, a chan fod unigedd mewn lle dieithr yn faich llethol i wr mor gymdeithasgar a'r Apostol. Ond gwell oedd ganddo ddioddef llawer ei hun na pheryglu llwyddiant a diogelwch crefyddol y Thesaloniaid. Sylwer mai nid "ein gadael ein hunain" ddywed yr Apostol, ond "ein gadael ni, ein hunain," h.y. cyfieithiad o *alone* ydyw "ein hunain." ="ein gadael ni mewn unigedd," neu "ein gadael ar ein pennau ein hunain." Ar un olwg mae'n sŷn fod teimladau yr Apostol mor angerddol at y saint hyn ; anfynych y mae dyn o rym meddwl eithriadol yn dangos teimladau angerddol. Ond personoliaeth heb ei bath oedd yr eiddo Paul : yr oedd yn gymaint o genhadwr ag oedd o ddiwinydd, ac y mae teimlad caruaidd yn un o anhebgorion cenhadwr llwydd.

ddanfonasom Timothëus, ein brawd, a gweinidog Duw, a'n cyd-weithiwr yn efengyl Crist, i'ch cadarnhâu chwi,

---

iannus. Y mae crefydd Crist yn puro ac yn grymuso teimlad naturiol, ac nid oes y fath gariad i'w gael a chariad brawdol, ond y cariad dwyfol sydd yn gynllun o hono ac yn feithrinfa iddo.

**ADN. 2. Timothëus.** Genedigol o Lystra, ei dad yn Roegwr a'i fam yn Iddewes. Dygwyd ef i fynu yn y ffydd Iddewig gan ei fam. Ar ymweliad Paul â Lystra yn ystod ei daith genhadol gyntaf dychwelwyd Timotheus ieuanc at Gristionogaeth, drwy ei offerynoliaeth. Yr oedd swyn y cymeriad tyner a llednais yn amlwg ynddo, a diau i hynny dynu sylw Paul ac ennyn ynddo hoffter mawr ato. Ar ailymweliad Paul â Lystra penderfynodd gymeryd Timotheus yn gydymaith gydag ef, yn lle Marc. Tybir fod ei dad erbyn hyn wedi marw. Gan mai arfer Paul oedd pregethu yn gyntaf i'r Iddewon ymhob man yr elai, ac y byddai presennoldeb un heb ei enwaedu yn dramgwydd iddynt, penderfynodd Paul enwaedu Timotheus, a gwnaeth hynny yn ol pob tebyg a'i law ei hun. (Gwel Hort, " The Christian Ecclesia," pp. 178-188). Mae hoffter Paul ohono yn cynnyddu fwy-fwy; edrychai arno fel ei fab (Phil. ii. 22, a'r Epistolau at Timotheus). Ymroddodd Timotheus i wneud gwaith efengylwr yn Thesalonica; a phan y daeth yr erledigaeth yno yn ei grym cawn yn ol yr Actau xvii. i'r brodyr ddanfon Paul a Silas i Berea; gan na enwir Timotheus tebyg yw iddo ef gael ei oddef am nad edrychid arno ond megis cydymaith i Paul, ac nid fel cyd-weithiwr. Modd bynnag, ymunodd â Phaul yn fuan, a phan y bu raid i'r Apostol symud i Athen arhosodd Silas a Thimotheus yn Berea: ond wedi derbyn gorchymyn gan Paul ailymunasant ag ef yn Athen. Wedi derbyn newyddion am sefyllfa orthrymedig yr Eglwys yn Thesalonica, penderfynodd Paul anfon Timotheus yno yn ebrwydd. Mae'n debyg iddo anfon Silas hefyd tua'r un adeg i rywle arall—Berea yn ol pob tebyg. Paham yr anfonwyd Timotheus ac nid Silas i Thesalonica? Efallai mai y prif reswm oedd fod y ffordd yn agored i Timotheus i fyned yno; nid oedd, yn ol pob tebyg, wedi ei yrru oddiyno fel Paul a Silas, megis na charcharwyd ef fel hwy yn Philipi, ac felly na waherddid iddo ddychwelyd yno ar ol ymadael. Mae'n debyg hefyd fod ynddo gymhwysterau personol at y gwaith; er mai nid cryfder oedd ei nodwedd, eithr addfwynder a thynerwch, eto yr oedd y nodweddion hyn yn oll-bwysig mewn un oedd i ymweled ag eglwys ynghanol erledigaeth a gorthrwm.

**ADN. 2. Brawd, gweinidog Duw, cyd-weithiwr.** Nid yw yn eglur beth oedd yn y testun gwreiddiol am y geiriau uchod, ac y mae y Saesneg a'r Cymraeg wedi cyfuno geiriau geir yn y gwahanol MSS. Mae un peth yn amlwg, ni ddylai " gweinidog " a " cyd-weithiwr " fod i mewn. Pa un o'r ddau ddylai fod? Ar y cyfan mae mwy o awdurdod dros adael " gweinidog " allan. Dywed Lightfoot fod yr ymadrodd " cyd-weithiwr Duw " wedi dychryn rhyw gopïwyr nes darfod iddynt ymyrryd a'r testun, ac i rai o honynt (B) adael allan y

3 ac i'ch diddanu ynghylch eich ffydd ; Fel na chynhyrfid
neb yn y gorthrymderau hyn : canys chwychwi eich hunain
4 a wyddoch mai i hyn y'n gosodwyd ni. Canys yn wir pan

---

gair " Duw," ac i eraill (S) newid " cyd-weithiwr " i " weinidog." Yn ol pob tebyg dylid darllen " ein brawd a chyd-weithiwr Duw." Ceir yr un ymadrodd yn 1 Cor. iii. 9. Felly " cyd-weithiwr Duw yn efengyl Crist " y geilw yr Apostol Timotheus, ac nis gallesid meddwl am deitl pwysicach ac anrhydeddusach.

**I'ch cadarnhau ac i'ch diddanu ynghylch eich ffydd.** Gwell fyddai cyfieithu y gair geir yma am "diddanu" yn "galonogi" neu "symbylu" (*to encourage*). Y syniad yw fod anfoniad Timotheus atynt a'i amcan i'w sefydlogi a'u cadarnhau yn yr hyn oeddynt, ac hefyd i'w cymell i egnïon ychwanegol mewn perthynas (ynghylch) i'w ffydd. Nid gwrthrychau ffydd olygir, h.y., nid yr Efengyl fel y golyga y gair weithiau, ond y gras mewnol o ffydd. Angen y Cristion bob amser yw cadernid i ddal, ac ynni i wneud (gwel Phil. i. 27: "sefyll"—"cyd-ymdrech ").

**ADN. 3. Fel na.** Ar y cyfan credwn mai canlyniad y " cadarnhau " a'r " calonogi " ddynodir yma, ac nid yr amcan.

**Chynhyrfid.** Ymddengys mai ystyr wreiddiol y ferf yw " mynwesu," " hudo," " gwenieithio," a defnyddir hi am gi yn ysgwyd ei gynffon ; yna daeth i olygu swyno, cyfareddu, neu hud-ddenu ; ac y mae yn dra thebyg mai dyma yr ystyr a ddylid ei roddi i'r gair yn y fan hon, ac nid yr ystyr sydd yn y gair " cynhyrfu." " Fel na byddo i neb yn yr helbulon hyn ymado oddiar lwybr gwirionedd drwy gael ei hud-ddenu i fywyd esmwythach."

**Neb.** Dywed Zahn (" Introd. to the New Testament," Vol. I., p. 218) fod yr awydd i ddanfon Timotheus yn gynnyrch, nid ofn rhag i ffydd yr eglwys fel eglwys gael ei siglo gan erledigaeth, ond pryder rhag i bersonnau unigol o dan faich gorthrymder gael eu hudo i edrych yn ddibris ar eu troedigaeth at grefydd Crist.

**Canys chwi eich hunain a wyddoch, &c.** Yr ystyr yw fod yr Apostol wedi eu dysgu fod Duw yn goddef ac yn trefnu gorthrymderau i'w bobl. Nid yw yma yn dyweyd pa reswm oedd dros hynny, cyfeirio at y ffaith yn unig oedd yn angenrheidiol. Cyfieithiad Dr. Moffatt yw : " Troubles are our lot, you know that well " (" Helbulon yw ein rhan, chwi wyddoch hynny yn dda."). *Gosod* yn yr ystyr o apwyntio neu ordeinio yw y meddwl, yr un gair ag a geir yn Luc ii. 34 : " Hwn a osodwyd yn gwymp ac yn gyfodiad." Nid yw y " ni " yn niwedd yr adnod yn cyfeirio at yr apostolion neu y cenhadon ; yn hytrach Cristionogion yn gyffredinol a olygir. Un o'u nodweddion y pryd hwnnw oedd " y rhai a erlidir o achos cyfiawnder," ac yr oedd eu gwynfyd yn yr erledigaeth. Felly nôd o ragoriaeth arnynt oedd y gorthrymderau a gyfarfyddent.

**ADN. 4.** Prawf geir yn yr adnod hon o'r hyn a ddywed yr Apostol yn yr adnod flaenorol, sef y gwyddai y Thesaloniaid fod gorthrymderau

oeddym gyd â chwi, ni a rag-ddywedasom i chwi y gorth-
rymid ni; megis y bu, ac y gwyddoch chwi. O herwydd 5
hyn, minnau, heb allu ymatal yn hŵy, a ddanfonais i *gael*
gwybod eich ffydd chwi; rhag darfod i'r temtiwr eich
temtio chwi, a myned ein llafur ni yn ofer. Eithr yr awr- 6
hon, wedi dyfod Timothëus attom oddi wrthych, a dywedyd

---

i gyfarfod y saint. Chwi wyddoch, meddai'r Apostol, canys dywedasom hynny ymlaen llaw dro ar ol tro wrthych. Mae amseriad y ferf "rag-ddywedasom" yn dynodi fod y cenhadon yn arfer a dyweyd. Mae'n debyg fod y gwrthwynebwyr yn defnyddio y ffaith fod erlid yn bod fel rheswm dros honni nad oedd eu crefydd yn un wirioneddol, tra y danghosai Paul mai arwydd o'i gwirioneddolrwydd oedd yr erledigaeth.

**Y gorthrymid ni.** H.y., fod Cristionogion yn sicr o gael eu gorthrymu. Nid y saint yn Thesalonica yn unig. Mynegi gwirionedd cyffredinol y mae yr Apostol.

**ADN. 5. Oherwydd hyn.** Sef am fod yr erledigaethau eisoes wedi digwydd.

**Minnau hefyd.** Dyry yr Apostol bwyslais ar y rhan flaenllaw a gymerodd ef ynglyn ag anfoniad Timotheus. Nid yw drwy hyn yn cau allan gydweithrediad Silas yn y danfoniad.

**Heb allu ymatal yn hwy.** Gwel ar adn. 1.

**I gael gwybod eich ffydd chwi.** Gwyddai Paul fod angen eu "cadarnhau" a'u "calonogi," yr amcan a nodwyd o'r blaen i ymweliad Timotheus, oblegid y mae y fath angen ar bawb yn y fath amgylchiadau. Yn awr dyry reswm arall dros ei waith yn anfon Timotheus, sef er mwyn iddo gael gwybod hanes eu ffydd: rhag ofn fod y temtiwr wedi eu hudo oddiar y ffordd, a thrwy hynny ddadwneud y gwaith a wnaed gan y cenhadon. Diau mai nid at gyfan-gorff yr eglwys y cyfeiria Paul, ond at ryw rai yn eu plith, *e.g.*, "fel na chynhyrfid ***neb*** yn y gorthrymderau hyn," adn. 3.

**ADN. 6. Yr awrhon.** Cyfeiriad at adeg, nid ymresymiad. Ond â pha beth y mae i'w gysylltu? Yn ol rhai â "ni gawsom gysur," gan gymeryd gweddill yr adnod megis pe byddai rhwng cromfachau. Yn ol eraill â "wedi dyfod Timotheus," ac felly yr ystyr yw "wedi dyfod Timotheus yn awr atom ni": "When Timotheus reached me *a moment ago*" yw darlleniad Dr. Moffatt. Tueddir ni i fabwysiadu y cysylltiad olaf hwn. Dyfodiad Timotheus roes ysbrydiaeth ym Mhaul i ysgrifennu, ac y mae yn taro ati ar unwaith.

**Eich ffydd chwi a'ch cariad.** Ceir yn y geiriau hyn ddisgrifiad cyflawn o grefydd: "Ffydd" yw ei tharddiad, "cariad" yw ei ffrwyth; yn ei gwedd ysbrydol "ffydd" ydyw, yn ei gwedd ymarferol "cariad" ydyw. Nid "cariad" at Dduw fel y cyfryw sydd yma, ond cariad at y brodyr, h.y., cariad yn ei wedd foesol—"ffydd yn gweithio trwy gariad."

i ni newyddion da am eich ffydd chwi a'ch cariad, a bod
gennych goffa da am danom ni yn wastadol, gan hiraethu
am ein gweled ni, megis *yr ydym* ninnau *am* eich *gweled*
7 chwithau; Am hynny y cawsom gysur, frodyr, am
danoch chwi, yn ein holl orthrymder a'n hangenoctid,
8 trwy eich ffydd chwi. Oblegid yr awrhon byw ydym ni, os

---

**A bod gennych goffa da, &c.** Nid oedd hyn yn meddwl Paul wrth anfon Timotheus. Yr hyn y pryderai yr Apostol am dano oedd hanes eu ffydd; daeth Timotheus a'r newyddion goreu am hynny, ond daeth â rhagor, sef fod coffa serchog gan y Thesaloniaid am Paul, a'u bod yn dyheu am ei weled, fel yr oedd yntau am eu gweled hwythau. Ystyr "da" yma yw "hoff," "tyner," "annwyl." Hefyd, yr oedd y teimladau caruaidd hyn wedi bod yn sefydlog, fel y dengys y gair "gwastadol." Nid adgofion dyspeidiol oeddynt, ond cariad cyson, am hynny cariad cryf—digon cryf i fod yn hiraeth; felly dihangol oeddynt oddiwrth frad a malais a hudoliaeth y gwrthwynebwyr. Nid rhyfedd felly fod Paul yn ymlawenychu ynddynt.

**ADN. 7. Am hynny.** Sef oherwydd y newyddion da a gawsai gan Timotheus.

**Y cawsom gysur.** Gwell fyddai y gair "calondid" hwyrach na "cysur." "We became encouraged."

**Am danoch chwi.** Yr un gair geir am "am danoch" ac am "yn" (ein holl orthrymder), sef **ἐπί**. Ond y mae ei le a'i berthynas yn peri fod ei ystyr yn wahanol: yn ei berthynas â "chwi" (**ἐφ' ὑμῖν**) golyga "o'ch plegid chwi," sef sail y calondid; yn ei berthynas â "holl orthrymder" (**ἐπὶ πάσῃ**, &c.) dynoda "amcan," sef "i" (wynebu ein holl orthrymder, &c.).

**Gorthrymder ac angenoctid:** Dywed Lightfoot fod y cyntaf yn golygu "helbul llethol," a'r ail "pryder neu ofal gwasgedig," a bod y cyntaf yn cyfeirio at erledigaeth neu ddioddefiadau a geir oddiallan; tra y mae yr olaf yn cael ei gymhwyso yn arbennig at wasgfa a phrinder (*privation*). Cyfieithir yr olaf yn 2 Cor. vi. 4 yn "anghenion." Mae y gair "angenoctid" yn gyfieithiad rhagorol o'r gwreiddiol. Mae gan yr Athro John Morris Jones y nodiad canlynol ar y gair:—"W. achenog, 'needy'; achen, 'need'; beside W. anghenog, angen, Irish ēcen, 'need,' comes from ηκ-εη cognate with Greek **ἀνάγκη**."—"Welsh Grammar," p. 151. A'r gair Groeg hwn sydd gan yr Apostol yma, a gwelir felly fod y gair Cymraeg "angenoctid" o'r un cyff a'r gair Groeg.

**Trwy eich ffydd chwi.** H.y., eu ffydd fu'n foddion drwy ba un y dygwyd y "calondid" i'r Apostol. Enwir "ffydd" yma fel gwreiddyn yr holl rasusau, ac edrychir ar "gariad" fel ei ffrwyth; am hynny nid oes angen nodi yr olaf yn y fan hon, fel y gwnaed yn yr adnod o'r blaen.

**ADN. 8.** Yn ol adn. 7fed, yr oedd y newydd da am ffydd y saint hyn wedi rhoddi calondid newydd i'r cenhadon yn eu blinderau. Beth

ydych chwi yn sefyll yn yr Arglwydd. Canys pa ddïolch a 9
allwn *ni* ei ad-dalu i Dduw am danoch chwi, am yr holl
lawenydd â'r hwn yr ydym ni yn llawen o'ch achos chwi
ger bron ein Duw ni. Gan weddïo mwy na mwy, nos a 10

---

mwy na hynny ddywedir yn yr adnod hon? Ymddengys i ni fod gwirionedd yr adnod yn eangach a mwy cyffredinol: nid yn unig adnewyddwyd hwy ar y pryd gan y newydd da (adn. 7), ond byddai bywyd sefydlog y saint yn yr Arglwydd Iesu yn ffynhonell barhaus o galondid ac ysbrydiaeth i'r cenhadon ar wahan i'r amgylchiadau neilltuol y byddent ynddynt. Felly dyma gymhelliad newydd i'r Thesaloniaid i sefyll yn sefydlog (mae y gair am sefyll yn golygu hyn) yn yr Arglwydd. Duw yn unig a ŵyr faint o ynni ysbrydol gyfrennir gan eglwys weithgar i enaid ei gweinidog, a faint barlysir ar ei nerth gan eglwys farw.

**ADN. 9. Canys pa ddiolch, &c.** "Dywedais ein bod yn fyw," meddai yr Apostol, "ac felly yr ydym, *canys* y mae ein llawenydd o'ch achos mor fawr fel nas gwyddom pa fodd i ad-dalu i Dduw am danoch." Yr oedd eu bywyd wedi cyrraedd y pwynt uchel o lawenydd, a hwnnw yn llawenydd mor fawr fel na wyddai yr Apostol pa fodd y gallai gydnabod Duw yn deilwng am dano. Llawenydd pur ydoedd hefyd gan ei fod "ger bron ein Duw ni," oblegid ni ddeil dim ond y pur i'w ddwyn gerbron Duw. Y mae Paul yma nid yn diolch yn uniongyrchol dros y saint, ond yn diolch am y bywyd a'r llawenydd a gawsai ef ei hunan trwy glywed am eu ffydd. Arwydd o ddiffyg mawr mewn crefydd yw clywed newyddion da am lwyddiant ar grefydd yn rhywle heb fod hynny yn adnewyddu bywyd, ac yn cynyrchu llawenydd ym mynwes y neb fyddo yn clywed. Dywed Lightfoot fod y gair am "ad-dalu" yma yn golygu "ad-daliad" cyflawn. Ceir gair arall gwanach sydd yn golygu "talu" neu "gydnabod," heb fod y tâl yn llawn. ("Not *to re-pay* simply, but to recompense"). A chyfeiria at adnodau yn Rhuf. xii., sef adn. 17 a 19, lle y defnyddir y ddau air. Y gwanaf geir yn adn. 17 a'r cryfaf yn adn. 19. Y cryfaf gair yn yr adnod hon.

**ADN. 10. Gan weddio mwy na mwy, &c.** Gweddio yn gyson a gweddio yn daer. Gan fod y saint hyn yn achos o gymaint o lawenydd i'r Apostol, ennynai hynny awydd angerddol ynddo am eu gweled drachefn, a hynny nid yn unig i leddfu ei hiraeth am danynt, ond hefyd er mwyn cael cyfle i "gyflawni diffygion eu ffydd." Gair cryf a thra awgrymiadol yw y gair a gyfieithir "cyflawni." Ymddengys y defnyddir ef (1) am uno pleidiau fyddo wedi ymrannu; (2) am osod esgyrn yn eu lle. Defnyddir ef yn ei ystyr lythrennol yn Marc i. 19, a chyfieithir ef yn "cyweirio" (rhwydau), ond yn gyffredin am "adferu" a "chywiro." Mewn rhai mannau, megis yma, defnyddir ef yn yr ystyr o "gyflawni." Yn yr ystyr yma defnyddid ef i ddisgrifio y paratoadau angenrheidiol i wneud byddin neu lynges yn effeithiol, h.y., y pethau ag yr oedd yn rhaid eu cael i "gyflawni" y naill neu y llall. Awyddai yr Apostol am gael ail ymweled â'r saint yn Thesalonica er mwyn eu gwneud yn *complete* o ran eu crefydd a'u cymeriad. Er eu holl ragoriaethau nis gallasent fod, ar gyfrif eu hoedran fel saint,

dydd, ar *gael* gweled eich wyneb chwi, a chyflawni diffygion
11 eich ffydd chwi ? A Duw ei hun a'n Tad ni, a'n Harglwydd
12 Iesu Grist, a gyfarwyddo ein ffordd ni attoch chwi. A'r
Arglwydd a'ch lliosogo, ac a'ch chwanego ym mhob cariad

---

a'u lliaws anfanteision, ond diffygiol, a sychedai yr Apostol am hamdden i wella y diffygion oedd ynddynt. Nid diffygion rhai yn dirywio, cofier, oeddynt, ond diffygion rhai yn tyfu ; nid diffygion yr hen ond diffygion plant.

**ADN. 11—13.** Yma ceir gweddi daer a chyfoethog yr Apostol ar ran yr eglwys. Mae yr adran gyntaf o'r Epistol wedi gorffen gydag adnod 10 : adran y gellir ei galw yn un hanesiol neu ddiolchiadol. Yn y bennod nesaf dechreua yr ail brif adran—yr un annogaethol ; ac ar ei diwedd hithau (pen. v. 22) ceir gweddi arall o eiddo yr Apostol.

**ADN. 11. A Duw ei hun.** Yr ydym ni wedi arfaethu dod atoch droion, ond fe'n rhwystrwyd bob tro, ac nid oes ond " Duw Ei hun " a all agor y ffordd i ni, ac os egyr Efe y ffordd ni ddichon Satan (ii. 18) na neb arall ei chau.

**A'n Tad ni.** Nid yn unig Efe yw y Pen-llywydd mawr sy'n trefnu popeth, ond Efe hefyd yw ein " Tad ni " : ffynhonell fawr pob cariad a daioni.

**A'n Harglwydd Iesu Grist.** Mae'n amlwg fod Paul o'r cychwyn yn edrych ar Grist yn ogyfuwch â Duw : cyplysir y ddau enw a'u gilydd yn wastad, ac weithiau ceir enw Crist yn gyntaf ; gwel 2 Thes. ii. 16. Yn ol yr arfer gyffredin a'r rheol gywir yn yr iaith Roeg dylai y ferf " cyfarwyddo " fod yn y rhif liosog (nid yw y rheol yr un gyda'r Gymraeg), ond yn y rhif unigol y ceir hi yma ; ac y mae esbonwyr yn gosod pwys ar y ffaith hon am y credent ei bod yn dysgu yr athrawiaeth bwysig o undod y Tad a'r Mab.

**ADN. 12.** Mae y rhagenw " chwi " yn amlwg yn nechre yr adnod hon yn y gwreiddiol, ac y mae hynny gyda'r geiryn δὲ yn dangos fod yma bwynt newydd a gwahanol ynddi, un y gellid ei osod allan mewn ffurf fel hyn : " Ac am danoch chwi—yr Arglwydd a'ch lluosogo," &c. Ein gweddi trosom ein hunain yw (yr adnod o'r blaen), ond pa un bynnag a gawn ddyfodiad atoch ai peidio, ein gweddi trosoch *chwi* yw, &c. Wrth yr Arglwydd y golygir Crist, ac ychwanegir y gair mewn rhai cyfieithiadau megis D. G. F.

Mae y geiriau am "liosogi" a "chwanegu" agos o'r un ystyr, a barna rhai esbonwyr mai cryfhau y meddwl drwy ychwanegu geiriau o ystyr gyffelyb y mae Paul. Os oes gwahaniaeth rhyngddynt, dynoda y cyntaf " dyfiant," a'r ail " helaethrwydd tyfiant " : *to increase and to abound.* Nid nifer a ddynoda y naill air na'r llall, ond graddau uwch mewn gras a rhinwedd.

**Cariad.** Gair mawr Cristionogaeth. Hi a roddodd ystyr newydd eang ac aruchel iddo, ac yn amser yr apostolion y daeth i'w oed. Yr

i'ch gilydd, ac i bawb, megis ag *yr ydym* ninnau i chwi: I 13
gadarnhau eich calonnau chwi yn ddïargyhoedd mewn
sancteiddrwydd ger bron Duw a'n Tad, yn nyfodiad ein
Harglwydd Iesu Grist gyd â'i holl saint.

---

oedd gair arall, ond o dras llai glân, a dywedir mai arwydd o ddirywiad oedd fod y gair hwnnw yn cael ei ddefnyddio mewn adeg ddilynol. "Cariad" oedd gair mawr yr oes apostolaidd, "caredigrwydd" yw gair mawr ein hoes ni. Mae'r cyntaf yn anhraethol eangach a chyfoethocach, ac un wedd arno yn unig yw y llall. Mae y "cariad" hwn i ymddangos yn ol yr apostol mewn gwedd neilltuol yn "gariad at y brodyr," ac mewn gwedd gyffredinol yn gariad at bawb. Yr oedd y cenhadon wedi dangos yn amlwg eu bod yn ei feddu yn ei gyflawnder, yn ogymaint a'u bod yn pregethu yr Efengyl i'r Cenhedloedd yn ogystal a'u bod yn caru eu cenedl eu hun.

**ADN. 13. I gadarnhau eich calonnau.** Yr amcan neu'r nôd i ymgyrraedd ato drwy yr hyn nodir yn yr adnod o'r blaen. Gwelir oddiwrth hyn mai nid meddu cariad yn ei gyflawnder yw'r amcan eithaf, ond mai sail yw hynny i adeiladu cymeriad cryf a glân. Cyffelyb yw dysgeidiaeth Paul yn Phil. i. 9: "ar amlhau o'ch cariad chwi eto fwy-fwy mewn gwybodaeth a phob synwyr . . . . fel y byddoch bur a didramgwydd hyd (ar gyfer) ddydd Crist." Dywed un mai "cariad yw y ddaear i bren cymeriad cryf a glân i dyfu ohonni." Gellir dyweyd rhagor,—cariad yw nôdd y pren, a'i gynnyrch yw cadernid a sancteiddrwydd.

Golyga "calonnau" yn y Beibl (yr Hen. Dest. a'r Newydd) y "dyn oddi mewn," gan gynnwys y meddwl a'r ewyllys yn gystal a'r serchiadau.

**Yn ddiargyhoedd mewn sancteiddrwydd.** Mae tair ffurf ar y gair a gyfieithir "sancteiddrwydd," ar gyfer yr un ffurf a geir arno yn Gymraeg. (1) Yr ansawdd a ddynodir yn y gair megis yn Heb. xii. 10: "Cyfranogion o'i sancteiddrwydd Ef." (2) Y cyflwr neu yr ystad o fod yn sanctaidd, gwel Rhuf. i. 4; 2 Cor. vii. 1; ac yma (3) Y moddion neu y cwrs-weithrediad (*process*) drwy ba un y dygir dyn i'r cyflwr hwn. Dyma y ffurf amlaf. Hwn geir yn y bennod nesaf, adn. 3, 4, 7; 2 Thes. ii. 13. Gwelir y ceir ef yn rhai o'r mannau hyn yn y ffurf "sancteiddiad," ond yn y lleill "sancteiddrwydd" yw y gair. Sancteiddrwydd yw hwn hefyd "ger bron Duw," h.y., sancteiddrwydd ddeil y prawf eithaf, sef goleuni wyneb Duw. Mae modd bod yn "ddiargyhoedd" gerbron dynion heb fod yn sanctaidd; mae y dyn moesol iawn yn ddyn "diargyhoedd" yngolwg dynion, ond ni ellir bod yn "ddiargyhoedd" gerbron Duw ond "mewn sancteiddrwydd." Dyma addurn pennaf yr enaid a grym pennaf cymeriad. Onid un o ddiffygion crefyddwyr ein hoes ni yw boddlonni ar fod yn "ddiargyhoedd" heb fod yn sanctaidd?

**Yn nyfodiad ein Harglwydd, &c.** Gwel y nodiad ar pen. ii. 19. Sylwer ar y dull parchus ac addolgar ymha un yr enwir ein Gwaredwr gan yr

## PENNOD IV.

1 YM mhellach gan hynny, frodyr, yr ydym yn attolwg i
chwi, ac yn deisyf yn yr Arglwydd Iesu, megis y der-

---

Apostol—YR ARGLWYDD IESU GRIST. Da y gwnaem ddal ar hyn.

**Gyd â'i holl saint.** Tybia rhai mai yr angylion a olygir; eraill mai yr angylion a'r credinwyr a hunasant; eraill mai y credinwyr hynny yn unig, heb gynnwys yr angylion. Mae y rhesymau canlynol yn ein tueddu i dderbyn yr olaf: (1) Nad yw yr angylion yn cael eu galw wrth yr enw hwn yn y Test. Newydd. (2) Fod yr Apostol yn 2 Thes. i. 7 yn cysylltu yr angylion a'r dyfodiad, a rhaid fod ganddo ryw rai eraill mewn golwg yma, neu mae'n debyg y buasai yn defnyddio yr un gair. (3) Yn pen. iv. 14 dywedir " y rhai a hunasant yn yr Iesu a ddug Duw hefyd gyd âg Ef " ; a chan fod dysgu hyn yn un o amcanion Paul yn ysgrifennu y llythyr, naturiol yw tybio fod hynny wrth ei feddwl o hyd, a'i fod yn ei awgrymu cyn ei ddysgu yn fwy pendant.

---

## PENNOD IV.

Yn y bennod hon dechreua yr Apostol yr ail hanner o'i Epistol; a gellir ei galw yn adran y cynghori a'r cyfarwyddo. Ymddengys ei fod yn pen. v. 14 yn crynhoi ei gynghorion i gylch bychan, gan ddynodi hefyd mewn tri gair y tri dosbarth arbennig y rhoddid y cynghorion iddynt. Y tri hynny, fel y gwelir, yw (1) " yr afreolus," (2) " y gwan eu meddwl," (3) " y gweiniaid." Yn awr, cynghorion i'r tri dosbarth yma geir yn yr holl adran hon (pen. iv. 18—v. 22). Fel y cawn ddangos eto, " dynion diog ymyrgar " a olygir wrth y " rhai afreolus." Gwel 2 Thes. ii. 6, 7. Rhai gweiniaid mewn purdeb moes olygir wrth y " gweiniaid," a rhai trist a digalon ynglyn a'u perthynasau ymadawedig a'u hiachawdwriaeth eu hunain olygir wrth y rhai " gwan eu meddwl." Cynghorion i'r " gweiniaid " geir yn pen. iv. 3—8; i'r " gwan eu meddwl " yn iv. 13—18 a v. 1—11; i'r " afreolus " neu'r " diog " yn iv. 9—12 a v. 12, 13. Ymddengys hefyd fod awgrym yn ffurf wreiddiol adn. iv. 9, 13 a v. 1 fod yr Eglwys yn Thesalonica wedi gofyn am gyfarwyddiadau arbennig (mewn llythyr neu drwy Timotheus) ar dri phwynt: (1) cariad brawdol, (2) y meirw yng Nghrist, (3) yr ail-ddyfodiad. Mae'n debyg mai hynny rydd gyfrif am y dull y mae yr Apostol yn cyfeirio at y materion hyn.

**ADN. I. Ymhellach, gan hynny.** Cywirach nag " ymhellach " fyddai " yn olaf." Yr ystyr yw fod un peth arall wedi ei adael i'w ddyweyd, a'i fod yn mynd ati yn awr. Nid oes dim terfynnol yn y gair " ymhellach," careg filltir ar ffordd y drafodaeth ydyw, ac nid oes awgrym yn y gair pa sawl un sy'n dilyn cyn y cyrhaeddir pen y

byniasoch gennym pa fodd y dylech rodio a boddloni Duw,
ar i chwi gynnyddu fwyfwy. Canys chwi a wyddoch pa 2
orchymynion a roddasom i chwi trwy yr Arglwydd Iesu.
Canys hyn yw ewyllys Duw, *sef* eich sancteiddiad chwi, 3

---

daith; ond y mae y filltir olaf ar gael ei chychwyn yn y gair sydd yma, ac am hynny barnwn y byddai yr ymadrodd adnabyddus iawn, "yn olaf," yn gymwys. Cyfeiria y "gan hynny" at gynnwys y bennod o'r blaen.

**Atolwg a deisyf.** Honna rhai fod y ddau air yn ymarferol yn gyfystyr, ac mai cryfhau yr apel oedd amcan Paul. Tybia eraill fod gwahaniaeth rhwng y ddau, a bod mwy o rym ac awdurdod yn yr olaf. "We entreat you as friends; nay we exhort you with authority in the Lord"—Lightfoot. "Beg and beseech" yw cyfieithiad Dr. Moffatt. "We ask and urge" yw cyfieithiad Proff. Frame.

Ymddengys fod brawddeg wedi ei gadael allan o'r adnod hon ddylasai fod i mewn, fel y'i ceir yn y Cyf. Diw. Ar ol y gair Duw y daw honno i mewn, fel hyn: ". . . . pa fodd y dylech rodio a boddloni Duw, *fel yr ydych yn wir yn rhodio.*"

**Rhodio a boddloni Duw.** Yr ystyr yw rhodio yn y fath fodd ag i ryngu bodd Duw; mewn Cymraeg gwerinol "rhodio i blesio Duw."

**Ar i chwi gynhyddu fwyfwy.** Mae digon o le ymlaen, a'r ffordd i beidio mynd yn ol yw parhau i fynd ymlaen; oblegid nid oes neb yn aros yn ei unfan ar yr yrfa ysbrydol. Gellir bod felly i olwg dynion, ond ni ellir bod felly mewn gwirionedd. Ond cofier mai nid rhag gochel mynd yn ol yn bennaf y dylid mynd ymlaen, ond oherwydd y cyfoeth a'r cyflawnder diderfyn sydd at alwad y saint i gryfhau a thyfu, a gwerth a rhagoriaeth a phrydferthwch y cymeriad a adeiliedir drwy hynny.

**ADN. 2. Canys chwi a wyddoch.** Cyfeiria at yr hyn a "dderbyniasant" (adn. 1) gan yr Apostol.

**Pa orchymynion.** Mae ar y mwyaf o swn awdurdod yn y gair hwn; buasai "eirchion" (gwneud "eirchion" un) yn well. "Charges," "instructions," "precepts" yw rhai o'r cyfieithiadau Saesneg a geir.

**Trwy yr Arglwydd Iesu.** Ychydig o wahaniaeth sydd "***trwy*** yr Arglwydd Iesu" yma ac "***yn*** yr Arglwydd Iesu" (adn. 1), ond fod mwy o awdurdod mewn "erchi" nag sydd mewn "deisyf," ac felly 'roedd yn fwy naturiol defnyddio "trwy" ynglyn â'r cyntaf. Y pwynt yw, mai nid ohono ei hun yr "archai" yr Apostol, ond fel cyfrwng i ddwyn ewyllys yr Arglwydd Iesu ar faterion o ymarweddiad yn hysbys iddynt.

**ADN. 3. Canys hyn.** *Trwy yr Arglwydd Iesu* (adn. 2) y mae ewyllys Duw yn cael ei datguddio, a hyn yw yr ewyllys honno—eich sancteiddiad chwi. Ceir y gair "ewyllys" yma heb y fannod yn y gwreiddiol. Dengys hynny, yn ol yr esbonwyr goreu, mai "ewyllys" Duw ynglyn âg un peth sydd yma, ac nid ei holl ewyllys.

4 ar ymgadw o honoch rhag godineb: Ar fedru o bob un o
honoch feddiannu ei lestr ei hun mewn sancteiddrwydd

---

**Eich sancteiddiad chwi.** Gwel y nodiad ar y gair "sancteiddrwydd," pen. iii. 13. Fel y mae'n hysbys, ystyr gyntaf y gair "sancteiddio" oedd "neilltuo i wasanaeth Duw." Felly yr oedd modd sancteiddio pethau yn gystal a phersonnau. Nid gwneud yn lân ond cysegru oedd yr ystyr gyntaf; lleoedd "cysegredig" ac nid lleoedd glân fel y cyfryw oedd y deml, Gwlad Canaan (Holy Land) a mannau gysegrwyd gan yr Eglwys Babaidd megis "Holy Well," "Holy Head," &c. Ond ynglyn â dynion daeth y gair i olygu "gwneud yn lân," gan nad oedd cysegriad seremoniol yn foddion glanhâd pechadur. Yna daeth y gair "cysegru" neu "gysegredig" ynglyn â dynion i olygu y moesol yn gystal a'r crefyddol. "Eich cysegriad chwi" yw y darlleniad Saesneg gan amryw, ond dylid ei ddeall yn yr ystyr eang a nodwyd. Wedi dyweyd mewn un gair eang ei ystyr (sancteiddiad) beth oedd ewyllys Duw, mae'r Apostol yn y geiriau dilynol—"ymgadw," "medru," "meddiannu," "gorthrymu"—yn cymhwyso y gair at rinwedd arbennig, sef purdeb, a phurdeb fel y mae yn wrthgyferbyniol i "aflendid" adn. 7.

Yr oedd aflendid yn y ffurf o odineb a thrythyllwch yn bechod cwbl gyffredin yn y byd paganaidd—mor gyffredin fel nad ystyrid ef yn bechod mewn aml gylch. Yn wir, yr oedd rhai o'r crefyddau paganaidd, nid yn unig yn ei lochesu, ond yn ei arfer fel rhan o addoliad eu heilun-dduwiau. Dywedir fod Rhufain ar y dechreu yn lanach na Groeg, ond buan y llygrwyd hithau gan bla yr arferion, ac yn wir y crefyddau, tramor. A dywed un awdwr mai y pechod hwn wedi ei goresgyn fu yn brif achos ei chwymp. Mor briodol felly oedd i'r Apostol roddi pwys mawr ar lendid moes mewn dinas lle yr oedd llygredigaeth yn ymdaith yn ei rym.

**ADN. 4.** Adnod anodd ei hesbonio yw hon. Mae yn anodd iawn deall gwir ystyr y tri gair "fedru," "feddiannu," "lestr"; ac y mae mor anodd a hynny deall eu perthynas a'u gilydd. Nid yn y gystrawen y mae yr anhawster yn gymaint ag yn yr eiliw o wahaniaeth ystyr y gellir ei roddi i'r geiriau "medru" a "meddiannu." Mae y cyfieithiad Cymraeg a Saesneg o'r gwreiddiol yn un hollol naturiol. Ond yn ol y ddau hyn nid oes modd gwybod pa un ai ato ei hun ai at y wraig y cyfeiria y gair "llestr." Ar yr olwg gyntaf cyfeiriad sydd yma at y "corff" yn y gair "llestr"; a dyna farn llawer o'r hen esbonwyr. Ac y mae hyn i'w ddyweyd drosto, fod Cristionogaeth yn rhoddi mawr bwys ar gorff dyn, ac y mae yn epistolau Paul aml i gyfeiriad at y pwysigrwydd i barchu y corff. Prynwyd ein corff gan Grist, ac ni bydd iachawdwriaeth dyn yn berffaith hyd nes yr adgyfodir y corff. Yn hyn, fel mewn llawer peth arall, rhagorai Cristionogaeth ar bob cyfundrefn grefyddol ac athronyddol arall; h.y., yn y bri a'r parch a ddyry i'r corff.

Ond y mae rhai rhesymau a ymddengys i ni yn anwrthwynebol yn erbyn credu mai at y "corff" y cyfeirir yn y gair "llestr." (1) Nid

a pharch; Nid mewn gwŷn trachwant, megis y Cenhedl- 5

---

ydym yn cael fod yn y Test. New. un cyfeiriad at gorff dyn o dan y ffugr o lestr. Gwir fod yn Rhuf. ix. 22 son am "lestri digofaint," &c., ond nid at gyrff dynion y cyfeirir, ond at eu personnau; tra y ceir cyfeiriad at wraig fel "llestr" yn 1 Petr iii. 7: a dywedir fod cyfeiriadau cyffelyb yn llenyddiaeth aml i wlad, a cheir engraifft o hynny yn Shakespeare. (2) Pe mai at y corff y cyfeirid, byddai y geiriau "ei hun" yn gwbl ddiystyr. (3) Dywedir gan awdurdod fel Dr. Lightfoot nas gall y gair a gyfieithir "meddiannu" olygu meddiant yn yr ystyr o "gadw"; ond y gall olygu "cael," a bod aml i engraifft o hono lle y golyga hyn, a noda yn eu plith gyfieithiad y LXX. o Ruth, lle y defnyddir yr un gair am "gael gwraig."

Barn unfryd yr esbonwyr diweddar hyd y gwelsom yw mai y "wraig" a olygir yma wrth "lestr." Felly yr ystyr gyffredinol i'r adnod yw annog y saint i ymgadw oddiwrth nwydau trythyll, a bod i bob dyn yr oedd ei nwydau yn brofedigaeth iddo briodi gwraig, a hynny mewn ysbryd a thymer uwch na nwyd, sef "mewn sancteiddrwydd a pharch."

Y mae Proff. Frame yn dadleu gyda medr a grym y dylid ail gysylltu rhai o'r geiriau anawdd hyn, a rhoddi iddynt ystyr ychydig yn wahanol. Dyma yn fyrr ei olygiad: Fod gennym yn yr adnodau ddau bâr cyfochrog o ferfau yn y modd anherfynnol, fel hyn: fod "ymgadw" yr adnod o'r blaen yn ddarostyngedig i "fedru" yr adnod hon, ac mai ystyr "medru" yma yw "gwerthfawrogi" neu barchu fel y mae yr un gair yn cael ei gyfieithu yn "adnabod" yn pen. v. 12; y meddwl felly fyddai "ymgedwch rhag godineb trwy barchu eich gwraig eich hun"; a'r un modd bod "peidio gorthrymu" adn. 6 yn ddarostyngedig i "meddiannu," ac mai ystyr y gair yw yr un a nodwyd, sef "cael gwraig," felly dyma fyddai y meddwl: "Priodwch mewn ysbryd sanctaidd, ac felly rhwystrir chwi i odinebu â gwraig eich brawd." Yn ol yr esboniad hwn darllena yr adnod fel hyn: "Fod i bob un ohonoch barchu ei wraig ei hun: fod i bob un ohonoch gael ei wraig mewn ysbryd o ymgysegriad a pharch iddi." Gwelir fod "medru" a "meddiannu" yn ol y darlleniad hwn yn cael eu hysgar oddiwrth eu gilydd, ac yn ddau air pwysig mewn dwy frawddeg wahanol.

**ADN. 5. Nid mewn gwŷn trachwant.** Yr eithaf croes i'r hyn a argymhellwyd yn yr adnod o'r blaen. "Trachwant" oedd yn llywodraethu y Cenhedloedd paganaidd yn eu priodasau, ac er eu priodasau nid hunan-lywodraeth, ymgysegriad a pharch a'u nodweddent. Ymadrodd rhagorol yw hwn, "gwŷn trachwant"; mae y "chwant" yn naturiol, mae y "trachwant" yn anifeilaidd, mae y "gwŷn trachwant" yn ddieflig, a'r esboniad ar y cyfan a'r achos o hono yw diffyg "adnabod Duw." Ystyr ddofn y Beibl sydd i'r gair "adnabod" yma; nid canfyddiad allanol o wahaniaeth, fel y golyga y gair yn gyffredin heddyw, ond ymdeimlad mewnol o undeb. Gellir adnabod pethau'r byd wrth graffu ar y gwahaniaeth sydd rhyngddynt a'i gilydd, ond ni ellir adnabod Duw ond trwy gyfrannogi o'i anian; ac y mae'r cyfranogiad yn dod yn werthfawrogiad, a'r ddau yn cynhyrchu mwyfwy o debygolrwydd.

6 oedd y rhai nid adwaenant Dduw: Na byddo *i neb* orth-
rymmu na thwyllo ei frawd mewn dim: canys dïalydd *yw*
yr Arglwydd ar y rhai hyn oll, megis y dywedasom i chwi
7 o'r blaen, ac y tystiasom. Canys ni alwodd Duw nyni i

---

Yr oedd eilun-addoliaeth yn wely-brwd i bob drwg-anwydau fel y dengys Paul yn Rhuf. pen. i. Nid methu lladd y gwŷniau a'r trachwantau yr oedd, ond eu meithrin; ac nid oedd diwylliant digymar Groeg, a llwyddiant dihafal Rhufain, ond cynnud ar fflamau y nwydau hyn. Yn ei erthygl ar "Gyflwr y byd Paganaidd," Cyf. II., tud. 71, o'i esboniad ar rai o Epistolau Paul, dywed y diweddar Dr. Jowett, Rhydychen, fel hyn:—" . . . . . . . if the inner life (of glorious Athens) had been presented to us of that period which in political greatness and in art is the most brilliant epoch of humanity, we should have turned away from the sight with loathing and detestation. . . . . . there were vices which are not even named among us. It is a sad but useful lesson that the noblest simplicity in art may go along with

'Rank corruption mining all within.'

*Neither is it untrue to say that there was a thread by which they were linked together.*"

**ADN. 6. Na byddo.** H.y., "Fel na byddo" (*to prevent*). **Gorthrymu.** Dywed rhai mai "diystyru" neu "amherchi" yw ystyr y gair =*to disregard*. Dywed Dr. Adeney fod y gair yn golygu "gwneud camwri" neu "anghyfiawnder." **Twyllo.** Gwneud cam trwy ddichell neu "gymeryd mantais annheg" ar un. **Ei frawd.** H.y., ei frawd yn y ffydd.

**Mewn dim**=yn y mater hwn, neu yn hyn o beth; gan gyfeirio yn amlwg at y pechod a nodwyd. **Dialydd yw yr Arglwydd.** H.y., yr Arglwydd Crist. Yr oedd yr Apostol wedi "rhag-ddywedyd" a "thystio" hyn wrthynt. Mae swn cyfeiriad at yr ail-ddyfodiad yn y geiriau hyn. Golyga "tystio" yma tystio yn ddifrifol (*solemnly*).

**ADN. 7. Canys, &c.** Pa un ai rheswm ychwanegol dros fod yn sanctaidd geir yma, ai ynte rheswm dros ddyweyd mai "dialydd yw yr Arglwydd" (adn. 6)? Ar y cyfan credwn mai y cyntaf sy'n fwyaf naturiol. Y rheswm cyntaf a roddir dros fywyd glân yw mai bywyd felly y mae Duw yn ei ewyllysio. Rheswm arall a roddir yw fod bywyd amhur yn ennyn llid Duw. Yn yr adnod hon ychwanegir rheswm arall eto, sef fod bywyd amhur yn groes i natur ac amcan galwad Duw. Mae hwn yn fwy pennodol na dyweyd yn gyffredinol mai ewyllys Duw yw sancteiddiad Ei bobl (adn. 3). Mae yr alwad neilltuol wedi dwyn yr ewyllys gyffredinol i gyffyrddiad a'r bobl hyn: yr oeddynt wedi eu galw gan Dduw, nid gyda'r amcan i fyw mewn aflendid, ond mewn sancteiddrwydd y galwyd hwy, ac i sancteiddrwydd hefyd y galwyd hwy. Nid yr un arddodiad geir o flaen y ddau air, "i" ydyw'r cyntaf yn yr ystyr o ddiben neu nôd; ond "yn" yw'r llall i ddynodi mae'n debyg natur a chymeriad yr alwad.

aflendid, ond i sancteiddrwydd. Am hynny y neb sydd yn 8
dirmygu, nid dyn y mae yn ei ddirmygu, ond Duw, yr hwn

---

**ADN. 8.** Tynnu casgliad mewn ffurf rymus (mae y gair " am hynny" yn gryfach na'r un cyffredin), y mae yr Apostol yma i ddangos ysgelerder y pechod o amhurdeb. Mae ewyllys Duw wedi ei datguddio yn glir yn yr Efengyl a bregethasid gan y cenhadon. Yr oeddynt wedi dysgu i'r Thesaloniaid yr ewyllys ddwyfol yn bendant, mewn ffurf o waharddiadau a gorchymynion eglur; yn awr yr oedd pob dyn fyddai fyw mewn aflendid yn " dirmygu " neu yn " gwrthod " (ystyr gyntaf y gair a gyfieithir " dirmygir ") gorchymynion Duw. Nid dirmygu y cenhadon yn unig, ond dirmygu Duw, a dirmygu Duw ei Hun—dirmygu yr Arglwydd (Crist) a dirmygu yr Ysbryd (y) Glân. Yr oedd galwad sanctaidd Duw nid yn alwad *i* sancteiddrwydd yn unig, ond yn alwad mewn sancteiddrwydd, gan mai yr Ysbryd Sanctaidd oedd yn effeithioli yr alwad, yr Hwn oedd wedi ei roddi iddynt ac ynddynt. Buasai yn amhosibl cael rhesymau cryfach yn erbyn yr aflendid y cyfeirir ato.

### ADN. 9—12.

Cynhwysa yr adnodau hyn yr ail gyngor yn yr adran anogaethol o'r epistol. Fel y gwelir, *cariad brawdol* yw ei baich. Gwir y gellir edrych ar adn. 11—12 fel anogaeth i weithio ar gyfrif yr ymollyngdod a'r dibrisdod o waith oedd yn nodweddu rhai o'r brodyr, ac fel hyn y mae rhai esbonwyr yn rhannu adn. 9—12. Ond ymddengys i ni mai ynglyn â " chariad brawdol " fel yr hyn a ymyrrai ag ef ac a fygythiai ei lwyddiant y daw adn. 11—12 i mewn. Dyma, ni debygwn, oedd sefyllfa pethau yn Thesalonica ar y pryd. Yr oedd yr arbenigrwydd a roddasai Paul i ail-ddyfodiad Crist yn ei rwysg a'i effeithiau, ei ddifrifwch a'i sydynrwydd, wedi effeithio yn ddwys iawn ar feddwl yr eglwys drwyddi, ac ynglyn â rhai o'r aelodau wedi ymyrryd a'u gorchwylion bydol. Wrth ddisgwyl i'r Arglwydd ymddangos ar unrhyw ddiwrnod aethant yn gwbl ddibris o'u hamgylchiadau tymhorol: ac nid oedd hynny yn beth i synnu ato o gwbl. Cynhyrchodd yr esgeulustra dlodi ymhlith y dosbarth neilltuol hwn, ac oherwydd eu tlodi y maent yn apelio at y frawdoliaeth am gymorth. Ni thyciai eu cais at y frawdoliaeth, a'r canlyniad fu iddynt wneud cynwrf, ac felly ymyrryd â thawelwch cariad brawdol y saint a pheryglu dwyn y gymdeithas i sylw anffafriol y rhai oddiallan. Credir gan rai, yn eithaf naturiol, fod yr eglwys wedi danfon llythyr at yr Apostol, drwy Timotheus, yn gofyn am gyfarwyddyd ynglyn â'r mater hwn yn gystal a mater neu ddau eraill, a bod geiryn a ddefnyddir (δὲ) ar ddechreu adn. 9 yn awgrymu fod yr Apostol yn dod at fater y gofynasid iddo am gyngor ynglyn ag ef. Dyma, ni gredwn, y berthynas sydd rhwng adn. 11—12 a 9—10.

9 hefyd a roddes ei Ysbryd Glân ynom ni. Ond am frawd-
garwch, nid rhaid i chwi ysgrifennu o honof attoch: canys
yr ydych chwi eich hunain wedi eich dysgu gan Dduw i
10 garu eich gilydd. Oblegid yr ydych yn gwneuthur hyn
i bawb o'r brodyr y rhai sydd trwy holl Macedonia: ond
yr ydym yn atolwg i chwi, frodyr, gynnyddu o honnoch
11 fwyfwy; A rhoddi o honoch eich bryd ar fod yn llonydd,

---

**ADN. 9. Ond am frawdgarwch.** Ystyr gyffredinol oedd i'r gair hwn cyn i Paul ei ddefnyddio; ar ol hynny y mae wedi ei gysegru i ddynodi cariad y saint at eu gilydd.

**Nid rhaid i chwi, &c.**=Gwyddoch yn dda drwy brofiad mewnol, fel nad oes angen i neb eich dysgu. Nid yr ystyr yw fod unrhyw orchymyn pendant wedi ei rhoddi iddynt gan Dduw, ond fod yr Ysbryd Glân, yr Hwn a roddasai Duw ynddynt, wedi eu gwneud yn brofiadol o'r gras hwn.

**ADN. 10.** Ac nid yn unig, meddai yr Apostol, yr ydych yn caru eich gilydd fel eglwys yn Thesalonica, ond y mae eich cariad wedi ymledu dros Macedonia i gyd. Felly nid cariad yn cael ei ennyn gan neilltuolrwydd amgylchiadau un eglwys fel y gwelir weithiau ydoedd, ond cariad eang, cryf, ac ysbrydol, at frodyr yn y ffydd trwy yr holl dalaeth. Nid oes gennym ni hanes ond am dair eglwys ar y pryd yn Macedonia, sef Philippi, Thesalonica, a Berea; ond y mae yn dra thebygol fod eglwysi eraill wedi cychwyn mewn aml i le, drwy offerynoliaeth Silas a Thimotheus hwyrach, neu drwy ymdrechion y saint eu hunain. Pan y byddai unrhyw eglwys mewn angenoctid, mae'n amlwg y byddai yr eglwys yn Thesalonica wrth ei bodd yn estyn ymwared i'r cyfryw, ac hefyd yn barod i roddi pob ymgeledd a chynorthwy i aelodau unigol mewn cyffelyb gynni.

**Gynhyddu o honoch fwyfwy.** Er mor ragorol oedd cymeriad yr eglwys ynglyn â'r gras hwn, yr oedd ganddynt le i fod yn rhagorach. 'Does yr un rhinwedd Cristionogol byth yn cyrraedd ei lawn dwf. Mae nerth bywyd anherfynnol ymhob un, ac y mae tyfiant hwnnw yn un tragwyddol. 'Does dim byd mwy dwyfol ar y ddaear na "chariad brawdol": nid cariad cyfundebol nac eglwysig, cofier, mae y rheiny yn tyfu yn wyllt ac afiach yn aml; ond "cariad brawdol"—cariad plant Duw at eu gilydd. Onid oherwydd diffyg y gras hwn y mae crefydd mor lwydaidd a dirym yn ein plith?

**ADN. 11. A rhoddi o honoch eich bryd.** Ystyr lythrennol "rhoddi eich bryd ar" yw "caru anrhydedd"; yna daeth i olygu "uchelgais." Mewn dau le arall (Rhuf. xv. 20 a 2 Cor. v. 9) cyfieithir ef yn "ymorchestu." Ystyr gyffredin y gair yw "arfer egni i gyrraedd nôd," ac y mae y cyfieithiad Cymraeg yma yn un rhagorol iawn—"rhoddi bryd y meddwl ar beth."

**Bod yn llonydd.** Naill ai bywyd tawel, h.y., clir oddiwrth bopeth oedd yn tueddu i godi ymrafael a therfysg yn yr eglwys ac yn y ddinas;

a gwneuthur eich gorchwylion eich hunain, a gweithio â'ch
dwylaw eich hunain, (megis y gorchymynasom i chwi);
Fel y rhodioch yn weddaidd tu ag at y rhai sydd oddi allan, 12

---

neu feddwl tawel, mewn gwrthgyferbyniad i'r anesmwythyd parhaus oedd yn y rhai y cyfeirir atynt oherwydd eu syniadau a'u teimladau ynglyn â'r ail-ddyfodiad. Nid anhebyg fod y ddau o flaen meddwl yr Apostol, ac mai yr olaf oedd achos y cyntaf. Mae terfysg mewn eglwysi, fel rheol, yn effaith diffyg "meddyl-fryd" i fod yn llonydd. Mae llonyddwch nacaol yn bod, llonyddwch y fynwent; cydymaith marwolaeth yw hwnnw, ac nid hawdd dyweyd pa un ai "terfysg" ai y "llonyddwch" hwnnw yw y gwaethaf.

**A gwneuthur eich gorchwylion eich hunain.** "Mind your own business" yw cyfieithiad Frame, a dyna yr ystyr mewn iaith werinol. Temtasiwn y bobl hyn oedd ymyrraeth â gwaith a dyledswyddau rhai eraill, a thrwy hynny atal twf y "cariad brawdol" oedd mor amlwg yn yr eglwys, ac heblaw hynny ymddirywio eu hunain drwy esgeuluso eu dyledswyddau eu hunain.

**A gweithio a'ch dwylaw eich hunain.** Nid yn unig yr oeddynt i ymatal rhag ysbryd ymyrgar, ond hefyd rhag ysbryd diog. 'Doedd yr ail-ddyfodiad, er ei fod yn cael ei ddisgwyl beunydd, ac na waherddid hynny, ddim i fod yn esgus iddynt i ddibrisio eu dyledswyddau bydol. Mae crefydd Crist yn gwneud dyn yn well gweithiwr, nid yn unig yn lanach gweithiwr, ond yn fwy egnïol a chyson yn ei waith. Gellid casglu oddiwrth y geiriau hyn mai eglwys o weithwyr oedd yr eglwys yn Thesalonica, h.y. llaw weithwyr; gwehyddion, fel y tybir yn gyffredin.

**Megis y gorchymynasom i chwi.** Yr oedd Paul, mae'n amlwg, wedi gwel'd y perygl ac wedi eu rhybuddio yn ei gylch ymlaen llaw. Gwelai Paul y byddai i grediniaeth angerddol yn ail-ddyfodiad Crist effeithio yn niweidiol ar grefydd rhywrai o honynt, ac am hynny cymerodd drafferth i'w hannog i fod ar eu gwyliadwriaeth rhag y perygl. Rhyfedd mor wahanol ac amrywiol yw peryglon yr eglwys; perygl i hawliau crefydd o'u cam-ddeall i ymyryd a dyledswyddau'r byd welir yn hanes y bobl dan sylw. Ond perygl i hawliau'r byd o'u camddeall ymyryd â dyledswyddau crefydd welir yn hanes yr eglwys heddyw.

**ADN. 12.** Nodir yma ddau amcan i'r hyn a argymhellir yn yr adnod flaenorol: (1) Fel y byddai i'w bywyd wneud argraff briodol ar y byd o'u cwmpas. Yr oedd y byd yn condemnio diogi; nis gallai gondemnio llawer pechod mwy ysgeler am nad oedd yn ei weled yn bechod; ond y mae diogi yn bechod croes i anian y byd, a phob amser ennynir dirmyg ato. Ystyr "tuag at" yma yw "gyda golwg ar farn y byd am danynt," ac nid "yn eu hymwneud â hwy." (2) Fel y byddai iddynt ochel pwyso ar eraill am eu cynhaliaeth. Ni ddylai Cristion bwyso ar neb os gall beidio; yn wir gwell iddo beidio weithiau pan y bydd ganddo hawl i wneud. Yr oedd gan Paul a'i gymdeithion hawl i gael eu cynnal gan yr eglwys, fel y dengys mewn mannau eraill,

13 ac na byddo arnoch eisieu dim. Ond ni ewyllysiwn, frodyr,
i chwi fod heb wybod am y rhai a hunasant, na thristâoch,

---

ond gwelsant mai anfantais i'r Efengyl fyddai iddynt wthio yr hawl honno ar yr eglwys, ac felly buont yn gweithio eu hunain a'u dwylaw er mwyn eu cynhaliaeth. Nid dyma eu hunig amcan wrth weithio, mae'n wir, ond yr oedd hwn yn amcan, ac yn amcan digon teilwng i un mor fawr a'r Apostol Paul i dalu sylw iddo. Ond cofier yr amgylchiadau, mae amser i hawlio ac amser i beidio, ac y mae dyledswydd bwysig i'w chyflawni ynglyn â gwneud y ddau.

ADN. 13—18.

Yn ol fel y dywedwyd yn y nodiadau arweiniol i'r bennod hon, cynghorion i'r rhai trist a gwangalon geir yn yr adnodau hyn. Ac y mae geiryn geir ar drofa pob un o'r adrannau hyn (adn. 9, 13, a pen. v. 1) yr hwn a gyfieithir yn "ond" yn y ddwy gyntaf ac yn "eithr" yn y drydedd, ym marn rhai o'r esbonwyr goreu ar epistolau Paul (gwel Kirsopp Lake, "The Earlier Epistles of St. Paul," pp. 67) yn awgrymu yn gryf fod y Thesaloniaid wedi gofyn mewn llythyr at Paul am gyfarwyddiadau ar y tri mater a drinir yn y tri lle yma. Felly yr oeddynt wedi gofyn iddo am eglurhad ar dynged rhai o'r brodyr oedd wedi marw yn ddiweddar, a'u perthynas â'r ail-ddyfodiad. Ymddengys nad oedd Paul pan yn eu dysgu am y digwyddiad mawr hwnnw wedi egluro iddynt safle y rhai fyddai farw yn y cyfamser; a phan y bu rhai farw yr oedd yr eglwys mewn pryder am danynt yn eu perthynas a dyfodiad yr Arglwydd. Nid oes le i feddwl eu bod yn ameu o gwbl na byddai iddynt adgyfodi, ond ofnent y byddai iddynt golli y fraint o gael ymddangos yn osgorddlu gyda'r Brenin ar Ei ymddanghosiad. Amcan yr adnodau hyn yw eu cysuro yn wyneb eu hofn a'u pryder. Nid ydym yn tybio fod yr athrawiaeth o adgyfodiad y saint yn un o brif athrawiaethau Paul; nid yw, er engraifft, yn cael lle agos mor amlwg yn ei ddysgeidiaeth a'r athrawiaeth welir yn ei drych hi o farwolaeth i bechod ac adgyfodiad i fuchedd newydd. Ond y mae i'r athrawiaeth ei lle a'i phwysigrwydd, a phan y byddai galw fe draethai yr Apostol ei feddwl am dani.

**ADN. 13. Ni ewyllysiwn i chwi fod heb wybod.** Dull cyffredin gan yr Apostol o ddwyn gwirionedd newydd i sylw. Gwel Rhuf. i. 13; ii. 25; 1 Cor. x. 1; xii. 1; 2 Cor. i. 8.

**Am y rhai a hunasant.** Yn ol yr MSS. goreu, y rhai sydd yn huno. Naill ai y rhai sy'n "syrthio i hûn" (Adeney), neu y rhai sydd yn "gorwedd mewn hûn" (Lightfoot). Ffugr prydferth iawn, er nad yw yn gyfyngedig i'r Beibl, canys ceir ef yn amryw o'r hen awduron clasurol. Awgryma orffwysdra, tawelwch, a'r syniad o ddeffro. Efallai mai yn ei ystyr Feiblaidd y perthyn y syniad olaf iddo.

megis eraill y rhai nid oes ganddynt obaith. Canys os 14
ydym yn credu farw Iesu, a'i adgyfodi ; felly y rhai a

---

**Na thristaoch.** Nid " na thristaoch megis eraill," fel y darllennir yn fynych, ond " na thristaoch, megis eraill," &c. Nid caniatau tristwch y mae yr Apostol, ond iddo fod yn dristwch gwahanol i dristwch eraill ; ond gwahardd tristwch o gwbl, yr hwn welir yn hanes eraill. Ar y pryd, beth bynnag, ystyriai Paul mai braint oedd cael marw *yn yr Iesu*, h.y., ei ddilyn Ef hyd yn oed drwy angeu. Mewn un ystyr braint uwch na chael " ei newid " yn ei ddyfodiad. Ac o edrych ar farw yn yr un goleuni ag yr edrychai yr Apostol arno nid oes le i dristwch o gwbl.

**Megis eraill, y rhai nid oes ganddynt obaith.** Gobaith am adgyfodiad, neu obaith am ail-gyfarfod a'u hanwyliaid yn yr adgyfodiad. Yr oedd deiliaid amryw o'r *Crefyddau Cyfrin* (" Mystery Religions ") yn credu yn anfarwoldeb yr enaid drwy gymundeb â'u duw, megis yr oeddynt yn credu mewn tadolaeth duw, ailenedigaeth, cymdeithas â duw, &c. Ond " cysgod y daionus bethau a fyddent " oedd y cyfan, greddfau dynion yn ymbalfalu am y gwir. Ond nid oedd " adgyfodiad " gan yr un ohonynt, 'roedd angeu yn aros heb ei orchfygu, fel carchar y corff ; dianc yr oedd yr enaid, nid cael ei waredu yr oedd yr holl ddyn. A dywedir mai mynwentydd di-obaith oedd mynwentydd Groeg a Rhufain : mynwentydd tywyll fel y fagddu ; a cheir hanes am aml i feddargraff ynddynt heb wawr gobaith o gwbl ynddynt. Ceid llawer o dynerwch ac anwyldeb, ond anobaith yn eu duo a'u dwyshau. Ond yn mynwentydd y Cristionogion, megis *Catacombs Rhufain*, 'roedd banner gobaith wedi ei chodi yng nglyn cysgod angeu.

**ADN. 14. Canys.** Gair sy'n dwyn ymlaen reswm dros beidio tristau, yn ol yr adnod o'r blaen. Yr ymresymiad sydd yn yr adnod yw fod undeb y saint â Christ yn cynnwys undeb âg Ef yn Ei adgyfodiad. Nid ydym yn gweld fod yn yr adnod hon unrhyw brawf y byddai i'r saint ymadawedig fod gyda Christ yn Ei ddyfodiad ; prawf yn unig sydd yma o sicrwydd adgyfodiad y saint. Eto honnir y llall, a cheir y rheswm am yr honiad yn yr adnodau sy'n dilyn. Dyweyd mae Paul yma y byddai i'r saint oedd newydd farw fod gyda Christ yn Ei ddyfodiad, ac ar ol hynny y mae yn dangos paham y dywed felly.

Mae yn yr adnod un gair ag y mae yr esboniad roddir ar ei ystyr yn achosi cryn lawer o gyfnewidiad yn y ffurf sydd ar ystyr yr adnod. Y gair hwnnw yw yr un a gyfieithir " yn " (yn yr Iesu). Nid y gair arferol am " yn " sy'n yn gwreiddiol, ond gair a gyfieithir gan amlaf yn " trwy " (*through or by*). A'r cwestiwn yr ymranna esbonwyr arno yw : Ymha ystyr y mae deall yr arddodiad hwn ? Dywed rhai fod y gair yn ymarferol yn golygu " yn " ; felly y barnai ein cyfieithwyr ni, a dyna ddarlleniad y Cyf. Diw. Barna eraill yn bendant na ddylid cyfieithu y gair a olyga yn gyffredin " trwy " yn " yn " yma, a haerant mai " trwy yr Iesu " y dylid darllen. Rhaid felly newid ffurf yr adnod. Ond pa fodd ? Gellir gwneud hynny mewn un o ddwy ffordd. (1) " Felly y rhai a hunasant drwy yr Iesu." Mae y darlleniad hwn yn

15 hunasant yn yr Iesu, a ddwg Duw hefyd gyd âg ef. Canys
hyn yr ydym yn ei ddywedyd wrthych y'ngair yr Arglwydd,
na bydd i ni, y rhai byw, y rhai a adewir hyd ddyfodiad yr

---

rhoddi syniad prydferth, sef mai trwy yr Iesu y mae y saint yn cael huno. Nid huno ddarfu i'r Iesu, ni ddywedir hynny yn un man; ond marw yn yr ystyr ddyfnaf a chwerwaf i'r gair; ond trwy Ei farw Ef y mae y saint yn gallu "huno" yn yr angeu. Y gwrthwynebiad i hwn ydyw na cheir ef yn unlle arall yn y Test. New. (2) "Felly y rhai a hunasant a ddwg Duw *trwy yr Iesu* gyd ag Ef hefyd." H.y., drwy gyfrwng yr Iesu yr adgyfodir y saint gan Dduw, fel y byddai iddynt ymddangos gydag Ef yn Ei ddyfodiad.

**Dwg gyd âg ef.** Atom ni yn Ei ddyfodiad o'r nef; neu "gyd âg ef" yn Ei fynediad i'w ogoniant.

**ADN. 15. Canys.** Prawf o'r gosodiad a rydd i lawr yn niwedd yr adnod flaenorol.

**Yng ngair yr Arglwydd.** Cyfeirir yn ddiau at ryw fynegiad pennodol o eiddo yr Arglwydd Iesu. Tybia rhai fod yr Apostol yn cyfeirio at gasgliad Semitaidd o ddywediadau yr Iesu oedd yn hysbys i'r Apostol. (Gwel "Expos. Times," 1892—3, tud. 261). Tybia eraill mai at ryw draddodiad ar lafar o eiriau yr Arglwydd Iesu y cyfeirir. Tybia eraill mai at rhyw ddatguddiad arbennig a gawsai yr Apostol gan ei Arglwydd y cyfeirir. Mae'n amlwg fod rhai o'r ffynhonellau hyn yn agored i Paul yn ol Act. xx. 35 a mannau eraill. Credwn fod yna gyfeiriad at eiriau pendant i'r Arglwydd Iesu, neu gallasai yr Apostol ddefnyddio ffurf arall, megis "dywedyd yn yr Arglwydd."

**Na bydd i ni y rhai byw.** Mŷn rhai, ar sail y geiriau hyn, fod Paul yn credu y deuai Crist yn ei ddyddiau ef. Mae'n eithaf tebyg y credai yr Apostol hyn, ond nid ydym yn barnu fod yr adnod hon ynddi ei hun yn profi hynny. Oblegid gallai yr Apostol ddefnyddio iaith fel hyn am dano ei hun a'r rhai a annerchid ganddo, fel cynrychiolwyr y rhai fyddai yn fyw pryd bynnag y deuai yr Iesu. Mae y geiriau "na bydd i ni" yn y gwreiddiol yn golygu "na bydd i ni mewn un modd." Nid difynnu geiriau yr Arglwydd y mae yr Apostol, ond gosod allan eu hystyr yn ei ddull ei hun; a chredwn mai yn yr adnodau nesaf y mae ystyr yr hyn a ddywedodd Crist, ac mai casgliad yr Apostol oddiwrth hynny, mewn ffurf gryno, wedi ei gymhwyso at y wedd ar y pwnc dan sylw, geir yn yr adnod hon. Mae yn annodd credu, wrth ddarllen ymadroddion yr Apostol yn syml, nad oedd efe yn credu yn adgyfodiad llythrennol y corff o'r bedd. Edrychai ef ar y prynedigaeth yn ei gyflawnder mwyaf gan gynnwys y corff, a sonia o ran hynny am "brynedigaeth y corff." Gwyddom fod anhawsterau mawrion ar y ffordd i gredu hyn; ond pwy ŵyr beth yw posibilrwydd mater, er pob cyfnewidiad arno, ac na ellir cadw ei hunaniaeth er pob triniaeth a ga, ac y gall y ffurf uchaf ar fater trwy rin yr Ysbryd fod yn gorff cymwys i'r saint byth.

**ADN. 16.** Disgrifiad byw a mawreddog o'r ail-ddyfodiad, yn yr hwn

Arglwydd, rag-flaenu y rhai a hunasant. Oblegid yr Ar- 16
glwydd ei hun a ddisgyn o'r nef gyd â bloedd, â llef yr
arch-angel, ac âg udgorn Duw: a'r meirw yng Nghrist a
gyfodant yn gyntaf: Yna ninnau y rhai byw, y rhai a 17
adawyd, a gipir i fynu gyd â hwynt yn y cymylau, i gyfar-
fod â'r Arglwydd yn yr awyr: ac felly y byddwn yn was-
tadol gyd â'r Arglwydd. Am hynny diddenwch eich gilydd 18
â'r ymadroddion hyn.

---

y defnyddia Paul, mae'n debyg, ffigyrau a chymhariaethau a ddefnyddid o leiaf gan Iddewon yr oes am ddydd y farn.

**Oblegid.** Rheswm am yr hyn ddywedwyd yn adn. 15, ac nid rheswm ychwanegol at yr un nodwyd yno.

**Yr Arglwydd ei hun.** Nid un o'i weision, ond Efe Ei hun. Efe Ei hun a ddaeth y tro cyntaf, Efe Ei hun a ddaw yr ail waith.

**Bloedd, llef, udgorn.** Golyga y gair a gyfieithir " bloedd," floedd ag awdurdod ynddi, bloedd gorchymyn neu alwad. Tybia rhai mai gorchymyn neu alwad Duw i'r Mab a olygir, a bod yr Arch-angel â'i lais mewn utgorn yn gyfrwng gan yr Arglwydd Iesu i alw y " meirw yng Nghrist," ond nid yw hyn ond tyb, ac y mae esbonio ystyr a pherthynas y tri gair a'u gilydd, gyda dim sicrwydd, yn amhosibl. Un peth sy'n amlwg, mai geiriau ffigyrol ydynt i ddisgrifio yr alwad a roddir i'r " meirw yng Nghrist," ac y bydd yr alwad, beth bynnag am ei ffurf, yn effeithiol.

**Y meirw yng Nghrist, &c.** Nid a gyfodant o flaen y meirw fydd heb fod yng Nghrist, ond a gyfodant cyn i'r rhai byw gael eu cipio i fyny. Y pwynt yw na byddai i'r meirw fod dan unrhyw anfantais ynglŷn â'r ail-ddyfodiad.

**ADN. 17. Yna.** Dynoda y gair yn y fan. Wedi i'r " meirw yng Nghrist gyfodi, cipir y rhai byw gyda hwy yn y cymylau (fel Crist Ei hun yn Ei esgyniad—Act. i. 9—11). Yn ol y disgrifiad byw hwn, cyferfydd yr Arglwydd Iesu Ei saint yn yr awyr, ac yna esgynant yn orymdaith ddigymar i'r nef, yno i aros gyda'u gilydd yn dragywydd.

**ADN. 18.** Nid yn unig yr oeddynt i dynnu cysur oddiwrth eglurhad yr Apostol iddynt eu hunain bob yn un ac un, ond yr oeddynt hefyd i wneud defnydd o'i eiriau eu hunain er mwyn diddanu eu gilydd. Efallai fod Paul yn ymhelaethu ar rwysgfawredd y dyfodiad er mwyn ennyn eu dychymyg, a thrwy hynny roddi iddynt asbri gobaith a llawenydd.

# PENNOD V.

1 EITHR am yr amserau a'r prydiau, frodyr, nid rhaid i
2 chwi ysgrifennu o honof attoch. Oblegid chwi a
wyddoch eich hunain yn hysbys, mai felly y daw dydd yr

---

## PENNOD V.

### I—II.

Mae yr adnodau hyn yn cynnwys trafodaeth ar y mater olaf y gofynasai y saint am gyfarwyddyd yn ei gylch (gwel iv. 13). Yr oeddynt nid yn unig yn bryderus ynghylch eu brodyr ymadawedig, ond hefyd ynghylch eu hiachawdwriaeth eu hunain. Ofnent i'r Arglwydd ddyfod unrhyw ddiwrnod neu unrhyw awr a'u cael yn amharod ; felly gofynnent i'r Apostol am wybodaeth fwy pendant ynghylch amser Ei ddyfodiad.

**ADN. I. Eithr.** Gwell fyddai "yn awr" (*now*) fel ar ddechreu pob trofa flaenorol (gwel pen. iv. 9—13).

**Yr amserau a'r prydiau.** Mae pum gair Cymraeg yn cael eu defnyddio yn gyffredin am y ddau hyn, sef "cyfnodau," "amseroedd," "tymhorau," "adegau," a "phrydiau." Beth yw y gwahaniaeth rhyngddynt ? Credwn fod "cyfnodau," "amseroedd," a "phrydiau" yn cyfeirio at amser yn ei hyd—amser moel ar wahan i bopeth arall. O'r rhain "cyfnodau" yw yr hwyaf, oblegid fe geir gwahanol "amseroedd" mewn cyfnod, megis "amser drwg" ac "amser da." Mae "amseroedd" yn golygu parhad lled faith megis "amseroedd enbyd," y lliosog yn golygu parhad hwy na phe defnyddiasid yr unigol. Mae "prydiau" drachefn yn dynodi, fel rheol, bwyntiau neilltuol o amser, *e.g.* "pryd y mae'r tren yn cychwyn ?" Mae tymhorau ac "adegau" drachefn â lliw amgylchiadau arnynt yn ogystal a pharhad, *e.g.* "tymor hau," "tymor medi," &c. Mae "adegau" yn cyfeirio at amser byrach na'r "tymhorau," er yn cadw lliw yr amgylchiadau arno ei hun, *e.g.* "adeg i blannu," "adeg i lafurio." Nid yw pob tymor yn adeg briodol i wneud gwaith arbennig. Ni cheir "adeg" briodol i gywain yr ŷd bob dydd, er ei bod yn "dymhor" cynhaeaf. Credwn mai'r cyfieithiad goreu yma fuasai "amserau a thymhorau," a deall y ddau yn yr ystyron a roddwyd iddynt uchod.

**ADN. 2.** Yr oeddynt yn gwybod cymaint ag oedd yn angenrheidiol iddynt, oblegid nid adeg y dyfodiad oedd yn bwysig, ond ei ystyr a'i gynnwys. Wyddai neb yr adeg ; am hynny dylai pawb fod yn barod. Nid gwybodaeth fanwl am ambell ddigwyddiad sy'n bwysig, ond cymhwyster i'w gyfarfod.

**Yn hysbys.** Hen air Cymraeg yn golygu, heblaw yr hyn a olyga heddyw, "sicr"—"chwi a wyddoch yn sicr."

> "*Hysbys* y dengys y dyn
> O ba radd y bo ei wreiddyn."—*Tudur Aled*, 1490.

Arglwydd fel lleidr yn y nos. Canys pan ddywedant, 3
Tangnefedd a dïogelwch ; yna y mae dinystr disymwth yn
dyfod ar eu gwarthaf, megis gwewyr esgor ar un a fo
beichiog ; ac ni ddïangant hwy ddim. Ond chwychwi, 4

---

**Dydd yr Arglwydd.** Ymadrodd cyffredin yn yr Hen Dest., a defnyddir ef gan y proffwydi i ddynodi rhyw ymweliad arbennig o eiddo Duw, naill ai i waredu Ei bobl (Esa. xiii. 6), neu i'w cosbi a'u ceryddu (Amos v. 18). Defnyddir ef yn y Test. New. i ddisgrifio ail-ddyfodiad Crist bob amser. "Dydd Crist," sef y dydd y bydd Crist yn fwy amlwg na neb arall, dydd y bydd yn rhaid i bob llygad Ei weled: dydd Ei ogoniant. Mae pechod yn tywyllu Ei ddyddiau yn awr ; Efe bia bob dydd, ond nid yw y dyddiau yn deilwng o hono ; ond fe ddaw Ei "ddydd" Ef yn y man, a bydd y "dydd hwnnw" yn deilwng o'i Arglwydd.

**Fel lleidr yn y nos.** Cyfeiriad yn ddiau at eiriau Crist Ei hun (Matt. xxiv. 43). Nid am mai yn y nos y daw, fel y tybiodd yr eglwys unwaith, ond am y daw yn ddisymwth, ac mewn adeg na bydd dynion yn Ei ddisgwyl. Efallai fod yma wedd arall ar Ei ddyfodiad yn cael ei hawgrymu hefyd, sef distawrwydd y dyfodiad. Ceir y ddwy wedd yn gampus gan Oronwy :

"Mal cawr aruthr yn rhuthraw,
Mal lladron dison y daw."

**ADN. 3. Canys pan ddywedant.** Y ffurf amhersonol geir yma= "pan ddywedir"; h.y., dyna yr agwedd ar feddwl ac ymddygiad yr oes. Diau mai y bobl nad adwaenant Dduw a olygir yn y gwreiddyn, a daw y cyferbyniol yn yr adn. nesaf, "ond chwychwi."

Diau fod yma gyfeiriad at Luc xxi. 34—36, fel sydd yn aml rhwng epistolau Paul a'r drydedd Efengyl. Ac y mae cyfeiriad yn y naill a'r llall at Ezec. xiii. 10 a Jer. vi. 14. Yr un sefyllfa anystyriol a ddisgrifir gan yr Arglwydd Iesu yn Matt. xxiv. 38, 39 ; Luc xvii. 26, 27, a 29, 30.

**Dinystr disymwth.** Fel yn nyddiau Noah, a dinistr dinasoedd y gwastadedd.

**Ar eu gwarthaf.** Hen air Cymraeg campus. O'r un gwreiddyn a "gwarr," rhan uchaf y cefn, "gwarr heol"=*ridge of the roadway* (Lladin, *Vertex*—y mae y *v* Lladin yn troi yn *gw* yn Gymraeg). *Vertex Galcae=the top of the helmet*; ac yn Gymraeg "gwarthaf *helm*." Gwel Geiriadur Lladin-Gymraeg Dr. John Davies. Y mae "dod ar eu cefnau" (yn sydyn) yn ymadrodd cyfystyr yn Gymraeg.

**Ac ni ddiangant hwy ddim.** Ymddengys oddiwrth y geiriau hyn mai nid prif bwynt y gymhariaeth flaenorol yw sydynrwydd y dyfodiad, ond y ffaith na bydd modd ei osgoi. Mae yr amseroedd megis yn ymddŵyn ar y dinistr, ac fe ddaw y gwewyr rhyw ddiwrnod, ac nis gellir dianc oddiwrtho mwy nag y gall gwraig ddianc oddiwrth wewyr esgor. Sylwa Lightfoot fod yr adnod hon yn dra gwahanol yn ei

frodyr, nid ydych mewn tywyllwch, fel y goddiweddo y
5 dydd hwnnw chwi megis lleidr. Chwychwi oll, plant y
goleuni ydych, a phlant y dydd: nid ydym ni o'r nos, nac
6 o'r tywyllwch. Am hynny na chysgwn, fel rhai eraill;

---

harddull i'r eiddo Paul yn gyffredin, ac y teimlwn ein hunain ynddi fel pe buasem wedi dod ar draws adnod yng nghanol prophwydoliaethau yr Hen. Dest. A dywed fod hyn yn nodwedd ar ysgrifenwyr y Test. New. pan y maent yn delio â phynciau Datguddiadol (Apocalyptic). Syrth yr ysgrifennydd yn ddiarwybod i'r un iaith ddisgrifiadol. Dywed mai engraifft o hynny yw 2 Thes. i. 7, a rhannau helaeth o Ail Epistol Petr.

**ADN. 4. Ond chwychwi, frodyr.** Mewn gwrthgyferbyniad i'r rhai a ddisgrifir yn adn. 3.

**Mewn tywyllwch.** "Tywyllwch" pechod, meddai rhai (Frame); ond gwell gennym y'syniad mai "tywyllwch" anwybodaeth olygir yn arbennig yma; y mae ystyr foesol yn dod i'r gair yn yr adnod nesaf. Nid gwybodaeth am adeg y dyfodiad yw'r meddwl, ond gwybodaeth fod y "dydd" i ddod, ac y gallai ddod unrhyw adeg. Parodrwydd ar gyfer ei ddyfodiad sy'n bwysig, ac nid gwybodaeth am adeg ei ddyfodiad.

**Megis lleidr.** Yn ol amryw o'r MSS. "lladron" yw y gair, ac nid lleidr. A'r ystyr felly fyddai, "fel y goddiweddo y dydd hwnnw chwi megis (y goddiweddir) lladron," h.y., fel y mae y wawr yn torri yn sydyn ar ladron. Dyma farn rhai o'r prif esbonwyr, megis Frame a Lightfoot. Ond ymddengys i ni braidd yn annaturiol i newid y gymhariaeth mor sydyn ar ol adn. 2. Heblaw hyn nid ydym yn gweld llawer o gymhwyster yn y gymhariaeth o "ddydd yn goddiweddyd lladron," mae y rheiny yn ddigon gofalus fel rheol i osgoi hyn. Nid goleuni dydd yw gelyn mawr lladron. Credwn mai y cyfieithiad fel y mae gennym yw'r goreu, ac y mae mwy o'r MSS. o'i blaid.

**ADN. 5. Chwychwi oll.** Cysur i'r gwan-galon yn eu plith; nid oedd eu hofn yn ymyrryd a'u cyflwr.

**Plant y goleuni a phlant y dydd.** Yn llythrennol, "meibion y goleuni," &c. Mae yr ail ymadrodd yn gryfach na'r cyntaf: eu nodwedd geir yn y cyntaf, a'u braint geir yn yr ail. Yr oedd y "dydd" wedi taflu ei oleuni arnynt eisoes, ond nid y goleuni a feddent oedd eu hunig gynhysgaeth—yr oeddynt yn etifeddion y "dydd" yn ei holl lawnder a'i gyfoeth. Enw ardderchog ar y saint—"plant y dydd."

**Nid ydym ni, &c.** Cymeriad y Cristionogion yn gyffredinol. Fel y sylwyd fod "dydd" yn eangach ei ystyr na "goleuni," felly mae "nos" yn gryfach na thywyllwch. Nid yw y saint yn perthyn i deyrnas y tywyllwch, ac am hynny nid yw tywyllwch y deyrnas ynddynt.

**ADN. 6. Am hynny na chysgwn.** Byddwn fyw yn deilwng o'n braint a'n proffes. Syrthni a musgrellni moesol ddynodir yn y gym-

eithr gwyliwn, a byddwn sobr. Canys y rhai a gysgant, 7
y nos y cysgant; a'r rhai a feddwant, y nos y meddwant.
Eithr nyni, gan ein bod o'r dydd, byddwn sobr, wedi ym- 8
wisgo â dwyfronneg ffydd a chariad, ac â gobaith iachaw-

---

hariaeth o gysgu, cynyrch pa rai yw diofalwch, diogi, ac anwyliadwriaeth.

**Fel rhai eraill.** Fel y rhelyw (*like the rest of men.*—Dr. Moffatt). Perthyn i'r nos y maent hwy, a gweithredoedd eu cylch a ddisgwylir ganddynt. Yr ydym ni yn perthyn i'r dydd, a gweithredoedd y dydd yn unig sy'n deilwng o honom.

**Eithr gwyliwn a byddwn sobr.** Wrth " wylio " y golygir gwneud defnydd o bob synnwyr a feddwn, rhag i'r gelyn ein niweidio; mae ei wybodaeth a'i ddichell, ei falais a'i frad, yn fawr; dylem ninnau drethu pob gallu a feddwn i ddeall ac i ochel pob ymosodiad o'i eiddo. Gan mai geiriau cymhariaethol yw " cysgu " a " gwylio," credwn mai felly y dylid deall y gair " sobr," er fod ei ystyr lythrennol yn ol pob tebyg yn cyfeirio at ymatal oddiwrth feddwdod. Mae meddwdod yn effeithio mewn un o ddwy wedd ar ddynion: (1) Eu gwneud yn swrth; (2) Eu gwneud yn gynhyrfus. Os mai ffugr yw y gair " sobr " cyflea y syniad gwrthgyferbyniol: (1) Meddiant trwyadl ar ein teimladau a'n holl alluoedd; (2) Tawelwch a phwyll. Efallai mai at y wedd olaf y cyfeirir yn bennaf yma, pan gofiwn gynnwys pen. iv. 11.

**ADN. 7.** Defnyddio ffaith naturiol i ddynodi cyflwr moesol ac ysbrydol y mae yr Apostol yn yr adnod hon. Mae rhyw gyfathrach rhwng " cwsg " a " nos," a'r un modd y mae rhyw gyfathrach rhwng rhai pechodau (gweithredoedd y tywyllwch) neilltuol â nos naturiol—yn y nos y mae dynion yn meddwi gan amlaf. Gan mai plant y dydd yw crefyddwyr, ni ddylent fod mewn cyfathrach â gweithredoedd y nos. Mae hynny nid yn unig yn ddrwg, ond y mae yn annaturiol ac yn rhagrithiol.

**ADN. 8. Eithr nyni.** Yn wrthgyferbyniol i'r rhai ddisgrifir yn yr adnod o'r blaen.

**Byddwn sobr.** Yr un gair ag a geir yn adn. 6; gwel y nodiad yno.

**Dwyfronneg . . . . helm.** Mae y gwylio wedi arwain meddwl yr Apostol yn naturiol yn ol ei arfer at wyliadwriaeth y milwr. Gwyddom mor hoff yw o'r ffugr hwn (Rhuf. xiii. 12, 13; Eph. vi. 13—17, &c.). Gwelir mai'r arfau amddiffynol geir yma, am mai gwylio rhag ymosodiadau gelynion ysbrydol yw ei bwnc. Pan y mae holl waith y bywyd ysbrydol yn cael ei drafod fel yn Eph. vi. 13—17, y mae yr arfau ymosodol hefyd yn cael lle, " cleddyf," &c. Mae'n debyg mai'r llurig a olygir wrth y ddwyfronneg; yr oedd llurig (o'r gair Lladin *lorica*) yn ddur-wisg wauedig a guddiai y corff o'r gwddf at y morddwyd-

9 dwriaeth yn lle helm. Canys nid appwyntiodd Duw nyni
i ddigofaint, ond i gaffael iachawdwriaeth trwy ein Har-
10 glwydd Iesu Grist. Yr hwn a fu farw drosom; fel pa un

---

ydd o'r tu blaen a'r tu ôl. *Coat of mail* y gelwir hi yn Saesneg, ac mewn hen Gymraeg teryn dur, pais ddur, crys dur, cat-bais. Penwisg oedd yr *helm*, a gelwid hi weithiau yn "penffestin." Ymgywreinio fyddai ceisio gosod allan unrhyw gyfatebiaeth fanwl rhwng yr arfau a'r grasusau a nodir; nid oedd hynny yn meddwl Paul, oblegid yn ei lythyr at yr Ephesiaid am "ddwyfronneg cyfiawnder" y sonia. Y gwirionedd pwysig a ddysga yw fod grasusau amlwg yr Efengyl yn amddiffyniad rhag ymosodiadau yr un drwg.

**ADN. 9. Canys ni apwyntiodd Duw, &c.** Mae y gobaith am iachawdwriaeth yn un na chywilyddia, oblegid (nid canys) y mae Duw wedi ein hapwyntio ni i iachawdwriaeth; dyma sail ein gobaith, ac nid rheswm yn unig dros i ni gredu na siomir ni ynddo. Gair o gysur eto i'r "gwan-galon."

**Ond i gaffael iachawdwriaeth.** Pa un ai "caffael" o'n hochr ni ai ynte o ochr Duw yw y meddwl? Gall y ddau fod yn wir yma. Mae Duw wedi pwrpasu iachawdwriaeth i ni; am hynny dylem wneud ein goreu i'w chael. Y mae ein hymdrech ni i gydweithio ag apwyntiad Duw. Ond ar y cyfan gwell gennym y syniad arall "caffael i ni iachawdwriaeth" yw trefniant ac apwyntiad Duw. Y wedd hon, ni dybiwn, sydd fwyaf cyson â dysgeidiaeth yr Apostol. Nid yw hyn yn golygu nad yw y llall yn wir, pell oddiwrth hynny; ond ymddengys i ni mai y wedd yma ar y gwirionedd oedd o flaen meddwl yr Apostol yma.

**Trwy ein Harglwydd Iesu Grist.** Mae y frawddeg hon i'w chysylltu â "chaffael yr iachawdwriaeth" ac nid ag "apwyntiad." Iachawdwriaeth trwy Iesu Grist yw, nid y drefn fawr wedi ei gweithio allan a'i gorffen gan a thrwy Iesu Grist yw'r meddwl, ond iachawdwriaeth bersonol pob dyn yn cael ei dwyn ymlaen yn rhinwedd ei undeb â'r Arglwydd Iesu, yr Hwn drwy Ei Ysbryd sydd yn nerthol weithio ymhob un sy'n credu.

**ADN. 10. Yr hwn a fu farw drosom.** Dyma sail ein hiachawdwriaeth. Am Ei fod wedi marw drosom y mae yn byw ynom, ac felly yn gweithio allan ein hiachawdwriaeth. Efallai hefyd fod yr Apostol yn crybwyll am Ei farwolaeth wirfoddol trosom, fel rheswm na bydd iddo ddiffygio nes gweled yr iachawdwriaeth yn ei chyflawnder yn eiddo inni. Danghosodd wrth farw nid yn unig Ei gariad atom, ond hefyd Ei benderfyniad i'n gwaredu. Mae mawredd Ei aberth yn dangos grym Ei ewyllys. Yma "drosom" yn yr ystyr o "er ein mwyn," "er ein budd," "erom," yw'r meddwl. Yr un ystyr sydd i'r gair a phan sonir am y saint yn gweddio dros eu gilydd. Mae geiriau eraill yn cael eu cyfieithu "drosom" sy'n golygu "yn ein lle," sef y wedd ddirprwyol ar yr iawn. Ond nid y gwirionedd mawr hwnnw y mae yr Apostol yn ei drafod yma: er fod rhai o'r MSS. yn defnyddio

bynnag a wnelom ai gwylied ai cysgu, y byddom fyw gyd
âg ef. O herwydd paham cynghorwch eich gilydd, ac 11
adeiledwch bob un eich gilydd, megis ag yr ydych yn
gwneuthur. Ac yr ydym yn attolwg i chwi, frodyr, ad- 12

---

gair yma y gellir ei gyfieithu i olygu " er ein mwyn " neu " yn ein lle."

**Fel pa un bynnag a wnelom.** Bu Crist farw er mwyn sicrhau y byddem ni yn eiddo Iddo, pa un bynnag ai byw ai marw fyddem yn Ei ddyfodiad. Ystyr y gair gyfieithir yn gywir yn " gwylied " yma ydyw yn effro, h.y., yn fyw. Ystyr lythrennol sydd i'w roddi i'r geiriau " byw " a " marw " yma, ac nid ystyr foesol fel yn adn. 6. " Y byddom fyw gydag Ef." Mae y gair gyfieithir " gyd " neu " ynghyd " i'w gysylltu â " byw," ac nid " ag ef." Yr ystyr ydyw y byddai i'r meirw a'r byw gael cyd-fyw gyda'r Iesu, heb fod y meirw yn colli unrhyw fraint na mantais oherwydd marw. A dyma y pwnc y dymunai yr Apostol ei bwysleisio yma, fel yr eglurwyd o'r blaen.

**ADN. 11.** Cyfieithiad mwy llythrennol o'r adnod hon fyddai " Gan hynny calonogwch eich gilydd ac adeiledwch y naill y llall, fel yn wir yr ydych yn gwneud." Yr un gair a gyfieithir yn " gynghori " yma ag a gyfieithir yn " diddannu " yn iv. 18. Gall olygu y naill beth neu'r llall, neu ynte " galonogi " fel y cyfieithwyd ef o'r blaen ; a chredwn mai yr olaf sy'n gweddu oreu yma—calonogi y " gwan-galon." Nid yr un gair sydd am " eich gilydd " yn y ddau le yn yr adnod ; am hynny y gwnaethom gyfnewidiad yn yr olaf.

**Adeiledwch.** Gwel 1 Cor. iii. 12—17 ac Ephes. ii. 20—22. Cymhariaeth ddefnyddir gan yr Apostol amryw weithiau. Dywed Dr. Moffatt fod y gair yn golygu " pob cyfnerthiad ac arweiniad a gaiff Cristion oddiwrth gymdeithas eglwys Crist." Dyledswydd yr eglwys oedd, nid dyfalu ynghylch digwyddiadau mawr, ond ymgadarnhau a nerthu eu gilydd mewn gras a rhinwedd fel y byddent barod ar gyfer y digwyddiad pryd bynnag y deuai.

**Megis yr ydych yn gwneuthur.** Gofalai Paul pan y deuai arlliw cerydd ar ei eiriau am arfer pob tynerwch yn y fan er mwyn cadw ar dir annogaeth, a chydnabod yn dra helaeth y daioni a welai er symbylu i ddaioni helaethach.

### PEN. V. 12—22.

Perthyn i adran y cynghorion y mae y rhan hon, ond fod gwedd fwy cyffredinol ar y cynghorion o 15 i 22. Yn adn. 12 a 13 mae yr Apostol yn cyfarwyddo yr eglwys pa fodd i ymddwyn at y rhai amlwg mewn gwaith a safle yn yr eglwys yn eu plith.

**ADN. 12. Adnabod.** Ystyr y gair yma yw " cydnabod " (Salm cxliv. 3), " parchu," " mawrhau," " gwerthfawrogi." Eglwys o weithwyr oedd eglwys Thesalonica gydag ychydig eithriadau, megis

nabod y rhai sydd yn llafurio yn eich mysg, ac yn eich
llywodraethu chwi yn yr Arglwydd, ac yn eich rhybuddio ;
13 A gwneuthur cyfrif mawr o honynt mewn cariad, er mwyn
eu gwaith. Byddwch dangnefeddus yn eich plith eich
14 hunain. Ond yr ydym yn deisyf arnoch, frodyr, rhybudd-
iwch y rhai afreolus, diddenwch y gwan eu meddwl, cyn-
15 heliwch y gweiniaid, byddwch ymarhous wrth bawb. Gwel-

---

Jason, Secundus, ac efallai Demas ; yr oedd dynion fel y rhai'n yn gallu fforddio rhoddi eu tai, a'u hamser, a'u holl fedr at wasanaeth yr eglwys. Diau nad oeddynt ond tra ffaeledig, ond eto yr oeddynt ar gyfrif eu naws a'u hegni yn haeddu parch mawr ; a pherygl y dosbarth cyffredin oedd peidio rhoi parch dyledus iddynt. Mae'n debyg hefyd fod y rhai segur y cyfeiriwyd atynt o'r blaen wedi apelio am gymorth ariannol oddiwrth y rhai oedd yn " llywodraethu," ac wedi cael eu gwrthod am y rheswm y dylasent ymroi i gyflawni eu gorchwylion a pheidio pwyso ar gyllid yr eglwys ieuanc. Canlyniad hyn oedd i'r segurwyr godi gwrthwynebiad a gwneud cynhwrf yn yr eglwys, a thrwy hynny beryglu heddwch y frawdoliaeth. Nid yw yr ymadroddion ddefnyddir yma i ddisgrifio gwaith y brodyr amlwg yn cyfeirio at swyddi o gwbl, ond at wahanol agweddau ar waith yr un bobl. Ni cheir cyfeiriad yn nosbarth cyntaf epistolau Paul, sef y ddau hyn, y Rhufeiniaid, y Galatiaid, a'r Corinthiaid at unrhyw swyddogaeth eglwysig o gwbl ; yn Phil. i. 1 y ceir y cyfeiriad cyntaf at hynny.

**Yn llafurio . . . yn llywodraethu . . . yn rhybuddio.** Gair i'w disgrifio yn gyffredinol yw y cyntaf, a golyga waith mawr—gwaith oedd yn llafur. Yn y ddau air arall dynodir dwy wedd ar y llafur : (1) Arolygiaeth gyffredinol dros yr achos yn ei bethau allanol yn bennaf ; (2) Y cynghori a'r cyfarwyddo ynglyn â phethau moesol ac ysbrydol.

**ADN. 13. Cyfrif mawr . . . mewn cariad.** Nid oedd eu parchu yn ddigon, ond dylent hefyd eu mawrygu mewn cariad. Un peth yw parch at rai oherwydd eu safle a'u talentau ; peth arall, llawer uwch a gwell, yw meithrin cariad atynt a gadael i barch dyfu yn naear cariad, a hwnnw sydd yn tyfu yn " bren mawr " bob amser. Yn awyrgylch mawrygiad cariad y gall arweinwyr crefyddol wneud gwaith llwyddiannus, ac yn yr un awyrgylch y gall aelodau eglwysig dyfu a phrifio.

**Byddwch dangnefeddus, &c.** Awyr tangnefedd yw awyr yr eglwys i fod, mae cythrwfwl yn tarfu yr ysbryd, ac fe gollir yr hufen oddiar y profiadau. Dywed Frame fod y gair a ddefnyddia Paul yma am " yn eich plith eich hunain " yn golygu fod y cyngor yn cael ei gyfeirio at y rhai oedd yn llywodraethu yn ogystal a'r rhai a lywodraethid.

**ADN. 14.** Mae Paul yma yn cyfarch y " brodyr," h.y. yr eglwys yn gyffredinol, ac nid y rhai oedd " ar y blaen " o ran safle ; felly mae'n

wch na thalo neb ddrwg dros ddrwg i neb : eithr yn wastadol
dilynwch yr hyn sydd dda, tu ag at eich gilydd, a thu ag at
bawb. Byddwch lawen yn wastadol. Gweddïwch yn 16, 17

---

amlwg yr ystyriai nad oedd y gwaith nodir ganddo i'w gyfyngu i un dosbarth, llawer llai i swyddogion apwyntiedig. 'Does a wnelo hyn ddim a lle swyddogaeth mewn eglwys, wrth gwrs, oblegid trafod pethau fel yr oeddynt mewn eglwys yn ei "hanelwig ddefnydd" o ran ei ffurf-lywodraeth y mae Paul yma. Am y gwahanol ddosbarthiadau arbennig enwir yma gwel nodiad ar ddechreu pen iv. Cyfieithiad Dr. Moffatt o'r adnod hon yw, " . . . . keep a check upon loafers, encourage the faint-hearted, sustain weak souls, never lose your temper with anyone."

**ADN. 15. Gwelwch na thalo neb.** Nid y gorchym moel "na thalwch," ond rhoddir pwyslais arbennig ar y cyngor="gofalwch na thalo neb," nid yn unig na wnewch eich hunain, ond gwnewch bob ymdrech i atal unrhyw un i wneud hynny i neb pwy bynnag.

**Drwg dros ddrwg.** Credir, gan y ceir y geiriau hyn yn Rhuf. xii. 17 a 1 Petr iii. 9 fod Paul a Phetr yn difynnu geiriau Crist Ei hun. Ceir y safon uchel hon yn y Bregeth ar y Mynydd, a dengys annhraethol ragoriaeth Cristionogaeth ar Iddewaeth.

**Yn wastadol.** O dan bob amgylchiad, hyd yn oed pan y bo'r demasiwn gryfaf i ddial neu i daro yn ol.

**Yr hyn sydd dda.** Y da yn yr ystyr o gymwynas a budd yw'r meddwl, nid yr un gair sydd yma yn y gwreiddiol ag a geir yn adn. 21. Y "da" yw hwn mewn gwrthgyferbyniad i'r "drwg" yn y frawddeg o'r blaen, ac y mae'n eglur mai "niwed" a olygir yno, a "da" yn yr ystyr o garedigrwydd a olygir yma. Ac yr oeddynt i ddangos y caredigrwydd hwn nid i'w gilydd yn unig ond i bawb, h.y., i'r byd oddiallan, ac hyd yn oed i'w gelynion, megis y dysgai yr Athraw Mawr.

Mae perthynas agos rhwng yr adnodau hyn a'u gilydd, er fod pob un yn gyflawn ar ei phen ei hun. Trwy "weddio yn ddibaid" y gellir "bod yn llawen yn wastadol," a thrwy y naill a'r llall y gellir "diolch ymhob dim." Mae "hyn" hefyd yn adn. 18 yn cynnwys y "gweddio yn ddibaid" a'r "llawenhau yn wastadol."

**ADN. 16. Byddwch lawen yn wastadol.** Mae'n perthyn i grefydd alar ac edifeirwch, a golyga y naill a'r llall gynni ac ing enaid. Ond yng nghrefydd Crist, fel ynddo Ef Ei hun, ceir cyfuniad o deimladau gwrthgyferbyniol. Pan yr oedd Efe yn cychwyn gyrfa Ei ing dywedir: "Yr Iesu, yr awr honno, a lawenychodd yn yr Ysbryd." Ar gyfer hyn cawn yr Apostol yn son am "orfoleddu mewn gorthrymderau." A phan y ceir y cyfuniad yma o deimladau gwrthgyferbyniol y ceir y naill a'r llall yn eu grym a'u perffeithrwydd mwyaf. Arwydd o grefydd amherffaith iawn yw ei bod yn brudd heb fod yn llawen, ac y mae yr un mor wir (yn y fuchedd hon) mai arwydd o gyffelyb amherffeithrwydd yw bod yn llawen heb wybod am alar dwys am bechod. Y

18 ddibaid. Ym mhob dim dïolchwch: canys hyn *yw* ewyllys
19 Duw yng Nghrist Iesu tu ag atoch chwi. Na ddiffodd-

---

rhai sydd yn galaru a ddiddennir, nid rhywbryd, ond y mae gwir alar yn sylfaen i wir lawenydd. Hefyd, y mae llawenydd ysbrydol nid yn unig yn hyfryd, ond yn arial i'r galon sy'n ei symbylu a'i chyfnerthu ar gyfer mwy o waith. Cofiwn mai nid yn y teimlad naturiol yn unig, nac yn bennaf, y mae cartref y llawenydd hwn, ond yn ysbryd dyn, a hwnnw yn hydreiddio ei deimladau naturiol. Peth peryglus yw i grefydd gynhyrfu teimlad naturiol dyn, os na bydd ei ysbryd wedi ei gyffwrdd. Dyma effaith " diwygiad " ar lawer un—cyffroi ei deimlad naturiol, ac nid yw hwnnw ynddo ei hun amgen na nwyd ; a pheth peryglus yw cyffroi nwyd bob amser. Nid dyweyd yr ydym, sylwer, mai drwg digymysg yw hyn, ond dyweyd fod perygl ynddo. Gall y canlyniadau fod yn ddaionus, ond y mae eisieu gwyliadwriaeth fanwl. Mae aml un wedi ei achub drwy i'r Efengyl afael yn ei deimladau naturiol i ddechreu : oblegid nid un porth sydd i ddinas yr enaid.

**ADN. 17. Gweddiwch yn ddibaid.** Nid bod wrth y gwaith o weddio o hyd feddylir, mae hynny yn gwbl anymarferol ; ond bod mewn tymer ac ysbryd gweddigar bob amser. Nid at amser y cyfeirir ond at naws yr enaid. Lle y bydd yr ansawdd fe geir amser, neu f'ei gwneir ; ond mae modd i'r arferiad fod, fel yn hanes y Pharisead gynt, heb yr ansawdd. Mae modd arfer gweddi heb weddio, ond lle y ceir ysbryd gweddi, fe geir y ffurf a'r arfer hefyd. Diogelwch y saint hyn ynghanol erledigaethau o faes ac anghydgord o fewn, oedd bod mewn tymer weddigar. Ni all saeth y gelyn gyrraedd drwy gysylltiadau llurig y dyn sy'n gweddio yn ddibaid. Yn wir fe dry ei weddi y " gwyntoedd oera'u rhyw yn nefol hin " i'w enaid.

**ADN. 18. Ymhob dim diolchwch.** Nid ansawdd ddiolchgar gyffredinol yn unig argymhellir, ond defnyddio pob cyfle i ddiolch, a rhagor, gwneud popeth yn destun diolch. Nid diolch mewn hawddfyd, pan y mae'n haws cael testyn, ond chwilio am destyn mewn adfyd pan nad yw'n hawdd ei weld. 'Does yr un adfyd na ddylem ddiolch am Dduw fydd gyda ni ynddo : ac yn fynych mae'r adfyd yn foddion i ddwyn dynion i sylweddoli mwy o bresennoldeb Duw.

**Hyn yw ewyllys Duw yng Nghrist.** Yn yr Efengyl yr ydym yn cael ewyllys Duw yng Nghrist, ac os y byddwn ninnau yng Ngrist ni deimlwn rym yr ewyllys, a rhagor, ni gawn fywyd Crist i weithio yr ewyllys allan. A dyma un o wirioneddau mawr dysgeidiaeth Paul. Yng Nghrist mae holl gylch crefydd i'w byw, ac y mae'r cylch a'r bywyd yn anherfynol. Mae ewyllys Duw yng Ngrist nid yn orchymyn oddiallan i geisio ei gadw, ond yn rym egwyddor o fewn i'w byw, a'r tair gwedd geir yma ar hwnnw yw cynnwys y tair adnod hyn. Mae " llawenhau yn wastadol " a " gweddio yn ddibaid " a " diolch ymhob dim " yn annodd iawn. Ydyw, ond cofiwn er ein cysur fod grym " ewyllys Duw yng Nghrist " y tu ol i bob ymdrech i'w gwneud.

**Tuag atoch chwi.** Nid ynglyn â chwi, neu " gyda chyfeiriad atoch

wch yr Ysbryd. Na ddirmygwch brophwydoliaethau. 20
Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda. Ym- 21, 22
gedwch rhag pob rhith drygioni. A gwir Dduw y tangnef- 23

---

chwi," ond "er eich mwyn chwi." Cyfieithiad Frame o'r frawddeg yw: "For this is God's will operating in Christ Jesus for you."

**ADN. 19. Na ddiffoddwch yr Ysbryd.** Cysylltir yr Ysbryd â thân yn fynych, a'r ffugr o dân oedd o flaen meddwl yr Apostol wrth son am ddiffodd. Mae'n debyg mai at ddoniau arbennig yr Ysbryd y cyfeirir, sef y doniau y cyfeirir atynt yn 1 Cor. xiv., yn arbennig adn. 26. Yr oedd llawer eithaf wedi cydgyfarfod yn eglwys Thesalonica; un oedd rhoi lle gormodol i deimlad nes yr oedd sel yn mynd yn orphwylledd; y llall oedd dirmygu pob brwdfrydedd ac ystyried mai arwydd o bwyll a challineb crefyddol oedd hynny. Cynghora Paul hwy i fod yn ofalus rhag atal dim ar weithrediadau yr Ysbryd beth bynnag fyddai ei ffurf.

**ADN. 20. Na ddirmygwch broffwydoliaethau.** Dyma ffurf arbennig ar weithrediadau'r Ysbryd—y ddawn broffwydol, nid yn y ffurf o ragfynegi, nac o ddysgu, ond yn y ffurf o gyhoeddi mewn gwres wirioneddau a phrofiadau crefyddol. Yr oedd tuedd ymysg rhai y pryd hwnnw, fel y mae eto, i ddirmygu y cyfryw beth; cynghorai'r Apostol hwy i ochel hynny. Gallai fod llawer o wylltineb a hylltod yn perthyn iddo, ond nid oedd i'w ddirmygu.

**ADN. 21. Profwch bob peth.** Er nad oeddynt i'w "dirmygu," yr oeddynt i'w "profi," ac yr oedd gwneud y naill mor anhebgorol a pheidio gwneud y llall. A rhaid wrth amser i brofi pethau sydd yn gynnyrch yr Ysbryd neu sydd ynglyn a'i waith.

**Deliwch yr hyn sydd dda.** Gair gwahanol sydd yma am "dda" i'r un geir yn adn. 13. Y "da" ynddo ei hun sydd yma, y "da" yn wrthgyferbyniol i'r "drwg"; nid i'r drwg fel niwed, neu gam ag arall, ond y "drwg" ynddo ei hun—drygioni. Efallai y bydd llawer o bethau i'w gwrthod, ond yn eu canol fe geir y "da." Y syniad o brofi *metal* sydd yn y gair "profi," ac y mae ynglyn â'r mŵn gwerthfawr lawer o sorod, ond mae y "profi" yn dod o hyd i'r mŵn pur. Rhoddwch chwithau, meddai'r Apostol, y proffwydoliaethau a glywsoch yn ffwrnes eich profiad, a chwi gewch yr aur puredig, ryw gymaint, beth bynnag, ac y mae hwnnw mor werthfawr fel y dylech fod am eich bywyd yn ei ddal.

**ADN. 22. Ymgedwch rhag pob rhith drygioni.** Nid yn unig y drygau y gŵyr pawb mai drygau ydynt, ond y pethau y mae eiliw drwg arnynt—pethau y mae amheuaeth yn eu cylch, a phethau sydd yn brofedigaeth i'r "brawd gwan." Tybia rhai mai at wahanol ffurfiau neu fathau o ddrygau y cyfeirir yn y gair "rhith," ond y syniad arall gymeradwyir amlaf, a chredwn mai hwnnw yw yr un cywir yma.

edd a'ch sancteiddio yn gwbl oll: a chadwer eich ysbryd
oll, a'ch enaid, a'ch corph, yn ddïargyhoedd yn nyfodiad
ein Harglwydd Iesu Grist. Ffyddlawn *yw* yr hwn a'ch 24
galwodd, yr hwn hefyd a'*i* gwna. *O* frodyr, gweddiwch 25

---

**ADN. 23.** Ceir yma weddi yr Apostol yn ddiweddglo yr adnod hon, megis y ceir y weddi yn niwedd pen. iii. i ddiweddu yr ail adran.

**A gwir Dduw.** Cymerodd y cyfieithwyr Cymraeg y gair a geir yma ynglyn â'r gair "Duw," ystyr lythrennol yr hwn yw "ei hunan," neu "ei hun," i olygu "gwir," ond y llall yw y cyfieithiad goreu ymhob ystyr. Er pob ymdrech o eiddo y saint, nis gallent gyrraedd y nôd ond trwy gymorth a gweithrediad uniongyrchol "Duw Ei hun."

**Y Tangnefedd.** Cynnyrch cyfuniad o bob perffeithrwydd yw tangnefedd. Gair llawer eangach ei ystyr na "heddwch." Y syniad gwrthgyferbyniol i "heddwch" yw "gelyniaeth" neu "wrthryfel"; y syniad croes i dangnefedd yw "anghydgord," "annhrefn," "pall ym mherthynas pethau a'u gilydd," unrhyw beth gynhyrcha "sain anhynod." Tra yr erys amherffeithrwydd nis gellir cael "tangnefedd," er y gellir cael heddwch. Yn Nuw y mae ffynhonell tangnefedd, am fod pob perffeithrwydd yn cydgyfarfod ynddo: a'i amcan Ef yw adfer Ei bobl i'w ddelw Ei hun; a'r modd y mae yn gwneud hynny yw drwy eu sancteiddio yn "gwbl oll," nid yn "gwbl" yn unig, cyfeiria hynny at y cylch a sancteiddir; ond yn "gwbl oll," sef pob rhan o'r cylch wedi cyrraedd y gradd uchaf o burdeb.

**A chadwer eich ysbryd oll, &c.** Manyla yr Apostol yma ar wahanol agweddau ar ddyn yn ei gyfanrwydd, a rhanna hwy yn dair, fel y ceid eraill (megis Plato) yn gwneud. Tra y byddai diffyg yn un o'r rhain neu ddiffyg yn eu perthynas a'u gilydd, ni cheid "tangnefedd," a thrwy sancteiddio pob un ynddo ei hun, a'i berthynas a'r lleill y ceid y perffeithrwydd y byddai tangnefedd yn gynnyrch iddo. Yr "ysbryd" i Paul oedd yr agwedd uchaf ar ddyn, cartref ei gyfathrach uchaf â Duw; nid rhan wahaniaethol fel "corff" ac "enaid," ond ansawdd a thymer ddwyfol gynhyrchid ynddo gan Ysbryd Duw, na cheir hi ond yn y credadyn, yr hyn oedd yn ateb yr un diben ymarferol a phe bae yn rhan hanfodol ac uwchraddol o'r dyn. "Enaid" yw cartref y nwydau a'r dymuniadau a'r teimladau, canolbwynt hefyd ei bersonoliaeth. Y corff wrth gwrs, yw y rhan faterol o hono.

**Yn nyfodiad, &c.** = Yn awr ac o hyd, fel pan ddelo Crist y byddoch yn ddiargyhoedd ger Ei fron.

**ADN. 24. Ffyddlon yw yr hwn a'ch galwodd.** Fe geidw Duw at Ei air a'i addewid, ac fe geidw hefyd at Ei waith; dechreu yr oedd wrth eich galw, cario ymlaen y gwaith y mae wrth eich sancteiddio, ac nid yw Efe byth yn dechreu heb orffen.

**Yr hwn hefyd a'i gwna.** Hynny yw, a wna yr oll a ddywedwyd yn yr adnod o'r blaen. Yr oedd defnydd y "sancteiddio" yn ei "alw"

drosom. Anherchwch yr holl frodyr â chusan sancteiddiol. 26
Yr ydwyf yn eich tynghedu yn yr Arglwydd, ar ddarllen y 27

---

Ef, fel y mae y pren a'i ffrwyth yn yr hedyn, nid rhannau a gysylltir a'u gilydd yw bywyd y Cristion, ond un cyfanwaith o'r galw i'r gogoneddu.

**ADN. 25. O frodyr, gweddiwch.** Wrth weddio drostynt eu hunain a thros eu gilydd, nid oeddynt i anghofio gweddio dros Paul a'i gymdeithion. Mae y ffaith y gofynna Paul i saint mor amherffaith weddio drosto, ac mai dyna oedd ei arfer (gwel Rhuf. xv. 30 ; Eph. vi. 19 ; Col. iv. 3 ; 2 Thes. iii. 1) yn dangos yn eglur ei syniad uchel am werth ac effeithiolrwydd gweddi. Hefyd, ar wahan i'w gwerth ar ran yr Apostol, ni allesid cael dim byd rhagorach i feithrin yn y Thesaloniaid deimladau serchog at Paul nag iddynt weddio drosto.

**ADN. 26. Anherchwch . . . . a chusan sanctaidd.** Gwyddis fod cusanu eu gilydd yn arferiad cyffredin yn y dwyrain, fel y mae ysgwyd llaw gyda ni. Ond rhoes Cristionogaeth ystyr newydd yn yr arferiad hwn, fel y rhoes ystyr newydd i eiriau, megis " gras " a " heddwch " (pen. i. 1). Dywed Dr. Lillie yr arferai aelodau yr eglwys gusanu eu gilydd ar adegau neilltuol, megis cyn gweinyddu yr ordinhad sanctaidd o Swper yr Arglwydd yn y gwasanaeth cyhoeddus. Yr oedd yr " annerch " hon fel y dengys y geiriau, i fod yn un dros y cenhadon at yr holl eglwys, ac y mae'n debyg mae y rhai oedd yn arwain oedd i gychwyn hyn. Prin y mae angen dyweyd fod " brodyr " yn epistolau Paul yn cynnwys y chwiorydd hefyd, oddieithr mewn mannau y cyfeirir yn benodol at y ddau ddosbarth.

**ADN. 27. Yr wyf yn eich tynghedu, &c.** Mae Paul yma yn defnyddio ymadrodd nas gallesid meddwl am ei gryfach ; rhaid felly fod rhyw reswm dros ddefnyddio geiriau mor gryfion. Tybia Harnack a Kirsopp Lake mai at y duedd oedd yn y Cenhedloedd a'r Iddewon i ddibrisio eu gilydd, ac yn arbennig yma y perygl oedd i'r Cenhedloedd, y rhai a gyfansoddent fwyafrif mawr yr eglwys, fod yn ddiystyr o deimladau a hawliau yr Iddewon oedd yno, y cyfeirir. Ond nis gellir canfod sail eglur i'r dyb hon.

Y tebyg yw mai at y rhai afreolus y mae y cudd-gyfeiriad. Fel y danghoswyd, yr oedd y "segurwyr" wedi digio wrth y rhai yr oedd llywodraeth yr eglwys a'i chasgliadau yn eu llaw, am na buasent yn rhoddi cymorth ariannol iddynt hwy, ac yn ceisio cyffroi teimladau eraill yn eu herbyn. Naturiol oedd i'r llywodraethwyr edrych yn gilwgus ar y cyfryw, a pheidio rhoddi iddynt le amlwg ym mreintiau yr eglwys. Un o'r breintiau mwyaf a dderbyniasai yr eglwys ar ol ymadawiad y cenhadon oedd cael llythyr oddiwrth Paul ei hun. Efallai hefyd fod rhai yn yr eglwys yn gogwyddo at feio yr Apostol am beidio ymweled â hwy. Yn awr dyry yr Apostol yr arweinwyr ar eu gwyliadwriaeth rhag i unrhyw deimlad o'r fath yma rwystro iddynt ddarllen ei lythyr i'r "holl frodyr sanctaidd." Nid cyfyngu yr eglwys i ddosbarth bychan y mae yr ymadrodd hwn, ond

28 llythyr hwn i'r holl frodyr sanctaidd. Gras ein Harglwydd Iesu Grist *fyddo* gyd â chwi. Amen.

---

cyrraedd dros bawb, er eu holl ddiffygion—" brodyr sanctaidd " oeddynt oll, ac felly yr oedd hawl ganddynt i bob braint.

**ADN. 28. Gras ein Harglwydd Iesu Grist, &c.** Y cyfarchiad Apostolaidd terfynnol. Ceir ef yn helaethach weithiau, ond y mae hwn yn cynnwys y cyfan. Mae cariad Duw yng ngras Iesu Grist, ac y mae y gras " gyd a'r saint " yn cynnwys dawn a chymdeithas yr Ysbryd.

Nid yw yr " Amen " na'r ôl-ysgrif yn meddu awdurdod digonol drostynt.

# Ail Epistol Paul at y Thesaloniaid.

## PENNOD I.

PAUL, a Silfanus, a Thimothëus, at eglwys y 1
Thesaloniaid, yn Nuw ein Tad, a'r Arglwydd
Iesu Grist: Gras i chwi, a thangnefedd, 2
oddi wrth Dduw ein Tad ni, a'r Arglwydd
Iesu Grist. Diolch a ddylem i Dduw yn was- 3

### PENNOD I.

#### ADN. 1, 2.—Y CYFARCHIAD.

**ADN. 1 a 2.** Gwelir mai yr un yw y cyfarchiad yn y ddwy adnod yma ag a geir yn nechre yr Epistol Cyntaf (gwel nodiadau yno) oddigerth y cawn yma "yn Nuw *ein* Tad" yn lle "yn Nuw Dad." Fel y dywedwyd yn y nodiadau ar pen. i. 1 o'r Epistol Cyntaf, mae yn dra amheus a ddylai y frawddeg "oddiwrth Dduw ein Tad, a'r Arglwydd Iesu Grist" fod i mewn yno, ond y mae yn sicr hollol y dylai fod yma.

Defnyddio geiriau cyfarchiadol arferol y mae yr Apostol, gan roddi iddynt gyfoeth newydd o ystyr a meddwl trwy eu cysylltu â Duw Dad a'r Arglwydd Iesu Grist. Mae'n eithaf naturiol gofyn: Paham na buasai yr Ysbryd Glân i mewn? Ni sylwasom fod yr esbonwyr yn cyfeirio yn bendant at hyn; ac nid yw y cwestiwn yn un hawdd ei ateb. Onid y ffaith yw mai defnyddio dau air arferedig y mae'r Apostol, a chydio y rhai hynny, un â'r Tad a'r llall â'r Arglwydd Iesu Grist; a chan mai dau air arbennig geid yn y cyfarchiadau arferol (Hebreig a Groegaidd) nid oedd un i'w gysylltu â'r Ysbryd Glân. Ond yn y fendith apostolaidd daeth yr Apostol a gair newydd i mewn, "cymdeithas," a chysylltodd hwn â'r Ysbryd Glân (2 Cor. xiii. 13). Hefyd, mwy priodol yw cysylltu y doniau "oddiwrth" â'r Tad a'r Mab; "yn" yw gair nodweddiadol yr Ysbryd. Ceir y "gras" a'r "tangnefedd" oddiwrth y Mab a'r Tad, ond nid "oddiwrth" yr Ysbryd y mae y "gymdeithas," ond ynddo. Cael ei ddanfon ei hun oddiwrth y Tad a'r Mab y mae yr Ysbryd, nid danfon ei ddoniau y mae efe, ond dyfod ei hunan a'r doniau ynddo. Mewn cyfarchiad, doniau "oddiwrth" sydd briodol; ond mewn dymuno bendith doniau "gyda chwi" sy'n iawn.

tadol drosoch, frodyr, fel y mae yn addas, oblegid bod eich

---

Cyn mynd ymlaen ymhellach gyda'r epistol hwn, efallai mai manteisiol fyddai inni gymeryd trem frysiog ar ei gynnwys. Mae esbonwyr yn ei rannu yn bur wahanol i'w gilydd. Wrth gwrs y mae pawb yn cytuno am y cyfarchiad ar ei ddechreu, a'r annerch a'r fendith ar ei ddiwedd, ond am gorff yr epistol rhennir ef yn ol syniadau yr esbonwyr am bwysigrwydd cymhariaethol ei adrannau. Ond wrth ddarllen yr epistol drwyddo ymddengys i ni yn amlwg mai dau beth geir ynddo: (1) Diolchgarwch; (2) cyfarwyddyd. Mae y diolchgarwch yn driphlyg: (1) Diolch am eu ffydd a'u cariad cynhyddol, pen. i. 3; (2) Am eu hymddygiad teilwng mewn amgylchiadau cyfyng (i. 4); (3) Diolch i Dduw am eu galw, &c. (ii. 13, 14). Ynglyn a'r diolchgarwch hwn fe geir (1) Cysur iddynt (i. 5 a iii. 3, 4); (2) Gweddi drostynt (i. 11, 12), a dymuniadau ar eu rhan (ii. 15—17; iii. 5, 16); (3) Cais atynt (iii. 1, 2). Mae y cyfarwyddyd yn ddeublyg:—(1) Ynglyn â'u syniadau anghywir am yr ail-ddyfodiad (ii. 1—12); (2) Ynglyn â'r rhai afreolus (iii. 6—15). A chyda'r cyfarwyddiadau hyn fe geir annogaethau a dymuniadau.

Mae'n amlwg oddiwrth hyn fod llygaid yr Apostol ar ddau ddosbarth o'r tri y cyfeirir atynt yn 1 Thes. v. 14, sef " yr afreolus " a'r " gwan ei feddwl." Felly y mae yn annerch yr eglwys yn gyffredinol, gan werthfawrogi ei rhagoriaethau amlwg, a chyfeirio yn arbennig at ddau ddosbarth oedd ynddi—y naill yn sefyll mewn angen am galondid, a'r llall am gerydd a disgyblaeth wedi eu tymheru â chariad.

Am fanylion pellach ynghylch yr Epistol, gwel y Rhagymadrodd.

**ADN. 3. Diolch a ddylem, &c.** Dyma destun cyntaf ei ddiolch. Gwelwn mor ddeheuig yw'r Apostol yma eto, yn canmol cyn annog, heb son am geryddu. Tybia rhai fod yr eglwys wedi datgan nad oedd yn deilwng o'r ganmoliaeth a roddwyd iddi gan yr Apostol yn ei lythyr cyntaf ati, a'i fod yntau i gyfarfod a hynny yn pwysleisio y peth, gan ddangos ei bod yn ddyledswydd arbennig arno i wneud (a ddylem), a bod hynny hefyd yn weddus (fel y mae'n addas). Yn ei berthynas â Duw y mae yn *ddyledus* gwneud; yn ei berthynas â'r eglwys y mae yn *addas* gwneud.

**Oblegid bod eich ffydd chwi yn mawr gynyddu.** Yr oedd eu ffydd, nid yn unig wedi dal ei thir er pan yr ysgrifenasai ei lythyr cyntaf atynt, ond wedi ychwanegu nerth, a hynny yn ddirfawr. Y Cymraeg cyfatebol i'r Groeg fyddai " gorgynhyddu," oblegid y blaenddodair " gor " yn Gymraeg sy'n cyfateb i *huper* yn Groeg a *super* yn Lladin. Nid " gor " yn yr ystyr o " ormod," ond " gor " yn yr ystyr o " dra mawr," megis " gorfoleddu " a " gorthrymderau."

ffydd chwi yn mawr gynhyddu, a chariad pob un o honoch
oll tu ag at eich gilydd yn ychwanegu; Hyd onid ydym ni 4
ein hunain yn gorfoleddu ynoch chwi yn eglwysi Duw, o her-
wydd eich amynedd chwi a'ch ffydd yn eich holl erlidiau
a'r gorthrymderau yr ydych yn eu goddef: *Yr hyn sydd* 5

---

**A chariad pob un o honoch oll at eich gilydd, &c.** Fel yr oedd eu ffydd wedi tyfu yn braffach, yr oedd eu cariad wedi ymledu yn eangach. Yr un yw cynnydd y ddau ras, ond fod y naill yn dyfod i'r golwg yn ei nerth, a'r llall yn ei gylch. Fel y dywed Lightfoot, "cynnydd fel tyfiant pren yw y naill, ac eangiad fel llif yn lledu dros faes yw y llall." Mae'n amlwg oddiwrth yr adnod hon fod annogaeth yr Apostol yn ei lythyr cyntaf (v. 10) wedi ateb y diben yn rhagorol. Buasai yn annodd cael geiriau cryfach nag a ddefnyddia yr Apostol yma i ddangos mawredd y cynnydd.

**ADN. 4. Hyd onid ydym ni ein hunain.** Yr oedd hanes crefydd ei ddarllenwyr nid yn unig yn destun diolchgarwch i Dduw, ond hefyd yn destun iddo i orfoleddu ynddo yn yr eglwysi. Beth yw grym y geiriau "ni ein hunain"? Paham na wnaethai "hyd onid ydym yn gorfoleddu," &c., y tro. Efallai fod dau reswm dros ddweyd fel hyn: (1) Os oedd Paul yn gorfoleddu ynddynt, a'i syniadau mor uchel am yr hyn ddylai crefyddwyr fod, rhaid fod crefydd yr eglwys hon wedi cyrraedd safon uchel iawn. (2) Cofiai Paul mai efe a'i gyd-genhadon fu yn offerynnau i ddychwelyd y saint hyn, ac nid parod fuasai i orfoleddu mewn dim ag yr oedd ôl ei law ef arno; ond er hyn oll yr oedd crefydd y Thesaloniaid yn un mor amlwg fel nas gallasai ef ei hun lai na gorfoleddu ynddi mewn eglwysi eraill.

**Eglwysi Duw.** Dengys hyn naill ai fod eglwysi bychain, na wyddom am danynt, wedi eu sefydlu o amgylch Corinth, o'r lle yr ysgrifennai Paul, neu ei fod yn cyfeirio at y datganiad o lawenydd a wnai yn ei lythyrau neu ei genadwriaethau i eglwysi Asia.

**Eich amynedd a'ch ffydd.** Enwir y ffrwyth i ddechre ac yna'r pren ar ba un y tyfa. Amynedd, neu ddioddefgarwch ("goddefedd" neu "ymarosrwydd" yn ol yr hen Gymraeg) oedd yn y golwg, a hwnnw yn gynnyrch ffydd. Gadewir cariad allan yma am mai at amynedd y saint y cyfeirir yn benodol, ac mai rhinwedd cysylltiedig â ffydd yn arbennig yw y rhinwedd a ddynodir yn y gair hwn.

**Erlidiau a gorthrymderau.** Dengys hyn fod yr erlid y soniwyd am dano yn y llythyr cyntaf yn dal yn ei rym, ac yn mynd yn fwy angerddol. Ond 'doedd graddau uwch yr erlid a'r gorthrymder ond moddion i ddwyn i'r golwg raddau uwch o amynedd a ffydd y saint hyn. Y gwahaniaeth rhwng y ddau air yw fod "erlidiau" yn cyfeirio at ymosodiadau neilltuol, a "gorthrymderau" yn meddu ystyr fwy cyffredinol. Un math o orthrymderau oedd y gofidiau.

**ADN. 5.** Cysur a chalondid geir yma i'r saint yn wyneb eu gorthrymderau.

argoel goleu o gyfiawn farn Duw, fel y'ch cyfrifer yn deilwng
i deyrnas Dduw, er mwyn yr hon yr ydych hefyd yn goddef.
6 Canys cyfiawn *yw* ger bron Duw, dalu cystudd i'r rhai sydd
7 yn eich cystuddio chwi ; Ac i chwithau, y rhai a gystuddir,
esmwythdra gyd â ni, yn ymddangosiad yr Arglwydd Iesu

---

**Argoel goleu.** Coel amlwg yw argoel; cymharer "ardreth" (*chief rent*), "archoll" (ar-coll=*loss*). Y meddwl yw fod amynedd y saint yn "brawf amlwg" o "gyfiawn farn Duw." Gwelir fod y gair (argoel) yn wreiddiol yn golygu rhywbeth llawer cryfach nag y mae heddyw; "arwydd" yn unig ydyw ei ystyr heddyw, a honno heb fod yn arwydd sicr, megis "argoel tywydd brâf" neu "argoel heddwch."

Ond y cwestiwn yw: Pa fodd yr oedd amynedd y saint hyn yn "argoel goleu" o gyfiawn farn Duw ? Un ateb yw fod uniondeb Duw yn dyfod i'r golwg yn Ei waith yn eu gwneud yn deilwng o'r deyrnas, drwy roddi nerth iddynt ddioddef er mwyn y deyrnas. Moddion yw y dioddef i fod yn deilwng ; ac y mae goruchwyliaeth Duw yn cael ei chyfiawnhau yn yr olwg ar yr amcan terfynnol sydd i'r gorthrymderau i gyd. Hyd y gwelwn ni, dyma olygiad Dr. Moffatt yn ei gyfieithiad. "They are proof positive of God's equity ; you are suffering for the realm of God, and He means to make you worthy of it," &c. Yr esboniad arall yw fod eu hamynedd, &c., yn argoel o gyfiawn farn Duw, h.y., o gyfiawnder neu uniondeb Ei weinyddiadau, am Ei fod yn y man am unioni pob camwri a gawsant, trwy eu cyfrif yn deilwng o'i deyrnas, er mwyn yr hon yr oeddynt yn dioddef. Ac fel yr oedd am unioni eu camwri hwy, yr oedd hefyd am dalu y pwyth i'w herlidwyr (yn ol yr adnodau nesaf). Felly yr oedd y wobr a dderbyniai y saint pan y delai y "deyrnas" yn ei grym yn nyfodiad Crist, a'r gosb weinyddid y pryd hwnnw ar eu "cystuddwyr" yn "argoel goleu" fod "cyfiawn farn Duw" yn mynd ymlaen. Felly y mae y ffaith fod y saint yn goddef gorthrymderau ynddi ei hun yn brawf mai yr Arglwydd sy'n teyrnasu, a datguddir hynny yn y man yn amlwg yng ngwaith Duw yn dyrchafu Ei bobl ac yn darostwng Ei elynion. Tueddir ni i gredu mai yr olaf yma yw yr esboniad mwyaf naturiol.

**ADN. 6. Canys.** Ystyr y gair a gyfieithir "canys" yma, a chymeryd ei gysylltiadau i'r cyfrif, yw "os yn wir, fel yn ddiau y mae." Y meddwl, ni gredwn, ag aralleirio ychydig ar y cysylltiadau, yw hyn : "Cyfiawn farn Duw a ddywedasom, os yn wir (fel yn ddiau y mae) mai cyfiawn gerbron Duw yw talu cystudd i'r rhai sydd yn eich cystuddio chwi," &c.

**ADN. 7. Ac i chwithau.** Parhad o'r adnod flaenorol ; mae cyfiawn farn Duw yn dod i'r golwg mewn ad-daliad deublyg.

**Esmwythdra gyda ni.** "Esmwythdra" yn wrthgyferbyniol i "gystudd." Cyfieithir y gair am "gystudd" yn "orthrymder" yn adn. 4, a lliaws o fannau eraill, a'r un modd cyfieithir y gair am "esmwythdra" mewn mannau eraill yn "ddiddanwch" a "llonyddwch" ; ac fel y golyga y naill wasgu a llethu, golyga y llall ryddhau ac esmwyth-

o'r nef, gyd â'i angelion nerthol, A thân fflamllyd, gan 8
roddi dïal i'r sawl nid adwaenant Dduw, ac nid ydynt yn
ufuddhâu i efengyl ein Harglwydd Iesu Grist: Y rhai a 9
ddïoddefant yn gospedigaeth, ddinistr tragwyddol oddi ger

---

hau. *Relief a rest* y cyfieithir ef gan liaws yn Saesneg. Megis yr ydych yn cael eich cystuddio fel ninnau, chwi gewch esmwythdra fel ninnau, ac nid yn unig fel ninnau ond " gyda ni."

**Yn ymddangosiad, &c.** Bydd " dyfodiad" Crist yn "ymddanghosiad," h.y., yn "arddanghosiad" neu yn "ddatguddiad" heb ei fath, a dyna'r amser y gweinyddir y wobr a'r gosb.

**Gyd a'i angylion nerthol.** Yn fwy cywir, "angylion ei nerth." Nid at nerth yr angylion y cyfeirir, ond atynt fel cyfryngau ac offerynau nerth Duw. Sylwer fel y mae yr Apostol yma yn priodoli yr arwyddluniau a gysylltir â Duw yn yr Hen Dest. â'r Arglwydd Iesu Grist. Gwel Ex. iii. 2; xix. 18; Deut. iv. 11; Salm lxviii. 17; civ. 4; Es. lxvii. 15; Dan. vii. 9; Mal. iv. 1.

**ADN. 8. A thân fflamllyd.** Gwel y nodiad blaenorol.

**Y sawl nid adwaenant Dduw, &c.** Tybia rhai mai at y paganiaid llygredig y cyfeiria y frawddeg gyntaf, ac mai at yr Iddewon y cyfeiria y llall. Tybia eraill mai at bawb oedd yn dirmygu Duw y cyfeiria y naill, ac mai at bawb wrthodai yr Efengyl y cyfeiria y llall. Tybia eraill mai cyfochraeth sydd yma, a bod y ddwy frawddeg yn golygu yr un peth. Yr hyn sy'n bwysig yw sylwi fod yr Apostol yn gosod yr Arglwydd Iesu Grist yn ogyfuwch â Duw, a bod gwrthod Ei Efengyl Ef yr un mor ysgeler, o ganlyniad, a gwrthod adnabod Duw. Gwir fod gwrthod yr Efengyl yn fwy o bechod nag oedd gwrthod Duw o dan yr Hen Oruchwyliaeth, ond nid dangos graddau cymhariaethol y ddau bechod yw amcan Paul yma, ond dangos fod y ddau bechod, os edrychir arnynt fel dau, mor sicr a'u gilydd o gael eu cosbi.

**ADN. 9. Y rhai.** Yn fwy cywir, " y cyfryw rai." Golyga y gair am " y rhai " yma—" hwy a'u tebyg."

**Ddinistr tragwyddol.** Yr un gair a'r "tragwyddol" gysylltir â " bywyd," felly mor bell ag y mae'r gair yn mynd mae parhad y bywyd a pharhad y dinistr yn ogyhyd. Credwn hefyd fod ansawdd y gosb yn cael ei ddynodi yn y gair " tragwyddol " yn ogystal a'i hyd, megis y mae yn yr ymadrodd cyferbyniol " bywyd tragwyddol."

**Oddi ger bron yr Arglwydd.** Barna Frame, Lightfoot, Adeney, a Jowett, a'r mwyafrif o'r esbonwyr diweddar mai y syniad yw y bydd y "dinistr tragwyddol" yn gynhwysedig mewn bod yn alltud am byth oddiwrth Dduw. Gwirionedd pwysig yn ddiau. Ond credwn ni yn gryf mai dinistr yn dyfod oddiwrth wyneb yr Arglwydd yw; sonir yn Act. iii. 19 am " amseroedd i orffwys *o olwg* yr Arglwydd," a'r gwrthgyferbyniol i hwn geir yma. Gwir fod ystyr ymha un y gellir dyweyd y bydd yr anghyfiawnion wedi eu gyrru am byth oddiwrth Dduw, ond y mae yr un mor wir mai presenoldeb Duw fydd achos eu

bron yr Arglwydd, ac oddi wrth ogoniant ei gadernid ef;
10 Pan ddêl efe i'w ogoneddu yn ei saint, ac i fod yn rhyfeddol
yn y rhai oll sydd yn credu, (o herwydd i'n tystiolaeth ni
11 yn eich mysg chwi gael ei chredu,) yn y dydd hwnnw. Am
ba achos yr ydym hefyd yn gweddïo yn wastadol drosoch

---

poenedigaeth. Pe caent eu hunain "oddiwrtho," byddai hynny i raddau helaeth yn ollyngdod iddynt, ond i "ba le yr af oddiwrth Dy Ysbryd, ac i ba le y ffoaf o'th ŵydd," &c.

**Ac oddiwrth ogoniant ei gadernid ef.** Cyfochraeth â'r frawddeg flaenorol, gyda chyfeiriad amlwg at Es. ii. 10, 19, 21. Sylwer eto fel y mae yr Apostol yn priodoli i Grist yr hyn briodolai y proffwydi i Dduw.

**ADN. 10. Pan ddêl efe i'w ogoneddu yn ei saint.** Cyfeiriad yn ddiau at "ogoniant" y frawddeg flaenorol. Nid yn unig daw yr Arglwydd Iesu mewn gogoniant, ond daw hefyd i gael ei ogoneddu, ac yn arbennig i'w "ogoneddu" yn ei saint. Fe gaiff Ei ogoneddu ganddynt a thrwyddynt, ond yma dywedir y gogoneddir Ef "ynddynt." Bydd eu personau mor ogoneddus, wedi i'w Harglwydd eu perffeithio mewn sancteiddrwydd, fel y bydd Efe yn derbyn y gogoniant uchaf ynddynt. Ac os bydd yr Arglwydd Ei hun yn cael ei ogoneddu ynddynt, pa mor fawr y rhaid fod eu gogoniant?

**Ac i fod yn rhyfeddol yn y rhai oll sydd yn credu.** Cyfochraeth eto, yn golygu yn ymarferol yr un peth a'r frawddeg flaenorol. Bydd gweld y saint y dydd hwnnw, a chofio yr hyn fuont, yn ennyn syndod "trwy'r holl nefolaidd lu," ac ni bydd eu gogoniant hwy ond prawf o ryfeddodau a gwyrthiau gras arnynt, ac felly eu Harglwydd fydd gwrthrych mawr y rhyfeddu. "Gelwir Ei enw Ef Rhyfeddol." Dylid darllen "yn y rhai oll a gredasant." Golyga y ferf weithred benodol yn y gorffennol (*aorist tense*) (oherwydd i'n tystiolaeth ni, &c.). Ystyr y geiriau hyn yw y byddai i'r saint yn Thesalonica fod ymhlith y rhai a ymddanghosant gyda'r Arglwydd ac y byddai Efe yn cael Ei ogoneddu ynddynt, &c., a'r prawf o hynny oedd eu bod wedi credu tystiolaeth yr Apostolion, ac felly ymhlith y "rhai oll sydd yn credu." Cysur i'r "gwan eu meddwl" roddir gan yr Apostol yma—un o amcanion arbennig ysgrifennu yr epistol.

**Y dydd hwnnw.** Dydd "dyfodiad" neu "ymddanghosiad" Crist. Yr oedd mor adnabyddus fel nad oedd eisieu ond ei alw fel hyn.

**ADN. 11. Am ba achos yr ydym hefyd yn gweddio.** Buasai "i gyrraedd yr hwn amcan" yn well nag "am ba achos." Pa amcan a olygir? Credwn y gellir edrych ar yr adnodau 6—10 fel rhwng cromfachau; h.y., nid ydynt ar brif-ffordd meddwl yr Apostol. Troi o'r neilltu ddarfu iddo yn adn. 6 i egluro yn fanylach yr hyn a ddywedasai am "gyfiawn farn Duw" yn adn. 5. Pwynt mawr yr adnod honno (5) yw "fel y'ch cyfrifir yn deilwng i deyrnas Dduw"; ac yn yr adnod hon mae yr Apostol yn dychwelyd at brif linell ei feddwl, gan ail ym-

ar fod i'n Duw ni eich cyfrif chwi yn deilwng o'r alwedig-
aeth *hon*, a chyflawni holl foddlonrwydd *ei* ddaioni, a
gwaith ffydd, yn nerthol: Fel y gogonedder enw ein Har- 12
glwydd Iesu Grist ynoch chwi, a chwithau ynddo yntau,
yn ol gras ein Duw ni, a'r Arglwydd Iesu Grist.

---

aflyd yn yr amcan aruchel hwn; ond i edrych ar wedd arall arno. Yr oedd wedi dangos fod eu hamynedd a'u ffydd mewn erledigaethau a gorthrymderau yn "argoel goleu" o fwriad Duw ynglyn â hwynt; yn awr â ymlaen i weddio ar fod yr amcan uchel hwnnw yn cael ei sicrhau drwy i Dduw eto eu cyfrif yn deilwng, &c., a hynny drwy feithrin a dadblygu ynddynt gyfoeth o gymeriad Cristionogol (nid amynedd yn unig), ond un a fyddai yn gynnyrch ewyllys neu benderfyniad daionus (boddlonrwydd daioni) ac anturiaeth mewn ffydd (gwaith ffydd). Ar y linell hon yr eglurwn ymhellach rannau eraill yr adnod.

**Gweddio.** Yr oedd wedi *diolch* o'r blaen a *gorfoleddu* ynddynt, yn awr *gweddia* drostynt. Dyma ond odid rym y gair "hefyd" geir yn y frawddeg gyntaf yma.

**O'r alwedigaeth hon.** Mae dwy wedd ar yr "alwedigaeth.": (1) Ei pherthynas â dynion megis yn 1 Cor. i. 26 a Ephes. iv. 4; (2) Ei pherthynas â Duw (Rhuf ii. 29 a Phil. iii. 14). Ynglyn â'r (1) edrychir arni fel yn cynnwys dyledswyddau a breintiau y saint; ynglyn â'r (2) edrychir arni yn arucheledd ei rhagolygon a gogoniant digymhar ei dibenion. Yr olaf yn sicr sydd bennaf yn y golwg yma.

**A chyflawni holl foddlonrwydd ei ddaioni.** Ar y cyfan cytuna yr esbonwyr goreu mai at y saint ac nid at Dduw y cyfeiria y frawddeg hon, ac felly y dylid ei darllen yn wahanol. Dywed Adeney nad yw y gair a gyfieithir yma "daioni" byth yn cael ei gysylltu â Duw. Cyfieithiad Dr. Moffatt yw: ". . . . to fulfil every good resolve and every effort of faith," a dyna yn ymarferol ystyr y cyfieithiadau gan eraill. Ystyr y gair "boddlonrwydd" ydyw "ewyllys" yn yr ystyr o "ddymuniad" (*desire*), ac yna benderfyniad (*resolve*) yn unol â'r dymuniad hwnnw. Golyga felly ddyhead y saint am ddaioni—y dyhead sy'n cynnwys awydd (*desire*) a phenderfyniad. Felly yn Gymraeg byddai y darlleniad i'r perwyl a ganlyn: "A chyflawni eich awydd am ddaioni a gwaith eich ffydd." Golyga y cyntaf awyddfryd y saint i fod yn berffaith sanctaidd, a'r ail ymdrechion gwastadol eu ffydd ynglyn â gwaith y deyrnas.

**Yn nerthol.** Mae y geiriau hyn i'w cysylltu â "chyflawni," h.y. trwy rym dwyfol.

**ADN. 12. Fel y gogonedder enw, &c.** Dyma yr amcan mawr terfynnol—gogoneddu enw yr Arglwydd Iesu; dynoda ei "enw" yr un peth a'i gymeriad neu ei berson.

**Ynoch chwi.** Yr un syniad ag a geir yn adn. 10. Byddai i gymeriad perffaith y saint fod yn ddrych i ganfod ynddo ogoniant eu Harglwydd.

**A chwithau ynddo yntau.** Nid yn unig ca'i Crist Ei ogoneddu ynddynt

hwy, ond fe gaent hwythau eu gogoneddu ynddo ef. Gan y byddent yn un, ni byddai y gogoniant yn cael ei gyfyngu i'r naill, ond adlewyrchai yn ddibrin a diball ar y llall.

**Yn ol gras ein Duw ni, &c.** Mae hyn oll yn gydweddol â gras Duw a'r Arglwydd Iesu Grist yn gystal.

---

## PENNOD II.

### *1—12. Y DYN PECHOD.*

Cyn ceisio esbonio yr adran hon bob yn adnod, buddiol fyddai inni gymeryd golwg gyffredinol ar ystyr yr oll. Eddyf pawb mai hon yw'r adran anhawddaf yn yr epistol, ac efallai yn holl epistolau Paul, os nad yn wir yn yr holl Feibl. Un peth a'i gwna mor annodd yw fod yr allwedd i agor amryw o'i choffrau wedi ei golli, a'i golli am byth i ni. Yr oedd yr agoriad hwnnw gan y saint yn Thesalonica, oblegid amlwg yw fod pwnc yr adran hon wedi cael lle amlwg iawn yn nysgeidiaeth yr Apostol tra y bu yn llafurio yn eu plith (adn. 5). Nid ydym trwy hyn yn awgrymu nad oedd dim dirgelwch yn perthyn i'r pwnc i'r saint hynny, ond fod ystyr benodol y "dyn pechod," yr "ymadawiad," "dirgelwch yr anwiredd," &c., wedi eu hegluro gan yr Apostol, fel nad oedd angen iddo wrth ysgrifennu llythyr atynt ond yn unig nodi y pethau hyn. Amhosibl dyweyd heddyw i ddim sicrwydd beth yn bendant a olygai yr Apostol wrth yr un o'r termau neilltuol hyn. Y cyfan a wyddom yw mai disgrifiad sydd yma o'r frwydr ofnadwy sydd yn mynd ymlaen rhwng y drwg a'r da, ac mai'r da a orfydd ryw ddiwrnod. Am fanylion yr ymgyrch, pryd y cymerai le, ac ymha le, pa rai o fyddinoedd y gelyn, a phwy fyddai y cad-lywydd gymerai ran yn yr ornest, nid oes gennym ond dyfalu. Dengys hanes yr esbonio drwy gydol yr oesoedd mai gwir hyn. Mae yna bob math o ddyfalu—doniol, medrus, cywrain, a sobr wedi bod, ond dyfalu oedd y cyfan: erys yr adran yn gymaint dirgelwch, ar lawer cyfrif, heddyw ag y bu erioed. Cymerai rai tudalennau i ddim ond nodi y lliaws golygiadau goleddwyd ac a goleddir gan wyr amlwg fel diwinyddion ac esbonwyr ynglyn â hi. Gwir fod ambell esboniwr, ac yn wir ambell ddosbarth o esboniadau, wedi eu taflu dros y bwrdd yn hollol; ond eto, er hyn, ac er gosod o'r neilltu nifer o rai tra anhebyg i fod yn wir, erys cryn nifer o ddeongliadau galluog, ac y mae yn dra annodd dethol y goreu o'u plith.

Dylem gofio ar y dechre fod traddodiad a chred ymhlith yr Iddewon er's oesoedd y byddai i'r frwydr fawr hon gymeryd lle, fel mai nid syniad newydd o eiddo Paul yw hwn. Gwir fod rhai o ffurfiau y syniad yn

newydd, i gyfateb â'r amgylchiadau neilltuol yr oedd yr Apostol yn byw ynddynt, ond y mae llawer o bethau yn gyffredin yn y syniad. ymha gyfnod neu oes bynnag y'i gwelir. Er engraifft, ceir rhai nodweddion yn perthyn i "ddyn pechod" y bennod hon na pherthynant i Gog a Magog Ezeciel (pen. xxxviii., &c.), nac i'r "corn bychan" yn Llyfr Daniel (pen. vii. ac xi.), i'r "ffieidd-dra anghyfaneddol a gau-gristau" yr Arglwydd Iesu (Matt. xxiv. 15, 24), i "gau-athrawon" Petr (1 Petr ii. 1—3), i "angrist" Ioan (1 Ioan a'r 2il), nac i'r "bwystfilod" yn Llyfr y Datguddiad; eto perthyn i'r oll ryw debygolrwydd teuluaidd i'w gilydd sy'n dangos yn eglur eu bod i gyd o'r un dras. Hawdd teimlo hefyd fod naws yr elfen broffwydol yn treiddio drwyddynt oll, a graddau lled helaeth o hynny yn y rhan fwyaf o honynt. Ac ynglyn â hyn ni gawn weithiau yr alegori a'r arwyddlun, ac felly elfen gyfriniol yn ymweithio drwyddynt, yr hyn sydd bob amser yn annodd i'w esbonio yn fanwl. Mae iaith o'r fath yn dra manteisiol i ddisgrifio gwrthdarawiad nerthoedd mawr a'u gilydd, yn arbennig os mai ar ddyfod y bydd y gwrth-darawiad hwnnw; ac hefyd y mae yn ddiogelwch mawr i'r ysgrifennydd a'i ddarllenwyr os y byddent, oherwydd cyfathrach flaenorol, yn deall eu gilydd. Diau fod hynny yn wir ynglyn a Phaul a'r saint yma, gan fod yn debyg y cyfeiriai un neu ddau o'r termau hyn yn uniongyrchol at Rufain; diogelwch mawr i'r Apostol a'i ddarllenwyr oedd, nad oedd y rhai "o'r tu allan" yn deall ei feddwl. Ond y mae hyn oll yn peri fod yn anhaws i ni heddyw fedru deall yn glir at ba beth y cyfeiriai.

Yr unig beth sicr i ni ynglyn â'r darlun rhyfedd a dieithrol hwn ydyw mai disgrifiad byw ydyw o ddatblygiad pechod. Mae yn engraifft amlwg iawn o wirionedd gair a ddywed Iago: "Yna chwant wedi ymddŵyn a esgor ar bechod; pechod hefyd pan orffenner a esgor ar farwolaeth." Gwelwn yma i ddechre fel y mae pechod am dymor yn gweithio yn ddistaw, "canys y mae dirgelwch yr anwiredd yn gweithio eisoes" (adn. 7). Dyma dymor yr "ymddŵyn." Ni all, ni fynn, neu ni faidd ddyfod i'r amlwg, oblegid mae rhywun neu rhywbeth yn ei "atal: "Yn unig yr hwn sydd yr awrhon yn atal, a etyl nes ei dynnu ymaith" (adn. 7). O'r diwedd fe symudir "yr hwn" neu "yr hyn" sydd yn atal, yna fe dyrr pechod allan fel dwfr wedi y torro argae. Dyna *stage* newydd yn hanes ei dwf, a gelwir hon yma yn "ymadawiad" (adn. 3). Ni phery yr "ymadawiad" yma yn hir na chynhyrcha wedd arall waeth byth ar bechod; ymgorffora pechod mewn dyn, neu fudiad, neu deyrnas gwbl lygredig: dyma "y dyn pechod." Erbyn hyn y mae pechod wedi cyrraedd cyfnod ei rwysg.

Mae adn. 4 yn disgrifio y cyfnod hwnnw yn fyw iawn, gwelir ei atgasedd at Dduw a'i ddirmyg ohono, ei uchelgais drahaus, a'i honiadau beiddgar. A chyda hyn gwelir ei ddylanwad ar ddynion, drwy ddichell a swynion, a "rhyfeddodau gau" (adn. 10). Bellach ymddengys fel pe wedi llwyr feddiannu y maes, a Duw wedi gadael dynion i'w ffyrdd eu hunain (adn. 11, 12). Dyma gamrau ei ddatblygiad. Ond cryfaf y tŷf, agosaf fydd i'w ddinistr ; mae yr Arglwydd yn dyfod ac yn ei ddifetha ag Ysbryd Ei enau, ac yn ei ddileu â disgleirdeb Ei ddyfodiad" (adn. 8). Mae gwerth y darlun i ni yn y pethau a nodwyd, ac y mae y pethau pwysig hyn yn amlwg sut bynnag yr esboniwn y ddiwyg sydd am danynt.

Tybed nad ar linell eglur fel hon y mae deongli ystyr yr adran. Ymddengys i mi fod yr esbonwyr—hen a diweddar—yn rhy chwannog i roddi deongliad rhy bendant, a lleol, a phersonnol i eiriau yr Apostol. Meddylier am yr ystyron roddir i'r term "y dyn pechod." Wele rai o honynt: Y Phariseaid, y Gnosticiaid, Nero, Rhufain, Mahomet, y Pab, Caligula, Simon Magus, &c. A lled gyffelyb ydyw ynglyn â'r "hwn" neu "yr hyn sydd yn atal": Ymerodraeth Rhufain, un neu arall o'r Ymerawdwyr, hen ymherodraeth yr Almaen, amser apwyntiedig Duw, y doniau ysbrydol, y ddeddf foesol, Paul ei hun, &c. Pan y ceir y fath liosogrwydd ac amrywiaeth o atebion i gwestiynau cyffelyb i'r rhai hyn, mae agos yn sicr nad oes yr un o honynt yn gywir ; ac nid yw yn debygol y ceir un manwl gywir byth ar y llinellau hyn. Fe all fod gradd o wir ymhob un ohonynt, ac y mae'n debyg fod, ond ein pwynt ni yn awr yw nad oes yr un o honynt yn cynnwys y gwir i gyd, nac yn agos i gyd. Credwn fod yn rhaid inni ymddyrchafu oddiwrth bersonau at egwyddorion mawr cyn y cawn afael ar gyfoeth meddwl yr Apostol. Heblaw fod Paul yn ddiwinydd digymar, dylem gofio ei fod hefyd yn weledydd a bardd uchelryw. Iaith athro a diwinydd yw ei iaith gan amlaf, oblegid yr amodau o dan ba rai yr oedd yn byw ; ond pan y cai hamdden i edrych i'r eangderau, rhyfedd fel y deuai y gweledydd a'r bardd i'r golwg. Onid geiriau a brawddegau felly yw "y creadur" a'i gysylltiadau, y "dyn newydd" a'r "hen ddyn," y "ddeddf," "goruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd," "crynhoi ynghyd yng Nghrist," &c., "tywysogaethau, awdurdodau, bydollywiawdwyr y byd hwn, a drygau ysbrydol yn y nefolion leoedd," &c., &c. Mewn cymhariaethau ac arwyddluniau y gellir gosod allan bethau mawr oreu, a gweledydd ysbrydol yw'r gwr i'w gweled, nid y diwinydd oer. Onid engreifftiau o hyn geir yn Dante, a Milton, a Bunyan, a Phantycelyn (Theomemffus: A golwg ar deyrnas Crist)?

Ond fe ddywed rhywun fel hyn : Onid oedd Paul ei hunan yn disgwyl ail-ddyfodiad Crist, a hynny yn ebrwydd, ac y byddai i'r " dyfodiad " hwnnw roddi terfyn ar rwysg anwiredd, a chychwyn cyfnod o " nefoedd newydd a daear newydd yn y rhai y bydd cyfiawnder yn cartrefu." Ac onid oedd yr athrawiaeth hon yn un o'r rhai amlycaf, os nad yr amlycaf oll, yn ei ddysgeidiaeth tra yr arhosai yn Thesalonica? Felly, os mai digwyddiad pendant a llythrennol oedd yr ail-ddyfodiad, ac y disgwylid ef yn fuan, paham nad at ddigwyddiadau penodol, a dyn neu ddynion gwirioneddol y cyfeiria y termau a'r brawddegau gyda pha rai y dysgai yr Apostol i'r Thesaloniaid i sylwi ar lwybr Ei ddyfodiad ; ac os nad fel hyn yr oedd, pa fodd y gellir edrych ar yr adran yma yn cyrraedd ei hamcan ynglyn â'r saint, sef eu cyfarwyddo a'u cysuro yn eu pryder a'u dyryswch ? Diau fod yr Apostol yn disgwyl " dydd Crist," a'i fod ar un adeg o'i oes, modd bynnag, yn ei ddisgwyl yn ei ddyddiau ef ei hunan. Ond yr oedd ystyr eangach na digwyddiad yn y " dyfodiad " bob amser i Paul, ac y mae pob lle i gredu fod y ffurf ar y dyfodiad yn mynd yn llai pwysig o hyd yn ei olwg, a'i wir ystyr a'i werth yn mynd yn fwy. Mae pob mudiad mawr yn nghyfeiriad daioni yn "ddyfodiad Crist," ac yn wir mae digwyddiadau cyffrous fel dinistr Jerusalem yn cael son am danynt gan Grist Ei hun fel Ei ddyfodiad. Ond i ddyfod y mae Crist o hyd, 'does yr un digwyddiad wedi dihysbyddu ystyr y dyfodiad mwy nag yr oedd digwyddiadau a phersonau neilltuol o dan yr Hen Destament yn dod i fynu a'r darluniau a roddai'r proffwydi o'r Mesia, er fod y cyfeiriad uniongyrchol yn y geiriau at y personnau hynny. Nid Canaan oedd yr orffwysfa, er ei bod yn orffwysfa, fel y dengys yr Epistol at yr Hebreaid. Dyfod y mae yr Arglwydd Iesu o hyd, ac y mae adegau neilltuol y gellir yn briodol eu galw " yn ddyddiau Mab y dyn." Ond nid oes yr un honynt yn dihysbyddu ystyr y dyfodiad.

Yr un modd yn hollol y mae berw ac ymweithiad drygioni, mewn ambell wlad ac ambell oes, y fath fel y gellir yn briodol ei alw yn ddyfodiad anghrist neu yn ymddanghosiad " y dyn pechod." A diau fod Paul yn gweled y gwahanol nerthoedd hyn ar waith yn ei oes ef, ac yr edrychai ar wahanol agweddau drygioni, wedi cyrraedd pwyntiau neilltuol yn y wladwriaeth neu gylchoedd llai, fel engreifftiau o ddyfodiad y " dyn pechod," ond dim ond engreifftiau oedd y cyfan, yr oedd yr egwyddorion mawr y tu ol i'r cwbl, ac nid oedd yr engraifft byth yn dihysbyddu yr egwyddor. Y mae meddwl mawr a sanctaidd yn ymddyrchafu rywfodd i edrych ar hanes y byd o safle uchel a dwyfol, ac ar adegau i feddwl felly y mae mil " o flynyddoedd megis un dydd,"

## PENNOD II.

1 AC yr ydym yn attolwg i chwi, frodyr, er dyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist, a'n cyd-gynhulliad ninnau atto

---

a hanes yr oesoedd pell i'w gweled yn hanes ei yrfa ef ei hun yn y byd. Gwelsom *mirage* unwaith yng ngwlad y Gorllewin; gwelem dref bell yn ymyl, mor agos nes y gellid darllen rhai o'r enwau uwchben y sïopau. Tybed na byddai y pell yn dod yn agos i Paul ar adegau, ac y gwelai hanes yr ymdrechfa fawr rhwng y drwg a'r da wedi ei dwyn i'w ymyl—y dyn pechod ar ymddangos, a "dydd Crist" ar wawrio. Ac onid fel hyn yr edrychai Crist Ei hun ar bethau yn ol a welwn mewn rhai o'r adrannau "datguddiadol" geir yn yr Efengylau. Ystyr y cyngor i'r Thesaloniaid yw, "Na flinwch ynghylch y pryd y daw yr Arglwydd; digon i chwi yw gwybod Ei fod 'yn dyfod ar frys a'i wobr gyd ag Ef,' a'r hyn sy'n bwysig i chwi yw bod yn barod ar gyfer Ei ddyfodiad. Mae Ei ddyfodiad yn ddigwyddiad mawr, ond y mae hefyd yn fudiad mawr; dyfodiad parhaus yw, a cheir arwyddion a phrofion penodol o hono pan y gwelir pechod yn ei rwysg mwyaf." Annodd iawn yw meddwl fod Paul, a'i lygaid newydd eu hagor ar ddirgelwch mawr dyfodiad y Cenhedloedd i mewn i'r deyrnas, a'i brofiad eang ar ol teithio o ddinas i ddinas a gweled cyflwr y byd paganaidd, yn synio fod diwedd pob dim wedi nesâu yn llythrennol, ac y byddai teyrnas nefoedd wedi llawn dyfu a chyrraedd y perffeithrwydd hwnnw ag y byddai yr Iesu yn ei chyflwyno i Dduw a'r Tad, "fel y byddai Duw oll yn oll." Haws gennym gredu mai edrych yr oedd â llygaid gweledydd ysbrydol, yr hwn sy'n dileu amser a lle i fesur, o leiaf yn eu perthynas a'u treigliadau a'u holyniaeth, na'i fod yn edrych ar bethau o safle hanesydd tawel, yr hwn a esyd mewn "trefn a dosbarth" ddigwydd-iadau y dyfodol, fel y gwneir gan y cyfryw un â digwyddiadau y gorffennol.

### PEN. ii. 1—12.

Diolch a chysur a gweddi geir yn y bennod o'r blaen. Yma ceir annogaeth a hyfforddiant. Annerchir yr eglwys i gyd, er fod llygaid yr Apostol ar ddosbarth neilltuol ynddi. Gwel y nodiad ar ddechreu yr epistol.

**ADN. 1. Er dyfodiad.** Ystyr y gair am "er" yma yw "gyda golwg ar," "o barth i," neu "ynglyn â."

**Ein cyd-gynhulliad, &c.** Y gair geir yma am "gydgynhulliad" oedd y gair a ddefnyddid am gyd-gasgliad yr Iddewon at eu gilydd

ef, Na'ch sigler yn fuan oddi wrth eich meddwl, ac na'ch 2
cynhyrfer, na chan yspryd, na chan air, na chan lythyr,

---

pan y deuai eu Mesia. Defnyddir ef yn yr efengylau am rif yr etholedigion a gesglid ynghyd ar ddyfodiad yr Arglwydd. Gwel Matt. xxiv. 31; Marc xiii. 27.

**ADN. 2. Na'ch sigler yn fuan oddiwrth eich meddwl.** Dywedir fod y gair am "sigler" yn cael ei ddefnyddio yn wastadol am long uwch ben ei hangor, yn cael ei siglo gan y gwynt a'r môr, ond eto yn aros yn ddiogel yn yr angorfa. Felly y mae "siglo oddiwrth" yn awgrymu llestr wedi torri yn rhydd oddiwrth ei hangor, ac yn *driftio*. Meddwl sobr, pwyllog, a thawel yw'r angor, ac yr oedd rhai yn yr eglwys hon mewn perygl o gael eu tynnu oddiwrth yr hyn a roddai sefydlogrwydd i'w bywyd, ac felly o gael eu gwneud yn anesmwyth ac aniddig. Ystyr y gair "buan" yma ydyw, nid "buan" ar ol unrhyw ddigwyddiad arall, ond "yn rhwydd" neu yn "gyflym."

**Ac na'ch cynhyrfer.** Tybia rhai mai ystad o gyffro yn dilyn y "siglo" ddynodir gan y gair hwn. Tybia eraill mai rhywbeth nid mwy na "siglo" ond llai sydd yma, ac yn golygu rhyw dawch meddyliol yn unig. Dyma farn Lightfoot. Yn ol y syniad yma cynghora yr Apostol hwy, nid yn unig rhag cael eu cludo ymaith o'u hangorfa, ond rhag goddef i'w meddyliau gael eu cymylu gan syniadau amhwyllog ac anaddfed o barth i'r ail-ddyfodiad. Mae meddwl llac ac amhenodol yn andwyo sefydlogrwydd a grym cymeriad.

**Na chan yspryd, na chan air, na chan lythyr, megis oddi wrthym ni.** Mae llu o wahanol farnau ar ystyr yr ymadroddion hyn. Tybia rhai na ddylid cysylltu "oddiwrthym ni" â dim ond y "llythyr," a barnant mai at lythyr wedi ei ffugio y cyfeirir. Honna eraill y dylid cysylltu "oddiwrthym ni" â'r "llythyr" ac â'r "gair," tra y deil eraill y dylid ei gysylltu â'r tri gair, "ysbryd," "gair," a "llythyr." Y farn gyffredin yw fod "ysbryd" yn cyfeirio at un o'r "doniau ysbrydol" geid yn yr eglwys y pryd hyn, sef dynion o dan gynhyrfiadau ysbrydol yn dyweyd pethau rhyfedd; weithiau, cenadwri bendant oddiwrth Dduw; bryd arall gwirioneddau aruchel mewn "twym ias"; brydiau eraill datguddiadau ar faterion pwysig oddiwrth Dduw. Hawdd yw camgymeryd dychymyg a barn bersonol o dan amgylchiadau fel hyn, a thybio mai cenadwriaethau oddiwrth Dduw ydynt. Mae'n debyg mai at y cyfryw bethau y cyfeirir yn y gair "ysbryd." Mae'n debyg fod "gair" yn cyfeirio at ddysgeidiaeth ar lafar—rhywun yn ymgymeryd ag esbonio meddwl Paul yn yr hyn ddywedai am yr ail-ddyfodiad; neu hwyrach yn honni fod ganddo wybodaeth bendant wedi ei derbyn gan neu oddiwrth Paul ar y mater. Gall llythyr gyfeirio at un o dri pheth: (1) Llythyr wedi ei ffugio; (2) yr epistol cyntaf at yr eglwys; (3) llythyr yn honni rhoddi golygiadau Paul heb fod yn ffug-lythyr. Ceir rhai esbonwyr enwog yn pleidio pob un o'r golygiadau hyn, ac y mae llawer i'w ddyweyd o blaid ac yn erbyn pob un.

Teimlwn fod llawer i'w ddyweyd dros esboniad Askwith ("An Introduction to the Thessalonian Epistles"). Nid yw efe yn cytuno

megis oddi wrthym ni, fel pe bai dydd Crist yn gyfagos.
3 Na thwylled neb chwi mewn un modd: oblegid *ni ddaw y*

---

â'r un o'r golygiadau blaenorol. Ei brif reswm dros hynny yw mai nid yr arddodiad a gyfieithir yn "oddiwrthym" fuasai yr un mwyaf priodol i'w ddefnyddio i gyfleu yr ystyr o "oddiwrth," ond arddodiad arall (*para* nid *dia*); ac mai hwnnw geir mewn adnodau lle y golygir "oddiwrth" neu "gan," *e.g.*, Actau ix. 2, "Ac a ddeisyfodd *ganddo* lythyrau," ac Actau xxii. 5, "*gan* y rhai y derbyniais lythyrau"; a bod yr arddodiad a geir yma yn dynodi "offeryn" neu "gyfrwng" fel rheol, ac nid "un yn gweithredu dros arall" (*instrument not agent*). Mae yn deilwng o sylw hefyd mai yr un arddodiad ddefnyddir o flaen "ni," ac a gyfieithir "oddiwrthym" yn Gymraeg, ag a ddefnyddir o flaen y geiriau "ysbryd," "gair," a "llythyr," ac a gyfieithir "gan" yn Gymraeg a "by" yn Saesneg. Oherwydd hyn barna yr esboniwr uchod y dylid cysylltu "megis oddiwrthym ni" a'r berfau "sigler" a "chynhyrfer," a darllen yr adnod fel hyn: "Na'ch sigler yn fuan oddiwrth eich meddwl, ac na'ch bliner *trwy* broffwydoliaeth na *thrwy* ddysgeidiaeth ar lafar, na *thrwy* lythyr, fel pe buasai y cynhwrf (siglo a chynhyrfu) wedi dyfod trwom ni," &c. Yn ol yr esboniad yma nid dangos geudeb y llythyr y mae yr Apostol, ond rhoi cerydd am y defnydd anheg a wnaed o'r "llythyr" (h.y., yr Epistol Cyntaf). Ystyr hyn yw fod Paul yn dyweyd nad oedd ef a'i gyd-genhadon yn gyfrifol o gwbl trwy y llythyr a anfonasant at yr eglwys o achosi y terfysg meddyliol oedd yn eu plith, ond mai cam-ddeall a cham-esbonio y llythyr oedd yn gyfrifol am y cyfan.

**Fel pe bai dydd Crist yn gyfagos.** Cytunir yn bur gyffredinol fod y gair a gyfieithir yma "cyfagos" yn golygu "yn bresennol" neu "wedi dyfod." Haerai y rhai oedd yn cam-arwain fod yr ail-ddyfodiad wedi dod, h.y., fod yr adeg wedi dod, ac y gallai Crist ymddangos unrhyw eiliad. Yr oedd eu brwdaniaeth wedi eu gyrru ar gyfeiliorn, fel y mae sel heb reolaeth deilwng arni yn gwneud bob amser. Nid oedd Paul yn ei epistol cyntaf wedi dysgu fod dyfodiad Crist yn ymyl; dyweyd a wnaethai y deuai yn sydyn, megis lleidr yn y nos, heb ei ddisgwyl; ond camgymerodd rhai o'r eglwys, sydynrwydd am agosrwydd, a thrwy hynny dygwyd anhrefn mawr i'r frawdoliaeth. Mynnai un dosbarth mai ofer oedd gwneud dim, gan fod diwedd y byd wedi dod; llethid y "gwan eu meddwl" gan ofn nad oeddynt yn barod, ac na chaent felly gyfrannogi yng ngogoniant ac ysplander y dyfodiad. Cyfarfod â'r agwedd yma ar bethau yw amcan yr Apostol yn yr adran nesaf (adn. 3—12).

Yma y dechreua yr Apostol ddangos paham na ddylasai neb o'r saint gymeryd eu siglo na'u cynhyrfu. Camsyniad am amser "dyfodiad" Crist oedd wrth wraidd eu hanesmwythyd a'u cyffro; yma dengys Paul nad oedd y "dyfodiad" i fod yn ebrwydd, ac felly nad oedd sail i'w hanhunedd.

**ADN. 3. Mewn un modd.** Yn y modd a nodwyd yn yr adnod flaenorol, nac mewn unrhyw fodd arall.

*dydd hwnnw* hyd oni ddêl ymadawiad yn gyntaf, a datguddio

---

**Oblegid (ni ddaw y dydd hwnnw) hyd oni ddel ymadawiad yn gyntaf.** Mae y fannod o flaen y gair ymadawiad, felly golyga " yr ymadawiad," sef yr un y cyfeiriasai Paul ato pan yr oedd yn Thesalonica, yr hwn y gwyddai y saint am dano drwy i'r Apostol wneud dim ond ei grybwyll. Gall olygu " yr ymadawiad " mawr, neu " yr ymadawiad " neilltuol y soniasai Paul am dano. Golyga y gair " wrthryfel " (*revolt or rebellion*), megis gwrthryfel deiliaid yn erbyn llywodraeth, neu unrhyw wrthryfel yn erbyn awdurdod, ond mewn ystyr grefyddol golyga " ymadawiad " neu " encil," neu " wrthgiliad " oddiwrth y ffydd. Nid o angenrheidrwydd gwadu y ffydd, ond cyfeiliorni oddiwrthi, a dwyn arferion llygredig a phaganaidd i mewn a'u cymysgu âg arferion a chredo a buchedd sanctaidd. Mae'n amhosibl dyweyd i sicrwydd at ba ymadawiad y cyfeirir, nac felly at bwy y cyfeirir. Tybia rhai mai at " ymadawiad " ymhlith y Cristionogion y cyfeirir, a bod golwg Paul yma ar eiriau Crist yn Matt. xxiv. 11, 12 : " A gau-broffwydi lawer a godant, ac a dwyllant lawer ; ac oherwydd yr amlha anwiredd (anghyfraith) fe a oera cariad llawer." Y ddadl yn erbyn y syniad yma yw nad oes gennym unrhyw sail i dybio fod Paul yn disgwyl am y fath enciliad ymhlith y Cristionogion, ac nad oedd unrhyw arwydd o hynny yn y golwg. Heblaw hynny, mae yr hyn a ddywed yn yr epistolau hyn am y Thesaloniaid yn dangos yn eglur y byddai iddynt ymddangos gyda Christ mewn gogoniant mawr pan y deuai. Barna eraill mai at " ymadawiad " y Cenedloedd y cyfeirir, h.y., at rhyw ymadawiad mawr yn y byd paganaidd. Y ddadl yn erbyn hyn yw mai prin y gellir galw hyd yn oed ymchwydd annuwioldeb y byd paganaidd yn " ymadawiad " mewn ystyr grefyddol. Mae'n wir fod rhai yn rhoddi ystyr gwbl boliticaidd i'r gair, ac yn ei gymeryd yn ei ystyr gyntaf o " wrthryfel," ac mai at doriad allan y cyfryw y cyfeirir. Ond nid yw yn hollol naturiol rhoddi i'r gair hwn ystyr dymhorol a gwladol tra mai moesol ac ysbrydol yw popeth ynglyn âg ef. Y syniad mwyaf cyffredinol, a'r un sydd wedi cynhyddu yn fawr y blynyddoedd diweddaf yw mai at " ymadawiad " yr Iddewon y cyfeirir. Oddiwrth yr Iddewon y cafodd Paul y rhwystrau pennaf a ffyrnicaf i gyflawni ei waith ymhob cylch, ac yr oedd arwyddion amlwg fod eu malais a'u drwg-deimlad ato yn prysur ddatblygu i fod yn llid a chynddaredd. Llygrai y fath ddrwg-anwydau y sawl a'u coleddent yn gyflym iawn, a chyn bo hir nid oeddynt yn ddim amgen na rhai " a chanddynt rith duwioldeb eithr wedi gwadu ei grym hi."

**A datguddio y dyn pechod.** Hwyrach yr awgrymir rhyw gyfatebiaeth yn y geiriau " dirgelwch " (adn. 7) a " datguddio " yma rhwng ymddanghosiad " y dyn pechod " ag " ymddanghosiad Crist Ei hun." Ffurf Hebreig yw'r ymadrodd " dyn pechod " ; defnyddiai yr iaith honno ddau enw (*noun*) pan y defnyddiwn ni enw ac ansoddair. Yr ystyr yw " dyn pechadurus," ond fod y ffurf Hebreig yn llawer cryfach. Dyn a phechod wedi ei lwyr feddiannu nes nad yw ond offeryn i gario allan ddryg-chwant pechod. Cymharer ymadrodd gwrthgyferbyniol, " dyn Duw." Mae cyfieithiad arall i'r ymadrodd hwn yn cael ei

4 y dyn pechod, mab y golledigaeth; Yr hwn sydd yn gwrthwynebu, ac yn ymddyrchafu goruwch pob peth a

---

fabwysiadu yn gyffredinol am y dywedir fod llawer o'r MSS. pwysicaf â gair arall ynddynt, ac nid y gair a gyfieithir "pechod," sef "anghyfraith." Mae'n wir ei fod yn dod i'r un peth, oblegid "anghyfraith yw pechod." Ond anghyfraith yn yr ystyr o *lawlessness* yw'r meddwl, a'r cyfieithiad felly fyddai "dyn yr anghyfraith" (*man of lawlessness*), neu "ddyn y fall," neu "fab Belial." Sylwer mai wedi yr "ymadawiad" y datguddir "dyn yr anghyfraith," a chynnyrch yr ymadawiad i fesur ydyw, h.y., *stage* bellach yn natblygiad drygioni. Ofer yw ymholi, fel y dywedasom yn ein llith ar ddechreu y bennod, pwy oedd neu pwy yw "y dyn pechod." Efallai mai eithafbwynt drygioni olygir, a bod ysbryd proffwydol yn personoli sefyllfa felly ac yn ei galw yn "ddyn pechod." Mae'n eithaf tebyg hefyd fod yr egwyddorion annuwiol oedd mewn rhwysg, yn ymgorffori ar y pryd mewn rhyw ddyn amlwg, fel Caligula yr Ymherawdwr, megis y bu oesoedd cyn hyn yn Antiochus Epiphanes. Pa un ai personoli drygioni y mae Paul ai ynte a oedd rhyw "ddyn" arbennig o flaen ei olwg, nid oes modd dyweyd i ddim sicrwydd; mae y peth ei hun yn wir beth bynnag am y ffurf. Mae'n debyg fod geiriau yr Apostol wedi eu cyflawni i raddau yn yr oes honno, er na allwn ni weld y cyflawniad yn ei fanylion; ond y mae egwyddor fawr ei broffwydoliaeth yn aros hyd heddyw, ac fe erys hyd ddiwedd amser pan y cyflawnir hwy yn llawn. Nid hawdd yw deol disgrifiad fel hyn a gweld pa ran o hono gyflawnwyd ar y pryd, a pha ran neu rannau sydd yn aros i'w cyflawni. Yr un modd y mae rhagfynegiadau Crist am ddinistr Jerusalem a dyfodiad dydd barn yn ymdoddi i'w gilydd fel na ellir dadrys y naill oddiwrth y llall.

**Mab y golledigaeth.** O ran ei natur "y dyn pechod," o ran ei dynged "mab y golledigaeth." Ffurf Hebreig eto. Colledigaeth oedd biau hwn. Dyma hanes pechod—arwain i golledigaeth. Mae yn cyrraedd pwynt uchel iawn mewn rhwysg a dylanwad yn y byd, ceisia ddiorseddu Duw, a pherswadia rhywrai ei fod wedi llwyddo, ys dywedir yn yr adnodau dilynol; ond "mab y golledigaeth" yw ef y pryd hwnnw. "Tywysog y byd hwn" a "thywysog llywodraeth yr awyr," dyna un eitha yn ei hanes, ond "mab y golledigaeth" er hynny, a thrwy hynny.

4. **Yr hwn sydd yn gwrthwynebu.** Golyga yr ymadrodd hwn yn ymarferol yr un peth ag *anghrist*, sef gwrthwynebwr Duw neu Grist (*the adversary*).

**Ac yn ymddyrchafu, &c.** Gair cryf iawn yw yr un am "ymddyrchafu," ac yn golygu "tra-ymddyrchafu"; yr un ferf geir yn 2 Cor. xii. 7, "fel na'm tra-dyrchefid," &c. Golyga hefyd nid yn unig ymddyrchafu "goruwch," ond ymddyrchafu "yn erbyn." Mae'n sicr fod Paul yma a'i olwg ar Daniel xi. 36, oblegid os cymherir y ddau le fe welir fod rhai o eiriau Daniel yn cael eu defnyddio ganddo.

elwir yn Dduw, neu a addolir; hyd onid yw efe, megis
Duw, yn eistedd yn nheml Duw, ac yn ei ddangos ei hun
mai Duw ydyw. Onid côf gennych chwi, pan oeddwn i 5
etto gyd â chwi, ddywedyd o honof y pethau hyn i chwi?
Ac yr awrhon chwi a wyddoch yr hyn sydd yn atal, fel y 6

---

**Neu a addolir.** Pethau yn ogystal a phersonau. Unrhyw beth a wneid yn wrthrych addoliad. Cyfieithir yr un gair yn Act. xvii. 23, yn "defosiynol"; yr ystyr yna yw gwrthrychau defosiwn, ac nid y defosiwn ei hun.

**Yn eistedd yn nheml Dduw.** Mae lliaws o esboniadau ar y frawddeg hon. Golyga rhai mai at y deml Iddewig y cyfeirir, a bod yma hefyd gudd-gyfeiriad at waith Caligula yn gorchymyn i ddelw o hono gael ei gosod yn y deml yn Jerusalem. Cawn fod brenin Babilon ac Antiochus Epiphanes wedi rhyfygu yn gyffelyb. Tybia eraill mai at y deml ysbrydol yr hon yw y saint y cyfeirir, gan fod y ffugr hwn yn cael ei ddefnyddio gan Paul yn 1 Cor. iii. 16. Tybia eraill mai at deml Duw yn y nefoedd y cyfeirir. I fynu fry y mae greddf grefyddol dynion wedi eu dysgu i osod mangre preswyliad Duw; wrth gwrs ffugr yw y cwbl, ond y mae yn un cwbl naturiol. Myn y "dyn pechod" ddiorseddu Duw yn Ei deml Ei hun, a honni mai efe sydd oruchaf mwyach. Hyd y gwelwn ni 'does dim yn erbyn cymeryd pob un o'r esboniadau hyn i mewn, ond cofio fod y gwir ystyr yn fwy na'r un o honynt, ac efallai yn fwy na'r oll. Y gwirionedd mawr sydd o dan y cyfan yw rhyfyg, balchter, gelyniaeth a hyfdra digyffelyb pechod. Nid yw yn ei natur i fod yn ddarostyngedig i neb, hyd yn oed i Dduw Ei hunan.

**ADN. 5.** Mae rhyw gymaint o ias cerydd yn yr adnod hon. "Ddywedais i ddim," meddai yr Apostol, "tra yr oeddwn gyda chwi, i'ch cyfiawnhau i synio fel yr ydych am ddyfodiad yr Arglwydd, ac nid wyf yn awr yn dyweyd dim ar na ddywedais yn helaethach am yr ail-ddyfodiad tra yr oeddwn yn eich plith."

**ADN. 6. Ac yn awr.** Tybia rhai mai at yr amser hwnnw y cyfeirir; tybia eraill mai arwydd o ymresymiad ydyw. Gwell gennym y syniad olaf. Gan eich bod yn gwybod y pethau hyn, yr ydych o ganlyniad yn gwybod y peth hwn, sef yr hyn sydd yn atal.

**Yr hyn sydd yn atal.** Pa un ai at Rufain ai at rhyw fôd ysbrydol, ai at y ddeddf foesol, ai at y diafol ei hunan, ai at rywbeth nad ellir dweyd yn benodol beth yw y cyfeirir, mae yn amhosibl dyweyd. Ni welsom yr un syniad nad oedd gormod o gywreinrwydd ynglyn ag ef, neu ormod o ystumio ar bethau i'w gael i'w le, i ni gredu ei fod yn hollol iawn. Ymddengys yr edrychai yr Apostol arno i ddechreu fel rhyw ddylanwad cryf yn atal pechod i ymdaith yn ol ei ewyllys; yna y mae yn ei bersonoli gan ei alw "yr hwn." Diau gennym mai rhyw allu naturiol, gwladol, moesol neu ysbrydol ydyw, ac nid unrhyw berson hanesyddol, a dyna'r cwbl a wyddom. Beth bynnag oedd, yr oedd

7 datguddier ef yn ei bryd ei hun. Canys y mae dirgelwch
yr anwiredd yn gweithio eisoes: yn unig yr hwn sydd yr
8 awrhon yn atal, *a etyl* nes ei dynnu ymaith. Ac yna y

---

dan lywodraeth Duw yn gwneud ei waith am dymor, ac yna yn cael ei symud er mwyn i gwrs datblygiad fynd yn ei flaen.

**Fel y datguddier ef yn ei bryd ei hun.** Cyfeiriad, hwyrach, at "yr amseroedd a'r prydiau" (1 Thes. v. 1). Yr oedd "y dyn pechod" i ymddangos yng nghwrs naturiol datblygiad drygioni, fel y mae cynhaeaf yn dilyn tymor hau, yn ei bryd ei hun. Er mai "anghyfraith yw pechod," eto datblygu yn ol grym deddf, fel y gellir edrych ar afiechyd yn "anghyfraith" anianyddol yn y corff, ac eto y mae iddo gwrs o ddatblygiad hollol reolaidd a naturiol.

**ADN. 7. Dirgelwch yr anwiredd.** Ystyr y gair "dirgelwch" yn ddieithriad yn y Test. Newydd ydyw "yr hyn fu yn dywyll ond sydd yn awr wedi ei ddwyn i oleuni." A dyma ei ystyr yma; rhyw allu cyfrin nad adwaenid ef ydoedd, ond tynnir y llenn oddiarno a gwelir beth ydoedd. Mae yr "angyfraith" ar waith o hyd, er ei fod yn cael ei gadw rhag torri allan. Mae y dwr yn cronni yn araf a distaw, a rhyw argae fawr yn ei gadw rhag ysgubo fel cenllif dros y tir, ond pan symudir y gwrthglawdd daw yr ymadawiad (y gorlifiad), ac yna ymddengys "y dyn pechod" yn ei rwysg.

Mae geiriau wedi eu gadael allan gan yr awdur yma fel yn adn. 3, fel y dengys y geiriau a geir mewn llythrennau *Italaidd* yn y ddwy. Mae gwahanol ffyrdd gan esbonwyr i lanw y bwlch: ar y cyfan yr ydym yn hoffi cyfieithiad Frame, yr hwn sydd fel y canlyn: "Canys y mae dirgelwch yr anghyfraith eisoes ar waith; yn unig (na ddaw yr ymadawiad, ac na ddatguddir yr anwir hwnnw) hyd nes y bydd i'r hwn sydd yn ei atal gael ei symud o'r ffordd."

Mae'n amlwg mai brwydr fawr rhwng egwyddorion ddarlunir yma, a hynny yn nhermau ac arddull proffwydoliaeth ddatguddiadol (*Apocalyptic*) yr Iddewon; defnyddir llawer o'r un geiriau ac arwyddluniau drwy'r oesoedd, o amser Ezeciel a Daniel hyd ddyddiau Ioan (a chymeryd mai efe ysgrifennodd Lyfr y Datguddiad). Yr oedd swyn yn y ffurf hon i'r bobl, a llawer o fanteision yn perthyn iddi pan y ceid proffwyd neu ddysgawdwr allai egluro ystyr yr arwyddluniau; ond y mae yr eglurhad hwnnw wedi ei golli i ni, ac amhosibl yw i ni yn y Gorllewin fedru deongli ystyr llawer o ddarluniau y Dwyrain. Ond y mae y cnewyllyn gennym pan y cofiwn, fel y dywedwyd, mai darlun o'r frwydr fawr rhwng y da a'r drwg geir yma, ac y mae prif linellau y frwydr yn amlwg er y niwl sydd o gwmpas lliaws o'r termau.

**ADN. 8. Ac yna.** Sef y pryd y symudir "yr hwn oedd yn atal."

**Y datguddir.** Cyfeiriad at yr hyn a ddywedwyd yn adn. 3. Dadlennir y drwg yn y man, a gwelir ef yn ei liw a'i lun ei hunan. Bu yn ymrithio mewn llawer ffurf, a llawer o ddirgelwch o'i gwmpas, ond dinoethir ef ryw ddiwrnod a gwelir ef fel y mae yn ei hacrwch a'i ysgelerder.

datguddir yr Anwir *hwnnw,* yr hwn a ddifetha yr Arglwydd âg ysbryd ei enau, ac a ddilëa â disgleirdeb ei ddyfodiad:

---

**Yr anwir hwnnw.** Enw arall ar " y dyn pechod." Gair o'r un gwreiddyn ddefnyddir yn yr iaith Roeg am " pechod " (y dyn pechod), " anwiredd " (dirgelwch yr anwiredd), a'r " anwir " yma; a buasai defnyddio yr un gair yn fantais yn y tri lle. Efallai mai " anwir " fuasai y gair goreu i'w ddefnyddio yn y Gymraeg yn y tri lle: ei unig ddiffyg yw ei fod, yn ol yr arfer gyffredin o hono, braidd yn wan.

**Yr hwn a ddifetha yr Arglwydd ag ysbryd ei enau.** Bernir fod yma gyfeiriad at Esaiah xi. 4: " Ac âg anadl ei wefusau y lladd efe yr anwir," ac hefyd at Salm xxxiii. 6: " a'u holl luoedd hwy trwy ysbryd ei enau ef." Mae'n debyg y buasai y gair " lladd " yn gywirach yma na " difetha." Mae llawer o'r MSS. a rhai cyfieithiadau pwysig yn rhoddi y gair " Iesu " ar ol Arglwydd yma. Dilyn y rheiny y mae y Cyf. Diw. Efallai mai dilyn y gair o Esaiah wnaeth rhyw gopïwr wrth adael enw " Iesu " allan, neu ynte mai er mwyn gwneud y gwahaniaeth rhwng Duw Dad a'r Arglwydd Iesu y rhoes rhyw gopïwyr eraill y gair i mewn, a dangos mai yr Arglwydd Crist a olygid. Yr un gair sydd am " ysbryd " ac " anadl " yn y Groeg, a dyna rydd gyfrif am ddefnyddio y naill air a'r llall fel cyfieithiad o'r un gair gwreiddiol. " Anadl " fyddai oreu yma am ei fod yn eglurach, ac yn fwy mynegiadol.

**Ac a ddilëa â disgleirdeb ei ddyfodiad.** Pan y byddai Paul a'i lygaid ar ffurf Hebreig o osod peth allan, cawn ef yn mabwysiadu y gyfochraeth sydd mor nodweddiadol o'r iaith honno. Engraifft o hynny geir yn y ddwy frawddeg olaf hyn. Mae y ddwy yn ymarferol yn golygu yr un peth. Ystyr gyntaf ac arferol y gair a gyfieithir " disgleirdeb " yw " amlygiad " neu " ymddanghosiad," ac o hono y ceir y gair *Epiphany*=yr Ystwyll. A hwn oedd gair y Groegiaid am ymddanghosiad rhyw dduw, a hwn yw y gair ddefnyddir yn fynych gan Paul am yr ail-ddyfodiad. Gwel 1 Tim. vi. 14; 2 Tim. iv. 1, 8; Titus ii. 13. Y gair Iddewig am yr ail-ddyfodiad oedd *Parousia*, yr hwn a olyga yn llythrennol " presenoldeb," ac yma ceir y ddau ynghyd, a gellid eu cyfieithu yn " ymddanghosiad ei ddyfodiad." Dywed Lightfoot hefyd fod y syniad o ysplander neu ddisgleirdeb ynglyn â'r gair a geir yma am " ddisgleirdeb," fel y mae y cyfieithiad Cymraeg yn agos iawn i'w le wedi'r cyfan.

Y syniad a gyfleir yn y ddwy frawddeg hyn ydyw y bydd i'r Arglwydd Iesu lwyr orchfygu y drwg, a hynny gyda dwyfol rwyddineb; dim ond iddo " anadlu " fe ddifethir " yr anwir "; y mae Ei anadl yn lladdfa iddo; dim ond iddo " ymddangos " ac fe'i " dilëir." Fel y mae yr haul wrth ymddangos yn y bore yn dilëu y nos a'r tywyllwch, felly y dilëa Crist " yr anwir hwnnw " yn Ei ymddanghosiad yntau. Geiriau ffugyrol wrth gwrs yw " lladd " a " dilëu," y syniad danynt yw llwyr orchfygu. Mae y ffaith nad yw drygioni wedi ei lwyr orchfygu yn brawf nad yw y darlun hwn wedi ei gyflawni eto. Mae pob dyfodiad o eiddo Crist yn oruchafiaeth ar ryw wedd ar bechod. Fe'i gorch-

9 *Sef* yr hwn y mae ei ddyfodiad yn ol gweithrediad Satan,
10 gyd â phob nerth, ac arwyddion, a rhyfeddodau gau, A
phob dichell anghyfiawnder yn y rhai colledig; am na dder-

---

fygir fel y mae yn anwybodaeth, fel y mae yn orthrwm a thrais, &c., &c., ar adegau neilltuol yn hanes gwledydd; ac fe ellir ystyried adegau felly yn "ddyfodiad yr Arglwydd Iesu"; ond ni lwyr orchfygir pechod hyd nes yr ymddengys Crist yn niwedd y byd; o flaen y dyfodiad hwnnw ni all y diafol sefyll:

"Cydfydd y fall a'i gallawr
Câr lechu yn y fagddu fawr."

**ADN. 9. Yr hwn y mae ei ddyfodiad.** Yr un gair geir yma am ddyfodiad "yr anwir" ag a geir am ddyfodiad Crist, a braidd na thybiem fod yr Apostol yn y ddwy adnod hon yn dangos y gyfatebiaeth wrthgyferbyniol oedd rhwng ymddanghosiad "yr anwir hwnnw" ag ymddanghosiad Crist.

**Yn ol gweithrediad Satan.** Cynnyrch egnïon y diafol yw dyfodiad "yr anwir"; fel mai trwy allu Duw yr ymddanghosodd ac yr ymddengys Crist. Dwyfol egni welir yn holl waith y prynedigaeth; felly egni drygioni welir yng ngwaith "yr anwir," ac fel yr olrheinir yr egni cyntaf i'w darddle yn Nuw, felly yr olrheinir yr olaf i'w "dad diafol."

**Gyda phob nerth, ac arwyddion a rhyfeddodau gau.** Cawn y geiriau hyn gyda'u gilydd yn wastad ynglyn â gweithredoedd nerthol Crist a'r apostolion. Gwel Act. ii. 22; 2 Cor. xii. 12; Heb. ii. 4; Rhuf. xv. 19, heblaw y mynych ddefnydd a wneir o honynt ar wahan neu fel arall yn yr Efengylau. Yma priodolir gweithredoedd tebyg ynglyn ag ymddanghosiad "y dyn pechod," ond fod yr olaf mor gau ag oedd y cyntaf o wir. Gwelwyd peth tebyg yn hanes swynwyr yr Aipht. Nid gwahanol weithredoedd ddisgrifir yn y tri gair, ond gwahanol agweddau ar yr un gweithredoedd. "Nerth" oedd y gallu a gynhyrchai yr "arwyddion" a'r "rhyfeddodau"—dyma eu tarddle: "arwyddion" oeddynt o rywbeth arall pellach na hwy eu hunain, fel yn hanes gwyrthiau Crist. Fel yr oedd pob gwyrth i Grist yn ddameg, felly hefyd yr oedd pob gau wyrth i'r "dyn pechod" yn ddameg hefyd. "Rhyfeddodau" oeddynt yn yr effeithiau a gynhyrchent ar yr edrychwyr: ennynent syndod, a chyffro ymysg pawb, ac arhosai yr argraff a wneid ganddynt yn hir ar gof a meddwl y tystion.

**ADN. 10. A phob dichell anghyfiawnder yn y rhai colledig.** Yma danghosir dylanwad mewnol "yr anwir" ar eneidiau ei ddeiliaid, yn gyferbyniol i'r dylanwadau allanol geir yn yr adnod flaenorol. Fel y mae Ysbryd Duw yn gweithio mewn dynion i'w cymhwyso i dderbyn datguddiad yr Efengyl, felly y mae yr ysbryd drwg "yn gweithio ym mhlant yr anufudd-dod." Gelwir y gwaith hwn yma yn "dwyll neu ddichell anghyfiawnder." O anghyfiawnder y tardda, mewn anghyfiawnder y gweithreda, ac ar anghyfiawnder yr esgora. Dyma

byniasant gariad y gwirionedd, fel y byddent gadwedig.
Ac am hynny y denfyn Duw iddynt hwy amryfusedd cadarn 11

---

waith yr ysbryd drwg yn y rhai colledig, megis mai y gwrthgyferynbiol yw gwaith yr Ysbryd Glân yn y rhai cadwedig.

**Am na dderbyniasant gariad y gwirionedd.** Gwelir yma fod y cyfan yn ddarostyngedig i egwyddorion moesol llywodraeth Duw. Mae yr egwyddorion hyn yn oruchaf ar bopeth ; nid yn unig hwy fyddant oruchaf yn y man, ond felly y maent bob amser. Yr hyn sydd yn gwneud anwiredd yr hyn yw ydyw fod cyfiawnder yr hyn ydyw ; oni buasai fod cyfraith ni allasai fod anghyfraith. 'Does dim modd gwrthod y gwirionedd heb i hynny droi yn ddirywiad yn yr enaid, a'r dirywiad hwnnw ydyw y ddaear barod i dderbyn pob hedyn llygredig. Golyga y gair " gwirionedd " yma wirionedd yr Efengyl, oblegid gwirionedd wedi ei gynhesu gan " gariad " ydyw. Mae gwrthod gwirionedd moel ac oer yn cario dylanwad niweidiol bob amser ; mae gwrthod goleuni gwirionedd yn bechod, ond y mae gwrthod goleuni a gwres gwirionedd yn anrhaethol fwy o bechod : ac y mae y gwrthodiad hwnnw ynddo ei hun yn gwneud yr enaid yn gymhwys drigle i'r " ysbryd aflan."

**ADN. 11. Am hynny.** Sef am na dderbyniasant " gariad y gwirionedd."

**Amryfusedd cadarn.** Annodd iawn yw cyfieithu y Groeg yma i Saesneg na Chymraeg. Cyfieithir y gair geir yma am " amryfusedd " yn " dwyll " ac yn " gyfeiliorni " mewn mannau eraill. Bai y gair " amryfusedd " yw ei fod yn cael ei ddefnyddio i ddynodi "cyfeiliornad" a " chamgymeriad," " drygioni " a " chamsyniad," ac mai yn yr ystyr o " gamsyniad " neu " gamgymeriad " y defnyddir ef bron bob amser heddyw. Pe bai yr ystyr ddrwg i'r gair yn eglur yma byddai yn eitha gair i fynegi y meddwl. Ond y mae y gair " cadarn " yn hollol anghymwys i roddi ystyr y gwreiddiol. Gair yr Apostol yw y ffurf Roegaidd ar y gair *energy*, yr hyn yw " egni " neu " ynni " yn Gymraeg. Y syniad yw rhyw " ynni cib-ddall," a hwnnw yn arwain i gredu celwydd. Cyfieithiad Moffatt yw " active delusion " ; a chyfieithiad Frame yw " an energy of delusion."

Mae yn amlwg yr edrychai Paul ar hyn fel barn Duw arnynt am wrthod " cariad y gwirionedd." Os dywedir mai canlyniad neu effaith uniongyrchol gwrthod y gwirionedd ydyw cael ysbryd gwyrog dry yn fuan yn hygoeledd annuwiol, nid yw ond yr un peth mewn gwirionedd —y gwahaniaeth yw fod Paul yn priodoli yn uniongyrchol i Dduw yr hyn a wneir gan egwyddorion moesol ei lywodraeth. H.y., y mae gweithrediad Ei ddeddf yn cael edrych arni fel *act* bendant o'i eiddo Ef Ei hunan. Edrychwn ar yr un peth mewn cylch arall : dywedwn yn aml " fod Duw yn rhoi tywydd braf neu yn anfon storm." Pe dywedai rhywun arall mai deddfau natur sy'n rhoi cyfrif am bethau fel hyn, byddai hynny yn gywir hefyd, a'r unig wahaniaeth rhwng y ddau ddyweyd yw fod y cyntaf yn priodoli i Dduw yn uniongyrchol yr hyn a achosir neu a ddygir ymlaen gan weithrediad Ei ddeddfau.

12 fel y credont gelwydd: Fel y barner yr holl rai nid oeddynt
yn credu i'r gwirionedd, ond yn ymfoddloni mewn anghyf-
13 iawnder. Eithr nyni a ddylem ddïolch yn wastad i Dduw
drosoch chwi, frodyr caredig gan yr Arglwydd, oblegid i
Dduw o'r dechreuad eich ethol chwi i iachawdwriaeth, trwy
14 sancteiddiad yr Yspryd, a ffydd i'r gwirionedd: I'r hyn y
galwodd efe chwi trwy ein hefengyl ni, i feddiannu gogon-

---

**ADN. 12. Fel y barner.** H.y., fel y'i dyger i gael eu profi a'u condemnio am eu hymddygiad.

**Yr holl rai nid oeddynt yn credu i'r gwirionedd, ond yn ymfoddloni mewn anghyfiawnder.** Dyma sail y farn a roddir arnynt mewn gwedd ddeublyg, a'r naill wedd a'r llall wedi eu mantoli â'u gilydd yn berffaith; "gwirionedd" ac "anghyfiawnder," "anghredu y gwirionedd" ac "ymfoddloni mewn anghyfiawnder." Mae y gair "ymfoddloni" i'w ddeall yn ei lawn ystyr, sef "bod wrth ei fodd," neu "ymbleseru mewn." Annodd fuasai cael brawddeg gryfach na hon, "ymfoddloni mewn anghyfiawnder"; yr un peth olygir wrth "garu y tywyllwch." Ychydig o ddynion, o drugaredd, sydd wedi cyrraedd y tir yma; fel rheol dynion yn gwneud y drwg, er ei fod yn ddrwg, welir; ond am y rhai hyn a'u cyffelyb, gwnant y drwg *am* ei fod yn ddrwg.

Dyma ddiwedd yr adran ddyrys hon o'r epistol. Naturiol yw gofyn paham y defnyddiai yr Apostol iaith mor ddieithr ac arwyddluniau mor annodd eu deongli? Mae'n debyg mai'r ateb yw ei fod ef, fel rhai o'r hen broffwydi o'i flaen, yn defnyddio yr iaith ddamhegol a datguddiadol (*apocalyptic*) hon er mwyn hunan-amddiffyniad. Peryglus fuasai iddo fynegi ei feddwl yn blaen, yn wyneb cyflwr y wlad a pharodrwydd ei elynion i gymryd mantais ar bopeth er mwyn ei erlid. Diau fod rhai o'r pethau cudd hyn yn cyfeirio at amgylchiadau a sefyllfa allanol y wladwriaeth Rufeinig; efallai at yr Ymherawdwr ei hun, neu at Rufain ei hunan, ac amgylchynid ef gan Iddewon mileinig, y rhai a wylient am gael rhywbeth yn ei erbyn, yn arbennig rhywbeth y gallasent hwy ei ystumio i brofi diffyg yn ei deyrngarwch i Rufain. Yr oedd yntau yn gwybod hyn oll, ac wedi cymeryd mantais, tra ar ar ei ymweliad â Thesalonica, i ddysgu i'r saint ystyr yr arwyddluniau i gyd. Yr oedd yr ymadroddion dieithriol felly yn gwasanaethu fel math o *code* rhyngddo a'r eglwys, ac fel y golofn gynt, tra yn goleuo'r ffordd ar y naill law, yr oedd yn gwmwl o niwl ar y llaw arall rhag y gelynion.

ADN. 13—17.

Ceir yma ddiolchgarwch (adn. 13, 14); cyngor (adn. 15), a gweddi (adn. 16, 17).

**ADN. 13. Eithr nyni a ddylem ddiolch, &c.** Yma y mae Paul yn dychwelyd at yr hyn ddywedodd yn pen. i. 3 (gwel yno); ond ei fod yma yn gosod pwyslais arbennig ar y "nyni," yn ol y Groeg, a'r Gymraeg hefyd o ran hynny. Rhyfedd mai nid "drosoch chwi" sydd yn

iant ein Harglwydd Iesu Grist. Am hynny, frodyr, sefwch, 15
a deliwch y traddodiadau a ddysgasoch, pa un bynnag ai

---

bwysleisiol fel y buasai yn naturiol i ni ddisgwyl, ond " nyni." Paham hynny ? Teimlo ei ddyledswydd ei hun yr oedd Paul yn gyntaf ynglyn â braint fawr y saint yr ysgrifennai atynt. Yr oedd meddwl am danynt hwy, o'u cymharu â'r rhai yr oedd newydd eu disgrifio, yn peri iddo yn y fan ymdeimlo ei rwymedigaeth i ddiolch trostynt. Mae eangder rhyfedd yn nhestynau diolch yr Apostol gan eu bod yn cyrraedd o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb. Dechreua gyda'r ethol bore (dewis, hwyrach fyddai gywiraf), ac y mae hwnnw yn ethol "i iachawdwriaeth," h.y., i gaffael iachawdwriaeth gyflawn, yr hyn ni sylweddolir yn y fuchedd hon. Yn dilyn yr ethol y mae y " galw " trwy yr Efengyl a bregethid gan Paul, ac y mae'r " galw " yn cyrraedd ei amcan yn " sancteiddiad yr Ysbryd," a " ffydd i'r gwirionedd," ac amcan yr oll ydyw " meddiannu gogoniant ein Harglwydd Iesu Grist." Gellir edrych ar y ddwy adnod yma fel " Bannau diwinyddiaeth Paul." Mae'r Drindod Fendigaid yma, a gwaith neilltuol pob un o'r personau dwyfol—ethol y Tad, iachawdwriaeth y Mab, a sancteiddiad yr Ysbryd Glân. Mae'r moddion i gysylltu yr ethol â'r iachawdwriaeth yma—galwad Duw yn yr Efengyl ; y mae elfennau yr iachawdwriaeth ei hun yma—yr Ysbryd yn sancteiddio a'r dyn yn gweithredu ffydd yn y gwirionedd ; a cheir gyda'r cyfan ragolygon digymar y rhai sydd wedi eu hethol ac wedi derbyn yr alwad yn cael eu sancteiddio ac yn credu i'r gwirionedd, sef meddiant cyflawn o ogoniant ein Harglwydd Iesu Grist yn Ei ddyfodiad.

**ADN. 15. Am hynny.** Nid hawdd dyweyd pa un o ddau beth olygir yma : (1) Gan fod Duw wedi eich hethol i feddu y fath freintiau, a bod gwaith Crist trosoch, a gwaith yr Ysbryd ynoch yn ernes a gwystl i chwi o ogoniant ein Harglwydd Iesu Grist, " sefwch a deliwch," &c. Yn ol y syniad hwn, dylai cadernid a sicrwydd yr iachawdwriaeth fod yn gysur ac yn nerth iddynt hwy i ddal eu tir er gwaetha y rhwystrau i gyd. (2) Nid yw cadernid yr ethol a'r hyn oll y mae yr ethol yn ei gynnwys yn rheswm o gwbl dros i chwi beidio gwneud pob ymdrech eich hunain. Wrth gofio mai diddannu y gwan eu meddwl y mae yr Apostol yma, credwn mai y cyntaf ddylid ei fabwysiadu.

Angen y saint hyn oedd sefydlogrwydd a theyrngarwch. Y mae'r cyntaf i'w weld yn y gair " sefwch," a dywed Lightfoot y dylid ei gyfieithu yn " sefwch yn ddi-gryn " = *stand fast.* Y mae yr ail i'w weld yn " deliwch y traddodiadau," a gellid cyfieithu y " deliwch " yma yn " deliwch yn dynn " ; gwyliwch lacio eich gafael yn y gwirioneddau ddysgasom i chwi. Nid yr ystyr gyffredin roddir i'r gair " traddodiadau " sydd iddo yma, ond cynhwysa ddysgeidiaeth Paul, yr hyn a dderbyniasai gan Dduw. Cenadwri wedi ei derbyn gan awdurdod uwch i'w chyflwyno i eraill yw " traddodiad." Ceir yr un gair mewn berf yn 1 Cor. ii. 23 : " Canys myfi a dderbyniais gan yr Arglwydd yr hyn hefyd a *draddodais* i chwi," &c. Y " traddodiadau " yma yw yr hyn " draddododd " Paul a'i gymdeithion i'r eglwys ; yr oeddynt

16 trwy ymadrodd, ai trwy ein hepistol ni. A'n Harglwydd
Iesu Grist ei hun, a Duw a'n Tad, yr hwn a'n carodd ni, ac
a roddes i *ni* ddiddanwch tragwyddol, a gobaith da trwy
17 ras, A ddiddano eich calonnau chwi, ac a'ch sicrhâo yn
mhob gair a gweithred dda.

---

wedi "traddodi" llawer mewn ymadrodd pan yn aros yno, ac wed "traddodi" drachefn yn yr Epistol a anfonwyd atynt.

**ADN. 16. A'n Harglwydd Iesu Grist ei hun.** Gwel 1 Thes. iii. 11. Yno fe ddywedir "Duw ei hun," yma yr "Arglwydd Iesu Grist ei hun." Ac y mae "ei hun" yn bwysleisiol iawn. Y rheswm am newid y drefn, hwyrach, yw mai dyfodiad Crist yn Ei ogoniant oedd o flaen meddwl yr Apostol yn bennaf ar y pryd, ac i hynny awgrymu Ei enw yn gyntaf iddo.

**Ac a roddes i ni ddiddanwch tragwyddol.** Mae amseriad y ferf (*aorist*) yn dangos mai un act bennodol a chyflawn a olygir. Felly cyfeirir yn ddiau at waith y Tad yn anfon Ei Fab i'r byd; o'r rhodd fawr honno y daeth i ni "ddiddanwch di-drai."

**A gobaith da trwy ras.** Mae ffurf y bendithion yn cyfateb o hyd i anghenion y saint a anherchir. Pobl mewn blinder mawr oeddynt, ac hefyd mewn pryder mawr am y dyfodol. Ar gyfer hyn noda yr Apostol "ddiddanwch" ar gyfer y blinderau, a "gobaith da" ar gyfer y pryder a'r ofn. Mae "trwy ras" i'w gysylltu â "rhoddes," "yr hwn a roddes i ni trwy ras . . . obaith da."

**ADN. 17.** Mae'r Apostol a'i olwg o hyd ar y saint digalon, ac iddynt hwy yn arbennig y gweddia am "ddiddanwch" neu "galondid" (*encouragement*) fel y nodwyd o'r blaen; a chyda'r cysur a'r calondid gweddia am iddynt gael eu sefydlu "ymhob gweithred a gair da." Dyma drefn y geiriau yn ol yr awdurdodau uchaf. "Gweithred a gair," h.y., pob peth bywyd; nid yn unig *gweithredoedd* mwy neu lai cyhoeddus, ond y *geiriau* hefyd. Un peth yw cyflawni gweithred dda, peth arall llawer mwy yw cael ei sefydlu yn y cyfryw nes y bo'r dyn wedi ymgartrefu mewn gweithredoedd da; a'r un modd am "air," nid dyweyd "geiriau purion" weithiau, ond aros ynddynt, a chael blas arnynt, nes y bo'r geiriau a'r gweithredoedd yn troi yn rym i egwyddorion yr enaid, ac nid yn unig yn gynnyrch yr egwyddorion hynny.

# PENNOD III.

BELLACH, frodyr, gweddïwch drosom ni, ar fod i air yr 1
Arglwydd redeg, a chael gogonedd, megis gyd â chwi-
thau ; Ac ar ein gwared ni oddi wrth ddynion anhywaith 2

---

## PENNOD III.

### Y BENNOD.

Gwneir y bennod hon i fynu yn ymarferol o weddi a chyngor. Cyfeiria y rhan gyntaf o honi, sef 1—5, at y dosbarth y cyfeiriwyd ato o'r blaen, sef y rhai digalon, a'r gweddill at y dosbarth arall a nodwyd, sef y rhai segur ac afreolus.

**ADN. 1. Bellach.** "Ymhellach," "weithian," "yn ddiweddaf," neu "yn olaf." Dyma ystyr y gair geir yma.

**Gweddiwch drosom ni.** Annoga Paul hyn er mwyn ennill eu cyd ymdeimlad a'u cael mewn tymer briodol i dderbyn y cyngor a geir o adn. 6 ymlaen ; ac hefyd am ei fod yn gosod gwerth mawr ar weddiau hyd yn oed saint tra amherffaith drosto. Nid gofyn am eu gweddïau drosto ei hun a'i gymdeithion yn bersonol y mae yr Apostol, ond dros-tynt fel cenhadon Crist a gweinidogion y gair yn arbennig, fel y dengys y geiriau dilynol.

**I air yr Arglwydd redeg a chael gogonedd.** Gair yr Arglwydd (gwel 1 Thes. i. 8 a Salm cxlvii. 15). Mae'n debyg mai cyfeiriad at y rhedeg-feydd sydd yn y gair "rhedeg"; ffugr cyffredin gan Paul. Yr ystyr yw cael "gyrfa lwyddiannus," neu "yrfa ddidrwc," h.y., gyrfa heb ddim atalfeydd ar hyd-ddi. Y tebyg yw fod "gogonedd" yn cyfeirio at "goron y gogoniant" ynglyn â rhedegfa lwyddiannus. Gofynnai yr Apostol am "rwyddhynt" i'r efengyl, yn nrych y gymhariaeth o redegwr llwyddiannus yn y "campau Olympaidd." Rhywbeth tebyg yw'r ystyr i'r hyn olygir gennym ni wrth ddyweyd fod "mynd" ar rywbeth.

**Megis gyda chwithau.** Mae'n amlwg fod llwyddiant mawr wedi bod ar yr Efengyl fel y'i pregethid hi gan Paul a'i frodyr tra y buont yn aros yn Thesalonica.

**ADN. 2. Ac ar ein gwared ni oddiwrth ddynion anhywaith a drygionus.** *Anhywaith :* Ystyr lythrennol y gair gwreiddiol yma yw "heb le," yna "bod o'i le," yna bod yn "anhydyn," neu yn "anhyd-rin" (*untractable*), neu yn "afreolus," "ansbarthus," "afresymol." Dyry pob un o'r geiriau hyn eitha syniad am ystyr y gair gwreiddiol. Mae'n debyg mai at yr Iddewon y cyfeirir ; y nhw fu yn molestu Paul ymhob man, yn Thesalonica (Act. xvii. 5), yn Berea (xvii. 13), ac yng Nghorinth (Act. xviii. 12), &c. Yr Iddewon anghrediniol, ac nid y paganiaid ystyriai Paul oedd ei elynion mwyaf mileinig ymhob man. Gwel 1 Thes. ii. 14. Yr oedd y waredigaeth y sonia Paul am dani yn un eang yn ei hystyr : gwaredigaeth rhag erledigaeth, rhag dichell a brad, a phob drygnaws oedd yn llesteirio llwyddiant yr Efengyl.

3 a drygionus: canys nid *oes* ffydd gan bawb. Eithr ffydd-
lawn yw yr Arglwydd, yr hwn a'ch sicrhâ chwi, ac a'*ch* ceidw
4 rhag drwg. Ac y mae gennym hyder yn yr Arglwydd
am danoch, eich bod yn gwneuthur, ac y gwnewch, y pethau

---

**Canys nid oes ffydd gan bawb.** Yn llythrennol "nid i bawb y mae y ffydd." Barna rhai esbonwyr mai yr Efengyl a olygir yma wrth "y ffydd," fel yn y frawddeg "teulu y ffydd" (Gal. vi. 10), ac mai ffurf-ymadrodd geir yma elwir yn *litotes*, yr hyn a ddynoda "ychydig wrth ddyweyd llawer," *e.g.*, "nid yw pawb yn gyfoethog," neu "nid yw pawb yn ddysgedig." H.y., ychydig sydd: ac felly yma = "ychydig yw y rhai sydd yn meddu ffydd." Barna eraill mai "y ffydd" fewnol olygai'r Apostol, ac mai cyfeirio y mae at rai "di-ffydd," ac nid at rai "anffyddol"—o safle Cristionogaeth. Teimlwn fod yr olaf yma yn fwy naturiol na'r cyntaf. Ond y mae y naill esboniad a'r llall yn cyfleu yr un meddwl yn y gwaelod: y rheswm fod y bobl y cyfeiria yr Apostol atynt yn "anhywaith a drygionus" yw nad oeddynt wedi derbyn yr Efengyl; ac y mae gwrthod derbyn goreu Duw yn gwneud dynion yn rhai gwaethaf. Yr oedd dygasedd yr Iddewon at Paul yn fwy angerddol na'r eiddo unrhyw ddosbarth o bobl. Sel ddallbleidiol bob amser sy'n cynhyrchu yr erledigaeth ffyrnicaf.

**ADN. 3. Eithr ffyddlawn yw yr Arglwydd.** Er cymaint oedd cynllwynion y rhai di-ffydd, yr oedd ffyddlondeb Duw yn ddiball a dibrin, a gallent bob amser ddibynnu arno ymhob cynni. Wrth yr "Arglwydd" yn ddiau y golygir "yr Arglwydd Crist" yn yr adnodau hyn. Cymharer defnydd cyffelyb o'r gair yn Phil. i. 1—5.

**Yr hwn a'ch sicrha.** Yr oedd Crist yn barod, yn awyddus, ac abl i'w cadarnhau a'u sefydlogi ym merw pob lli, fel nad allai unrhyw ruthr siglo dim arnynt.

**Ac a'ch ceidw rhag drwg.** Nid oes modd dyweyd i sicrwydd pa un a'i gwrywaidd ai canolryw yw "drwg" yma. Credir yn gyffredin fod yma gyfeiriad at weddi yr Arglwydd: "Eithr gwared ni rhag yr un drwg," a phan gofiwn fod yr Apostol yn rhoi lle pur amlwg i'r "un drwg" yn y llythyr hwn, mae'n dra thebyg mai at yr "un drwg" y cyfeirir yma. Os pwysir ar ffyddlondeb Duw, mae dichell a brad yr "un drwg" yn colli eu dylanwad.

**ADN. 4. Hyder yn yr Arglwydd.** Hyder wedi ei ennyn a'i feithrin gan yr Arglwydd Iesu; h.y., yr hyder ag y mae yr Arglwydd yn awdur iddo, yn hytrach na'r hyder y mae yr Arglwydd yn wrthrych iddo.

**Eich bod yn gwneuthur ac y gwnewch.** Dengys Paul yma ei fod yn meddu llawn ymddiriedaeth yn ei ddarllenwyr y byddai iddynt barhau i weddio drosto. Daw ei fedr a'i ddeheurwydd mawr i drafod dynion i'r golwg yma eto, oblegid 'does dim yn dylanwadu yn well ar ddynion nac iddynt deimlo eu bod yn meddu ymddiriedaeth lwyr yr hwn sy'n eu harwain. Eto, dylem gofio mai nid gwenieithio iddynt yr oedd yr Apostol; diau fod ei obaith yn gryf a'i ddisgwyliad yn fawr, a'i ffydd

yr ydym yn eu gorchymyn i chwi. A'r Arglwydd a gyfar- 5
wyddo eich calonnau chwi at gariad Duw, ac i ymaros am
Grist. Ac yr ydym yn gorchymyn i chwi, frodyr, yn enw 6

---

yn Nuw yn ddisigl, ac mai o'r cyfeiriadau hyn yn hytrach nag o gyflwr a hanes presennol yr eglwys y derbyniai ei argyhoeddiad ei nerth a'i rym.

**ADN. 5.** Mae geiryn yn y gwreiddiol yma (*de*) sy'n awgrymu ystyr fel hyn i gysylltiad yr adnod hon a'r un flaenorol: " Ni ellwch wedi'r cyfan wneud yr hyn y cymhellwn chwi i'w wneud ond trwy i'r Arglwydd gyfarwyddo eich calonnau," &c. Golyga "cyfarwyddo" "hyrwyddo'r ffordd," trwy symud pob rhwystr ac atalfa.

Pa un ai cariad Duw atom ni, ai ynte ein cariad ni at Dduw olygir yma? Dywed Lightfoot na ddylid eu deol oddiwrth eu gilydd un amser. Mae hynny yn eitha gwir mewn un ystyr, oblegid y mae perthynas achos ac effaith rhyngddynt, eto i gyd gellir gwahaniaethu pan na ddylid gwahanu. Cred rhai esbonwyr mai ein cariad mewnol ni at Dduw a olygir, ac felly mai ein hamynedd neu ein hymaros mewnol ynglyn â disgwyl am "ddydd Crist" olygir. Mae'n amlwg fod y cyfieithwyr Cymraeg a Saesneg wedi deall y geiriau fel hyn gan iddynt roddi "am Grist" i mewn. Nid oes dim yn y gwreiddiol yn ffafrio y darlleniad hwn mwy nag "ymaros Crist." Gwell genym ni y syniad mai at gariad Duw atom ni y cyfeirir; a'r un modd mai at yr "ymaros" oedd yng Nghrist yn Ei holl ddioddefiadau y cyfeirir, ac mai yr ystyr yw fod Paul yn dymuno fod i galonnau y saint hyn gael eu dwyn yn nes-nes at "gariad Duw" ac "ymaros Crist." Cymdeithas agos a'r ffynhonnell fawr geidw y grasusau hyn yn iach a chryf; calon yn cael ei dal o dan belydrau cariad Duw heb atalfa rhyngddynt; ac yspryd yn cael ei gadw yng "nghymdeithas ei ddioddefiadau ef" sy'n gwarantu y ffyddlondeb mewn gweddi a buchedd a argymhellid gan yr Apostol yn y geiriau o'r blaen. Gwir fod yma gyfeiriad at ail-ddyfodiad Crist, ond angen y Thesaloniaid, yn enwedig rhai dosbarthiadau yn eu plith, oedd amynedd i ddisgwyl am y dydd hwnnw, a'r modd goreu i gael yr amynedd hwnnw oedd cadw golwg cyson ar ymaros Crist yn Ei holl dreialon a'i gystuddiau.

Yma y dechreua adran olaf yr epistol, yr hon sy'n cynnwys cyfarwyddyd a chyngor i'r eglwys, ynghyd â cherydd i'r rhai segur ac afreolus. Mae'n amlwg oddiwrth adn. 11 fod yr Apostol wedi clywed fod y segurwyr yn parhau yn anufudd o hyd, ac yn lle gwella yn gwaethygu; cymerent yr ail-ddyfodiad yn esgus dros beidio gweithio, a phwysent ar gyllid yr eglwys am eu cynhaliaeth. Ceryddu y rhai hyn, a chyfarwyddo yr eglwys pa fodd i ddelio tuag atynt yw un amcan mawr i'r llythyr hwn.

**ADN. 6. Gorchymyn . . . . yn enw ein Harglwydd Iesu Grist.** Mae y cyngor yn orchymyn pendant, ac awdurdod yr Arglwydd y tu cefn iddo.

ein Harglwydd Iesu Grist, dynnu o honoch ymaith oddi
wrth bob brawd a'r sydd yn rhodio yn afreolus, ac nid yn
7 ol y traddodiad a dderbyniodd efe gennym ni. Canys
chwi a wyddoch eich hunain pa fodd y dylech ein dilyn ni:
8 oblegid ni buom afreolus yn eich plith chwi; Ac ni fwyt-
tasom fara neb yn rhad; ond trwy weithio mewn llafur a
lludded, nos a dydd, fel na phwysem ar neb o honoch chwi:
9 Nid o herwydd nad oes gennym awdurdod, ond fel y'n

---

**Dynnu ymaith oddiwrth bob brawd.** Er ei fod yn frawd, yn wir am ei fod yn frawd, rhaid oedd cadw draw oddiwrtho. Mae brawd yn cyfeiliorni yn beryclach nag un oddiallan yn cyfeiliorni; a dyledswydd yr eglwys oedd "tynnu ymaith" oddiwrth y cyfryw, rhag i'r clefyd ymledu. Nid oeddynt i anghofio mai brawd oedd (adn. 15), ond nid oedd y ffaith ei fod yn frawd i gymedroli dim ar eu condemniad hwy o'i weithredoedd afreolus. Dyledswydd yw *isolation* mewn teulu pan y byddo haint.

**Afreolus.** Gair milwrol yn golygu un annhrefnus ac anufudd; felly, un yr oedd yn rhaid ei ddisgyblu, neu byddai i'w afreoleidd-dra ymledu ac andwyo effeithiolrwydd y fyddin.

**Nid yn ol y traddodiad, &c.** Gwel y sylw ar ii. 15. Mae yn amlwg mai ymgyndynnu er pob cyngor yr oedd y "brodyr afreolus" yma, fel y gwel yr Apostol nad oedd dim i'w wneud â hwy bellach ond defnyddio y mesurau llymaf atynt.

O'r adnod hon (7) hyd yr 11eg mae Paul yn nodi tri rheswm dros roddi y gorchymyn geir yn adn. 6; ac y mae pob un o'r rhesymau yn dechre gyda'r gair "Canys." Gwel adn. 7, 10, 11. (1) Esiampl y cenhadon; (2) y ffaith iddo tra yn eu plith roddi gorchymyn cyffelyb iddynt (adn. 10); (3) am ddarfod iddo glywed fod eu hanes yn galw am iddo roddi y fath orchymyn (adn. 11).

**ADN. 7. Canys chwi a wyddoch, &c.** Apelia yr Apostol yn ol ei arfer drwy y ddau lythyr at eu gwybodaeth o'u dyledswydd i ddilyn y cenhadon. Gwyddent pa fodd yr ymddygai y cenhadon, a thystiai eu cydwybodau y dylent hwythau eu dilyn.

**Ni buom afreolus.** Mae y gair am "afreolus" yn un eang, ond bernir mai ystyr neilltuol sydd iddo yma, ac mai yr ystyr honno yw "bod yn segur." Dyma'r math o afreoleidd-dra y cyfeiria yr Apostol ato.

**ADN. 8. Ac ni fwytasom fara neb yn rhad.** Nid yn unig ni buom segur, ond ni chymersom fantais ar garedigrwydd neb i gael ein cadw yn rhad; pa beth bynnag gawsom mewn unrhyw dŷ, ni dalasom am dano. Am y gweddill o'r adnod gwel 1 Thes. ii. 9.

**ADN. 9. Nid oherwydd nad oes gennym awdurdod, &c.** Mae gan y weinidogaeth ei hawliau, ond dylid bod yn ddoeth iawn ynglyn â dal

rhoddem ein hunain yn siampl i chwi i'n dilyn. Canys 10
pan oeddym hefyd gyd â chwi, hyn a orchymynasom i chwi,
Os byddai neb ni fynnai weithio, na chai fwyta chwaith.
Canys yr ydym yn clywed fod rhai yn rhodio yn eich plith 11
chwi yn afreolus, heb weithio dim, ond bod yn rhodresgar.
Ond i'r cyfryw gorchymyn yr ydym, a'u hannog trwy ein 12

---

at yr hawliau hynny, oblegid amgylchiadau sy'n penderfynnu pa bryd y dylid a pha bryd na ddylid arfer yr hawliau. Weithiau camgymeriad yw peidio, bryd arall camgymeriad yw gwneud. Peidiai Paul yn Thesalonica er mwyn (1) rhoddi urddas ar waith cyffredin; (2) er mwyn rhoddi esiampl i bawb i fod yn ddiwyd a ffyddlon ynglyn a'u gorchwylion bydol. Yr oedd amgylchiadau pethau yn Thesalonica y fath yn awr ag a ofynnai aberth mawr ar ran Paul a'i frodyr. Ynfyd fyddai tybio fod ymddygiad Paul yma yn rheol i'w dilyn bob amser.

**ADN. 10. Eithr pan oeddym hefyd gyda chwi.** Dyma yr ail reswm dros y gorchymyn (adn. 6). Nid yn unig yr oedd y cenhadon wedi rhoddi esiampl iddynt mewn diwydrwydd, ond yr oeddynt wedi gorchymyn iddynt yn bendant am ofalu gochel segurdod.

**Os byddai neb ni fynnai weithio, &c.** Mae hon yn swnio fel gwireb, ond nid oes neb yn gallu ei holrhain yn ol tuhwnt i'r Apostol; a'r tebyg yw mai efe a'i lluniodd ac a roes ynddi anadl einioes egwyddor foesol. Mae yn wirionedd naturiol fod diogi yn esgor ar angen, ond nid hynny a ddywed Paul yn unig nac yn bennaf, ond na ddylai y diog gael swcwr o gwbl gan y rhai oedd yn gofalu am drysorfa y tlodion.

**ADN. 11.** Mae'n amlwg oddiwrth yr adnod hon fod cenadwri ar lafar, neu mewn llythyr, wedi cyrraedd Paul yn dyweyd fod y segurwyr hyn yn boen a blinder i'r eglwys. Mae yn amlwg oddiwrth gysylltiad y gair "afreolus" yma mai afreoleidd-dra segurdod a olygir.

**Heb weithio dim, ond bod yn rhodesgar.** Mae Paul yma yn chware ar air, fel y ceir ef yn gwneud yn Phil. iii. 3; 1 Cor. vii. 31; 2 Cor. i. 13; iii. 2; vi. 10; x. 12, er nad ydynt oll i'w gweld yn y Gymraeg. Yr un gair, ond fod blaenddodiad iddo sydd yma am "weithio" a a "bod yn rhodresgar." Mae un yn ei gyfieithu fel hyn: "not busy, but busybodies." Y mae i'r gair Cymraeg "rhodresgar" yr ystyr o "busybody." Gwir mai ystyron eraill roddir amlaf i'r gair, megis (1) Mursendod neu gymendod (*affectation*); (2) *pomp*. "Os Duw ai mŷn, fe'n tŷn i lawr, a'n *rhodres* mawr mewn munud."—(Gor. Owen). Ond y mae rhodres hefyd yn golygu yr hyn gyfleir gan y gair yma, sef un yn ymyrryd yn ddiachos â materion rhai eraill, ac yn gyffredin segurwyr yw y cyfryw rai.

**ADN. 12.** Wedi nodi rhesymau dros orchymyn i'r eglwys, y mae yr Apostol yn yr adnod hon yn gorchymyn y "rhai afreolus" eu hunain. Ond sylwer mor dyner y mae yn eu hannerch, neu o leiaf mor ddeheuig. "Y cyfryw" y geilw hwynt; trwy hyn mae'n tynnu llawer o'r llymder oedd yn y gair "afreolus." Drachefn y mae yn tynheru

Harglwydd Iesu Grist, ar *iddynt* weithio trwy lonyddwch,
13 a bwyta eu bara eu hunain. A chwithau, frodyr, na ddi-
14 ffygiwch yn gwneuthur daioni. Ond od oes neb heb ufudd-
hau i'n gair trwy y llythyr *yma*, hysbyswch hwnnw ; ac na
fydded i chwi gymdeithas âg ef, megis y cywilyddio efe.
15 Er hynny na chymerwch *ef* megis gelyn, eithr cynghor-

---

y "gorchymyn" drwy ychwanegu "annogaeth," ac at y cyfan ychwanega "trwy ein Harglwydd Iesu Grist,"—awdurdod, ond awdurdod a thynerwch ei lond.

**Ar iddynt weithio trwy lonyddwch.** Neu "mewn tawelwch." Yr oeddynt yn gyffrous eu meddyliau am eu bod yn disgwyl yr ail-ddyfodiad yn feunyddiol, ac yr oedd yr anniddigrwydd hwnnw wedi eu cwbl anghymwyso i gyflawni eu gorchwylion dyddiol. "Tawelwch" mewn gwrthgyferbyniad i'r aflonyddwch meddyliol hwn olygir yma.

**ADN. 13. A chwithau, frodyr.** Cyfeiria y geiriau hyn at enaid a chnewyllyn yr eglwys, y saint teilwng oedd wedi rhoddi y fath dôn uchel iddi nes ennill y fath ganmoliaeth gan yr Apostol. Yr oedd yn dra phwysig iddynt hwythau i beidio llacio dim yn eu hymroad gyda'u crefydd bersonol a gwaith yr eglwys.

**Na ddiffygioch.** Cyfieithir y ferf hon weithiau yn "pallu," "llwfrhau," a "diogi," ond yn "ddiffygio" yn amlach. Golyga flino oherwydd digalondid neu lwfrdra. Y ffordd i beidio "diffygio" yn gwneuthur daioni ydyw parhau i gael blas ar ei wneud, a'r hyn geidw flas ar y da ydyw ei garu fwy-fwy. Nid yw cariad mam byth yn blino. Dylid cofio hefyd fod gwneud daioni yn ennyn cariad ato: wiw i ni aros heb wneud nes y bydd ein cariad yn ein boddloni. Mae gweithgarwch nid yn unig yn gynnyrch cariad, ond yn foddion i'w gynhyrchu hefyd.

**ADN. 14. Ond od oes neb heb ufuddhau, &c.** Yr oedd yr Apostol wedi cynghori y rhai afreolus pan yn Thesalonica; yr oedd drachefn wedi eu hannog a'u gorchymyn yn ei lythyr cyntaf, ond clywsai nad oedd dim yn tycio; yn awr dywed yn bendant beth sydd i'w wneud â'r cyfryw os anufuddhant i "air" y llythyr hwn (adn. 12).

**Hysbyswch hwnnw.** Hen ystyr i'r gair "hysbysu," sef "datguddio," "gwneud yn amlwg." Nid yr ystyr arferol o roddi hysbysrwydd i un, ond yr ystyr o roddi hysbysrwydd am un. Ni ddywedir pa fodd ; hwyrach mai drwy ei enwi yn gyhoeddus yn yr eglwys. Nid ymddengys ei fod i'w ddiarddel, ond i beidio ymgyfeillachu ag ef; gosod gwarth-nod arno.

**Megis y cywilyddia efe.** Yr oedd i'r gair "megis" ystyr gyffelyb i "fel" neu "mal," a golygai amcan=*so that*. Gwel "Welsh Grammar," J. Morris Jones, tud. 449. Felly yr un peth olygir a phe dywedasid "fel y cywilyddia efe."

**ADN. 15. Er hynny.** Yn ol y cyfieithiad hwn y meddwl yw: tra y dylid disgyblu yr afreolus a'i ddwyn i gywilyddio am ei ymddygiad,

wch *ef* fel brawd. Ac Arglwydd y tangnefedd ei hun a 16
roddo i chwi dangnefedd yn wastadol ym mhob modd. Yr
Arglwydd *a fyddo* gyd â chwi oll. Yr annerch â'm llaw i 17
Paul fy hun; yr hyn sydd arwydd ym mhob epistol: fel

---

eto dylid cofio o hyd mai brawd ydyw, a'i drin mewn ysbryd teilwng o frodyr at frawd. Ond prin iawn y caniata y gwreiddiol y darlleniad yma; mwy llythrennol fuasai "ac felly" nac "er hynny," h.y., mewn trefn i'r brawd afreolus deimlo cywilydd am ei ymddygiad yr oedd yn rhaid ei gymeryd nid fel gelyn ond fel brawd: nid ei dorri ymaith fel pe buasai elyn, ond ei drin fel brawd. Aelod wedi mynd o'i le ydoedd, a meddyginiaeth, nid *amputation*, oedd y nôd i ymgyrraedd ato. Yn ol y syniad hwn yr oedd dwyn y brawd i gywilyddio yn rhan o'i adferiad, ac nid yn gyfystyr a'i ddwyn i gywilydd neu warth. Dyma ddylai amcan disgyblaeth fod, nid dwyn dyn i gywilydd, ond ei ddwyn i gywilyddio. Ond os bydd y cyhuddiedig yn gwbl anheilwng o fod yn frawd, dylid arfer y mesurau llymaf er mwyn purdeb yr eglwys.

**ADN. 16.** Gweddi derfynnol yr Apostol. Ei chyweirnod fel y gwelir yw "tangnefedd." Gwel 1 Thes. v. 23. Mae y fendith ofynnir yn cyfateb i sefyllfa yr eglwys. Anniddigrwydd meddwl a chyffro teimlad geid yn blino y saint, nid cwerylon ac anghydfyddiaethau fel y cyfryw, ac nid oedd a roddai ymwared iddynt ond y tangnefedd y mae ei ffynhonell yn yr Arglwydd, ac a gyfrennir ganddo i'w bobl.

**Yn wastadol ymhob modd.** Mae darlleniad arall yn bosibl o'r gair diweddaf yma, a hwnnw geir mewn rhai o'r MSS., yr hwn a olyga "ymhob man." Un lythyren o wahaniaeth sydd yn y gwreiddiol rhwng y gair a olyga "modd" a "man." Os mai dyma y darlleniad cywir, gellid ei roddi fel hyn: "Bob amser ac ymhob man." Os mai "modd" ddylai fod yma, yna y syniad yw "ymhob amgylchiad," ac felly y cyfieithir gan Frame, a thebyg yw cyfieithiad Moffatt = *whatever comes.*

**Yr Arglwydd a fyddo gyda chwi oll.** Nid yn unig dawn neilltuol (tangnefedd) ganddo, yn eu sefyllfa neilltuol, ond ei bresenoldeb Ef ei Hun ar gyfer popeth a'u cyfarfyddai. Sylwer ar y gair "oll"; cynhwysai hwn bob dosbarth yn yr eglwys fel eu gilydd—y brawd "gwan ei feddwl" a'r "afreolus," yn ogystal a'r saint difrycheulyd eu hymarweddiad.

**ADN. 17. Yr annerch â'm llaw i, Paul, fy hun.** Arfer Paul oedd dyweyd (*dictatio*) ei lythyrau i arall, a hwnnw yn eu hysgrifennu, a chymeryd yr ysgrif-bin yn ei law ei hun, ac ysgrifennu yr anerchiad, ac yn fynych rhywbeth neilltuol gyda'r anerchiad, fel y gwelir ond edrych i ddiwedd y gwahanol epistolau.

**Yr hyn sydd arwydd ymhob epistol.** H.y., yn brawf o'i ddilysrwydd. Nid dyweyd y mae Paul fod yr arwydd hwn ymhob epistol, ond ymha epistol bynnag y ceid yr annerch a'i law ei hun, fod hynny yn "arwydd" o'i ddilysrwydd.

18 hyn yr ydwyf yn ysgrifenu. Gras ein Harglwydd Iesu
Grist gyd â chwi oll. Amen.

---

**Fel hyn yr ydwyf yn ysgrifennu.** H.y., dyma esampl neu engraifft o'm llaw-ysgrifen.

**ADN. 18. Gras ein Harglwydd Iesu Grist, &c.** Yr un fendith ag a geir yn niwedd yr epistol cyntaf, gyda'r eithriad o'r gair "oll," a geir yma. Mae'n ddiau mai yr un rheswm oedd ganddo dros roddi "oll" yma ag oedd ganddo dros roddi yr un gair yn niwedd adn. 16. Yr oedd y "gras" hwn yn cynnwys pob nefol rin i'w cysuro, eu hamddiffyn, a'u hymgeleddu. Yn y "fendith" lawn ceir hefyd "cariad Duw" a "chymdeithas yr Ysbryd Glân," ond y mae y ddau hyn yn y "gras" a nodir yma. O ran trefn athrawiaeth "cariad Duw" yw'r ffynhonell, a "gras ein Harglwydd Iesu Grist" yn tarddu o honi, a "chymdeithas yr Ysbryd Glân" yn seiliedig ar y ddau. Ond o ran trefn profiad efengylaidd "gras ein Harglwydd Iesu Grist" yw y cyntaf, oblegid yn hwnnw y profir "cariad Duw," a thrwy hwnnw y ceir "cymdeithas yr Ysbryd Glân." Onid dyma y rheswm mai "gras ein Harglwydd Iesu Grist" geir gyntaf yn y "fendith Apostolaidd"? Nid darn o'r "fendith" honno geir yma, o ran ei chynnwys, ond ei holl sylwedd, am fod y "gras" yma yn tybied ac yn wir yn cynnwys y "cariad" a'r "gymdeithas." Gellir dyweyd am y "gras" hwn, yn yr ystyr eang yma sydd iddo, yn ei berthynas â "chariad" a "chymdeithas" fel y dywedodd yr emynydd ar fater arall:—

"Caf feddu'r oll, a'u meddu'n un,
Wrth feddu d'anian di dy hun."

---

CONWAY:
ARGRAFFWYD GAN R. E. JONES A'I FRODYR.